Roedd bwriad i gynnal awdit ar y gwahaniaeth cyflog rhwng dynion a merched (gender pay gap) ac awdit tâl ar sail rhyw yn ystod 2020/21. Yn anffodus mae'r gwaith hwn wedi llithro rhywfaint gan ein bod angen datblygu gallu systemau cyfrifiadurol y Cyngor i gynhyrchu'r wybodaeth yn rhwyddach ac felly bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2021.

Blaenoriaeth Gwella 4

Sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas ar gyfer ein trigolion.

Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24	Blaenoriaeth Gwella 4

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy i gartrefu trigolion Gwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael. Mewn ymateb i'r her yma rydym eisoes wedi llunio Strategaeth Dai sydd yn anelu i wneud y gorau o'n cyflenwad o dai yng Ngwynedd, i wella eu safon yn ogystal â gwella mynediad i dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau.

Datblygwyd cynllun interim ar gyfer 2020/21 er mwyn gallu cychwyn ceisio cyflawni'r strategaeth hon, ac i'r dyfodol byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer y tymor canol er mwyn uchafu ein gallu ni fel Cyngor i gwrdd â'r her o ddarparu cartrefi addas i'n trigolion yng Ngwynedd.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Er mwyn cyrraedd uchelgais ein Strategaeth Tai i *"Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd"*, rydym wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol a fydd yn arwain at fuddsoddiad o £77 miliwn yn y maes Tai yng Ngwynedd dros y 6 mlynedd nesaf. Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn cychwyn gweithredu ar y cynlluniau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

Mae'r galw ar ein gwasanaeth digartrefedd wedi cynyddu yn sylweddol (26%) dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i'r pandemig ac felly byddwn yn anelu i flaenoriaethu nifer o'r cynlluniau a fyddai'n cynyddu'r cyflenwad o dai ar gael i'r digartref dros flwyddyn gyntaf y Cynllun Gweithredu Tai, yn ogystal â chynlluniau i gefnogi dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd, prynu tai oddi ar y farchnad er mwyn eu gosod i drigolion y sir a chychwyn ar y broses o ddatblygu tai ein hunain i'w gwerthu i bobl leol.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Blaenoriaeth Gwella 5

Sicrhau ein bod yn annog a hyrwyddo gallu pobl Gwynedd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor	Blaenoriaeth Gwella 5

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

Llwyddwyd hyd yma i adolygu anghenion iaith pob swydd ac i asesu gallu ieithyddol 40% o'n swyddogion yn erbyn y gofynion hynny. Cefnogwyd hyn oll gan raglen ddysgu a gloywi iaith. I'r dyfodol byddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda gweddill gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig rhai rheng flaen, i gwblhau'r asesiad ac i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol gan achub ar gyfleon newydd i sicrhau ein bod yn cynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mae cyfanswm o 2,401 o staff wedi'u hasesu yn erbyn dynodiadau iaith eu swydd gyda 91.8% (2,204) yn cyrraedd neu'n mynd tu hwnt i'r gofynion. Golyga hyn bod 197 (8.2%) o staff wedi'u hadnabod sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd. O'r nifer nad oeddent yn cyrraedd y gofynion, mae 11 unigolyn bellach yn cyrraedd eu dynodiadau iaith o ganlyniad i gefnogaeth a roddwyd ac mae dau reolwr (un o Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac un o'r Adran Phlant a Chefnogi Teuluoedd) yn derbyn cefnogaeth 1:1 gyda thiwtor sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn cyfnod byr o amser.

Rydym wedi datblygu cwrs hunan-astudio (lefel Mynediad) i staff canolog a staff ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cwrs hwn fel peilot ar gyfer ei gynnig i ysgolion ledled Cymru erbyn hyn.

Mae camau wedi'u cytuno arnynt er mwyn cefnogi amcanion tymor hir y prosiect gyda threfniadau mewn lle i staff newydd gwblhau asesiadau pan y'u penodir gyda'r hunan-asesiadau yn cael eu cwblhau fel rhan o anwytho staff newydd ym maes gofal. Ymhellach, mae Fforwm Dynodiadau Iaith wedi'i sefydlu gyda cynrychiolydd/hyrwyddwr o bob adran yn aelod ac yn bennaf gyfrifol yn yr adrannau am rannu gwybodaeth ac arferion da yn ogystal ag adnabod rhwystrau a risgiau i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau cyhoeddus eraill, drwy **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**, i sicrhau ein bod yn arloesi yn narpariaeth y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus yn y sir.

I'r dyfodol byddwn yn cyfrannu at raglen waith fydd yn tynnu Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Môn ynghŷd i sefydlu trefniadau gweithio mewn sefyllfa ddwyieithog ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol, sef y timau fydd yn darparu gofal a chefnogaeth i'r bobl sydd ei angen.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Tîm Adnoddau Cymunedol

Gwnaethpwyd peth cynnydd yn unol â'r cynllun gwreiddiol wrth weithio gyda'r Tîm Adnoddau Cymunedol i adnabod sgiliau iaith y gweithlu a datblygu egwyddorion wrth gydweithio ar draws y gwahanol bartneriaid (e.e. cydweld fod lle i hyrwyddo a hybu'r cynnig am ddewis iaith). Fodd bynnag, roedd ymateb i'r argyfwng Covid-19 wedi effeithio ar y gallu i symud y prosiect yn ei flaen.

Penderfynwyd newid trywydd gan ei bod yn amlwg fod cyfle i weithio gyda'r cwmnïau sy'n tendro i ddarparu gwaith gofal ar ran y Timau Adnoddau Cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r angen i ddarparu pob elfen o'r gwasanaeth yn ddwyieithog ac yn cael cefnogaeth i wneud hynny.

Y camau nesaf fydd:

- cynnal sesiwn gyda'r cwmnïau darparu i'w cynorthwyo i weithredu y cynnig rhagweithiol, mewn geiriau eraill, gwneud yn siŵr fod y cynnig iaith yn cael ei wneud o'r dechrau
- adolygu'r tendrau er mwyn sicrhau fod gofynion am ddarpariaeth iaith yn glir ynddynt.

Prosiect Derbynfeydd

Pwrpas y prosiect derbynfeydd gan is-grŵp y Gymraeg (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) oedd annog pobl Gwynedd i siarad Cymraeg wrth ddod i dderbynfeydd (y Cyngor a phartneriaid). Cafodd y prosiect ei oedi gan fod nifer o'r derbynfeydd ar gau ar adegau yn ystod y cyfnodau clo. Bellach, mae arweinydd newydd ar is-grŵp y Gymraeg, a'r flaenoriaeth gyntaf yw i ailystyried y rhaglen waith i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Busnesau Gwynedd yn Defnyddio'r Gymraeg	Blaenoriaeth Gwella 5

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae gan y Cyngor gyswllt uniongyrchol efo busnesau Gwynedd er mwyn annog busnesau Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae swyddogion Hunaniaith yn ogystal â swyddogion o fewn yr Adran Economi a Chymuned yn annog busnesau i gynyddu'r defnydd o'r iaith trwy eu gwaith yn y cymunedau.

I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith hwn, ac hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol megis Cymraeg Byd Busnes a Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod pawb efo'i gilydd yn cynllunio'r ddarpariaeth y mae busnesau Gwynedd ei angen.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mae'r gwaith hwn wedi gwreiddio fel rhan o waith dydd i ddydd erbyn hyn ac o'r herwydd ni fydd yn cael ei gydnabod ar lefel blaenoriaeth gwella corfforaethol yng Nghynllun y Cyngor yn 2021/22.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae Swyddogion Hunaniaith a swyddogion o fewn yr Adran Economi a Chymuned wedi annog busnesau i gynyddu'r defnydd o'r iaith drwy eu gwaith yn y cymunedau. Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio er mwyn llunio tudalen ar wefan Cyngor Gwynedd a fydd yn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg i fusnesau ac hefyd wedi cydweithio efo swyddog "Helo Blod" (Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg mewn byd busnes) i gyfeirio busnesau am gymorth.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc	Blaenoriaeth Gwella 5

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er mwyn hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol, rydym wedi arwain ar y Siarter Iaith Gymraeg er mwyn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac mae galw wedi bod i sicrhau dilyniant iddi yn yr ysgolion uwchradd.

Rydym wedi bod yn cydweithio ag ysgolion uwchradd i lunio cynlluniau gweithredu unigol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, ac wedi rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5.

Byddwn, i'r dyfodol, yn parhau i gydweithio ar y materion hyn ac yn cefnogi'n ysgolion i gwblhau a gweithredu eu cynlluniau. Byddwn hefyd yn cefnogi ysgolion i weithredu'n unol â gofynion cenedlaethol newydd Fframwaith Siarter Iaith Llywodraeth Cymru sy'n dod i rym yn ystod 2020/21.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Yn sgil pandemig Covid-19, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol newydd, ac nid yw wedi bod yn bosib gweithredu'r Siarter Iaith yn ei ddull arferol drwy'r ysgolion yn sgil y cyfnodau clo niferus a fu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Fodd bynnag, yn sgil y cyfnodau clo, roedd pryder y byddai hyder nifer o blant a phobl ifanc yn y Gymraeg yn gostwng yn sgil diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar yr aelwyd, a diffyg cyfleoedd i siarad y Gymraeg gyda chyfoedion. O ganlyniad, yn ystod y Cyfnod Clo (Mawrth 2020) crëwyd nifer o adnoddau ar gyfer ein hysgolion gan Gydlynydd y Siarter Iaith Cynradd a'r Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd, ac anogwyd ysgolion hefyd i rannu adnoddau ym maes y Gymraeg ar Hwb, a chrëwyd llyfrgell o adnoddau sirol gan yr adran, ynghyd â chyfrannu at adnoddau rhanbarthol a chenedlaethol ar gais GwE ar gyfer pob Cyfnod Allweddol. Crëwyd clipiau fideo ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 fel adnodd i annog defnydd o'r iaith lafar, ynghyd â throsglwyddo hyfforddiant a gynhaliwyd ar egwyddorion trochi yn y Cyfnod Sylfaen i gyfrwng digidol at ddefnydd ein holl ysgolion.

Wrth i'r ysgolion ail-agor ym Medi 2020, rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol i rai grwpiau o ddysgwyr yn yr ysgolion uwchradd a oedd wedi colli hyder yn eu defnydd a'u sgiliau Cymraeg yn sgil y cyfnod clo gan Gydlynydd y Strategaeth Iaith Uwchradd. Yn yr un modd, rhoddwyd cefnogaeth ddwys i rai ysgolion cynradd i atgyfnerthu'r Gymraeg gan Gydlynydd y Siarter Iaith.

Wrth i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen ddychwelyd yn ôl i'r ysgol yn sgil Cyfnod Clo pellach (Ionawr-Mawrth 2021), rhannwyd holiadur i bob ysgol er mwyn sefydlu gwaelodlin o sefyllfa'r Gymraeg, adnabod strategaethau oedd ar waith gan yr ysgolion i atgyfnerthu'r Gymraeg, ynghyd ag adnabod unrhyw anghenion pellach o ran cefnogaeth. Rydym yn y broses o ddadansoddi negeseuon o'r holiadur hwn, ac yn bwriadu cylchredeg holiadur cyffelyb yng nghyd-destun Cyfnodau Allweddol 2, 3, a 4 yn ddiweddarach yn Nhymor yr Haf 2021.

Bydd y wybodaeth yma fel gwaelodlin yn cyfeirio rhaglenni gwaith y Cydlynwyr Iaith, gwaith clwstwr a grantiau yng nghyd-destun y Gymraeg, ynghyd â blaenoriaethau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) y byddwn yn ymgynghori arno fel cynllun 10 mlynedd newydd yn nhymor yr Hydref 2021.

Rydym hefyd wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon ar gyfer Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Blaenoriaeth Gwella 6

Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal	Blaenoriaeth Gwella 6

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae anghenion gofal yn y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i sicrhau mynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n cefnogi'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd dull o weithio sy'n rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol yn sicrhau gwell deilliannau i unigolion, yn eu galluogi i fyw'n annibynnol cyn hired a phosib ac yn lleihau'r angen am ofal dwys.

Rydym wedi sefydlu 5 Tîm Ardal Lleol sy'n darparu gwasanaeth di-dor ac yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn a'r gymuned. Maent hefyd yn sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Yn 2020/21, byddwn yn gweithio i adnabod a dileu rhwystrau pellach i weithio'n integredig, megis drwy wella a llyfnhau'r broses cyfeirio at wasanaethau a chryfhau trefniadau rhannu gwybodaeth. Rydym wedi ymestyn peilot ar gyfer ffordd newydd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir, ac hefyd wedi gweithio i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth yn ein cartrefi preswyl gan gynnwys agor Unedau Dementia yn Nhywyn a Bangor.

I'r dyfodol, byddwn yn paratoi i roi'r ffordd newydd o ddarparu gofal cartref ar waith erbyn haf 2020 ac yn gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth dementia, tai gofal ychwanegol, gofal anghenion corfforol dwys a llety addas i unigolion ag anableddau dysgu. Byddwn hefyd yn gweithio ar ddatblygu'r gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael yn y sir gyda ffocws ar ymyrraeth a chefnogaeth buan

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mewn perthynas â'r gwaith i ddatblygu gwasanaethau integredig rydym wedi cynnal gweithdai rhithiol ar gyfer y Timau Adnoddau Cymunedol er mwyn cytuno ar flaenoriaethau a rhaglenni gwaith lleol gyda threfniadau i bob ardal adrodd ar gynnydd, llwyddiannau a rhwystrau'n fisol. Mae'r trefniadau hyn yn weithredol ers Tachwedd 2020. Rydym hefyd wedi datblygu rhaglen waith benodol i adolygu trefniadau cydweithio gydag ysbytai ac wedi cytuno ar brosesau gwaith tymor byr er mwyn cefnogi'r weledigaeth sydd gennym o'r Timau Lleol yn cymryd perchnogaeth dros gefnogi unigolion i adael yr ysbyty yn amserol. Bydd gweithwyr Tîm Gwaith Cymdeithasol Ysbyty Gwynedd yn cael eu hadleoli o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol i gryfhau capasiti cymunedol. Er ei bod yn gynnar i ddweud, mae

arwyddion o newid diwylliant a chydweithio'n agosach rhwng proffesiynau sydd yn ei dro'n lleihau yr angen i bobl ailadrodd eu straeon i nifer o weithwyr proffesiynol gwahanol.

Yn anffodus, mae argyfwng Covid-19 wedi golygu nad oedd yn addas i gynnal trefniadau tendro ar gyfnod mor heriol i ddarparwyr gofal ac felly mae llithrad wedi bod yn yr amserlen i symud ymlaen â'r ffordd newydd o ddarparu gofal cartref. Fodd bynnag, rhoddwyd cynllun tymor byr mewn lle gyda'n darparwyr gofal er mwyn ceisio sefydlogi'r farchnad a rheoli'r capasiti hyd nes y byddai modd mynd allan i dendr ar y cytundebau newydd. Yn ystod 2020/21, cynhaliwyd gweithdai lleol gyda'r gwasanaeth a'r darparwyr i gytuno sut i gael gwell rheolaeth dros y capasiti darpariaeth gofal lleol a rhestrau aros. Mae'r darparwyr gofal yn rhan hefyd o drafodaethau lleol o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol yn y rhan helyw o ardaloedd. Mae'n ddyddiau cynnar ar hyn o bryd ond mae'r trefniadau hyn i weld yn gwella cydweithio hyd yma.

Mae ein gwaith i foderneiddio ein darpariaeth breswyl wedi parhau ac yn ystod y flwyddyn cafodd gwaith o greu Uned Ddementia newydd ei gwblhau yn ein cartref yn Llan Ffestiniog. Cadwyd y ddarpariaeth hon fel adnodd wrth gefn yn ystod yr argyfwng ond rydym yn edrych ymlaen i agor yr uned. Ochr yn ochr â hyn, mae rhaglenni buddsoddi gwerth hanner miliwn wedi parhau ar ein cartref yn Nolgellau lle y byddwn yn uchafu ansawdd adnoddau a chreu darpariaeth bariatrig newydd, ac rydym hefyd yn creu Uned Ddementia yn ein cartref yn y Bermo. Bydd yr adnoddau hyn o gymorth i gwrdd ag anghenion amrywiol trigolion Gwynedd gan hyrwyddo annibyniaeth ac urddas. Mae gwaith ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol Pwllheli yn parhau dan arweiniad cymdeithas dai Adra.

Mewn perthynas â llety addas i unigolion ag anableddau dysgu, mae'r nifer o unigolion sydd wedi'u adnabod i fod angen lleoliad llety a chefnogaeth wedi cynyddu ac mae'r diffyg eiddo addas yn lleol yn bryderus ac yn arwain at sefyllfaoedd cartref bregus a phwysau ychwanegol ar ofalwyr. Rydym wedi bod yn cydweithio ag amryw o rhanddeiliaid a chymdeithasau tai i geisio cwrdd â'r anghenion llety hyn a buom yn rhan o lunio Cynllun Gweithredu Tai yr Adran Tai ac Eiddo, sydd bellach wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet. Rydym hefyd mewn trafodaethau gyda Grŵp Cynefin ac Adra i weld sut allwn ni weithio'n agosach i wneud y mwyaf o unrhyw dai sy'n wag ganddynt.

Rydym yn parhau i gydweithio â'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl y sir, ac mae'r gwaith ar ganolfannau ICAN yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar gan gydweithio â mudiadau trydydd sector. Mae'r gwasanaeth yma'n darparu 'one stop shop' i ungolion sydd angen cefnogaeth, ac mae'n ein galluogi i wneud y cyswllt rhyngddynt ag unrhyw asiantaethau tai, Cyngor ar Bopeth ayb fel sydd angen er mwyn eu helpu i ddelio â materion sy'n achosi straen ac yn cael effaith negyddol ar eu iechyd meddwl. Yn ystod cyfnod yr argyfwng, mae'r gefnogaeth yma wedi bod yn cael ei ddarparu'n rhithiol i ystod eang o unigolion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sefydlu hwb newydd yng Nghaernarfon mewn partneriaeth â Gisda er mwyn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc ac mae bwriad ymestyn hyn i Flaenau Ffestiniog hefyd.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er mwyn helpu pobl i gadw cysylltiadau, lleihau unigrwydd a chynnal iechyd meddyliol a chorfforol, mae angen mynd ymhellach na darparu gwasanaethau cymorth yn y cartref neu ofal preswyl. Rydym wedi bod yn ysgogi a chefnogi cymunedau Gwynedd i fod yn fwy gwydn er mwyn darganfod datrysiadau ataliol sy'n cynyddu opsiynau gofal lleol i bobl.

Rydym wedi mapio gwasanaethau a grwpiau sy'n bodoli mewn cymunedau er mwyn adnabod bylchau, a chysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda gwasanaethau, yn ogystal â hybu mentrau cymunedol. Mae adnoddau newydd wedi'u creu megis Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol Dyffryn Nantlle a Shed Ddynion Pwllheli.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i adnabod bylchau mewn darpariaeth yn ein cymunedau, gyda'r nod o gytuno ar flaenoriaethau lleol gyda'r cymunedau hynny. Erbyn Mawrth 2021, byddwn yn glir ar flaenoriaethau llesiant ymhob un o ardaloedd y Cyngor ac yn dechrau ystyried sut fyddwn ni'n siapio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r model o hybiau cymunedol ar draws y sir er mwyn darparu ystod eang o gyfleoedd llesiant i oedolion ag anableddau dysgu yn eu cymunedau lleol.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Yn sicr mae cyfnod yr argyfwng wedi amlygu cryfderau ein cymunedau wrth i bobl ddod yn-ghyd i gefnogi ei gilydd. Mae'r cyfnod hefyd wedi ein galluogi i ddod i ddeall llawer mwy am y bylchau sy'n bodoli wrth i ddegau o staff y Cyngor fynd ati i ymgysylltu ag aelodau mwyaf bregus ein cymunedau fel rhan o dîm Cymorth Covid-19. Ond er y dysgu sydd wedi ei wneud o ran hyn yn ystod y flwyddyn a fu yn anffodus ni lwyddom i gytuno ar flaenoriaethau lleol yn unol â'r bwriad gwreiddiol. Y rheswm am hynny oedd yr angen i flaenoriaethu amser swyddo-gion er mwyn gallu ymateb yn llawn i'r argyfwng oedd yn ein wynebu.

Cafodd y gwaith o adnabod blaenoriaethau llesiant ymhob un o ardaloedd y Cyngor hefyd ei oedi am flwyddyn gyda chaniatâd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y gwaith yma bellach yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2022. Byddwn yn diweddaru'r Asesiad Anghenion Poblogaeth yn fuan, a bydd y Cyngor hefyd yn arwain ar raglen adfywio cymunedol dros y cyfnod nesaf. Bydd yr holl waith yma'n ein caniatáu i adolygu ein bwriadau ac yn bwydo i'n hystyriaethau o sut y byddwn yn siapio ein gwasanaethau i'r dyfodol.

Mewn perthynas â'r gwaith i ddatblygu'r model o hybiau cymunedol ar draws y sir sy'n dar-paru cyfleon llesiant i oedolion ag anabledd dysgu yn eu cymunedau lleol, nid ydym wedi gallu gwneud y cynnydd a fwriadwyd yn ystod y flwyddyn gan fod y gwasanaeth wedi gorfod blaenoriaethu cynnal gwasanaethau a chefnogaeth i oedolion ag anabledd dysgu a'u teu-luoedd i'r gorau o'n gallu. Fodd bynnag, rydym wedi agor hwb cymunedol newydd yn y Felin-heli ac mae'r hybiau wedi bod o fudd mawr i ni allu darparu gwasanaeth mewn modd diogel yn ystod cyfnod yr argyfwng. Mae'r cynllun i ail-adeiladu Hwb Dolgellau (Dolfeurig) hefyd yn symud yn ei flaen gyda'r bwriad i'r gwaith fod yn cychwyn yn Ionawr 2022.

Er bod ein gallu i gyflawni amcanion y prosiect wastad wedi bod yn ddibynnol ar gydweithio effeithiol ar draws gwasanaethau, partneriaid a chymunedau, mae ein profiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu'r angen i adolygu sut orau i gydlynu'r gwaith a chyflawni'r nod wrth symud ymlaen. Un newid sydd mewn lle bellach ydi na fyddwn yn adrodd ar gynnydd y gwaith hwn fel prosiect unigol i'r dyfodol, ond yn hytrach yn ei blethu mewn i'r cynllun ehangach sydd gennym mewn lle ar gyfer Cefnogi Llesiant Pobl.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal	Blaenoriaeth Gwella 6

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Rydym wedi bod yn ymdrechu i geisio deall yn well yr her sy'n bodoli ar draws y maes ac mewn ymateb i hynny datblygwyd rhaglen waith sy'n ceisio cyfarch rhai o'r pryderon. Bydd y gwaith o sefydlu trefn darparu gofal cartref newydd yn effeithio'n bositif ar elfennau megis cyflogau staff rheng flaen y sector breifat, hyd cytundebau gwaith a hybu llwybrau gyrfa'n y maes.

Y themâu fydd yn derbyn sylw dros y flwyddyn sydd i ddod fydd Amodau a Thelerau Gwaith, Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu, Delwedd a Phroffil Swyddi'r Maes, a Chyfathrebu a Marchnata

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu ein heriau recriwtio fwy nac erioed ac wedi golygu fod rhaid i ni flaenoriaethu rhai agweddau o'r prosiect hwn gan bwysleisio ar recriwtio staff yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod llithriad anorfod wedi bod mewn rhaglenni gwaith datblygol fyddai wedi cael effaith bositif ar agweddau megis amodau a thelerau gwaith y gweithlu.

Bu'n hynod heriol i gynnal gwasanaethau rheng flaen yn ystod y cyfnod argyfwng, a'r prif her oedd medru ymateb i fylchau staffio sylweddol. Cymeradwyodd y Cabinet adnoddau ychwanegol ym mis Hydref er mwyn ymateb i'r bylchau staffio yr oeddem yn ei ragweld fyddai'n ein wynebu. Hwylusodd hyn ein gallu i gynnal ymgyrchoedd recriwtio i ddenu mwy o weithwyr i'r maes.

Rhoddwyd trefniadau mewn lle i gefnogi a hyfforddi unigolion oedd yn gwbl newydd i'r maes, boed hynny'n unigolion ar ddechrau eu gyrfaoedd neu'n rai a oedd yn dymuno ail hyfforddi yn dilyn colli gwaith o ganlyniad i'r argyfwng. Fel rhan o'r ymgyrch SOS #Galw Gofalwyr (llyw.cymru) gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2020 a Ionawr 2021, cafodd dros 100 o unigolion eu hadnabod fel unigolion allai fod yn addas i'w cyflogi yn y maes.

Defnyddiwyd dulliau gwahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, gyda chydweithio agos â thîm cyfathrebu canolog y Cyngor. Enghraifft o hynny oedd defnyddio ffyrdd gwahanol o dargedu ardaloedd penodol yn y sir drwy wefannau cymdeithasol.

Bu'r ymdrech yn llwyddiannus wrth i ni lwyddo i gyrraedd unigolion na fyddai wedi ystyried y maes gwaith yn y gorffennol yn ogystal ag unigolion na fyddent yn gweld hysbyseb ar wefan y cyngor ac yn ymateb iddo. Mae'r gwaith yma wedi ein galluogi i fod ag adnoddau a deunyddiau gwell yn ogystal â rhoi'r gallu i ni dargedu ardaloedd a grwpiau penodol. Yn sgil yr ymgyrch hon rydym wedi bod yn derbyn 2 neu 3 ymgais am swyddi; cyn hynny roeddem yn aml yn methu a denu unrhyw ymgeiswyr. Mae sawl enghraifft ar draws y maes o fod yn

penodi trwy ddulliau newydd a gwahanol megis trwy'r cynllun prentisiaethau, a chynllun diweddar y Llywodraeth 'Kickstart' sy'n rhoi cyfleon gwaith i unigolion ifanc.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Blaenoriaeth Gwella 7

Sicrhau fod y Cyngor cyfan yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith	Blaenoriaeth Gwella 7

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Pwrpas y prosiect hwn felly fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Mae'r Strategaeth Ffordd Gwynedd wreiddiol a gyhoeddwyd yn Hydref 2015 wedi dod i ddiwedd ei hoes. Cymeradwywyd Cynllun Ffordd Gwynedd ar ei newydd wedd yn ystod 2019/20.

I'r dyfodol byddwn felly'n gweithredu rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd, sy'n cynnwys cynllunio'r gweithlu, cyswllt â'r cwsmer, ac amodau gwaith a herio perfformiad fel rhai o'i prif flaenoriaethau.

Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?

Mabwysiadwyd Côd Ymddygiad diwygiedig ar gyfer staff y Cyngor, sydd yn adlewyrchu'r ymddygiadau disgwyliedig a berthyn i'r diwylliant gwaith. Mae pob un o'r amodau gwaith yn cael eu hadolygu yn eu tro i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â diwylliant Ffordd Gwynedd ac fe ystyrir cynnwys y Côd fel y sylfaen ar gyfer hynny.

Llwyddwyd i barhau efo'r rhaglen hyfforddi ar gyfer cefnogi datblygiad y "ffordd o weithio" ar draws y Cyngor. Hwyluswyd y gwaith hwn yn dilyn sefydlu trefniadau dysgu o bell yn ystod ail hanner y flwyddyn. Addaswyd yr hyfforddiant chwe diwrnod ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion, i'w gyflwyno mewn sesiynau byrrach, a chynhaliwyd nifer o weithdai ar gyfer timau penodol er mwyn cefnogi adolygiadau gwasanaeth a datblygiad y meddylfryd o fewn y gwasanaethau hynny. Bydd modd adeiladu ac ymestyn y gefnogaeth yma ar sail y gwaith a gyflawnwyd eleni gyda'r bwriad o ganolbwyntio ar roi'r adolygiadau ar waith a gwneud gwahaniaeth.

Adolygwyd trefniadau herio perfformiad gyda golwg i gynhyrchu adroddiadau misol i'r Aelodau Cabinet o hyn ymlaen. Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd herio perfformiad rheolaidd ond yn canolbwyntio ar y prif risgiau adnabyddir o fewn y Gofrestr Risg, sydd yn eu tro yn cael eu hadlewyrchu yn y blaenoriaethau gwella gytunwyd arnynt yng Nghynllun y Cyngor.

Mae'r gwaith penodol yng nghyswllt cynllunio'r gweithlu yn cael ei adnabod fel blaenoriaeth gwella newydd yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22 ac mae'n ymgorffori y gwaith sydd eisoes yn digwydd efo prentisiaid a hyfforddeion proffesiynol yn ogystal â'r rhaglen datblygu potensial ar gyfer staff presennol y Cyngor.

Cynhaliwyd asesiad annibynnol o ddatblygiad Ffordd Gwynedd o fewn y Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr asesiad yn cydnabod i gamau breision gael eu cymryd ond yn tynnu sylw at rai materion a fyddai'n galluogi'r Cyngor i wreiddio'r diwylliant gwaith yn ehangach ac yn ddyfnach ar draws ein gwasanaethau.

Blaenoriaeth Gwella 8

Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd	Blaenoriaeth Gwella 8

Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ers Mawrth 2019 mae'r Cyngor wedi bod yn mesur yr holl gamau yr ydym eisoes yn eu cymryd i leihau ein ôl-troed carbon ac i baratoi ein cymunedau ar gyfer ymateb i newidiadau hinsawdd i'r dyfodol. Buom hefyd yn ymchwilio i ddulliau newydd arloesol y gallwn eu mabwysiadu i'r dyfodol, nid yn unig fel Cyngor ond ar draws cymunedau Gwynedd, ac yn dechrau ar y broses o ymgynghori ar y syniadau hynny ac unrhyw syniadau eraill y gallem fod wedi eu methu. Yn 2020/21 byddwn yn cyhoeddi a gweithredu ar Gynllun Ymateb i Newid Hinsawdd fydd yn adeiladu ar y camau yr ydym eisoes yn eu cymryd i leihau ôl-troed carbon er mwyn sicrhau ein bod yn uchafu cyfraniad y Cyngor a'r sir wrth ymateb i'r argyfwng. Bydd gwireddu'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd yn gyfrifoldeb ar bob un o adrannau'r Cyngor a bydd angen i ni sicrhau bod ein trefniadau mewnol ein hunain yn gadarn yn eu lle cyn i ni symud ymlaen at weld sut y gallwn gydweithio â phartneriaid eraill.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Yn anffodus, bu i argyfwng Covid-19 dorri ar draws y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i lunio Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ond mae swyddogion wedi bod yn gweithio ar ddrafft. Bwriad y papur drafft yw amlygu'r hyn y mae'r adrannau yn bwriadu ei gyflawni er mwyn bod yn sail i weithdy aelodau yn fuan yn 2021-22. Bydd hyn yn arwain at fabwysiadu Cynllun Gweithredu i'r dyfodol.

Buom hefyd yn paratoi i benodi Swyddog Prosiect ar gyfer arwain y gwaith yma, a fydd yn ei le yn ystod 2021-22.

Amcanion Llesiant:

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Rhan 2
Adroddiadau'r Adrannau

Tud. 70

Adran Addysg

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib.

Mewn blwyddyn arferol, byddai'r adroddiad hwn yn gyfrwng i gyflwyno dadansoddiad cryno o safonau ysgolion Gwynedd yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 o ran y sector cynradd, a Chyfnod Allweddol 3 a 4 o ran yr uwchradd. Byddem wedi adrodd ar y dangosydd newydd sef y sgôr Capio 9 sydd yn cael ei gyfrifo ar gyfanswm maint naw TGAU (neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig) gorau pob dysgwr. Fodd bynnag, yn sgil pandemig Covid-19, a'r Cyfnod Clo, ble gwelwyd ysgolion yn cau ar 20 Mawrth 2020, ac yn cael eu hail-bwrpasu o 23 Mawrth ymlaen i ddarparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol gyda'r cwricwlwm wedi ei oedi, nid oes dadansoddiad ar gael o safonau ar draws y Cyfnodau Allweddol, gan gynnwys Cyfnod Allweddol 4 gan na gynhaliwyd arholiadau allanol TGAU a Safon Uwch yn unol â'r drefn arferol.

Yn ychwanegol, ni fu i ESTYN arolygu ein hysgolion yn ystod y cyfnod, ac felly nid yw'r proffil arolygiadau ysgolion Gwynedd wedi newid o'r hyn yr adroddwyd arno yn 2019/20. Fodd bynnag, er na fu ESTYN yn arolygu ysgolion yn ystod 2020/21, ar gais Llywodraeth Cymru, bu iddynt gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020, gan gyflwyno adroddiad unigol i bob awdurdod lleol ar eu canfyddiadau. Dyfynnir o'r adroddiad hwn isod.

Bu 2020-21 felly yn flwyddyn o newid cyson a pharhaus i'r Adran Addysg, i ysgolion, ac i blant a phobl ifanc, gyda'r ysgolion yn cael eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol o 23 Mawrth 2020 ymlaen, gyda'r cwricwlwm yn cael ei oedi. Gwelwyd sawl cyfnod clo yn ystod y flwyddyn, ac yn ystod y cyfnodau hynny, bu ein hysgolion yn gyfrifol am addysgu o bell, ynghyd â sesiynau dysgu byw er mwyn sicrhau'r addysg orau bosibl i'n plant a phobl ifanc, gyda'r pwyslais amlwg hefyd ar sicrhau ar les a hapusrwydd y plant a'r bobl ifanc o dan yr amgylchiadau.

Mae'r Adran Addysg yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae'r pandemig hwn wedi ei gael ar blant a phobl ifanc ac yn sicrhau pob cefnogaeth iddynt. Wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol roedd pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles. Er mwyn ymateb i'r pryder hwn, ers Medi 2020, mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu 'Rhaglen Cyflymu'r Dysgu' gydag arian gan Lywodraeth Cymru, er mwyn ymateb i effaith y Cyfnod Clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed. Mae'r Adran Addysg ar y cyd gyda GwE (y Gwasanaeth Gwella Ysgolion) yn cefnogi'r ysgolion i weithredu'r rhaglen hon. Mae'r Adran Addysg hefyd yn rhoi sylw penodol i effaith y pandemig ar les a chyrhaeddiad plant yn y blynyddoedd cynnar, ynghyd â'i effaith ar les, cyrhaeddiad a'r rhagolygon ar gyfer pobl ifanc ôl-16. Bydd yr adran yn gallu dweud mwy am y ffrydiau gwaith yma yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Yn sgil ail-agor ysgolion, bu'r Adran Addysg hefyd yn cefnogi ysgolion unigol pan fo achosion o Covid-19 yn codi, gan ddarparu arweiniad a chyngor priodol, gan ddilyn arweiniad y gwasanaeth profi, ôl-rhain a diogelu, tra ar yr un pryd sicrhau parhad addysg drwy ddarpariaeth o bell i swigod o ddysgwyr fyddai wedi gorfod aros adref yn hunan-ynysu am gyfnod.

Yn ystod y flwyddyn o newid cyson a parhaus, felly, bu i'r Adran Addysg roi bri mawr ar gyfathrebu gyda rhan-ddeiliaid, gan geisio sicrhau arweiniad, canllawiau a phenderfyniadau amserol i alluogi ysgolion weithredu yn y modd mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau. Cyflëir arwyddocâd y cyfathrebu amserol hwn yn Adroddiad Thematig Estyn:

'*Arweinyddiaeth a Chydweithio*

Mae'r Pennaeth Addysg wedi cynnal cyfathrebu uniongyrchol a chyson gyda swyddogion, arweinwyr ysgol a gydag aelodau etholedig trwy gydol y pandemig. Bu cydweithio cadarn o fewn y fforwm strategol cynradd a fforwm strategol penaethiaid uwchradd yn ystod y cyfnod clo. Daethpwyd i gytundeb am yr holl benderfyniadau, cynlluniau a pholisïau drwy'r fforymau hyn a thrwy'r dull cyson hwn o gyfathrebu. Roedd arweinwyr ysgol yn gwerthfawrogi hyn ac yn teimlo ei fod yn adlewyrchu'r cydgyfrifoldeb a rennir rhwng yr awdurdod lleol ac ysgolion.'

Bu i'r Adran Addysg weithio mewn partneriaeth agos gyda'r penaethiaid, GwE, adrannau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru er mwyn gallu darparu'r arweiniad a'r gefnogaeth orau i'r ysgolion o dan amgylchiadau anodd a hynod heriol iddynt.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Er mwyn hwyluso addysg o bell yn ystod y flwyddyn, ond yn fwy penodol mewn ymateb i'r Cyfnod Clo cyntaf, bu'r Adran Addysg yn rhagweithiol a blaenllaw iawn ym maes TGCh, gan sicrhau 1,200 o ddyfeisiadau chromebook a 175 o ddyfeisiadau MiFi i deuluoedd heb fynediad at dechnoleg a/neu gyswllt i'r we yn ystod y Cyfnod Clo cyntaf. Gwnaeth hyn wahaniaeth mawr i wella mynediad at addysg a phrofiadau addysgol plant dros y cyfnod, er hynny, roedd rhai heriau o hyd o safbwynt nifer annigonol o ddyfeisiadau i deuluoedd mawr, gan arwain at rai plant yn gorfod rhannu dyfeisiadau, a cholli allan ar wersi byw os oedd teuluoedd yn gorfod blaenoriaethu gwersi un plentyn ar draul y llall. Bu'r Adran Addysg hefyd yn flaenllaw wrth lunio polisïau a gweithdrefnau er mwyn caniatáu ysgolion Gwynedd i fod yn dysgu o bell drwy dechnoleg dysgu byw. Bu i bolisi blaengar Gwynedd maes o law gael ei fabwysiadu gan nifer o awdurdodau eraill, a bu'r adran yn rhagweithiol yn hyrwyddo ac annog sesiynau dysgu byw gyda'n hysgolion, gan weld manteision amlwg hynny i'r dysgwr.
Dyma gameo o Adroddiad Thematig ESTYN (Ionawr 2021) ar waith yr Adran i gefnogi ysgolion ac UCDau:

'Dysgu Digidol fel etifeddiaeth o'r pandemig.

Mae'r awdurdod wedi cyflymu ei gynllun strategol i ddarparu gliniadur i bob disgybl ym mlynyddoedd 5-11, gyda'r dyraniad cyntaf i'w dosbarthu yn y gwanwyn ar gyfer y rhai yng nghyfnod allweddol 4. Hefyd, mae'r strategaeth hon yn cynnwys darparu gliniadur gwaith newydd i bob athro er mwyn hwyluso dysgu digidol. O ganlyniad, mae ysgolion yn gallu cynllunio ar gyfer dyfodol lle mae gan ddysgwyr fwy o fynediad at TGCh, gan sicrhau felly fod medrau digidol newydd a ddysgwyd yn ystod cyfnodau clo wedi'u gwreiddio yn yr

addysgu a'r dysgu at y dyfodol.'

Mae'r gwaith o fod yn darparu dyfeisiadau i bob dysgwr ac athro yn parhau gyda 900 ipad, 5,500 chromebook a 3,500 gliniadur wedi eu prynu yn unol â'r weledigaeth a amlygir yn ein Strategaeth Addysg Ddigidol.

Bydd yr Adran yn gallu dweud mwy am ddatblygiadau TGCh yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Y Gymraeg

Yn ystod y Cyfnod Clo, bu i staff y Canolfannau Iaith orfod addasu a thrawsnewid y ffordd yr oeddent yn darparu cefnogaeth i hwyrddyfodiaid i gaffael y Gymraeg. Yn wir, staff y Canolfannau Iaith oedd y cyntaf i beilota cynnal sesiynau dysgu byw yn ystod Tymor yr Haf 2020, a hynny er mwyn cynnal iaith lafar hwyrddyfodiaid a fu'n mynychu'r Canolfannau Iaith yn ystod y flwyddyn addysgol 2019/20. Roedd staff y Canolfannau Iaith a'r ysgolion yn cydnabod mai dim ond drwy'r sesiynau dysgu byw yma roedd mwyafrif o'r dysgwyr a oedd yn hwyrddyfodiaid yn cael mynediad i'r Gymraeg a chyfle i ymarfer eu sgiliau siarad a gwrando. I ategu'r sesiynau dysgu byw, roedd staff y Canolfannau Iaith hefyd wedi sefydlu Google Classrooms i'r dysgwyr ar Hwb i roi cyfleoedd pellach i'r hwyrddyfodiaid ymarfer a chaffael y Gymraeg. Dyma gameo o Adroddiad Thematig ESTYN ar waith yr Awdurdod Lleol i gefnogi hwyrddyfodiaid:

'Cefnogi dysgwyr sy'n newydd i'r iaith Gymraeg

Un enghraifft o gydweddiad clos yr awdurdod lleol a GwE yw eu hymagwedd at gynorthwyo ysgolion i ddatblygu medrau iaith Gymraeg disgyblion. Gwelodd rai ardaloedd arfordirol o Wynedd fewnlifiad sylweddol o bobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg yn ystod y cyfnod clo. Ychwanegwyd at yr her o ddarparu ar gyfer eu hanghenion ieithyddol pan ail-agorodd ysgolion yn mis Medi gan yr anawsterau wrth gynnal unedau iaith Gwynedd ar eu ffurf draddodiadol. I wrthsefyll hyn, er mwyn cynorthwyo ysgolion cynradd, trefnodd yr awdurdod lleol i'r athrawon arbenigol ddarparu gwasanaeth all ymestyn ar sail clwstwr, tra bod swyddog cefnogi gwelliant y clwstwr yn gweithio gyda'r ysgolion i greu ac addasu cynlluniau gwaith Cymraeg.'

Yn sgil y pandemig mae staff y Canolfannau Iaith wedi parhau i ddarparu cefnogaeth i hwyrddyfodiaid drwy gyfrwng dysgu cyfunol, sef sesiynau wyneb yn wyneb yn yr ysgolion, sesiynau dysgu byw drwy TEAMS, ynghyd â gwaith ar Google Classrooms, fodd bynnag, ystyrir ail-agor y Canolfannau Iaith i ddysgwyr am y tro cyntaf yn sgil y pandemig yn ystod Tymor yr Haf 2021.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a CH)

Mae'r Gwasanaeth ADY a Ch wedi adolygu'r model darparu mewn cyfnod byr iawn i ymateb i'r Cyfnod Clo dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn galluogi parhad mynediad at y gwasanaeth i ddysgwyr. Roedd hyn yn heriol wrth gwrs oherwydd cyfyngiadau mewn cyfnod a oedd yn hynod o wahanol a heriol i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Law yn llaw gyda'r cyfnod hwn, mae'r dyletswydd statudol i ddarparu yn unol â Deddf AAA (2002) wedi parhau, a'r gwaith trawsnewid ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd wedi parhau. Bu i'r gwasanaeth weithredu ar dair haen er mwyn ymateb i'r lefelau gwahanol o angen:

Bu angen rhoi pwyslais pendant ar gefnogi llesiant ar yr haenau uchod gydag elfennau o hynny yn dod o'r cyswllt ar lefel unigol, hyfforddiant wedi ei dargedu, a hyfforddiant ac adnoddau cyffredinol. Er enghraifft:

- Adnoddau ar gyfer delio gyda trawsnewid, pum ffordd at les ar y wefan (www.adyach.cymru). Bu defnydd o'r wefan yn uchel iawn
- Hyfforddiant Tyfu Drwy'r Tymhorau (delio gyda colled a galar) ac Ymwybyddiaeth Ofalgar
- Goruchwyliaeth ar gyfer cymorthyddion ELSA (Emotional Literacy Support Assistant) a oedd yn cefnogi disgyblion bregus yn ystod y cyfnod
- Sesiynau llesiant ar gyfer Penaethiaid
- Ac yn fwyaf newydd, adnoddau ymateb i'r cyfnod o ansicrwydd ar gyfer blynyddoedd 11 -13.

Mae'r gwasanaeth lles yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb. Gall anawsterau presenoli fod yn sgil ystod o ffactorau e.e. anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod mae elfennau o rôl y Swyddogion Lles wedi newid yn anorfod gyda threfniadau erlyn arferol rhieni ar saib. Drwy'r cyfnod Covid-19 maent wedi cefnogi'r ysgolion trwy roi cymorth i ddysgwyr a'u teuluoedd ble roeddynt yn cael anawsterau i fynychu'r ysgol am nifer o resymau yn sgil Covid-19. Mae'r anawsterau hyn wedi cynnwys pryder am y firws a'r trefniadau newydd, diffyg cymhelliant oherwydd y sefyllfa, ynghyd ag anawsterau hanesyddol yn parhau ac yn dwysáu.

Yn ystod y Cyfnod Clo, adnabuwyd 153 o unigolion blynyddoedd 7-10 oedd angen cefnogaeth o ran eu lles, gydag 80% wedi ymgysylltu'n wythnosol ac 20% yn ad-hoc drwy ymgymryd â phecynnau gweithgaredd wedi eu gyrru i'r cartref, cefnogaeth gyda ffitrwydd a diet, cefnogaeth gyda lles emosiynol, cefnogaeth ar safle'r ysgol, ynghyd â darpariaeth ADTRAC i ddysgwyr blwyddyn

11 oedd yn risg uchel o fod yn NEET.

Yn ogystal, adnabu ESTYN bod yr Adran Addysg wedi rhoi cymorth pwrpasol i benaethiaid a staff ysgolion gan daro cydbwysedd effeithiol rhwng cefnogaeth ar gyfer lles penaethiaid, staff a dysgwyr tra ar yr un pryd yn hyrwyddo dysgu. Dyma gameo o Adroddiad Thematig ESTYN (Ionawr 2021):

'Cydbwyso cefnogaeth ar gyfer lles a hyrwyddo dysgu

Roedd y swyddogion addysg ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phob pennaeth. Yn y cyfarfodydd hyn, roedd ffocws penodol ar lwyddiant ysgolion wrth ymgysylltu â dysgwyr sy'n fregus. Mae wedi sicrhau bod staff uwchradd i gyd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar sut i ddarparu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Yn ogystal, mae'r holl benaethiaid wedi derbyn hyfforddiant buddiol ar les meddwl a lles emosiynol. Diben hyn yw sicrhau bod penaethiaid yn teimlo bod cefnogaeth dda iddynt wrth reoli eu lles eu hunain yn ogystal â theimlo wedi'u grymuso i gefnogi lles eu staff. Mae penaethiaid wedi nodi bod yr hyfforddiant a'r cymorth hwn wedi bod yn werthfawr iawn.'

Arlwyo a Glanhau

Bu i staff y gwasanaeth arlwyo a glanhau ymateb yn gadarnhaol i'r galw amrywiol fu arnynt yn ystod y flwyddyn. Ar ddechrau'r Cyfnod Clo bu'r gwasanaeth arlwyo yn darparu pecynnau bwyd i ddysgwyr oedd yn gymwys am ginio am ddim, fodd bynnag dim ond 224 o blant cymwys oedd yn dod i gasglu pecyn bwyd. O ganlyniad, o 20 Ebrill hyd at Medi 2020, trefnwyd taliadau uniongyrchol i ddysgwyr oedd yn gymwys am ginio am ddim, gyda 2,249 o blant yn derbyn taliad uniongyrchol cinio am ddim ar 14 Awst 2020. Bu i'r taliadau uniongyrchol hyn barhau drwy gyfnod gwyliau ysgol hyd at Pasg 2021. Yn sgil ysgolion yn ail-agor, trefnwyd taliadau uniongyrchol i blant cymwys oedd yn rhan o swigen mewn ysgol ac yn gorfod hunan-ynysu, gyda gweddill y plant cymwys yn derbyn cinio am ddim yn yr ysgol.
At hyn, bu i 230 o staff arlwyo gynorthwyo gyda glanhau ysgolion yn ystod y dydd o 29 Mehefin 2020 hyd at 17 Gorffennaf 2020. Ers Medi 2020, mae staff yn glanhau ysgolion yn ystod y dydd ac ar ôl ysgol, ac er bod heriau staffio gan y gwasanaeth, mae'r gwasanaeth arlwyo wedi llwyddo i ddarparu cinio ysgol arferol bob dydd i holl ysgolion Gwynedd.

Tlodi Mislif

Derbyniwyd grant gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi mislif yn y gymuned ac yn ein hysgolion er mwyn galluogi merched i gael nwyddau hylendid yn rhad ac am ddim. Yn sgil y grant, mae nwyddau mislif ar gael i holl ddysgwyr ysgol o flynyddoedd 5-13 sydd eu hangen, ac yn ystod y Cyfnod Clo, roedd modd i ddysgwyr gysylltu â'u hysgol am y nwyddau. At hyn, bu i'r cynllun TRAC 11-24 ddosbarthu pecynnau o nwyddau mislif eco-gyfeillgar y gellir eu hail-ddefnyddio i bobl fregus, difreintiedig neu nad ydynt mewn cyswllt â'r system addysg brif-ffrwd. Dosbarthwyd dros 160 o becynnau i bob rhan o'r sir. Mae gwaith wedi ei gyflawni i ddosbarthu pecynnau yn uniongyrchol o fewn cymunedau hefyd, gyda 420 o becynnau wedi eu rhannu efo grwpiau cymunedol sydd wedi eu sefydlu i gefnogi unigolion a theuluoedd bregus yn ystod y cyfnod.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor drwy ddarparu'r gefnogaeth amserol sy'n angenrheidiol i alluogi bobl Gwynedd i fyw eu bywyd fel y maent eisiau ei fyw.

Covid-19

Mae argyfwng Covid-19, a darodd ym Mawrth 2020 wedi cyflwyno heriau sylweddol i'r Adran hon drwy gydol 2020/21. O ystyried y flwyddyn digynsail sydd wedi bod mae perfformiad yr Adran wedi bod yn dda. Mae gwaith yr Adran hon yn parhau beth bynnag yn yr argyfwng gyda'r ffocws yn gorfod bod ar addasu a newid y gefnogaeth a roddir i drigolion. Gwelwyd yn ystod y flwyddyn fod nifer angen cefnogaeth yn yr un modd a'r arfer, os nad mwy, ac roedd rhai penderfyniadau i oedi rhai gwasanaethau yn anodd iawn i'w gwneud. Bu rhai o'n gwasanaethau canolfannau dydd ar gau am gyfnod, ac mae rhai canolfannau yn parhau ar gau oherwydd y risgiau, ond fe fu ein staff yn gwneud eu gorau i ddarparu cefnogaeth tu allan yn y gymuned lle'r oedd hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae'r Adran wedi llwyddo i barhau i ddarparu'r mwyafrif o'i wasanaethau (mewn ffyrdd gwahanol i'r arfer mewn nifer o sefyllfaoedd) ac wedi ymdrechu'n gref i alluogi a chefnogi ein darparwyr gofal annibynnol i allu gwneud yr un peth.

Un her sylweddol i nifer o'r unigolion rydym yn eu cefnogi a'u teuluoedd oedd yr angen i rwystro ymwelwyr rhag ymweld â chartrefi gofal. Wrth reswm cafodd hyn effaith negyddol ar drigolion a theuluoedd. Er y cyfyngiadau gwnaethpwyd pob ymdrech i hwyluso ymweliadau mewn sefyllfaoedd o waeledd difrifol.

Ar ddechrau'r argyfwng bu cyfnodau o ansicrwydd a gwagle mewn arweiniad ar agweddau megis rhyddhau cleifion o ysbytai. Mewn ymateb i hyn rhoddwyd canllawiau mewn lle i sicrhau eglurder i weithwyr rheng flaen ac i ddiogelu ein trigolion. Ar ddechrau'r argyfwng hefyd, roedd prinder pryderus iawn o offer PPE a newidiadau cyson mewn canllawiau yn achosi ansicrwydd ymysg ein staff gofal. Yn ogystal, roedd yr angen i rai staff hunan ynysu am wahanol resymau'n amlygu'r heriau recriwtio yr ydym wedi bod yn eu wynebu ers rhai blynyddoedd. Ceir rhagor o wybodaeth am faterion PPE ym mhennod Covid-19 yr Adroddiad ac am recriwtio yng ngwybodaeth y Blaenoriaethau Gwella.

Agwedd arall mae'r maes wedi gorfod addasu ac ymdopi ag o oedd yr angen i brofi staff rheng flaen a thrigolion sy'n derbyn cefnogaeth yn rheolaidd. Er mor allweddol oedd hyn i warchod rhag lledaeniad, mae'r newid cyson i'r trefniadau wedi bod yn heriol gan gyfrannu ar brydiau tuag at ansicrwydd yn deillio o fod yn aros am ganlyniadau neu gan nad oedd y canllawiau ar y pryd yn caniatáu profi rhai carfanau o staff. Law yn llaw ag ymdopi â'r gofynion newydd hyn, dylid cydnabod yr ymdrech arwrol sydd wedi bod ar draws y maes wrth frechu staff allweddol a'n trigolion bregus.

Roedd hyblygrwydd o fewn gwasanaethau a staff yr Adran i ymgymryd â chyfrifoldebau a dyletswyddau newydd dros nos yn gwbl allweddol i lwyddiant ein hymateb i'r argyfwng. Enghraifft wych oedd sefydlu'r Tîm Cefnogi Covid a'r trefniadau gafodd eu rhoi mewn lle ar ddechrau'r argyfwng, ac sy'n parhau, i gefnogi darparwyr gofal ar draws y sir. Mae rhagor o wybodaeth am yr agweddau yma i'w ganfod yn y bennod Covid-19 ar ddechrau'r adroddiad.

Her pellach i ni rŵan wrth gwrs yw i bwyso a mesur ein opsiynau wrth ail adeiladu yn well, rhoi sylw i wersi a ddysgwyd, a thrwy hynny ystyried siâp ein gwasanaethau i'r dyfodol. Fel rhan o hyn bydd angen i ni asesu effaith tymor hirach y pandemig ar ein cymunedau a'r galw fydd ar ein gwasanaethau. Byddwn yn cychwyn ar y daith honno yn ystod y flwyddyn sydd i ddod trwy ail ymweld â'n 'asesiad o anghenion ein poblogaeth'.

Un elfen bositif yn sgil argyfwng Covid-19 yw'r ffaith ei fod wedi amlygu pa mor allweddol yw rôl staff gofal wrth gynnal a chefnogi gwasanaethau iechyd ac mae'n braf gweld hynny'n cael ei gydnabod. Bydd yn hollbwysig i ni sicrhau fod y gydnabyddiaeth yna'n parhau i'r dyfodol i sicrhau gwell cydweithio a gwasanaethau o'r ansawdd gorau i'n trigolion.

Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd

Mae'r gwaith ar y Rhaglen Drawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol yn mynd yn ei flaen gyda phwyslais ar integreiddio'r diwylliant hanfodol o fewn ein 5 Tîm Lleol ac arfogi arweinwyr a staff i sicrhau eu bod yn cadw'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn wrth wraidd ei ofal. Mae'r timau hyn, sy'n cynnwys staff iechyd, gofal, y trydydd sector a'r sector annibynnol, yn cael cyswllt rheolaidd ar lefel is-ardaloedd; gan rannu gwybodaeth ac adnoddau, cydweithio i ddeall y sefyllfa'n lleol a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau. Mae elfennau eraill y rhaglen yn cynnwys prosiectau sy'n hwyluso'r drefn i bobl adael yr ysbyty, prosiect rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau a'r prosiect ail-ddylunio gofal cartref yn y sir.

Er bod yr amserlen wedi llithro rywfaint oherwydd argyfwng Covid-19, mae'r cynlluniau yn mynd yn eu blaen, gyda'n gweledigaeth yn barhau i ffocysu ar symud y gwasanaethau gofal cartref tuag at fodel sy'n seiliedig ar ardaloedd lleol, a chomisiynu ar sail canlyniadau i unigolion a gwerth cymdeithasol. Rydym yn bwriadu cynnal proses dendro ar gyfer ardaloedd penodol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Ein prif fesur fel gwasanaeth bellach yw a ydym wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi gennym. Mae'r data yn ystod y flwyddyn a fu yn dangos ein bod wedi cyflawni hyn mewn 71% o'r achosion hynny. Llwyddwyd wedyn i gyflawni'r hyn sy'n bwysig yn rhannol mewn 23% o'r achosion, gan adael yn anffodus 6% (24 unigolyn) ble na chafwyd llwyddiant.



Penderfynodd nifer i roi stop ar eu gofal am gyfnod ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf gan eu bod yn y categori 'gwarchod' a theulu'n eu cefnogi adref. Roedd ail ddechrau'r gofal i'r unigolion hyn wrth i deuluoedd ddychwelyd i weithio'n heriol ac mae hyn wedi cyfrannu at y diffyg cynnydd yn y nifer o bobl yn nodi ein bod yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Fel y disgwyl hefyd mae unigrwydd a diffyg cwmnïaeth wedi cael effaith ar lesiant unigolion. Adlewyrchir hynny yn yr achosion hynny ble nad yw wedi bod yn bosib cyflawni'r hyn sy'n bwysig gyda rhesymau'n cynnwys enghreifftiau megis methu gweld aelodau o deulu neu nad yw wedi bod yn bosib cymdeithasu a ffrindiau mewn canolfan

ddydd.

Rydym yn parhau i wynebu her i ddarparu gwasanaethau gofal o fewn rhai cymunedau'r sir, yn benodol rhai ardaloedd gwledig lle mae prinder gofalwyr a phoblogaeth sy'n heneiddio yn golygu pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau. Yn anffodus, mae hyn wedi'i amlygu yn ystod argyfwng Covid-19 gyda'r rhestrau aros am ddarpariaeth gofal cartref wedi cynyddu a darparwyr yn rhoi pecynnau gofal yn ôl i sylw'r Cyngor o ganlyniad i broblemau staffio. Ond yn fwy diweddar yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2021 rydym wedi gweld y sefyllfa'n gwella cryn dipyn gyda'r niferoedd sy'n aros am ddarpariaeth gofal cartref wedi gostwng.

Iechyd Meddwl

Mae Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn wasanaeth integredig ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn arwain y gwasanaeth hwn, gyda'n gweithwyr cymdeithasol a chydweithwyr y Bwrdd wedi eu lleoli mewn timau aml-ddisgybledig yn Uned Hergest ac Ysbyty Alltwen.

Yn ystod yr argyfwng, mae'r timau Iechyd Meddwl wedi parhau i gefnogi unigolion, boed hynny yn y gymuned neu drwy ein canolfannau ICAN. Mae'r gefnogaeth yma wedi bod yn rhithiol yn bennaf ond mae ymweliadau wyneb i wyneb wedi parhau ar gyfer unigolion sy'n dirywio neu mewn crisis. Mae rhagor o wybodaeth ar ddatblygiadau'r gwaith ICAN i'w ganfod o dan y prosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal yn yr adran Blaenoriaethau Gwella.

Mae'r her i gael meddyg addas i gyflawni gwaith o dan Adran 12 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn parhau. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi uchafu'r pryderon i'r Bwrdd Iechyd ac wedi gofyn am gynllun gweithredu er mwyn cyfarch y broblem. Mae'r diffyg yma'n achosi oediad wrth geisio sicrhau mynediad amserol i'r ysbyty ac mae risg i gyflwr meddyliol unigolion ddirywio ymhellach.

Anableddau Dysgu

Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r gwelliannau yn y maes Anableddau Dysgu gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol sy'n cyfarch yr hyn sy'n bwysig i unigolion. Mae mesurydd perfformiad y gwasanaeth yn dangos perfformiad cadarnhaol gan nodi fod 85% o'n achosion wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, a 15% pellach yn nodi ein bod wedi llwyddo'n rhannol. Wrth ystyried y data ar gyfer y flwyddyn a fu dylid cydnabod fwy nac erioed fod yr hyn sy'n bwysig i drigolion yn gallu newid yn ddibynnol ar y sefyllfa ar y pryd. Roedd yn gwbl allweddol ein bod yn gallu bod yn greadigol a hyblyg wrth addasu'r gefnogaeth i unigolion a hynny er mwyn gallu cyfarch beth sy'n bwysig mewn ffyrdd gwahanol i'r arfer.

Gwyddwn fod y materion sy'n ein rhwystro rhag cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn llawn yn bennaf yn ymwneud â lletya a chyfleon gwaith. Mae gennym fwrdd prosiect yn y ddau faes blaenoriaeth yma ar hyn o bryd er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch, a hynny yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Rhaglen Drawsffurfio Anabledd Dysgu Gogledd Cymru. Rydym wedi dechrau gweithio gyda Chymdeithasau Tai ac Adran Tai ac Eiddo'r Cyngor er mwyn cyfarch y prinder llety addas ar gyfer unigolion gydag Anableddau ar draws y sir. Mae darparu cyfleon hyfforddiant a phrofiadau gwaith i unigolion ag Anableddau Dysgu hefyd yn flaenoriaeth a bydd hyn yn galluogi unigolion i ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas. Yn ogystal â chyd-weithio gyda chyflogwyr yn y sector breifat, mae'n bwysig ein bod ni fel gwasanaeth ac fel Cyngor yn arwain y ffordd.

Mae Hwb Cymunedol yn cael ei ddatblygu yn Nolfeurig, Dolgellau ac mae Gwasanaeth 'Pryd ar Glud' yn cael ei weithredu yn ardal y Ffôr, Pwllheli mewn cydweithrediad ag Agoriad, a bydd y ddau ddarpariaeth yma yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant a gwaith cyflogedig.

Yn ystod y cyfnod clo, rydym wedi llwyddo i barhau gyda sesiynau i hybu lles unigolion – yn gorfforol, emosiynol a chymdeithasol. Rydym wedi darparu sesiynau rhithiol megis ioga, dawnsio, celf gydag artist lleol, cwis, disgo, ynghyd â Chôr Makaton a llawer mwy. Cynhaliwyd gweithgareddau eraill hefyd megis grwpiau cerdded yn y gymuned a sesiynau trafod cyfrinachol 'Blwch Siarad' mewn cydweithrediad â Mind. Yn ystod y flwyddyn, roedd 134 o unigolion wedi derbyn cefnogaeth neu ymuno'n y sesiynau.

Llwyddwyd hefyd i barhau i ddarparu cyfleon dydd ac ysbaid ar sail un i un mewn rhai sefyllfaoedd blaenoriaeth ac rydym wedi darparu gwasanaethau pwrpasol drwy ddefnyddio ein hybiau cymunedol yn hyblyg i sicrhau cadw at reoliadau Covid-19. Yn ogystal, ers mis Medi, mae'r gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi dechrau defnyddio uned ysbaid newydd ym Mhwllheli i ddarparu gwasanaeth ysbaid dros nos i unigolion ag anableddau, sy'n helpu gofalwyr gyda'r pwysau sylweddol sydd arnynt, ac yn sicrhau ein bod yn cwrdd â'r angen cyn bod angen ymyrraeth fwy dwys.

Llesiant

Rydym yn gweithio er mwyn gwella ansawdd bywyd drwy gysylltu pobl, ond rydym hefyd yn rhoi ffocws ar gefnogi gofalwyr teuluol/di-dâl.

Sefydlwyd tudalen Facebook yn ystod y cyfnod argyfwng er mwyn hyrwyddo llesiant pobl drwy hybu'r 5 Ffordd at Les gan Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy rannu ystod eang o wybodaeth a digwyddiadau iechyd a llesiant yng Ngwynedd. Cynhaliwyd pythefnos greadigol ar-lein dan y teitl **Llesiant i Mi** hefyd rhwng 18/1/21-31/1/21 gyda'r nod o gefnogi lles meddyliol yr unigolion oedd yn cymryd rhan. Roedd y digwyddiad am ddim i unrhyw un dros ddeunaw, a'r holl weithgareddau'n seiliedig ar y 5 Ffordd at Les gan gynnwys gweithgareddau creadigol, fideos, sgyrsiau, syniadau, ysbrydoliaeth, ymdeimlad o gefnogi'n gilydd a llyfryn i dywys pob unigolyn drwy'r cyfnod.

Mae'r argyfwng yn sicr wedi amlygu'r pwysau sydd ar ofalwyr di-dâl ac yn ystod 2020/21 rydym wedi gweithio â mudiadau eraill i sefydlu Rhwydwaith Gofalwyr Gwynedd, lle bu gwaith ar y gweill yn ystod y flwyddyn i gefnogi gofalwyr di-dâl yn ystod yr argyfwng. Cafodd y llyfryn 'Edrych ar ôl Rhywun' ei baratoi i gefnogi gofalwyr hefyd. Ym mis Awst 2020, cynhaliwyd Gŵyl Gofalwyr Ar-lein am dair wythnos gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth, cefnogi llesiant gofalwyr a chael hwyl. Law yn llaw, cynhaliwyd Diwrnod Hawliau Gofalwyr sef ymgyrch ar-lein i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr. Rydym hefyd wedi bod yn rhan o bartneriaeth i greu cerdyn adnabod ac Ap i Ofalwyr Ifanc. Mae'r ap yn ei gwneud yn haws i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd gael cefnogaeth a hysbysu eu hysgolion o unrhyw sefyllfaoedd sy'n codi, a byddwn yn rhedeg peilot ohono'n fuan.

Ein Darpariaeth Mewnol

Mae gennym fel cyngor 13 o gartrefi preswyl (11 ar gyfer oedolion hŷn, a 2 ar gyfer pobl ag anableddau dysgu) ac rydym yn falch iawn o'r modd y mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gynnal ansawdd y gofal drwy gydol yr argyfwng.

Yn ystod y flwyddyn mae cartrefi wedi wynebu sawl her ac mae trigolion a staff wedi addasu'n rhyfeddol. Rydym yn hynod falch o'r ymdrechion a'r ymrwymiad i roi

lles pobl yn ganolog gan eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd drwy ddulliau technoleg, i gymryd rhan mewn gwasanaethau crefyddol ar-lein ac i gynnal gweithgareddau i'w diddanu. Rydym wedi ymrwymo i uwchraddio cysylltiadau Wi-Fi ymhob cartref ac erbyn hyn mae offer newydd wedi ei osod yn bron bob un.

Rydym wedi parhau â'r rhaglen i fuddsoddi a moderneiddio ein cartrefi er mwyn gwella ansawdd a sicrhau adnoddau pwrpasol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae gwaith addasu wedi'i gwblhau yn ein cartref yn Llan Ffestiniog ac mae gwaith yn digwydd yn ein cartrefi yn Nolgellau a'r Bermo.

Mewn perthynas â **Blaenoriaethau Lleol** yr adran, mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli. Gyda hyn, byddwn yn rhoi sylw i wella'r ddarpariaeth gofal yn ardal wledig Llŷn i'r dyfodol. Mae'r gwaith o adnabod safleoedd ar gyfer datblygiad yn ardal Dolgellau ac ardaloedd eraill ym Meirionnydd hefyd yn parhau. Anelir i gael cynllun pendant ar o leiaf un o'r safleoedd yn ei le erbyn gwanwyn 2022.

Mae'r gwaith uchod yn derbyn rhagor o sylw fel rhan o brosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal yn yr adran Blaenoriaethau Gwella.

Diogelu a Diogelwch Cymunedol

Mewn cyfnod o 12 mis, mae 598 o **ymholiadau diogelu** wedi eu gwneud, gyda 93% ohonynt wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod. Mae'r canran yma'n îs na'r llynedd (95%) o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol eleni yn nifer yr adroddiadau diogelu (437 o ymholiadau yn 2019/20). Fodd bynnag, er bod 7% o ymholiadau nad oeddent wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod, dylid nodi eu bod wedi cael sylw a'r risgiau wedi eu rheoli ymhob achos.



Dylid nodi bod y ffigwr uchod yn cynnwys yr achosion hynny lle y bu i'r unigolion wrthod ymyrraeth (llwyddwyd i reoli'r perygl 98% o'r amser wrth eithrio yr achosion hynny).

Mae'n gwaith **Diogelwch Cymunedol** yn digwydd mewn partneriaeth ar draws Gwynedd a Môn er mwyn taclo a lleihau trosedd ac anrhefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir. Mae cynllun 2020-21 y Bartneriaeth wedi'i gyflawni a chynllun 2021-22 wedi'i baratoi.

Mae llwyth gwaith y maes hwn wedi cynyddu'n ystod y flwyddyn. Yr enghraifft amlycaf o hyn yw'r gwaith yn ymwneud ag Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR). Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar bedwar adolygiad ac mae hynny heb os yn ein cyfyngu i fod yn gallu rhoi sylw i faterion allweddol eraill.

Sicrwydd Ansawdd

Rydym wedi ailgyfeirio adnoddau ar sail dros dro er mwyn cynyddu ein capasiti i gwblhau gwaith **sicrwydd ansawdd** yn fwy rhagweithiol. Rydym wedi parhau i wella ein gwaith drwy gasglu gwybodaeth cynnar, ond serch hynny rydym yn parhau i weld prinder capasiti parhaol i gwblhau'r gwaith ataliol yn llawn. Cafodd y prinder yma'i amlygu yn ystod argyfwng Covid-19 lle bu holl gapasiti'r tîm (tri gweithiwr llawn ac un rhan amser),

yn ogystal â chapasiti ychwanegol o dimau eraill yn yr Adran, yn canolbwyntio ar gefnogi ein partneriaid gofal. Mae mwy o wybodaeth am y gwaith yma yn y bennod Covid-19 ar ddechrau'r adroddiad.

Yn ystod mis Ionawr 2021 bu i'r Adran gael archwiliad gan Arolygaeth Gofal Cymru. Rydym yn falch o adrodd y cafwyd adborth cadarnhaol ganddynt a dylid cydnabod hefyd pa mor heriol oedd amseriad yr ymweliad o ystyried ein hymdrechion a'r blaenoriaethu oedd yn rhaid digwydd ar y pryd mewn ymateb i ail don y pandemig.

Gwasanaeth Busnes

Mae cyfran uchel o waith y Gwasanaeth Busnes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi ei yrru gan yr argyfwng. Boed hynny wedi bod trwy ailgyfeirio staff, cefnogi darparwyr gyda'r trefniadau profi neu weinyddu cymorth cyllidol ychwanegol i'r maes. Er y blaenoriaethu sydd wedi gorfod digwydd mae'r gwaith craidd o gefnogi timau rheng flaen y maes gofal wedi gallu parhau, gydag enghreifftiau yn ogystal ble rydym wedi gallu manteisio ar y cyfle i wella a symleiddio rhai o'n prosesau gwaith megis ein dull o dalu darparwyr preswyl a nyrsio annibynnol.

Darpariaeth sy'n cael ei gomisiynu

O ran y ddarpariaeth sy'n cael ei gomisiynu, rydym yn cydnabod ac yn diolch am yr holl waith sydd wedi digwydd i ymateb i'r argyfwng ac i edrych ar ôl ein trigolion bregus ar draws y sir. Yn benodol yn y maes Pobl Hŷn er enghraifft, rydym wedi wynebu sawl sefyllfa heriol yn ystod y flwyddyn lle'r oedd angen cydweithio'n agos gyda darparwyr ac asiantaethau perthnasol. Yn anffodus gwelwyd Cartref Penrhos ger Pwllheli yn cau yn yr Hydref, a chefnogwyd unigolion a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod anodd hwn gan hwyluso unigolion i symud i gartrefi gofal eraill o'u dewis. Buom yn cefnogi nifer o gartrefi eraill, oedd yn wynebu sialensau'n ystod y flwyddyn, ar faterion megis rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Mae'r angen i edrych ar wella cyflogau staff rheng flaen y maes wedi'i amlygu fwy nac erioed a byddwn angen sicrhau mewnbwn llawn i'r trafodaethau ehangach fydd yn digwydd o ran hyn. Mae'r agwedd hon yn allweddol i'r hyn sydd wedi'i adnabod fel blaenoriaeth gwella i sicrhau gweithlu cadarn i'r dyfodol. Mae hyn hefyd wedi cyfrannu'n rhannol at yr her rydym fel Awdurdodau Lleol ar draws Cymru yn ei wynebu o ran y ffioedd safonol sy'n cael eu talu i ddarparwyr gofal i ofalu am ein trigolion. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cydweithio â darparwyr i ddod i ddeall yn well y gwir gost o ddarparu gofal gan gynnig opsiynau ar y ffordd ymlaen fyddai'n cyfrannu at gynaliadwyedd a sefydlogrwydd y farchnad.

Crynodeb

Mewn blwyddyn anodd mae perfformiad yr Adran wedi bod yn dda. Y prif faterion fydd angen sylw pellach yn ystod 2021/22 a thu hwnt yw:

- Parhau gyda'r gwaith o ail ddylunio ein gwasanaethau gofal gan hybu ymhellach y gwaith o gryfhau gwydnwch ein cymunedau
- Sicrhau darpariaeth gofal addas a chynaliadwy ar draws y sir
- Sicrhau gweithlu cadarn yn y maes gofal i'r dyfodol, ac
- Ailadeiladu ac addasu ein gwasanaethau gan ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r cyfnod argyfwng

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Tud. 82

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Yn amlwg, mae eleni wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i ni i gyd. Rydym wedi gorfod newid ein ffordd o weithio, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant plant a'u teuluoedd drwy'r cyfnod heriol hwn. Braf ar ddiwedd blwyddyn fel hon yw cael edrych yn ôl a datgan fod ein hymarfer a pherfformiad yn gyffredinol ar draws y maes Plant wedi parhau'n gadarn. Braf oedd derbyn adborth cadarnhaol unwaith eto gan Arolygiaeth Gofal Cymru o'u hymweliad gyda'n gwasanaethau ym mis Ionawr 2021. Canmolwyd yr adran am ein llwyddiant i gadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd drwy ymweliadau, galwadau cadw mewn cyswllt a drwy gyfryngau rhithiol. Canmolwyd yr adran am ei phroffesiynoldeb ac ymdrech ein gweithwyr i gefnogi sefydlogrwydd teuluoedd a lleoliadau, a sicrhau pob cefnogaeth posibl i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Llwyddodd yr adran i barhau i gefnogi a diogelu plant a chadw plant a'u teuluoedd gyda'i gilydd mewn cyd-destun o gyfyngiadau ar ddulliau arferol o weithio; mabwysiadu gweithdrefnau PPE, profion a brechu; dargyfeirio staff i arwain gwaith y Tîm Cymorth Covid ac i'r Tîm Profi, Olrhain a Diogelu. Bu i ni ddatblygu ymyraethau a gwasanaethau newydd i ddiogelu ac i gyfarch anghenion teuluoedd wrth iddynt ymdopi gyda'r pandemig megis darparu bocsys bwyd wythnosol am dri mis i bob cartref ble roedd plentyn ar y gofrestr diogelu; darparu bocsys adnoddau babis i famau newydd mewn ardaloedd difreintiedig; darparwyd pecynnau bwyd i gefnogi lleoliadau pobl ifanc ôl-ofal; cefnogwyd cynlluniau i greu a darparu Pecynnau Gweithgareddau Celf, Garddio a Sachau Chwarae i gartrefi drwy'r sir. Mae pobl ifanc y sir wedi elwa o fforymau sgwrsio a chymorth ar-lein, ac mae gweithgareddau cymdeithasol fel creu miwsig, cwis, ffitrwydd a choginio ar-lein i gyd yn ymgais i adeiladu gwydnwch a hyrwyddo llesiant mewn cyfnod anodd.

Darparwyd sesiynau chwarae a hwyl i deuluoedd a gefnogir gan ein Timau Gwaith Cymdeithasol dros gyfnod gwyliau'r haf.

Comisiynwyd partneriaid yn y trydydd sector i ddarparu cefnogaeth newydd i dargedu rhieni ifanc sydd â risg uwch o gyrraedd trothwy gofal gyda'u sgiliau rhiantu, a chefnogaeth ychwanegol i deuluoedd ddelio gyda gwrthdaro, gyda heriau iechyd meddwl a llesiant a chefnogaeth benodol i dadau. Byddwn yn parhau i gomisiynu'r gwasanaethau hyn y tu hwnt i gyfnod yr argyfwng oherwydd y canlyniadau llwyddiannus a gafwyd gan ein teuluoedd.

Aethom ati i groesawu'r cyfleoedd newydd a ddaeth yn sgil dyfodiad gweithio'n rhithiol a bydd rhai teuluoedd yn parhau i ddewis ymgysylltu gyda'n gwasanaethau fel hyn i'r dyfodol. Rydym hefyd wedi gweld y Cyfnod Clo yn fanteisiol i nifer o'n teuluoedd wrth iddynt bellhau o bwysau bywyd a chael yr amser i ganolbwyntio ar eu perthnasau.

Mae'r argyfwng wedi golygu bod nifer o asiantaethau allanol wedi adleoli staff neu gymryd penderfyniadau i warchod lles staff drwy atal eu cyswllt wyneb yn wyneb gyda phlant a theuluoedd. Mae hyn wedi arwain at lai o blant a theuluoedd yn cael eu hadnabod a'u cyfeirio atom am gymorth; llai o gyswllt rhwng asiantaethau eraill gyda phlant a theuluoedd ac wedi golygu mai gweithwyr yr adran ar adegau oedd yr unig weithwyr mewn

cyswllt gyda theuluoedd bregus yn darparu cynhaliaeth a chefnogaeth.

Gan dderbyn fod partneriaid, fel y gwnaethom ninnau, wedi bod drwy gyfnod o newid a heriau newydd, mae parodrwydd rhai i gamu yn ôl wedi ein gwneud ni'n bryderus o berchnogaeth pawb i sicrhau diogelu plant. Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru ein bod wedi gweithredu fel asiantaeth unigol yn y maes diogelu am gyfnodau yn ystod y flwyddyn. Er hynny rydym wedi parhau i gynnal safonau uchel wrth ymateb i gyfeiriadau, a all fod yn rhai diogelu, neu rhai ag angen gofal a chefnogaeth.

Rydym wedi parhau i gynnig cefnogaeth gynnar i deuluoedd pan fo anghenion yn amlygu. O ddarparu cyngor a gwybodaeth drwy ein Hwb Teuluoedd, i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer materion megis sgiliau rhiantu, ymddygiadau heriol plant, gwrthdaro mewn teuluoedd ac oediad mewn datblygiad plant. Pan fo teulu angen cefnogaeth i ddelio gyda nifer o faterion mae ein Tîm o Amgylch y Teulu yn cydlynu cefnogaeth iddynt, a derbyniodd 61 o deuluoedd gefnogaeth gan Gydlynydd yn ystod 2020/21. Rydym wedi uchafu ac addasu ein rhaglenni presennol megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, a'r Cynnig Chwarae a Gofal Plant a sefydlu rhaglenni newydd megis y Rhaglen Datblygiad Plentyn i gynnal ein gwasanaethau ataliol.

Fel rhan o'u gwaith dydd i ddydd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd ac yn tynnu ar ymyraethau mwy arbenigol os yw'n briodol.

Mae'r Tîm Trobwynt yn gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Maent yn gallu cefnogi teuluoedd gyda materion megis rhiantu, cwnsela, cam-ddefnyddio sylweddau, cyfarfodydd er mwyn tynnu aelodau'r teulu estynedig i mewn, cymedroli, therapi teuluol, a chefnogaeth ymdopi gyda phrofiadau plentyndod negyddol (ACE'S). Rydym yn parhau i ddatblygu'r gefnogaeth arbenigol yma yn ddibynnol ar anghenion ac adborth teuluoedd.

Un prosiect arbenigol o'r fath yw Adlewyrchu sy'n cynnig cefnogaeth i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol. Yn ystod 2020/21, rhoddwyd cefnogaeth i 9 rhiant. Ar gyfartaledd mae'r merched yn adrodd cynnydd mewn 7 allan o 10 o'u canlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys gwell cymhelliant, cymryd cyfrifoldeb a sgiliau bywyd.

Rydym hefyd wedi sefydlu Tîm Emrallt gyda'r nod o geisio lleihau nifer yr achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau statudol yn dilyn digwyddiad o gam-drin drwy nifer o ymyraethau amserol a phriodol. Er mwyn gwireddu ein nod, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a mynediad i becynnau hyfforddi ataliol ac arbenigol gan Brook, yr NSPCC ac AIM.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'n gwasanaethau yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol.

Ar ddiwedd Mawrth 2021 roedd 281 o blant yng ngofal y Cyngor, ac roedd 71% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 35% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau ac 18% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, ac felly'n parhau gartref.

O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd graddol o 194 (yn 2015/16) i 291 (yn 2019/20); eleni

(2020/21) rydym wedi gweld peth gostyngiad am y tro cyntaf i 281. Gall y gostyngiad hwn fod yn dechrau dangos fod ein strategaeth i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn cael effaith, ac felly mae'r strategaeth hon yn flaenoriaeth i'r adran ar gyfer 2021/22, er mwyn parhau gyda'r nod o leihau niferoedd plant sy'n dod i ofal.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal. Yn ystod 2020/21, cynhaliwyd adolygiadau cynlluniau gofal a chynadleddau amddiffyn plant yn rhithiol. Mae hyn wedi creu heriau ond hefyd wedi arwain at gyfleoedd newydd i gysylltu â phlant a'u teuluoedd. Er cyfyngiadau'r pandemig wrth gynnal adolygiadau a gwaith dydd i ddydd, mae ein swyddogion wedi parhau i lwyddo i gynnal a datblygu ein perthynas gyda phlant a'u teuluoedd. Canmolodd Arolygiaeth Gofal Cymru ein gwaith yn y maes hwn yn dilyn eu harchwiliad.

Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref. Arweiniodd ein hymgyrch rithiol eleni i recriwtio mwy o ofalwyr ac 16 ymholiad. Gwnaethom hefyd eleni sefydlu llinell gymorth i ofalwyr maeth i'w cefnogi drwy'r flwyddyn heriol hon.

Mae gwaith yr Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn. Yn ystod 2020/21 cynhaliwyd 389 o 'gynadleddau' amddiffyn plant. Roedd canran y cynadleddau achos lle ystyriwyd fod yr asesiadau risg o safon uchel yn 97% ac yn gyson â'r blynyddoedd diweddar. Mae'r perfformiad cyson uchel yma'n dangos effaith ein buddsoddiad mewn ymarfer i sicrhau penderfyniadau da sy'n gwarchod hawliau plant a'u teuluoedd. Mae'r gwaith yma'n parhau'n flaenoriaeth trwy'r gwaith arloesol ar Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Yn ôl ein Swyddogion Adolygu Annibynnol mae 97% o adolygiadau yn uchelgeisiol dros y plant sydd mewn gofal

Mae clywed a gwrando ar lais y plentyn wedi parhau yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd yn ein gofal.

Yn anffodus, yn ystod 2020/21 mae rhai blaenoriaethau oedd gennym wedi llithro rhywfaint neu wedi eu rhoi i'r neilltu am y tro er mwyn rhoi ffocws ar gynnal a darparu ein gwasanaethau hanfodol.

Bu raid oedi sawl elfen o Raglen Trawsffurfio Plant Gogledd Cymru a oedd gyda'r bwriad o dreialu dulliau newydd o weithio ac ymyrraethau newydd er mwyn gwella a newid gwasanaethau. Nid oedd yn bosibl i ni symud ymlaen gyda chynllun ar y cyd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion i adnabod ffyrdd gwahanol o weithio gyda phlant a rhieni oddi fewn i deuluoedd sy'n dod i gyswllt gyda'n hadran. Bu i ni hefyd fethu a sefydlu Tîm Isranbarthol Aml-ddisgyblaethol fyddai'n darparu cefnogaeth ddwys, tymor byr i deuluoedd ag anghenion dwys a chymhleth.

Nod y peilot oedd ymateb i'r newid ym mhroffil poblogaeth plant mewn gofal, cynnydd yng nghyfartaledd cost lleoliadau preswyl, a diffyg argaeledd lleoliadau arbenigol i gwrdd ag anghenion cymhleth a dwys. Gan fod diwallu anghenion dwys a chymhleth mewn teuluoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn risg i ni, byddwn yn ail-gydio yn y flaenoriaeth hon ar gyfer 2021/22.

Rydym hefyd mewn gwell sefyllfa erbyn hyn i allu symud ymlaen gyda gwireddu casgliadau'r adolygiad o wasanaethau i blant gydag awtistiaeth. Byddwn yn 2021/22 yn sefydlu Cynllun Awtistiaeth yng Ngwynedd ar y cyd gyda'n partneriaid.

Rydym yn ffodus iawn o'n gweithlu eto eleni. Bu'n orfodol i ni yn ystod y flwyddyn heriol hon ddargyfeirio staff i ymateb i fylchau staffio mewn timau er mwyn cynnal ac addasu'n gwasanaethau'n ddiogel er mwyn diogelu a chefnogi plant a'u teuluoedd. Dengys parodrwydd a hyblygrwydd ein gweithwyr i ymateb i'r anghenion staffio hyn eu hymroddiad parhaus i'r gwasanaeth ac i deuluoedd bregus Gwynedd. Fodd bynnag bydd recriwtio, datblygu'r gweithlu a chynnal a chefnogi gweithwyr yn flaenoriaeth i ni yn y flwyddyn nesaf i ymateb i'r heriau staffio ac anghenion ein gweithwyr.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Tud. 86

Adran Economi a Chymuned

Yn ogystal â'r gwaith mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Datblygu Economi Gwynedd

Fe wnaeth Covid-19 greu argyfwng economaidd yn 2020 sydd yn parhau hyd heddiw. Ar yr un pryd, mae gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi creu heriau i nifer fawr o fusnesau ac mae'r gwasanaeth wedi ceisio cynghori busnesau Gwynedd gyda threfniadau masnachu a marchnadoedd newydd. Cyn hyn, roedd economi Gwynedd wedi bod yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd wedi bod yn llawer is na rhannau eraill o Gymru a gwerth cynhyrchiant busnesau yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Fe wnaeth Cyngor Gwynedd gymryd camau rhagweithiol yn 2020/21 i geisio achub a chynnal busnesau lleol, cefnogi trigolion lleol sydd wedi colli eu gwaith a chreu'r amodau fydd yn galluogi busnesau i adfer ac i dyfu yn y dyfodol.

Rydym wedi newid ein blaenoriaethau ac ail-gyfeirio ein hymdrech i ymateb i'r argyfwng gan ddwyn timau newydd ynghyd ar draws yr adran a chydweithio'n agos â rhannau eraill o'r Cyngor.

Yn ystod 2020/21 derbyniodd 1,550 o fusnesau gymorth gan yr adran, 520% o gynnydd o'i gymharu â 2019/20.



Ar ei anterth, roedd yr adran yn ymateb i hyd at 500 o ymholiadau'r wythnos gan fusnesau lleol o ganlyniad i Covid-19.

Yn ogystal â dosbarthu cymorth ariannol mae'r adran wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn i sicrhau fod gan fusnesau lleol yr wybodaeth orau am ganllawiau a chyngor masnachu yn sgil Brexit a Covid-19, i'w galluogi i gadw ar y blaen a chadw eu staff a'u cwsmeriaid yn saff. Sefydlwyd tudalen arbennig ar wefan y Cyngor ynghyd â chylchlythyr sydd bellach yn cael ei dderbyn gan dros 4,370 o fusnesau lleol o leiaf ddwywaith yr wythnos. Mae adborth busnesau i'r bwletinau hyn wedi bod yn hynod o gadarnhaol.

Er gwaetha'r pandemig, mae'r galw gan fusnesau am fwy o dir ac eiddo addas wedi parhau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo cyllideb o £2 filiwn er mwyn ymateb i'r galw hwn ac mae gwaith i baratoi cynlluniau wedi cychwyn.

Mae'r gwaith o baratoi Fframwaith Adfywio Gwynedd hefyd wedi cychwyn yn 2020 a bydd 13 cynllun ardal yn cael eu paratoi yn 2021/22 i adnabod blaenoriaeth lleol i'r dyfodol. Mae rhaglenni adfywio canol tref Llywodraeth Cymru wedi parhau dros y flwyddyn ddiwethaf gyda phwysigrwydd

adfywio'r stryd fawr wedi cynyddu. Datblygwyd amrediad o gynlluniau yng nghanol dinas Bangor sydd yn cyfrannu at wella hyfywdra y stryd fawr gan gynnwys cynlluniau i adfer 9 eiddo gwag.

Yn sgil Covid-19 mae'r adran wedi adolygu trefniadau adfywio ac wedi sefydlu pwyntiau cyswllt i 20 tref neu gyrchfan o fewn y sir er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda Aelodau Lleol a'r sector fusnes. Mae'r trefniadau hyn wedi bod yn allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth am gefnogaeth a mesurau ail agor yn ddiogel. Bu'r adran yn llwyddiannus mewn ceisiadau am gefnogaeth ariannol i greu gwelliannau i'r trefi hyn ynghyd â chefnogi 59 o fusnesau i addasu eu ffordd o weithio mewn ymateb i'r cyfyngiadau.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1.3biliwn, mae dros 18,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Dyma un o'r sectorau sydd wedi derbyn yr ergyd fwyaf yn sgil Covid-19 oherwydd y cyfyngiadau ar fusnesau i adfer yn ddiogel. Yn ystod 2020/21 rhoddwyd pwyslais ar ddarparu gwybodaeth i'r sector ymweld i'w galluogi i ymateb i'r argyfwng. Rhannwyd negeseuon cyrchfan cyfrifol ac ymweld ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr yn ddiogel gyda dros 576,000 o ymweliadau â'r wefan. Gan fod yr economi ymweld wedi bod ar gau am gyfnod sylweddol o'r flwyddyn mae'r ffigwr yn îs na'r flwyddyn flaenorol (944,000). Bu i 67,900 ymgysylltu drwy ein cyfrifon cymdeithasol. Cwblhawyd adolygiad o flaenoriaethau twristiaeth yr ardal fydd yn sail i egwyddorion economi ymweld cynaliadwy ar gyfer y cyfnod hyd at 2030.

Yn ystod 2020/21 gwelwyd ymwelwyr newydd yn dod i Wynedd, a nifer helaeth ohonynt heb arfer ag ardaloedd gwledig neu arfordirol ym Mhrydain a gwelwyd problemau yn sgil hynny. Er i'r adran ymateb e.e. trwy gyflogi swyddogion diogelwch ar gyfer lleoliadau penodol, nid oedd yn bosib ymateb ymhob achos oherwydd diffyg adnoddau a maint y galw.

Mae'r adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, nifer o draethau trefol a gwledig eraill, 4 harbwr a 2 marina. Mae sylw wedi ei roi yn ystod y flwyddyn i adolygu trefniadau rheoli'r Hafan a harbwr Pwllheli i'r dyfodol a rhaglennu gwaith carthu manwl yn Harbwr Pwllheli gan hefyd edrych ar opsiynau cynaliadwy at y dyfodol.

Cefnogi Cymunedau Cryf ac Iach

Mae'r Gwasaneth Cefnogi Cymunedau wedi parhau i gefnogi grwpiau gwirfoddol yn ystod y flwyddyn 2020/21, yn ogystal â chefnogi grwpiau newydd sydd wedi ffurfio er mwyn cynnig cefnogaeth i unigolion bregus yn y cymunedau. Mae'r cyfnod wedi bod yn heriol i grwpiau cymunedol ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn cynorthwyo i oresgyn rhai o'r heriau sy'n eu wynebu. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhan o'r gwaith o gydlynu grwpiau canol trefi er mwyn adnabod ac ymgynghori ar fesurau Covid-19.

Mae Cronfa Cefnogi Cymunedau wedi ariannu 21 o brosiectau eleni gan ddenu £206,000 o arian i'r sir. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi dyrannu £25,000 o arian i gefnogi'r ymgyrch wirfoddol Covid-19 ar ran Magnox.

Gan ddilyn gorchmynion diogelwch y Llywodraeth, roedd llyfrgelloedd y sir ar gau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn y cynnig digidol cenedlaethol, a gwelwyd twf sylweddol ym menthyciadau e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau a sicrhawyd mynediad o'r cartref i wefan ancestry i ddefnyddwyr. Buddsoddodd Llyfrgelloedd Gwynedd hefyd mewn gwasanaeth digidol lle gall

defnyddwyr gael mynediad i bapurau newydd cenedlaethol a rhyngwladol am ddim ar-lein. Nid yw ffigyrau defnydd e-adnoddau ar gael ar hyn o bryd.

Gyda chyfyngiadau yn cael eu codi, agorwyd rhai o brif lyfrgelloedd y sir yn ystod mis Gorffennaf 2020, gyda'r holl lyfrgelloedd ar agor erbyn mis Medi ar gyfer clicio a chasglu a gwasanaeth cludo yn unig. Adferwyd hefyd y gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref (Caeth i'r Tŷ) a gwelwyd sefydlu trefn hollol newydd lle'r oedd defnyddwyr llyfrgell yn gallu cysylltu i archebu llyfrau unai trwy ffôn, e-bost neu ar-lein, gydag opsiwn i gasglu'u pecyn o'u llyfrgell neu gael eu pecyn llyfrau wedi'i ddanfon i'w cartref. Roedd nifer yn dewis yr opsiwn hwn am resymau gwahanol, ac roedd yn opsiwn hanfodol ar gyfer y sawl oedd yn gwarchod neu'n fregus eu hiechyd.

Yn ystod y cyfnod 2020/21 benthyciwyd 77,641 o eitemau (sydd yn 18% o'r ffigwr blynyddol arferol) gydag oddeutu 2,000 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth yn fisol (o'i gymharu â 7,000 y mis mewn blwyddyn arferol). Yn ystod y naw mis rhwng Gorffennaf-Mawrth, cludwyd 2,385 pecyn i'r cartref, sef 265 pecyn y mis ar gyfartaledd, a llwyddwyd hefyd i gynnig nwyddau mislif am ddim trwy'r cynllun grant Trechu Tlodi, lle gwelwyd dros 500 o archebion yn ein cyrraedd, a'r stoc yn rhedeg allan o fewn dyddiau.

Dechreuwyd gynnig amseroedd stori ar-lein i deuluoedd ar ddechrau Ionawr 2021. Yn ystod y cyfnod hwn cynhaliwyd 24 sesiwn byw ar-lein gyda 179 o blant ac oedolion yn mynychu.

Buom yn cydweithio gyda'r Rhwydwaith Cyfuno ar gomisiwn i ddarparu pecynnau llyfrau ar gyfer y Cynllun Darllen Teulu. Crëwyd a rhannwyd 135 o becynnau gyda theuluoedd plant y Cyfnod Sylfaen yn yr ardaloedd darged.

Cydweithwyd hefyd gydag Arloesi Gwynedd Wledig a chynlluniau'r Economi Gylchol yng Nghymru i sicrhau nawdd i sefydlu 'Llyfrgell y Pethau' mewn 3 lleoliad yng Ngwynedd.

Cefnogodd rhai o staff y Gwasanaeth Llyfrgell y Tîm Covid-19 Galwadau Cymunedol hefyd yn ystod y cyfnod cyntaf.

Bu Neuadd Dwyfor ar gau yn ystod 2020/21, a hynny oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Fodd bynnag, cychwynwyd gwaith adeiladu'r prosiect gwella yn ystod mis Tachwedd yn dilyn cais buddsoddiad cyfalaf llwyddiannus i'r Cyngor a dechreuwyd ar y gwaith o gynllunio model newydd o weithio, mewn trafodaethau gyda'r tîm Llyfrgell a'r tîm Theatr/Sinema, a fyddai'n gweld y ddau dîm yn darparu un gwasanaeth i gwsmeriaid Neuadd Dwyfor. Sefydlwyd Tîm Defnyddwyr yn gefn i'r prosiect hwn yn ogystal. Llwyddwyd i ddenu £125,000 gan Lywodraeth Cymru i'r prosiect ail-ddatblygu.

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal amgueddfeydd, orielau ac archifau yng Ngwynedd. Yn 2020/21 trefnodd yr amgueddfeydd a'r orielau weithgareddau cymunedol ac addysgol. Darparwyd 10 pecyn dysgu newydd ar lein. Anfonwyd 120 o becynnau celf allan i'r gymuned. Cefnogwyd 6 ysgol a 55 o deuluoedd gan gynllun Llofnod Dysgu Teulu o Adref. Sicrhawyd bod y casgliadau yn ddiogel yn y Cyfnod Clo, a phan agorodd Storiel yn ystod Hydref/Tachwedd roedd 73% o'r ymwelwyr o Wynedd.

Cefnogwyd plant a phobl Gwynedd gan 27 o brosiectau Celfyddydau Cymunedol. Un enghraifft oedd "Llesiant i Mi" lle gwelodd 83% gynnydd yn eu llesiant. Derbyniodd 23 sefydliad/artist grant a threfnwyd cynhadledd Dal i Fynd i'r sector. Gwyliodd 5,000 gyngherddau byw gan gerddorion o Wynedd ar Facebook. Dosbarthwyd dros 1,000 o becynnau prysur i blant a theuluoedd y sir drwy fanciau bwyd a phartneriaid eraill.

Mae llyfr lloffion o holl weithgaredd Celfyddydau Cymunedol ar gael yma. Cynhaliwyd gynhadledd lwyddiannus dros Zoom i amlygu sut roedd y celfyddydau wedi newid, arbrofi a llwyddo i gynnal gweithgareddau a chefnogi cymunedau, unigolion a llesiant pobl Gwynedd yn ystod y Cyfnod Clo.

Bu'r Archifdai ar gau am rhan helaeth o'r flwyddyn, ond llwyddwyd i agor i nifer cyfyngedig am gyfnod o 13 wythnos. Yn ystod yr wythnosau hynny ymwelodd 191 gan weld 2,558 o ddogfennau. Yn ystod y flwyddyn ymatebodd y Gwasanaeth i 2,174 o ymholiadau, defnyddiodd 23,339 ein catalogau ar-lein, ac aethpwyd ati yn ystod y Cyfnod Clo i ddarparu 143 o gasgliadau i'w hychwanegu i'r catalogau ar-lein. Nid oedd modd i'r Swyddog Addysg ymweld â'r ysgolion ond crewyd 42 o becynnau unigryw o adnoddau i ysgolion amrywiol.

Mae'r adran yn gyfrifol am rwydwaith o 12 o Ganolfannau Byw'n Iach ar draws Gwynedd. Ers 2019 mae'r canolfannau hyn yn cael eu rheoli drwy gytundeb gyda Chwmni Byw'n Iach Cyf. Mae'r canolfannau wedi bod ar gau am gyfnodau helaeth yn 2020/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Pan lwyddwyd i agor y drysau yn mis Medi 2020, bu i 91% o ddefnyddwyr adrodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda gwasanaeth Byw'n Iach. Mewn ymateb i Covid-19 fe wnaeth Cwmni Byw'n Iach gychwyn gwasanaeth ymarfer rhithiol a chynhaliwyd 818 o sesiynau ffitrwydd rhithiol dros y cyfnod.

Er gwaethaf bod nifer o swyddogion y Tim Chwaraeon wedi bod yn gweithio ar y cynllun Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) am ran helaeth o'r flwyddyn, llwyddwyd i barhau i gynnig cyfleoedd cyfranogi cynhwysol mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol. Roedd rhan helaeth o'r sesiynau hyn yn rhithiol, ond pan oedd yn bosibl bu i'r tîm barhau i ymweld ag ysgolion a chynnig sesiynau gwella ffitrwydd – tu allan – ynghyd â nifer o gyrsiau a chystadlaethau gwahanol. Bu i'r tîm hefyd hyrwyddo a chynnig cefnogaeth i glybiau chwaraeon Gwynedd gwblhau ceisiadau am grantiau amrywiol gan Chwaraeon Cymru oedd yn cynnig cymorth ariannol yn sgil Covid-19.

Mae'r adran yn gyfrifol am ddau Barc Gwledig - Parc Glynllifon a Pharc Padarn. Yn ystod 2020/21 bu raid i'r ddau barc gau i ymwelwyr yn ystod cyfnodau clo a hynny oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Mae'r Ysbyty Chwarel wedi bod ar gau i'r cyhoedd drwy'r flwyddyn a hynny oherwydd newidiadau tu mewn i'r adeilad sy'n cynnwys mesurau i sicrhau diogelwch y wardeiniaid.

Yn ystod y flwyddyn 2020/21 fe fu Glynllifon yn llwyddiannus yn eu cais am arian Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac mae'r gwaith o adfer rhai strwythurau hanesyddol a gwella diogelwch y Parc wedi cychwyn. Ym Mharc Padarn hefyd y flaenoriaeth oedd sicrhau diogelwch y cyhoedd a phenodwyd penseiri cadwraeth i archwilio strwythurau'r safle a rhoi mesurau diogelwch newydd yn eu lle.

Blaenoriaethau Lleol – Cynllun y Cyngor

Un o'r blaenoriaethau lleol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor ydi'r dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflog da. Bu i Aelodau yn ardal Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn nodi hyn fel blaenoriaeth uchel i'w hardaloedd. Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel wedi ei sefydlu er mwyn ymateb i'r broblem ac mae'n canolbwyntio ar gyfleoedd fydd yn dod â budd i'r cymunedau hyn (gweler Rhan 1 o'r adroddiad hwn).

Mae gwella cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn ardal Dolgellau yn un arall o'n blaenoriaethau lleol, ac rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy

ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol ynghyd â gweithio'n frwdfrydig gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd ac Arloesi Gwynedd Wledig i gwrdd â'r angen.

Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r tîm adfywio wedi cynnal arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol, sy'n adnabod cyfle i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn wahanol iawn i ni gyd ac wedi ein profi i'r eithaf. Gallwn fod yn falch fodd bynnag o'r hyn sydd wedi'i gyflawni mewn amgylchiadau newydd ac heriol ac mae'r adran wedi llwyddo i sicrhau parhad ein gwasanaethau tra'n cydymffurfio â gofynion yr argyfwng.

Gwastraff ac Ailgylchu

Mae'n bwysig iawn i bobl Gwynedd bod eu gwastraff yn cael ei gasglu ar yr amser rydym wedi addo ei gasglu. Yn ystod 2020/21 cyflawnwyd tua 4,556,708 o gasgliadau gwastraff. O'r rhain, cafwyd 10,417 o gwynion am fethiant casglu (sydd yn gyfystyr â 0.002%). Roedd rhai o'r methiannau hyn oherwydd materion yn codi mewn perthynas â'r cyfnod argyfwng, ond roedd canran uchel yn parhau oherwydd rhesymau tebyg i'r arfer megis effeithiau tywydd garw neu ddiffygion ar ein rhan ni. Er ein bod wedi gwella profiadau pobl Gwynedd o'r gwasanaeth gan leihau achosion o gasgliadau wedi ei methu a gwella, rydym bellach wedi adolygu ein harferion gwaith ac rydym wrthi'n newid trefniadau'r cylchdeithiau casglu gwastraff. Rydym eisoes wedi cwblhau'r drefn yn ardal Arfon a Dwyfor. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd yn bosib cwblhau'r gwaith yn ardal Meirionnydd fel y bwriadwyd yn 2020/21 ond mae'r drefn wedi'i gyflwyno bellach ac mae'r arwyddion cynnar yn galonogol.

Mewn ymateb i gwynion am flerwch a sbwriel yn cael ei ollwng neu ei golli o gerbydau casglu sbwriel ac ailgylchu, mae'r newidiadau patrwm gwaith yn gam ymlaen. Mae effaith positif iawn wedi'i weld ers cyflwyno ein cerbydau casglu newydd gyda llai o ddeunyddiau yn cael eu colli.

Yn ystod 2021/2022 byddwn yn parhau i ymateb i bryderon ein trigolion gan adeiladu a gwella ar ein trefniadau ymateb a chwynion.

Mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i'n plant a phlant ein plant. Mae economi sy'n hybu ailddefnyddio ac ailgylchu gan leihau gwastraff (a elwir yn Economi Gylchog) yn hanfodol wrth i ni weithio tuag at y nod yma. Rydym yn gweithio er mwyn hyrwyddo'r economi gylchog yng Ngwynedd ac yn sicrhau bod cynlluniau ail ddefnyddio ac atgyweirio yn dod yn fwy o ran o'n gwaith dydd i ddydd. Byddwn hefyd yn trefnu ymgyrchoedd er mwyn cyfarch y gwaith pwysig hwn a dyhead y sir i hybu ail-ddefnyddio. Trwy wneud hyn gallwn sicrhau bod deunyddiau'n parhau i gael eu defnyddio ac osgoi gwastraff – bydd hyn yn cyfrannu at ein hagenda Cymru ddiwastraff.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi llwyddo i ddenu gwerth **£1.4m** o arian grant yn y maes Economi Gylchol sydd wedi ein gweld yn cyflawni sawl prosiect cyffrous iawn megis:

- Prosiect Addasu Canolfan Ailgylchu Llandygai Bangor gan gynnwys sefydlu siop ail-ddefnyddio
- Prosiect addasu cyfarpar trin deunyddiau ailgylchu yn Caergylchu, Caernarfon
- Prosiect darpariaeth bwyd cymunedol
- Prosiect Warws Werdd ar y cyd gydag Antur Waunfawr
- Prosiect caffi trwsio
- Prosiect ail-ddefnyddio/eitemau swmpus
- Gorffen dosbarthu'r Cartgylchu

Rydym yn falch o gofnodi ein bod wedi ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio 67% o wastraff cartrefi Gwynedd yn 2020/21. Mae hyn yn gynnydd o 2.26% ers 2019/20. Roedd angen i ni gyrraedd targed statudol o fod yn ailgylchu 64% o wastraff y sir erbyn 2019/2020 ac ein targed statudol nesaf yw bod ar berfformiad o ailgylchu 70% o wastraff y sir erbyn diwedd Mawrth 2025.



Mae claddu gwastraff yn y ddaear yn achosi llygredd i'r tir, dŵr a'r awyr. Roeddem yn gobeithio cyrraedd y nod o anfon dim gwastraff i'w dirlenwi erbyn diwedd 2020/21 ac yn falch o gadarnhau, gyda safle llosgi gwastraff gweddilliol Parc Adfer yn llawn weithredol, nad oes dim gwastraff o'r sir yn cael ei waredu'n uniongyrchol drwy dirlenwi bellach.

Byddwn yn gweithio ar strategaeth wastraff newydd i'r sir. Bydd y strategaeth yn ystyried dulliau arloesol i annog ailddefnyddio a chynyddu ailgylchu er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd y targed statudol newydd o 70% yn cael ei ailgylchu erbyn 2025. Bydd hefyd yn cyd-fynd â strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru.

GwyriAD

GwyriAD yw ein safle trin bwyd sydd wedi'i leoli yn y sir ac sy'n trin yr holl fwyd a gesglir gennym yn wythnosol gan drigolion a busnesau.

Gwelir yn y graff sy'n dilyn fod y tunelli o wastraff bwyd domestig sy'n cyrraedd y safle wedi cynyddu'n ystod 2020/21 tra bod y tunelli o wastraff bwyd masnachol wedi gostwng yn sylweddol. Mae hyn yn dangos sgil effaith y pandemig ar ein casgliadau, ond wedi dweud hynny, rydym yn falch o nodi fod y cyfanswm o dunelli o wastraff bwyd sy'n cyrraedd y safle yn sefydlog er gwaetha'r argyfwng.



Oherwydd natur y gwaith wyneb i wyneb sydd ynghlwm ag ymdrechion i gynyddu casgliadau bwyd, prin iawn yw'r cyfleoedd wedi bod i gyflawni'r gwaith hwn yn ystod cyfnod yr argyfwng. Mae'r gwaith yma fodd bynnag yn parhau'n flaenoriaeth i'r Adran dros y cyfnod nesaf.

Gwasanaethau Gwastraff Masnachol

Rydym yn darparu casgliadau gwastraff ac ailgylchu masnachol i dros 2,000 o fusnesau'r sir ac yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld gwelliant yn y lefelau o wastraff masnachol sy'n cael ei ailgylchu neu gompostio. Yn 2020/21 roedd 49% o wastraff masnachol yn parhau i gael ei ailgylchu/gompostio. Mae'r flwyddyn diwethaf wedi gweld nifer o fusnesau ar gau o ganlyniad i'r argyfwng wrth gwrs ond mae'n flaenoriaeth gennym dros y cyfnod nesaf i annog ein cwsmeriaid masnachol i fanteisio ar y gwasanaeth ailgylchu ac ailgylchu bwyd.

Edrychiad Strydoedd a Thiroedd Cyhoeddus

Mae'r amgylchedd leol yn hynod bwysig ac elfen fawr o hyn yw gweld ein strydoedd a thiroedd yn lân, yn daclus ac yn ddiogel. Rydym yn defnyddio mesurydd o'r enw 'Mynegai Glendid' (sy'n gyfuniad o asesiad mewnol ac allanol) er mwyn asesu safon glendid ac edrychiad strydoedd. Yn 2019/20 roedd ein safon glendid yn 73% ond nid oedd modd casglu'r data yma eleni oherwydd cyfyngiadau'r argyfwng. Cadwch Gymru'n Daclus sydd fel arfer yn cynnal arolwg allanol i sefydlu faint o 'ddiffygion' sydd ar ein strydoedd (megis sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarét) ond yn anffodus, ni chyflawnwyd y gwaith yma'n ystod 2020/21.

Bu pwysau sylweddol ar y gwasanaeth glanhau a gwasanaethu biniau wrth ail-agor dros haf 2020 gyda biniau stryd dan gryn bwysau o ganlyniad i lefelau uwch o ymwelwyr nac arfer. Bydd yr Adran yn ail-edrych ar ein trefniadau glanhau a gwasanaethau biniau ar gyfer ail-agor y tymor yn 2021. Mae'n bwysig i ni ddysgu o brofiadau'r llynedd wrth ail agor eleni. Byddwn hefyd yn gosod biniau ailgylchu ychwanegol ar y stryd fel rhan o gyfleon i drigolion ailgylchu wrth ymweld â chanol trefi.

Rydym wedi bod yn cydweithio ar brosiect *Delwedd Bangor*¸ sydd â'r nod o wella edrychiad amgylchedd y ddinas. Mae rhai o'r prosiectau yn cynnwys cael gwared ag arwyddion tai ar osod, cefnogi ymgyrch *Bangor di-blastig*, gwella edrychiad y Stryd Fawr a threialu hysbysu ar gylchfannau. Wrth i ni ystyried partneriaethau tebyg ledled y sir, gwelwyd fod angen edrych ar ein gweledigaeth ar gyfer cymunedau glân a thaclus yn ehangach, ac mae'r mater yma bellach wedi ei gynnwys fel prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22.

Cynnal Tiroedd

Mae'r adran yn gyfrifol am gynnal ymylon ffyrdd a thiroedd agored er mwyn gwella ansawdd amgylchedd ein trefi a'n pentrefi a'u gwneud yn fwy diogel i drigolion.

Mae lleiniau tir yn gallu gwneud cyfraniad bositif i'n amgylchedd leol, nid yn unig o ran edrychiad, ond hefyd oherwydd ei botensial fel cynefin. Mae hybu bioamrywiaeth o fewn ein lleiniau tir bellach yn flaenoriaeth a rydym wedi addasu ein patrymau torri gwair ar hyd ffyrdd sirol er mwyn cefnogi'r nod hwn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i leihau ein defnydd o chwynladdwr niweidiol.

Rydym wedi denu grantiau ar gyfer ein gwaith i hybu cynefinoedd naturiol, blodau gwyllt a bioamrywiaeth, fel y gwelir yn y tabl a ganlyn:

Prosiect	**Disgrifiad**
Mannau Gwyrdd Gwydn: Coridorau a Mannau Gwyrddach *Ffynhonnell ariannu: Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW)*	Ymgysylltu a chefnogi grwpiau a chynghorau cymunedol i fabwysiadu ymylon lleol fel rhan o fenter i helpu i amddiffyn, rheoli a chynyddu cynefinoedd cyfeillgar i beillwyr er mwyn sicrhau bod coridorau bywyd gwyllt yn cael eu cynyddu a'u cysylltu'n well.
Ffridd Rasys a Llwyn Isaf: Prosiect i sefydlu blodau gwyllt a choedwigoedd ar safleoedd tirlenwi *Ffynhonnell ariannu: Cronfa Her Partneriaeth Lleoedd Natur / Cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur*	Sefydlu dolydd blodau gwyllt a choed / llwyni brodorol. Gwella bioamrywiaeth trwy reoli glaswelltir yn well. Rheoli hawliau tramwy yn well yn ogystal â mynediad mwy agored i dir a dŵr.

Tud. 94

Prosiect	Disgrifiad
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur *Ffynhonnell ariannu: Cynllun WCVA - Partneriaeth Natur Leol*	Pecyn o brosiectau sy'n cynnwys rheoli rhywogaethau ymledol, plannu coed brodorol, creu dolydd blodau gwyllt, plannu coed stryd a phlanhigion peillwyr. Bydd llawer o'r prosiectau'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol.
Isadeiledd Gwyrdd Trefol - Bangor	Cynyddu'r isadeiledd gwyrdd trwy ddisodli arwynebau caled presennol mewn meysydd parcio gydag ardaloedd glaswelltog, coed brodorol ac opsiynau draenio cynaliadwy.

Caeau Chwarae Plant

Rydym yn gwybod bod meysydd chwarae yn bwysig i blant, rhieni a gofalwyr plant ond oherwydd bod offer chwarae'n ddrud ac arian yn hynod brin, mae eu cynnal mewn modd sy'n ddiogel i blant a phobl ifanc allu eu mwynhau yn heriol.

Rydym wedi llythyru â chynghorau cymuned am eu sylwadau cychwynnol i bartneriaethu a byddwn yn parhau gyda'r trafodaethau hyn yn ystod 2021/22. Byddwn hefyd yn cysylltu â grwpiau a phartneriaid eraill o fewn y gymuned byddai â diddordeb partneriaethu gyda'r gwasanaeth.

Gwasanaeth Profedigaeth

Pwrpas y gwasanaeth yw i dalu staff yn gywir ac ar amser, tra'n cadw cyfrifon priodol ar gyfer cyrff allanol fel CThEM (HMRC). Bu ambell achos yn ystod y flwyddyn lle roedd trefniadau argyfwng o weithio o gartref wedi arwain at fethiant i anfon gwybodaeth i'r Uned Gyflogau yn amserol, gyda'r canlyniad fod angen gwneud addasiad i gyflogau. Er hynny, nifer fychan oedd rhain a dros gyfnod o 5 mlynedd mae nifer yr achosion misol sy'n arwain at addasiadau yn y cyflog yn parhau i ddangos tueddiad ar i lawr.

Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi technoleg o bob math i helpu staff a phobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a systemau.

Daeth yn glir ar gychwyn cyfnod argyfwng Covid-19 bod angen newid sylweddol a chyflym i ganiatáu holl staff swyddfeydd y Cyngor i weithio o adref yn effeithiol o'r diwrnod cyntaf. Er i'r sefyllfa esblygu ar garlam, fe wnaethpwyd sawl newid i isadeiledd y Cyngor drwy gynyddu cyswllt y rhyngrwyd, prynu a dosbarthu trwyddedau, cynyddu capasiti'r isadeiledd ac adeiladu wal dân newydd. Fe wnaethpwyd y newidiadau hyn ar seiliau cadarn oedd ar droed yn barod, gyda'r newidiadau hyn yn rhoi llwyfan iach a gwydn i alluogi parhad gwasanaeth i bobl Gwynedd. Mae'r argyfwng yn golygu y bydd gogwydd dra-wahanol ar y strategaeth ddigidol newydd sy'n cael ei baratoi ar gyfer y Cyngor.

Cyn yr argyfwng, roedd uchafswm o 138 o ddefnyddwyr yn gweithio o leoliadau tu allan i'r swyddfa, ond newidiodd hyn yn gynyddol yn 2020/21 gyda 1,450 yn gweithio o gartref.

Tud. 114

Nifer yn gweithio gartref 2020/21



Hefyd, darparwyd dros 900 gliniadur newydd yn ystod cyfnod yr argyfwng, gan godi'r nifer gliniaduron i 2,250. Er yr holl newid, cadwyd safonau uchel gyda 99% yn adrodd eu bod yn hapus gyda gwasanaeth y Ddesg Gymorth.

Uwchraddiwyd o 'Skype' i alluogi cynnal cyfarfodydd rhithiol ar 'Teams', sydd bellach yn ran annatod o waith gwasanaethau'r Cyngor, a 'Zoom' ar gyfer cyfarfodydd gyda chyfieithu ar y pryd.

Defnydd o Teams
(chwarter Ionawr – Mawrth 2021)

	Chwarter	Dyddiol
Neges chwim (chat)	669,404	10,973
Sgwrs 1:1	103,314	1,693
Amser a dreuliwyd mewn cyfarfod (munudau)	6,998,611	114,731
Cyfarfodydd a grëwyd	32,445	531

Cwblhawyd sawl prosiect isadeiledd TG yn llwyddiannus. Cryfhawyd y gallu i adfer trychineb drwy gryfhau gwytnwch, gan gynnwys generadur wrth gefn yn y Pencadlys. Hefyd, cryfhawyd ein amddiffynfeydd a'n gallu i adfer pe byddai ymosodiad seibr.

Bu gwelliant anferthol i'r isadeiledd mewn ysgolion. Uwchraddiwyd y rhwydwaith ym mhob ysgol, gan gyflwyno 300 swîts rhwydwaith a dros 1,000 o fannau cyswllt di-wifr. Gyda grant gan Lywodraeth Cymru, darparwyd 2,506 gliniadur i'r ysgolion cynradd, gyda 1,947 pellach a 893 iPad i'w dosbarthu. Bydd 1,062 gliniadur yn cael eu dosbarthu i'r athrawon cyn bod ein sylw yn troi at ein disgyblion uwchradd.

Datblygodd yr Uned Datblygu Systemau TG 26 system newydd mewn ymateb i'r argyfwng. Roedd nifer o'r rhain yn gyfleuster ar-lein uniongyrchol i'r cyhoedd, gan gynnwys ceisiadau am grantiau busnes ac apwyntiadau canolfannau ailgylchu. Hefyd,

roedd nifer o ddatblygiadau mewnol, megis system asedau fflyd sy'n rheoli manylion cerbydau.

Datblygodd yr uned 27 system TG arall, cyfanswm o 53. Derbyniwyd adborth gan 38 o'r prosiectau, gyda 37 yn datgan eu bod yn hapus ac heb unrhyw welliant i'w gynnig. Roedd cwsmer y prosiect arall yn fodlon, tra'n cynnig gwelliant o ran cyfathrebu.

Llwyddwyd i gadw achrediad 'Public Services Network' (PSN) sy'n datgan bodlonrwydd Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU gyda rhwydwaith a gwasanaethau TG y Cyngor o ran diogelwch, a parhawyd gyda'r safon 'Aur' yn genedlaethol ar safon a glendid data a geir yng nghofrestr Tir ac Eiddo Gwynedd.

Tud. 116

Adran Cefnogaeth Corfforaethol

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Bu'n flwyddyn annisgwyl ac anarferol i'r adran gyfan efo nifer o swyddogion yn arall-gyfeirio i gyflawni gwaith oedd yn allweddol i alluogi gwasanaethau rheng-flaen i weithredu – o sicrhau cyflenwadau PPE ar gyfer staff i gadw cyswllt uniongyrchol a chefnogi'r mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Ar ben hynny, roedd gan rhai o'r gwasanaethau rôl gritigol yn cynghori a chenhadu'r neges ynglŷn â rheolau ac arferion gorau yn ystod yr argyfwng, ac yn dilyn hynny roeddynt yn flaenllaw yn atgyfodi'r gwasanaethau y bu'n ofynnol eu rhewi am gyfnod.

Bu'n ymdrech lew i gyflawni hyn oll tra'n cynnal gwasanaethau allweddol ac mae'r crynodeb hwn o berfformiad am y flwyddyn yn adlewyrchu hynny.

Cyswllt Cwsmer

Mae'n bosib i bobl Gwynedd gael mynediad i nifer o wasanaethau ar-lein, ar amser sy'n gyfleus iddynt, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, tra'n cynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor.

Gellir cysylltu ynghylch 33 (27 yn 2019/20) o faterion megis priffyrdd, archebu a thalu am docyn parcio, trefnu ymweliad â chanolfan ail-gylchu, talu am ginio ysgol a mwy. Mae dros 50% o geisiadau am wasanaeth mewn 17 maes (4 yn 2019/20) yn cael eu cyflwyno ar-lein gydag 88% o'r ceisiadau am apwyntiad i ymweld â chanolfan ail-gylchu yn cael eu cyflwyno yn y modd hwnnw. Yn ystod 2020/21 mae 11,689 o drigolion wedi agor cyfrif hunanwasanaeth o'r newydd, sydd yn 2,000 yn fwy na wnaeth hynny yn 2019/20.

Rydym yn darparu gwasanaeth ffôn drwy Galw Gwynedd. Mae perfformiad eleni, o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau, wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn blaenorol ac hynny er bod 12,000 yn fwy o alwadau wedi'u derbyn h.y. o 49 eiliad ar gyfartaledd yn 2019/20 i 47 eiliad. Byddai'r perfformiad wedi gwella mwy na hyn oni bai am y nifer o alwadau yr ymdriniwyd â hwy ddechrau'r haf ynglŷn ag apwyntiadau canolfannau ail-gylchu.

Rydym yn parhau i roi sylw i hyn ac yn ymdrechu i wella perfformiad, yn bennaf trwy gyfuniad o hyrwyddo pellach ar hunan-wasanaeth ac ymestyn gwasanaeth sgwrs ar-lein.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd er mwyn i ni rannu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor, ac i glywed barn ein trigolion, yn

flaenoriaeth. Llwyddwyd i gynnal 4 ymarferiad i gasglu barn pobl Gwynedd am wahanol wasanaethau yn ystod 2020/21 gyda 8,910 o unigolion yn manteisio ar y cyfleoedd yma i leisio barn. Yr ymarferion wnaeth ddenu y mwyaf o ymateb oedd y rhai ynglŷn â'r premiwm tai haf a'r canolfannau ail-gylchu.

Erbyn Mawrth 2021, roedd 34,172 o unigolion yn derbyn clipiau fideo, delweddau digidol a negeseuon yn ddyddiol drwy gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram y Cyngor, sef cynnydd o 4,672 ers y flwyddyn flaenorol.

Canolbwyntiwyd ar alluogi trigolion i gael mynediad rhwydd i wasanaethau yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 ac i gyfleu negeseuon allweddol am faterion iechyd cyhoeddus. Sefydlwyd newyddlen electroneg i breswylwyr ("Newyddion Gwynedd Bach") a datblygwyd trefn ar gyfer cyfathrebu negeseuon i gynulleidfaoedd lleol iawn drwy'r gwefannau cymdeithasol.

Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

Llwyddwyd i wella perfformiad o fewn y gwasanaeth gyda 94% o gofrestriadau marwolaethau yn cael eu cofrestru o fewn 5 diwrnod, sy'n rhagori ar berfformiad y llynedd er bod y rhan helaethaf o'r cofrestru wedi'i gyflawni dros y ffôn yn sgîl y pandemig.

Dim ond 51% o enedigaethau a lwyddwyd i'w cofrestru o fewn 5 diwrnod oherwydd y cyfyngiadau yn ystod y Cyfnod Clo – hynny o'i gymharu â 98% yn 2019/20. Fodd bynnag, llwyddwyd i ymdrin a'r ôl-groniad o rai cannoedd o enedigaethau i'w cofrestru cyn diwedd y flwyddyn.

Cwtogwyd yn sylweddol ar nifer y priodasau yr oedd yn bosibl eu cynnal a bu i hyn arwain at golled incwm i'r Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Cefnogi Busnes y Cyngor

Cydlynwyd y gwaith o baratoi a chyhoeddi adroddiad perfformiad y Cyngor ar gyfer 2019/20 ac adolygu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22. Mae prosiect penodol wedi'i sefydlu er mwyn arwain ar weithrediad y Cynllun Cydraddoldeb gyda'r gwaith yn y lle cyntaf wedi bod yn canolbwyntio ar geisio cael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu trigolion y sir yn y cyd-destun yma.

Darperir cefnogaeth i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n ceisio sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio er mwyn gwella lles trigolion. Un o brif flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw diweddaru'r Asesiadau Llesiant ar gyfer y ddwy sir ac mae hynny yn derbyn sylw ar ddechrau 2021/22.

Ymchwil a Gwybodaeth

Fe amlygodd y pandemig yr angen am wybodaeth gywir ac amserol am natur yr argyfwng. O ganlyniad fe fu'r gwasanaeth yn gwneud gwaith sylweddol ar gasglu, dadansoddi ac adrodd data perthnasol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor.



Un mater sy'n peri pryder yw bod 30 o ddigwyddiadau gwybodaeth wedi bod ar draws y Cyngor yn 2020/21 (h.y. lle mae gwybodaeth wedi mynd ar goll neu fynd i'r person anghywir); mae hyn yn cymharu

â 20 yn ystod 2019/20. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod tua traean yr achosion wedi deillio o amgylchiadau gweithio-o-adref yn ystod cyfnod y pandemig. Rydym eisoes wedi paratoi canllawiau a deunydd hyrwyddo yn ymwneud â materion penodol sydd angen cofio amdanynt wrth weithio o adref, ac wedi diweddaru ein rhaglen hyfforddi a chynnal sesiynau hyfforddi rhithiol gyda thimau er mwyn mynd ar ôl y gwahanol faterion sydd wedi dod i'r amlwg.

Fe gychwynnwyd symud gwasanaethau'r Cyngor i fersiwn newydd o iGwynedd (system rheoli cofnodion electronig y Cyngor) gyda'r ymateb hyd yma gan wasanaethau sydd wedi trosglwyddo yn adrodd bod y system newydd yn hwyluso rhannu gwybodaeth a dogfennau.

Yn ystod y flwyddyn mae'r nifer o geisiadau gan unigolion sy'n dymuno gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain (ceisiadau diogelu data) wedi gostwng i 53 (66 yn 2019/20). Ymatebwyd i 85% o'r ceisiadau hyn o fewn yr amserlen ddisgwyliedig o 1 mis calendr.



Ar ben hynny cafwyd 842 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Bu i'r gyfradd ymateb yn brydlon gynyddu o'i chymharu a'r flwyddyn flaenorol i 83% ac mae hynny yn galonogol o ystyried y pwysau ar wasanaethau'r Cyngor yn ystod y pandemig.

Prynu

Yn ychwanegol at y gwaith ar y prosiect Blaenoriaeth Gwella 'Cadw'r Budd yn Lleol' bu'r Gwasanaeth Caffael yn ymateb i heriau'r pandemig ac yn chwarae rhan allweddol yn nhrefniadau sicrhau cyflenwadau PPE i staff maes. Mae'r tri Tîm Categori wedi bod yn rhan allweddol o'r trefniadau hefyd ac yn parhau i fod ynghlwm â'r elfennau prynu, dosbarthu a rheoli stoc. Mae'r Tim Categori Pobl yn ogystal yn ymdrin yn uniongyrchol â'r cartrefi henoed a'r gwasanaethau cymdeithasol yn ehangach.

Democratiaeth a laith

Pwrpas y Gwasanaeth Democratiaeth yw cefnogi Cynghorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd.

Mae'r prosiect caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd y Cyngor wedi symud yn ei flaen yn syfrdanol yn ystod y flwyddyn gyda phob un o gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor wedi'i gynnal yn rhithiol yn ystod y pandemig. Mae ystyriaeth yn cael ei roi ar ddechrau 2021/22 i fabwysiadu protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd i'r dyfodol, gyda rhagolygon y bydd nifer o gyfarfodydd ffurfiol yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol ar ôl i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi.

Ar gyfer cyfnod 2020/21 bu i'r canran rhaglenni pwyllgorau sy'n cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen (o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod) aros ar 92%. Mae gwaith gydag awduron adroddiadau yn parhau er mwyn gwella'r perfformiad yma.

Mae safon gwaith yr Uned Gyfieithu yn parhau i gael ei werthfawrogi, gyda 98.5% o'r holiaduron bodlonrwydd a gwblhawyd yn sgorio'r gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig yn 5 allan o 5. Bu i'r Uned Gyfieithu chwarae rhan

allweddol yn galluogi cyfieithu ar y pryd ar ffurf rhithiol, gan gynorthwyo sefydliadau eraill i ddarparu yr un gwasanaeth.

Llwyddodd "Hunaniaith" (Menter Iaith Gwynedd) hefyd i newid ei ffordd o weithio gyda'r gymuned, gan ddefnyddio'r dulliau rhithiol i barhau gyda'i ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sir.

Adnoddau Dynol

Bu gostyngiad sylweddol yn y nifer diwrnodau salwch fesul aelod o staff yn ystod y flwyddyn i 6.3 diwrnod y pen ar gyfartaledd (i lawr o 9.78 diwrnod y pen yn 2019/20) - hynny yn bennaf oherwydd y Cyfnod Clo ond hefyd gan bod y gwaith o hybu iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â gwell rheolaeth o absenoldebau wedi dwyn ffrwyth. Mae'r Cyngor yn parhau i fod ymysg y cynghorau sydd â'r lefel isaf o absenoldebau salwch.

Nifer o ddyddiau a gollwyd y pen ar gyfartaledd o ganlyniad i absenoldeb salwch

2016/17 - 9.00
2017/18 - 8.72
2018/19 - 9.45
2019/20 - 9.78
2020/21 - 6.30

Cynhaliwyd tri gwrandawiad apêl cyflogaeth yn ystod y flwyddyn gyda penderfyniadau'r Pwyllgor yn cefnogi penderfyniad gwreiddiol y cyflogwr ar y tri achlysur tra bo côd ymddygiad newydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer staff o fewn y Cyngor.

Gwasanaeth Cefnogol

Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol i staff y Cyngor. Mae'r gwaith o gyflwyno system Hunanwasanaeth i staff sydd heb gyfrif TG yn flaenoriaeth. Golyga hyn bod gan reolwyr fynediad hwylus at statws DBS staff sydd mewn swyddi rheoledig, bod modd derbyn slip cyflog yn electroneg yn ogystal â derbyn gwybodaeth yn fwy hwylus ac yn gynt nag yn y gorffennol. Bellach mae 92% (71% yn 2019/20) o staff y Cyngor yn fyw ar y system Hunanwasanaeth gyda gwaith pellach i ymestyn y nifer yma yn ystod 2021/22.

Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu i staff ac aelodau etholedig y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arwain ar gynlluniau ar gyfer hyfforddeion a phrentisiaethau yn ogystal â bod yn flaenllaw yn cefnogi diwylliant Ffordd Gwynedd y Cyngor. Datblygwyd ddulliau dysgu rhithiol yn ystod y flwyddyn gan ganolbwyntio ar greu amgylchedd dysgu o bell a chynnal canolfannau asesu ar-lein.

Derbyniodd y gwasanaeth, ar y cyd efo'r Adran Addysg, wobr gan Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Llywodraeth Cymru am y gwaith a gyflawnwyd yn datblygu arweinyddiaeth trwy gymhelliant ym maes addysg.

Mae'r gwasanaeth yn cydlynu trefniadau ymateb i gwynion ac yn hyrwyddo'r dysgu o'r cwynion a dderbynnir. Yn ystod y flwyddyn bu i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol ddatgan bod y Cyngor yn arwain ar ddefnyddio cwynion i wella gwasanaeth.

Erbyn hyn, mae 208 o fusnesau y sir, sef cynnydd o 24 yn y flwyddyn ddiwethaf, wedi ymuno efo'r Cynllun Buddiannau Staff a weinyddir gan y gwasanaeth. Mae'r Cynllun yn cyfrannu at hyrwyddo'r Prosiect Prynu'n Lleol gan ddefnyddio eu cysylltiadau efo'r

busnesau i'r perwyl hwn.

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Ail-gyfeiriwyd llawer o ymdrechion y gwasanaeth i ymdrin ag amryw agweddau o ymateb y Cyngor i'r pandemig. Cafodd dros 600 o staff bregus ymgynghoriad gyda'r Uned Iechyd Galwedigaethol er mwyn cynnig arweiniad ar lefel y risg iddynt ac ar unrhyw addasiadau i'w gwarchod yn ystod y Cyfnod Clo. Yn ogystal bu i'r gwasanaeth ymateb ac ymchwilio i achosion o'r haint ac i glystyrau mewn gweithleoedd neu ymysg gweithlu'r Cyngor.

Adroddwyd ar 146 o ddigwyddiadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â 51 digwyddiad yn y flwyddyn flaenorol, a hyn yn bennaf gan fod "amheuaeth rhesymol y gallai fod aelod staff wedi dal COVID wrth ei gwaith" wedi ei ychwanegu yn ystod y flwyddyn i restr o ddigwyddiadau oedd angen eu hadrodd i AGID.



Mae gwaith parhaus hefyd wedi digwydd i gefnogi staff, yn enwedig felly yng nghyswllt llesiant meddyliol, boed hynny yn staff gofal rheng flaen neu staff yn teimlo'n ynysig yn gweithio o adref. Gwnaed hynny trwy gyfuniad o sesiynau codi ymwybyddiaeth a darparu cynhaliaeth yn ogystal ag ymgynghoriadau rhithiol (a wyneb i wyneb) gyda'r Tîm Iechyd Galwedigaethol a chwnselwyr Medra.

Er mwyn sicrhau fod ein trefniadau iechyd a diogelwch mor gadarn ag y mae modd iddynt fod, mae Cynllun y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi adnabod y maes hwn fel blaenoriaeth gwella corfforaethol .

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys meysydd arbenigol megis cyflogaeth, eiddo masnachol, amddiffyn plant, ymgyfreithio a chynllunio.

Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol cyson, gydag arolwg boddhad cwsmeriaid 2020/21 yn dangos bod 87% o gleientiaid yn nodi eu bod yn hollol fodlon (sgôr o 10 allan o 10) gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'n anodd tynnu neges penodol o'r adborth ond rydym yn cadw llygaid cyson ar y lefel perfformiad a'r rhesymau am briodoli sgôr is na 10/10, gan ymateb i negeseuon sydd yn deillio o'r data. Mae'r wybodaeth wrth gwrs yn cyfrannu at y drefn ar gyfer rheoli a monitro ein perfformiad.

Mae'n briodol nodi hefyd fod y Tîm Cyfreithiol wedi symud i gyfundrefn electroneg o weithio yn fuan yn y flwyddyn ac i weithredu yn lled ddi-bapur. Roedd ein gallu i wneud hyn yn adlewyrchu buddsoddiad oedd eisoes wedi bod mewn meddalwedd ond hefyd gwaith ac ymroddiad ar draws y tîm a'u harweinwyr. Gwnaethpwyd cryn waith hefyd yn cynghori a chefnogi ar y newidiadau cyfreithiol a gweithredol o amgylch prosesau democrataidd y Cyngor yn ystod yr argyfwng.

O safbwynt trefniadau priodoldeb mae'r Gwasanaeth wedi cefnogi a chynghori ar brif faterion y Cyngor a sawl mater corfforaethol penodol gan gynnwys:

- Strategaeth Tai
- Safle Cartref Penrhos
- Trefniadaeth Ysgolion

Gan fod Cyngor Gwynedd yn awdurdod lletya ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru bu'r Swyddog Monitro yn arwain y gwaith cyfreithiol rhanbarthol o sefydlu Cytundeb Llywodraethu 2 ("GA2") ynghyd â chefnogi y Swyddfa Rhaglen ar yr agweddau democrataidd. Mae'r gwaith yn parhau.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am gefnogi y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadau drwy weinyddu holl etholiadau'r sir a'r Gofrestr Etholwyr. Derbyniwyd grant gan Lywodraeth Cymru yn fuan yn 2020 i gefnogi gwaith sefydlu yr etholfraint newydd (16 oed) ynghyd ag agweddau eraill ar y thema mynediad i bleidleisio. Yn anffodus rhaid derbyn fod y sefyllfa Covid-19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar y gwaith yma oedd yn seiliedig ar fynychu Ysgolion, Colegau a Grwpiau Ieuenctid i hyrwyddo ac uchafu cofrestru. Bellach penodwyd aelod o staff i weithio ar y prosiect hyrwyddo a chofrestru gyda Grŵp Prosiect traws-adrannol. Bydd hyn yn caniatáu i'r prosiect symud ymlaen wrth baratoi am etholiadau'r Cyngor yn 2022.

Wrth i flwyddyn 2020/21 ddirwyn i ben roedd

Tud. 122

gwaith sylweddol eisoes wedi cychwyn er mwyn paratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu fis Mai.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu swyddogaeth statudol yn cefnogi Gwasanaeth Crwner Gogledd Orllewin Cymru. Yn dilyn ymddeoliad y Crwner yn ystod y flwyddyn penodwyd Kate Sutherland i rôl weithredol a dechreuodd trafodaethau gydag Adran Gyfiawnder Llywodraeth DU ar y camau nesaf o ran dyfodol yr ardal.

CYFARFOD	**Cabinet Cyngor Gwynedd**
DYDDIAD	**15 Mehefin 2021**
AELOD CABINET	**Cynghorydd Cemlyn Rees Williams**
SWYDDOG	**Gwern ap Rhisiart**
TEITL YR EITEM	**Ysgol Abersoch**

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymateb i'r sylwadau hynny, a phenderfynu os dylid:

i. Cymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022.

ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

3. CYFLWYNIAD

3.1 Yn eu cyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Daeth y penderfyniad yn sgil pryderon diweddar ynglŷn â lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol.

3.2 Cynhaliwyd tri cyfarfod rhwng Hydref 2019 a Ionawr 2020. Yn ystod y cyfarfod cyntaf, cafwyd trafodaeth gychwynnol am opsiynau. Eglurwyd fod angen ystyried opsiynau fyddai'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod Panel Adolygu Ysgol (PAY) ar 13 Tachwedd 2019. Yn ystod y cyfarfod, gwerthuswyd cryfderau, cyfleoedd, gwendidau a bygythiadau'r holl opsiynau. Derbyniwyd sylwadau pellach gan y corff llywodraethol yn dilyn y cyfarfod yn ogystal. Ystyriwyd casgliadau'r gwerthusiad, a mireiniwyd y rhestr o opsiynau i 3. Cyflwynwyd yr opsiynau hyn yn ystod y trydydd cyfarfod PAY ar 6 Ionawr 2020 a nodwyd y bwriad i gynnal asesiadau pellach cyn dod i benderfyniad ar yr opsiwn a ffafrir.

3.3 Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

3.4 Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

4. CEFNDIR

4.1 Y Prif Heriau y mae'r ysgol yn wynebu

4.1.1 Mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.

4.1.2 O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, yn benodol:

i. Mae niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin.
ii. Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.
iii. Mae rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023.
iv. Dengys data Medi 2020 fod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch.
v. Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm ychwanegol yma yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582.
vi. Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod o £4,198
vii. Nifer o lefydd gweigion – 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer)

4.2 Cyd-destun Strategol

4.2.1 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion 'Addysg Addas i Bwrpas' a fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yn benodol drwy resymoli ystod oedran dosbarthiadau a rhoi tegwch i benaethiaid i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd.

4.2.2 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu Strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. O fewn y strategaeth hon nodir ffactorau i gefnogi'r broses o adolygu dalgylchoedd neu sefyllfaoedd penodol. Gweler manylion y ffactorau hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad (Rhan 4.3.2).

4.3 Dewis opsiwn ffafriedig

4.3.1 Yn ystod y cyfarfodydd lleol, cynigwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau posibl, yn benodol:

- Gwneud dim (parhau gyda'r status quo)
- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-11 oed
- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-9 oed
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos
- Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol
- Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

- Lleoli Canolfan Iaith ar safle Ysgol Abersoch
- Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch
- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-9 oed + sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch

Mae gwerthusiad o'r opsiynau hyn i'w gweld yn **Atodiad A**. Adolygwyd y gwerthusiad wedi'r cyfnod ymgynghori.

4.3.2 Yn unol â strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, yn benodol:

- Maint dosbarthiadau (ac amrediad oedran)
- Niferoedd disgyblion
- Arweinyddiaeth a Staffio
- Y Gymuned
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau Daearyddol

4.3.3 Yn dilyn gwerthuso manteision ac anfanteision yr opsiynau uchod yn erbyn y ffactorau yn y strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, daeth 3 o opsiynau i'r amlwg fel y rhai a fyddai fwyaf hyfyw a realistig i gyfarch sefyllfa'r ysgol, sef:

- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
- Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen.

4.3.4 Roedd adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 15 Medi 2020 yn manylu ar yr heriau oedd yn wynebu'r ysgol a'r angen i gymryd camau pellach i'w cyfarch. Tra bod yr opsiwn o gynnal y sefyllfa gyfredol wedi ei ystyried, nid oedd yr Awdurdod o'r farn y byddai'n mynd i'r afael â sefyllfa fregus yr ysgol. Trwy wneud dim, byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, ynghyd â'r heriau cyllidol yn parhau.

4.3.5 Cynhaliwyd Asesiadau Effaith yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae fersiynau diwygiedig yn dilyn y cyfnod ymgynghori wedi eu cynnwys yn Atodiad D.

4.4 OPSIYNAU RHESYMOL I'W HYSTYRIED AR GYFER YR YSGOL

4.4.1 <u>Newid ystod oed Ysgol Abersoch</u>

4.4.2 Trafodwyd 2 opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol, sef ymestyn i 3-9 oed ac ymestyn i 3-11 oed.

4.4.3 Dylid nodi mai'r opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma yn lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol yn sgil darparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed dalgylch Abersoch).

4.4.4 Wrth gymharu'r ddau opsiwn, daethpwyd i'r canlyniad mai'r opsiwn gorau ar gyfer ystyriaeth bellach oedd yr opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11. Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 am sawl rheswm, yn benodol:

- Ni ragwelir y byddai ychwanegu blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
- Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.

- Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.

4.4.5 Credir y byddai'r opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11 yn cynnig mwy o fanteision o safbwynt cyfle i godi niferoedd yr ysgol. Byddai'r opsiwn hefyd yn cysoni'r ystod oed gyda gweddill ysgolion y sir, ac yn golygu fod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn.

4.4.6 Er mwyn i'r opsiwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, byddai'n rhaid i'r cynnydd hwn fod yn un sylweddol. Serch hynny, mae'n debygol y byddai unrhyw gynnydd yn niferoedd Ysgol Abersoch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn achosi lleihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach, ac o bosib, yr ysgolion cyfagos.

4.4.7 Yn dilyn ystyriaeth bellach, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol, a gall gael effaith ar niferoedd disgyblion yr ysgolion cyfagos.

4.5 <u>Ffederaleiddio</u>

4.5.1 Fel y gwelir uchod (para. 4.4.1) trafodwyd ac ystyriwyd 3 math gwahanol o ffederaleiddio. Daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn oedd fwyaf rhesymol i'w ystyried ymhellach oedd yr opsiwn i ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos.

4.5.2 Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Abersoch trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol gyfagos dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau, ac arbenigedd.

4.5.3 Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfarch yr her o leihad mewn niferoedd, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.

4.5.4 Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut byddai'r ddwy ysgol yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

4.5.5 Bu trafodaethau gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y ddwy ysgol gyfagos (Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog), parthed yr opsiwn i sefydlu ffederasiwn gydag Ysgol Abersoch.

4.5.6 Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel o ddisgyblion, maint dosbarthiadau bychain a'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau

4.6 Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

4.6.1 Byddai'r model yma'n golygu cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach.

4.6.2 Ystyrir Ysgol Sarn Bach fel yr 'ysgol amgen' am y rhesymau canlynol:

- Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle Ysgol Abersoch.
- Mae Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion o Ysgol Abersoch ym mlwyddyn 4.
- Mae 40% o blant (3-8 oed) dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach.
- Mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti i dderbyn disgyblion presennol Ysgol Abersoch.

4.7 Y Cynnig

4.7.1 Mae'r cynnig hwn yn golygu y byddai Ysgol Abersoch yn cau a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

4.7.2 Y nod yw bydd y cynnig yn arwain at gyfleoedd mwy cyson i blant y dalgylch, drwy anelu at ddyheadau strategol Cyngor Gwynedd i 'gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn', byddai hyn yn cynnwys:

- Maint Dosbarthiadau (ac amrediad oedran) - disgyblion i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas na'r sefyllfa bresennol. Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at well cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd yr ardal.
- Poblogaeth a Niferoedd disgyblion - disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol ble mae'r niferoedd a rhagamcanion yn fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a lleihau'r gyfradd o lefydd gweigion yn ysgolion yr ardal.
- Arweinyddiaeth - arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn mewn ysgol sydd â niferoedd yn caniatáu i Bennaeth gael tegwch i arwain a rheoli yn broffesiynol yn yr ysgol.
- Y Gymuned – I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch.
- Adnoddau Ariannol - Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion a fyddai'n lleihau'r amrediad mewn cost y disgybl i holl blant Gwynedd. Amcangyfrifir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at gost fesul disgybl o £4,683 yn Ysgol Sarn Bach o gymharu â'r £17,404 y disgybl presennol yn Ysgol Abersoch. Y cyfartaledd sirol ar gyfer yr un cyfnod yw £4,198 y disgybl. Amcangyfrifir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £110,062, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (£14,000) – sef oddeutu £96,062 y flwyddyn.
- Yr Iaith Gymraeg – disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel y sefyllfa bresennol, ac mewn ysgol ble mae defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn gryf.
- Ffactorau Daearyddol - byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi ac yn derbyn cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor.

4.7.3 Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd lle yn cael ei warantu i ddisgyblion presennol Ysgol Abersoch yn Ysgol Sarn Bach. Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, mae gan rieni hawl i ddewis a gwneud cais am le mewn unrhyw ysgol i'w plentyn, ac nid o reidrwydd yr ysgol honno fyddai'r ysgol ddalgylch. Pe wireddir y cynnig hwn, byddai gan rieni hawl i wneud cais i unrhyw ysgol y dymunant. Nid oes gwarant fod lle i blentyn yn eu hysgol ddewisol.

4.7.4. Dylid nodi fod Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion dalgylch Ysgol Abersoch ar ddechrau'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 8 oed.

4.7.5 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dalgylch Ysgol Sarn Bach yn cael ei addasu i gynnwys ardal dalgylch presennol Ysgol Abersoch.

Map 1: Dalgylchoedd presennol y 2 ysgol **Map 2: Dalgylch Ysgol Sarn Bach os gweithredir y cynnig**

5. YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

5.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 12 Ionawr 2021 a 13:00 o'r gloch ar 23 Chwefror 2021.

5.2 Bu i'r Adran Addysg gychwyn yr ymgynghoriad ar 5 Ionawr 2021 yn wreiddiol, ond gan na wnaeth yr un plentyn fynychu safle Ysgol Abersoch ar y diwrnod hwnnw oherwydd cyfyngiadau diweddaraf Covid-19, roedd anfodlonrwydd yn lleol nad oedd yr awdurdod wedi cyd-fynd â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion i gyhoeddi'r ymgynghoriad ar "ddiwrnod ysgol". Yn ddiweddarach, ar 7 Ionawr 2021, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi addasiad dros dro i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 oedd yn "caniatáu i gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion barhau, lle nad yw pob ysgol ar agor" o 8 Ionawr 2021 ymlaen. Er bod yr Adran Addysg yn parhau o'r farn fod y 5ed o Ionawr 2021 yn "ddiwrnod ysgol", er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth neu amryfusedd, penderfynwyd ail gyhoeddi'r ymgynghoriad yn dilyn yr 8fed o Ionawr 2021, a'i gynnal rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021.

5.3 Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) a dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol, drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys linc at dudalen arbennig ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg). Yn ogystal anfonwyd copïau caled o'r holl ddogfennau yn unol â cheisiadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai.

5.4. Anfonwyd copïau electroneg o'r ddogfen ymgynghori at y ddwy ysgol sydd yn rhan o'r ymgynghoriad, gan wneud cais i'r penaethiaid eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr disgyblion, staff ac aelodau corff llywodraethwyr yr ysgolion.

5.5. Cyhoeddwyd pecyn cefndirol yn ogystal, oedd yn cynnwys asesiadau effaith y cynnig ar yr iaith, y gymuned, cydraddoldeb, yn ogystal ag asesiadau ar effaith debygol ar drefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg, ac asesiad yn erbyn nodau'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y dogfennau ar gael i'w lawr lwytho oddi ar wefan y Cyngor.

5.6. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion Cyngor Gwynedd sesiynau "galw heibio" rhithwir oedd wedi ei cynnal dros gyfrwng Microsoft Teams. Anfonwyd gwahoddiadau at Lywodraethwyr, staff addysgu ac ategol, rhieni/gwarchodwyr Ysgol Abersoch ac unrhyw ran-ddeiliaid Cymuned Llanengan oedd eisiau gofyn cwestiynau yn ymwneud â'r cynnig. Yn ystod y sesiynau roedd swyddogion o adrannau perthnasol ar gael i

egluro ac ymateb i ymholiadau, fyddai'n galluogi i'r unigolion gyfrannu tuag at yr ymgynghoriad. Mynychodd 7 o bobl y sesiynau galw heibio rhithwir.

5.7. Yn ogystal, crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal sesiynau rhithwir gydag ysgolion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn canfod barn y disgyblion. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau wedi ei gynnwys yn **Atodiad C.**

5.8. Derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad. Derbyniwyd ymatebion i'r ymgynghoriad ar ffurf, llythyr, ffurflen ymateb ac e-byst.

5.9 Dengys y tabl isod ffurf ac iaith a ddefnyddiwyd i ymateb i'r ymgynghoriad:

Ffurf ymateb	Cymraeg	Saesneg	Dwyieithog	Cyfanswm
Ffurflen ymateb	9	14	0	23
E-bost	26	85	7	118
Llythyr	7	5	0	12
Adroddiad	0	0	1	1

5.10 Yn anffodus, yn dilyn dyddiad cau yr ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn copi o'r e-bost i'w hysbysu am yr ymgynghoriad statudol. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer rhannu'r wybodaeth am yr ymgynghoriad, ond fe ymddengys bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir a felly ni dderbyniwyd y wybodaeth. Hoffem ymddiheuro am y camgymeriad hwn.

5.11 Er mwyn sicrhau fod cynrychiolwyr y Cylch Meithrin yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Cod Trefniadaeth, rhoddwyd cyfle i'r Cylch anfon unrhyw sylwadau pellach atom erbyn 1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021. Ni dderbyniwyd ymateb pellach gan gynrychiolwyr y cylch yn ystod y cyfnod ymgynghori estynedig.

6. SYLWADAU A DDERBYNIWYD YN YSTOD YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

6.1 Pwrpas yr adran hon yw cyflwyno a chrynhoi rhai o'r prif faterion ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Nid oes posib ymateb i bob sylwad yn fanwl yng nghorff yr adroddiad hwn, fodd bynnag, ynghlwm (**Atodiad B**) ceir copi o dabl sy'n cynnwys dadansoddiad manylach o'r ymatebion yn ogystal ag ymateb y Cyngor. Gellir gweld copïau o'r ymatebion unigol ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Mae'r wybodaeth bersonol ar yr ymatebion wedi eu duo er mwyn cydymffurfio â gofynion yr ymgynghorai y Ddeddf Diogelu Data 2008 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

6.2 Er i'r ddogfen ymgynghori nodi na fydd yr ymatebion hyn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau, ond sylwadau, o ran yr ymateb yn gyffredinol yn ystod yr ymgynghoriad, gellir nodi bod y mwyafrif o'r ymatebion a dderbyniwyd yn datgan gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

6.3 Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn manylu ar y materion a ganlyn:

- Gwrthwynebiadau i'r cynnig
- Sylwadau am y broses statudol
- Opsiynau amgen
- Materion Addysgol
- Materion Cyllidol
- Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant

- Ôl-ddefnydd Safle'r Ysgol
- Ysgolion Cyfagos
- Cludiant a theithio
- Y Gymuned
- Yr Iaith Gymraeg
- Cylch Meithrin a Ti a Fi Abersoch
- Arall

6.4 <u>Gwrthwynebiadau i'r cynnig</u>

6.4.1 **Roedd mwyafrif y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gwrthwynebu'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.**

6.4.2 *Fel yr eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol, mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. Ym mis Medi 2020 dim ond 10 o ddisgyblion oedd ar y gofrestr.*

6.4.3 *Pe gwireddir y cynnig arfaethedig, mae'r Cyngor o'r farn y bydd cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiadau allgyrsiol a chymdeithasol y disgyblion. Byddai hefyd yn lleihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion gan addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, byddai'r cynnig yn arwain at leihau'r amrediad o lwfans y pen ar gyfer holl ddisgyblion y Sir a sicrhau bod plant yn trosglwyddo un waith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith.*

6.5 <u>Y Broses Statudol</u>

6.5.1 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi anfodlonrwydd â'r penderfyniad i gynnal yr ymgynghoriad, yn benodol o safbwynt y cyfyngiadau yn sgil Covid-19 ac yn gofyn i ohirio'r ymgynghoriad. Yn ogystal, roedd rhai ymatebion yn datgan anfodlonrwydd â'r penderfyniad i gynnal cyfarfodydd rhithwir yn hytrach na chyfarfodydd cyhoeddus. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y penderfyniad eisoes wedi ei wneud.**

6.5.2 *Er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19, mae'r Adran Addysg yn hyderus fod y broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd yn cydymffurfio â gofynion a chanllawiau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol:*

- *Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori, a'r dogfennau cefndirol perthnasol, ar ffurf copi electroneg ar wefan y Cyngor (gyda chopïau caled ar gael ar gais)*
- *Dosbarthwyd copïau electroneg o'r ddogfen i'r rhan-ddeiliaid perthnasol*
- *Derbyniwyd sylwadau/ymatebion ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost.*

6.5.3 *Nid yw'r Cod yn gosod gofyniad i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus/ymgynghori. Yn hytrach, fe nodir yn y Cod "gall cynigwyr ddefnyddio ffyrdd eraill o ymgysylltu ag ymgynghoreion, fel sy'n briodol yn eu barn hwy".*

6.5.4 *Mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae'r Adran Addysg wedi cynnal sesiynau "galw heibio" er mwyn trafod y cynnig arfaethedig gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yr ysgol dan sylw. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, nid oedd yn bosib cynnal y sesiynau "galw heibio" yn yr un modd. Serch hynny, er mwyn sicrhau bod rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch yn derbyn yr un cyfle i gael gwybodaeth, holi am eglurhad a chyflwyno sylwadau, cynhaliwyd sesiynau "galw heibio" dros gyfrwng meddalwedd cyfarfodydd rhithiol. Gosodwyd uchafswm o 3 ar gyfer pob sesiwn rhithwir er mwyn sicrhau fod pawb sy'n mynychu yn elwa ar drafodaeth gynhwysfawr a theg. Cynigiwyd 9 sesiwn dros 4 noson, a mynychodd 7 o bobl y sesiynau galw heibio rhithwir.*

6.5.5 *Yn ychwanegol i hynny, rhoddwyd cyfle i ran-ddeiliaid gyflwyno cwestiynau ynglŷn â'r cynnig drwy e-bost i'r Adran Addysg.*

6.5.6 *Cydymdeimlir â'r pryderon o gynnal ymgynghoriad yn ystod y pandemig, serch hynny, pwysleisir na allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ag ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Yn ychwanegol i hynny, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi hysbysiad ar 8 Ionawr 2021 er mwyn caniatáu i gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion barhau, lle nad yw pob ysgol ar agor.*

6.5.7 *Credir fod niferoedd y sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn dystiolaeth nad oedd ei gynnal yn ystod cyfnod Covid wedi amharu'n ormodol ar allu'r ymgynghoreion i gymryd rhan.*

6.5.8 *Mewn ymateb i'r sylwadau fod y penderfyniad eisoes wedi ei wneud, pwysleisir mai ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach a gynhaliwyd rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud eto. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynir adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet, sef yr adroddiad hwn, er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Dim ond yn dilyn ystyried yr adroddiad, y bydd y Cabinet yn penderfynu p'un ai a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ai peidio.*

6.5.9 **Bu i rai ymatebwyr nodi anfodlonrwydd â'r broses o ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc.**

6.5.10 *Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae'n ofynnol fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol i gynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n destun yr ymgynghoriad er mwyn darganfod eu teimladau am y cynnig.*

6.5.11 *Fel nodwyd yn adran 5.7, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori rhithwir gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd sydd yn destun yr ymgynghoriad hwn. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal sesiynau rhithwir ag ysgolion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn canfod barn y disgyblion.*

6.5.12 *Fel rhan o'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc, paratowyd dogfennau priodol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach, a threfnwyd bod hwylusydd yn cynnal 3 chyfarfod dros y we (Google Meet) gyda'r ddwy ysgol i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatgan barn am y cynnig. Roedd rhieni Ysgol Abersoch yn bresennol ac anogwyd hwy gan yr hwylusydd i siarad ar ran eu plant er mwyn cryfhau'r broses o gasglu barn y plant am yr effaith posib arnynt pe byddai'r ysgol yn cau.*

6.5.13 *Roedd pob sesiwn yn cymryd tri chwarter awr i awr i'w gwblhau ac wedi eu rhannu i dri grŵp, Disgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Abersoch, disgyblion y Cyfnod Sylfaen Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a rhoi cyfle i ddisgyblion fynegi eu meddyliau a'u teimladau.*

6.5.14 *Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc wedi'i gynnwys yn **Atodiad C**.*

6.5.15 **Roedd rhai ymatebwyr yn datgan pryder am yr amserlen amlinellol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, gan nodi na fyddai gweithredu'r cynnig yn Awst 2021 yn rhesymol oherwydd y diffyg amser i hysbysu rhieni o'r penderfyniad terfynol.**

6.5.16 *Er i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021, mewn ymateb i'r sylwadau hyn, rydym bellach yn argymell addasu dyddiad gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Abersoch i 31 Rhagfyr 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022.*

6.5.17 *Yn dilyn ystyried rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad, rydym o'r farn y byddai gohirio gweithredu tan 31 Rhagfyr 2021 yn caniatáu mwy o amser i'r Adran Addysg roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach.*

6.5.18 **Cafwyd rhai sylwadau oedd yn nodi'r farn bod yr asesiadau effaith a'r manylion a nodwyd yn y ffurflen ymateb yn annigonol.**

6.5.19 *Fel rhan o'r broses statudol, wrth ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiadau yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Rydym o'r farn bod yr asesiadau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Yn yr un modd, mae'r Awdurdod yn hyderus fod ein prosesau a'r ffurflen ymateb yn cyfarch gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.*

6.5.20 **Derbyniwyd nifer o ymatebion yn nodi nad oedd y Cylch Meithrin wedi eu cynnwys yn y broses ymgynghori.**

6.5.21 *Bu i ni dderbyn ymateb gan y Mudiad Ysgolion Meithrin a gan Gylch Meithrin Abersoch fel rhan o'r ymgynghoriad. Yn anffodus, yn dilyn dyddiad cau yr ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn copi o'r e-bost i'w hysbysu am yr ymgynghoriad statudol. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer rhannu'r wybodaeth am yr ymgynghoriad, ond fe ymddengys bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir ac felly ni dderbyniwyd y wybodaeth. Hoffem ymddiheuro am y camgymeriad yma.*

6.5.22 *Er mwyn sicrhau bod cynrychiolwyr y Cylch Meithrin yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Cod Trefniadaeth, rhoddwyd cyfle i'r Cylch anfon unrhyw sylwadau pellach atom erbyn 1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021. Ni dderbyniwyd ymateb pellach gan gynrychiolwyr y cylch yn ystod y cyfnod ymgynghori estynedig.*

6.5.23 **Roedd rhai ymatebion yn nodi pryderon am effaith y bygythiad o gau'r ysgol ar y staff ac ar addysg y disgyblion**.

6.5.24 *Mewn ymateb i'r sylwadau hynny, noder bod yr effaith negyddol bosib ar addysg y disgyblion wedi ei nodi fel risg yn y ddogfen ymgynghori statudol (7.15). I liniaru'r risg, nodir y bydd y Cyngor yn monitro'r ysgol yn unol â pholisi'r Adran Addysg ac yn cynnig cefnogaeth yn ôl yr angen.*

6.5.25 *Petai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai'r swyddi yn dod i ben pan fyddai'r ysgol yn cau. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig gydymffurfio â'r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu unrhyw gynnig.*

6.5.26 *Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiynau galw heibio rhithwir lle roedd posib trefnu i staff o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor fod yn bresennol os oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Rhoddwyd gwybod fod croeso hefyd i staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cael trafodaethau un i un. Cynigir pecyn cymorth, gan gynnwys hyfforddiant os yw'n briodol, i'r holl staff a effeithir arnynt gan y cynnig.*

6.5.27 **Bu i rai nodi fod gwallau yn y ddogfen ymgynghori, a bod hynny'n tanseilio'u hyder yn yr ymgynghoriad.**

6.5.28 *Mae'r Cyngor yn hyderus yng nghywirdeb yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r Cyngor yn derbyn fod lleoliad Ysgol Sarn Bach ar fap yn y ddogfen yn anghywir ond nad ydi hyn yn effeithio yr ymgynghoriad.*

6.6 <u>Opsiynau Amgen</u>

6.6.1 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn gofyn i'r Cyngor oedi'r broses a rhoi cyfle i'r ysgol gynyddu'r niferoedd a rhoi cyfle i'r Cylch Meithrin ffynnu.**

6.6.2 *Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Serch hynny, ni allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Mae niferoedd y disgyblion yn Ysgol Abersoch wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. Mae'r Awdurdod o'r farn na fyddai parhau â'r ddarpariaeth addysg bresennol yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:*

- *Dosbarthiadau bychan iawn.*
- *Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion.*
- *Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf, gyda 9 disgybl yn mynychu erbyn 2025.*

6.6.3 *Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi wedi agor ar safle'r ysgol ym mis Chwefror 2020. Serch hynny, ac er yn cydnabod yr effaith gadarnhaol bosib gall lleoli Cylch Meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar niferoedd, nid oes modd gwarantu y byddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd, a rhagwelir y byddai heriau'r ysgol yn parhau.*

6.6.4 **Nodwyd gan nifer nad yw'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed na'r opsiwn i ffederaleiddio wedi eu hystyried yn llawn. Derbyniwyd un ymateb oedd yn gofyn i'r Cyngor egluro pam eu bod yn datgan fod trosglwyddiad disgyblion yn ystod eu haddysg gynradd yn cael effaith negyddol ar addysg.**

6.6.5 *Mewn unrhyw drefn fel hon, mae'n allweddol rhoi ystyriaeth fanwl a phwyso a mesur manteision ac anfanteision unrhyw fodel a dyna geir yn y Gwerthusiad Llawn o'r Opsiynau.*

6.6.6 *Fel a nodir yn y ddogfen ymgynghori (adran 6.4), yr opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma'n lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol gan ddarparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith posib y gallasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed ardal Ysgol Abersoch).*

6.6.7 *Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am y rhesymau canlynol:*

- *Ni ragwelir y byddai ychwanegu un blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.*
- *Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.*
- *Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.*

6.6.8 *Cred y Cyngor fod symud ysgol neu bontio o un ysgol i'r llall ar unrhyw amser mewn gyrfa addysgol yn gallu arwain at darfu ar gynnydd rhai plant wrth iddynt gynefino mewn ysgol ac amgylchedd newydd ac yn ogystal gall danseilio gwydnwch rhai disgyblion.*

6.6.9 *Gan fod sefyllfa Ysgol Abersoch yn gymharol unigryw o ran pryd mae'r plant yn symud, prin yw'r dystiolaeth i brofi neu ddad-brofi'r rhagdybiaeth hwn ar gyfer pontio ar ddiwedd blwyddyn 3. Fodd bynnag ceir*

tystiolaeth o ffynonellau eraill, lle y cyfeirir at bontio cynradd / uwchradd arferol, megis adroddiad diweddar Estyn (Gwydnwch dysgwyr - meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion Gorffennaf 2020) lle nodir "Mae adegau pontio, fel symud ysgol, yn gyfnodau lle gall plant ddioddef gofid emosiynol, neu ostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu, y gall pob un ohonynt danseilio gwydnwch."

6.6.10 *Drwy leihau'r nifer o weithiau y bydd plant yn pontio cred y Cyngor y bydd llai o siawns i'r plant ddioddef gofid emosiynol, gostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu.*

6.6.11 *Mae cysondeb a chyd gynllunio'n allweddol ar gyfer pontio effeithiol.*

6.6.12 *Cred y Cyngor mai'r unig ffordd o sicrhau lleihad effeithiau negyddol posib pontio yw drwy leihau'r cyfnodau lle mae'n rhaid i blant bontio yn ystod eu gyrfa addysgol yn y lle cyntaf.*

6.6.13 *O safbwynt ffederaleiddio, er bod manteision i'r model, mae'r awdurdod o'r farn y byddai'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfarch y prif heriau y mae Ysgol Abersoch yn ei hwynebu megis niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychan, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.*

6.6.14 *Mae'r Cyngor yn nodi yn y Ddogfen Ymgynghori'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen efo Opsiwn 4 a 5 (Ffederaleiddio). Ni fyddai ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn ddatrysiad i'r heriau sydd yn wynebu Ysgol Abersoch.*

6.6.15 *Nid yw ffederaleiddio ysgolion yn arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol ar gyfer rhieni na phlant. Er byddai ysgolion yn rhannu un corff llywodraethol, byddant yn parhau fel dwy ysgol ar wahân ac yn cadw'u henwau presennol, ac yn parhau i gael eu cyllido ar wahân yn unol â fformiwla Cyngor Gwynedd. Byddai plant yn parhau i gael eu haddysgu yn yr un ysgolion a chan yr un staff.*

6.6.16 *Bu i swyddogion yr Adran Addysg gwrdd â phennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog ym mis Ionawr 2020 i drafod yr opsiwn o ffederaleiddio gydag Ysgol Abersoch. Oherwydd natur anffurfiol y trafodaethau hyn, ni chofnodwyd y cyfarfodydd. Roedd y cyfarfod hwn hefyd yn gyfle i ddiweddaru penaethiaid a'r cadeiryddion ynghylch yr opsiynau a drafodwyd yn y cyfarfodydd lleol, gan amlygu unrhyw effaith bosib y gallai rhai o'r opsiynau gael ar eu hysgol. Ni fu i unrhyw un o'r ddwy ysgol ddatgan diddordeb mewn ymchwilio ymhellach i fodel ffederal.*

6.6.17 *Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau.*

6.6.18 *Er mwyn cael y gorau o fodel ffederal mae'n arferol, ond nid yn rheidrwydd, y byddai'r ysgolion yn rhannu Pennaeth. Gan fod Pennaeth ymhob un o'r ysgolion mae'r Cyngor o'r farn y gall model ffederal mwyaf effeithiol arwain at ddiswyddiadau gorfodol.*

6.6.19 *Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol*

6.6.20 **Derbyniwyd dau ymateb oedd yn argymell ystyried opsiwn i sefydlu Ysgol Aml-Safle rhwng Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach.**

6.6.21 *Yn achos Model Ysgol Ardal Aml-safle, mi fyddai'r ysgol yn un ysgol ac un endid cyfreithiol sy'n gwasanaethu ardal eang. Fodd bynnag, mae ysgol ardal aml-safle yn rhoi darpariaeth addysgol ar nifer o safleoedd.*

6.6.22 *Budd y math yma o fodel yw'r gallu i ail-strwythuro'r drefniadaeth reolaethol, ond eto'n cadw presenoldeb addysg mewn mwy nag un gymuned. Mae'n fodel all weithio'n dda mewn ardaloedd gwledig iawn lle mae pellteroedd teithio hir nes cyrraedd ysgol amgen. Hefyd golyga nad yw safleoedd ysgolion bach yn cael eu gadael yn ynysig ond yn hytrach yn rhan o sefydliad addysg mwy. Gellir felly wneud gwell defnydd o adnoddau e.e. un pennaeth ar gyfer mwy nag un safle, rhannu adnoddau a staff rhwng safleoedd a dod a disgyblion safleoedd at ei gilydd i gynnal gweithgareddau gyda niferoedd uwch o ddisgyblion.*

6.6.23 *Fodd bynnag, rhai o anfanteision y model yma yw ei anallu i sicrhau fod maint ac amrediad dosbarthiadau rhai safleoedd addysg yn newid er gwell. Wrth ystyried yr opsiwn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiynau yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu e.e. niferoedd disgyblion isel, maint dosbarthiadau bychain, amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau a chost y disgybl uchel.*

6.6.24 ***Roedd nifer o ymatebion yn argymell datblygiadau posib i'r ysgol e.e. Ysgol Draeth, Canolfan Ddiwylliannol, Addysg Gyflawn ac Adnabod Bro.***

6.6.25 *Mae'r Cyngor yn nodi'r opsiynau i ddatblygu yr ysgol – ceir gwerthusiad llawn o'r opsiynau hyn yn* ***atodiad A.***

6.6.26 *Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol.*

6.6.27 *Cydnabyddir gall yr opsiynau yma wneud defnydd gwell o adeilad yr ysgol. Serch hynny, wrth ystyried opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiynau yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu e.e. niferoedd disgyblion isel, maint dosbarthiadau bychain, amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau a chost y pen uchel.*

6.6.28 **Derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn cwestiynu pam nad ystyriwyd adolygiad dalgylchol.**

6.6.29 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir fod Cabinet y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019 wedi rhoi caniatâd i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau ffurfiol gydag Ysgol Abersoch i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil pryderon ynghylch niferoedd disgyblion yr ysgol a phryderon ynglŷn â'r rhagamcanion oedd yn rhagweld y niferoedd yn parhau'n isel.*

6.6.30 *Mae'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd yn nodi:*

"Dylid ystyried gwybodaeth broffesiynol berthnasol er mwyn tynnu sylw at sefyllfaoedd argyfyngus o fewn y Sir sy'n amharu yn uniongyrchol ar ansawdd addysg a phrofiadau disgyblion (e.e. niferoedd bychan iawn mewn ysgol, cyflwr adeiladau'r ysgol yn hynod ddrwg, methu recriwtio pennaeth).

Bydd sefyllfa argyfyngus ysgolion unigol a amlygir ar sail gwybodaeth broffesiynol berthnasol gan gynnwys ceisiadau penodol gan ysgolion unigol yn ystyriaeth wrth adnabod ardaloedd sydd angen sylw pellach."

6.6.31 *Pwysleisir nad yw'r adolygiad o sefyllfa Ysgol Abersoch yn ran o strategaeth ehangach ar gyfer addysg yn yr ardal, ond yn hytrach, yn ymateb i sefyllfa argyfyngus ysgol unigol.*

6.6.32 **Nododd rhai y dylid rhoi cefnogaeth ychwanegol i'r ysgol ac ystyried caniatáu rhagor o amser i wneud gwaith pellach i ganfod opsiynau ar gyfer yr ysgol.**

6.6.33 *Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nodir fod Ysgol Abersoch eisoes yn derbyn cyllid ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth*

a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582. Cost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yw £17,404 (2020-21), gyda chyfartaledd sirol cost fesul disgybl o £4,198.

6.6.34 *Nid yw hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd bod rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol yn parhau.*

6.6.35 *Fel nodwyd yn adran 6 y ddogfen ymgynghori, bu i'r Awdurdod ystyried 10 opsiwn gwahanol yn dilyn trafodaethau gydag Ysgol Abersoch. Ni ragwelir y byddai caniatáu mwy o amser i wneud gwaith pellach yn cynnig unrhyw ddatrysiad i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.*

6.7 <u>Materion Addysgol</u>

6.7.1 **Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod gormod o bwyslais ar niferoedd yn gyrru'r cynnig. Nodwyd yn ogystal nad yw'r awdurdod wedi cydnabod y cynnydd a welwyd yn nerbyniad disgyblion Medi 2020 pan gychwynnodd 5 disgybl newydd yn Ysgol Abersoch.**

6.7.2 *Mewn ymateb i'r sylwad, nodir fod yr Awdurdod wedi blaenoriaethu Ysgol Abersoch ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu (fel a nodir yn adran 4.1.2 uchod). Mae'r Adran Addysg o'r farn na fyddai parhau â'r ddarpariaeth addysg bresennol yn Ysgol Abersoch yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:*

- *Dosbarthiadau bychain iawn*
- *Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau - Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).*
- *Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion*
- *Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf.*

6.7.3 *O ganlyniad, rhagwelir y bydd sefyllfa Ysgol Abersoch yn parhau'n fregus, gyda'r un nifer o heriau yn ei hwynebu dros y blynyddoedd i ddod.*

6.7.4 *Mewn ymateb i'r diffyg cydnabyddiaeth o'r cynnydd mewn niferoedd yn Medi 2020, nodir bod niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch wedi eu datgan yn llawn yn adran 7.5 o'r ddogfen ymgynghori. Er bod 2 ddisgybl meithrin a 3 disgybl Derbyn wedi cychwyn ym mis Medi 2020, yn anffodus nid yw hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd. Roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl rhan amser ar gofrestr yr ysgol ym mis Medi 2020, o gymharu â 2 ddisgybl rhan amser a 7 disgybl llawn amser ym mis Medi 2019.*

6.7.5 **Derbyniwyd nifer o ymatebion a oedd yn cwestiynu cywirdeb a sail y rhagamcanion. Roedd rhai yn nodi anfodlonrwydd na roddwyd ystyriaeth i effaith gadarnhaol y Cylch Meithrin ar y rhagamcanion.**

6.7.6 *Mae'r cyngor yn cydnabod bod rhagfynegi nifer plant i'r dyfodol yn anodd, yn arbennig felly gan nad oes rheidrwydd ar rieni i yrru eu plant i'r ysgol ddalgylch.*

6.7.7 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir bod y rhagamcanion niferoedd i'r dyfodol wedi eu creu drwy ddefnyddio gwybodaeth am dueddiadau'r gorffennol ac ar sail niferoedd Medi 2020. Darperir rhagamcanion 3 blynedd gan benaethiaid yr ysgolion unigol a chyfrifir rhagamcanion blwyddyn 4 a 5 gan yr awdurdod.*

6.7.8 *Cydnabyddir nad yw cyfrifo rhagamcanion yn wyddoniaeth, ac mae'n bosib y bydd y niferoedd yn amrywio ychydig mewn gwirionedd. Serch hynny, mae'r Adran Addysg o'r farn, ar sail niferoedd Medi 2020, a chyfartaledd niferoedd derbyn y 3 mlynedd blaenorol, y bydd y niferoedd yn parhau'n isel yn Ysgol Abersoch am y pum mlynedd nesaf.*

Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch

	M	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Medi 2020	2	3	2	0	3	-	-	-	**10**
Amcangyfrif Medi 2021	3	2	3	2	0	-	-	-	**10**
Amcangyfrif Medi 2022	2	3	2	3	2	-	-	-	**12**
Amcangyfrif Medi 2023	2	2	3	2	3	-	-	-	**12**
Amcangyfrif Medi 2024	2	2	2	3	2	-	-	-	**11**
Amcangyfrif Medi 2025	2	2	2	2	3	-	-	-	**11**

6.7.9 *Ym Medi 2020, o'r 26 disgybl (3-8 oed) oedd byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, 5 o'r plant hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch, gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch. O ganlyniad, mewn ymateb i'r sylwadau sy'n nodi y bydd niferoedd a phoblogaeth plant yr ardal yn cynyddu dros yr 20-25 mlynedd nesaf, ar sail ffigyrau Medi 2020, deuir i'r casgliad nad oes modd gwarantu y byddai'r plant hynny yn dewis mynychu Ysgol Abersoch.*

6.7.10 **Roedd rhai ymatebion yn cwestiynu'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori am lefelau staffio a maint dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach. Nodwyd pryderon fod maint dosbarthiadau cymysg yn Ysgol Sarn Bach a'r ysgolion cyfagos eisoes dros 20, sydd yn groes i Strategaeth yr Adran Addysg, ac y byddai gweithredu'r cynnig yn gwaethygu'r sefyllfa. Nodwyd pryder y byddai'r cynnig yn golygu bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gorlawn.**

6.7.11 *Mewn ymateb i'r sylwadau a'r pryderon hyn, nodir fod gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach am y bum mlynedd nesaf (21 o lefydd gweigion yn yr ysgol (a 4 lle gwag yn y Meithrin). Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y byddai 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Byddai'r cynnydd yn eu cyllideb flynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol.*

6.7.12 *Pwysleisir mai'r cynnig sy'n destun i'r ymgynghoriad statudol yw cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, "Dim ond gydag Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud, felly dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gyfeirio at y cynnig ble y'i disgrifir ym mharagraff 1.1 uchod." Ni ystyrir felly bod maint dosbarthiadau'r ysgolion cyfagos (Ysgol Foel Gron ac Ysgol Llanbedrog) yn berthnasol i'r cynnig.*

6.7.13 **Derbyniwyd un sylwad oedd yn nodi fod y tabl yn adran 5.1 o'r ddogfen ymgynghori oedd yn nodi sawl disgybl oedd yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn gamarweiniol, a'i fod yn annheg cymharu ystadegau Ysgol Abersoch hefo'r ysgolion cyfagos gan ei bod yn ysgol 3-8 oed. At hynny, derbyniwyd sylw fod nifer o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach hefyd yn mynd i ysgolion all-dalgylch a bod nifer o ddisgyblion dalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Llanbedrog.**

6.7.14 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir fod y tabl yn adran 5.1 o'r ddogfen ymgynghori yn nodi annedd disgyblion Ysgol Abersoch a'r ysgolion cyfagos, gan gynnwys Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach.*

6.7.15 *Yn Medi 2020, roedd 20 allan o'r 48 o ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn byw y tu allan i'r dalgylch. Yn ogystal, roedd 6 o ddisgyblion Ysgol Llanbedrog (102) yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch.*

6.7.16 *Fel amlygwyd yn y ddogfen ymgynghori, bod Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion ardal Abersoch ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 8 oed. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dalgylch Ysgol Sarn Bach yn cael ei addasu i gynnwys ardal yr ysgol bresennol, yn ogystal ag ardal dalgylch presennol Ysgol Abersoch.*

6.7.17 *Cadarnheir fod 81% o blant (3-8 oed) dalgylch Ysgol Abersoch yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn Medi 2020. Er eglurder, nid yw disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 sy'n byw yn ardal Abersoch wedi eu cynnwys yn y ffigwr yma gan fod ardal dalgylch Abersoch yn cael ei ystyried fel rhan o ddalgylch Ysgol Sarn Bach ar gyfer plant blynyddoedd 4, 5 a 6.*

6.7.18 **Roedd rhai ymatebion yn herio canlyniad yr asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd yr addysg, ac yn nodi bod yr addysg yn Ysgol Abersoch yn rhagorol. Roedd eraill o'r farn na fyddai'r cynnig yn cryfhau'r addysg, ac yn credu nad oedd y ddogfennaeth yn nodi llwyddiannau a chryfderau'r ysgol.**

6.7.19 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn ar yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y byddai gwireddu'r opsiwn hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion yn ddyddiol. Bydd anghenion unrhyw grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ac anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei asesu a'i weithredu yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r awdurdod. Manylir ymhellach ar ansawdd a safonau addysg yn Adran 7.2 o'r ddogfen ymgynghori a gweler yr asesiad llawn o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar y wefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.*

6.8 Materion Cyllidol

6.8.1 **Roedd sawl ymgynghorai yn teimlo bod y cynnig yn canolbwyntio gormod ar feini prawf ariannol. Yn ogystal, roedd rhai ymgynghorai yn awyddus i wybod sut y cyfrifwyd yr amcan arbedion, ac os yw'r costau diswyddo wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrif hwnnw. Roedd eraill yn awyddus i gael gwybod, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, a fyddai angen adnodd ychwanegol ar Ysgol Sarn Bach, ac a fyddai plant yn cael grant gwisg ysgol?**

6.8.2 *Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn ogystal â'r heriau cyllidol sy'n wynebu Ysgol Abersoch, mae nifer o faterion eraill yn ymwneud â'r ysgol yn peri pryder. Yn wir, mae'r materion cyllidol yn deillio o'r heriau hyn. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:*

- *Dosbarthiadau bychain iawn*
- *Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau - Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).*
- *Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion oed-berthnasol ar gyfer y disgyblion*
- *Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf.*

6.8.3 *O ganlyniad, rhagwelir y bydd sefyllfa Ysgol Abersoch yn parhau'n fregus, gyda'r un nifer o heriau yn ei hwynebu dros y blynyddoedd i ddod.*

6.8.4 *Mewn ymateb i'r sylwadau am sut y cyfrifwyd yr amcan arbediad, nodir fod dyraniad 2020/21 Ysgol Abersoch yn £137,140, ac y byddai trosglwyddo disgyblion presennol Ysgol Abersoch yn golygu dyraniad ychwanegol i Ysgol Sarn Bach o £27,078. Pe bydda angen bws mwy na'r un sy'n cludo plant Abersoch ar hyn o bryd, fe fyddai yna gostau cludiant ychwanegol posib o £14,000. Mae hyn yn gadael amcan arbedion o £96,062. Cadarnheir os bydd unrhyw gostau diswyddo yna byddai'r costau hynny yn cael eu hariannu o'r arbedion.*

6.8.5 *Pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, ar sail dyraniad 2020/21, byddai trosglwyddo plant Ysgol Abersoch yn golygu dyraniad ychwanegol o £27,078 i Ysgol Sarn Bach. Byddai llywodraethwyr Ysgol Sarn Bach yn penderfynu ar y defnydd gorau o'r dyraniad ychwanegol yma.*

6.8.6 *Mewn ymateb i'r ymholiad ynglŷn a'r grant gwisg ysgol, nodir fod gan Ysgol Sarn Bach wisg ysgol swyddogol ac mae'r ysgol yn annog pawb i'w gwisgo. Mae disgwyliad ar rieni disgyblion blwyddyn 3 Abersoch i brynu gwisg ysgol wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach beth bynnag. Gall plant sydd yn trosglwyddo o Ysgol Abersoch barhau i wisgo ei gwisg (Ysgol Abersoch) hyd at ddiwedd blwyddyn 3 os mai dyma ddymuniad y rhieni.*

6.9 <u>Y Ddeddf Llesiant</u>

6.9.1 **Derbyniwyd sylw yn nodi nad ystyriwyd saith nod y Ddeddf Llesiant yn llawn.**

6.9.2 *Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:*

"Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi."

6.9.3 *Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol - yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad bod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.*

6.10 <u>Ôl-ddefnydd safle'r Ysgol</u>

6.10.1 **Roedd nifer o sylwadau yn holi beth fyddai'n digwydd i'r adeilad/safle'r ysgol pe byddai Ysgol Abersoch yn cau.** *Mewn ymateb i'r sylwadau, nodir pe gweithredir y cynnig, bod gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion a byddai'r polisi hwn yn cael ei ddilyn. Byddai angen i'r Cyngor drafod ac ystyried unrhyw dermau neu gyfyngiadau cyfreithiol rhwymol y gellid dod i rym pe bai unrhyw un o'r safleoedd yn peidio â bod yn safle ar gyfer darpariaeth addysg.*

6.11 <u>Sylwadau yn ymwneud â'r ysgolion cyfagos</u>

6.11.1 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi fod Ysgol Llanbedrog dros ei chapasiti.** *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Mae'r polisi*

mynediad yn cyd-fynd â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion, Llywodraeth Cymru. Dengys y tabl isod sawl disgybl sy'n mynychu ysgolion dalgylch ac all-dalgylch yn Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach a'r ysgolion cyfagos (Adran 5.1 yn y ddogfen ymgynghori).

6.11.2 *Nid yw'r Awdurdod o'r farn bod sefyllfa niferoedd Ysgol Llanbedrog yn berthnasol i'r ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.*

6.11.3 *Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol San Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y pum mlynedd nesaf.*

6.11.4 **Cyfeiriodd un neu ddau at effaith adeiladu estyniad yn Ysgol Llanbedrog ar addysg y disgyblion**. *Mewn ymateb i hyn eglurwyd nad oes bwriad rhoi estyniad ar Ysgol Llanbedrog fel rhan o'r cynnig a oedd yn destun yr ymgynghoriad. Er eglurder, y cynnig arfaethedig yw cau Ysgol Abersoch, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.*

6.12 <u>Teithio a chludiant</u>

6.12.1 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn ymwneud â'r effaith posib ar drefniadau teithio i'r ysgol. Roedd rhai'n nodi pa mor gyfleus yw Ysgol Abersoch gan fod posib cerdded i'r ysgol. Roedd eraill yn nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith ar yr amgylchedd gan y byddai angen teithio ymhellach i'r ysgol, ac y byddai hynny hefyd yn arwain at gynnydd yn y costau cludiant. Roedd eraill yn nodi anfodlonrwydd efo'r trefniadau teithio arfaethedig gan fod y llwybr cerdded o Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn beryglus. Yn ogystal, roedd un ymateb yn gofyn (i) am wybodaeth ar sut y cyfrifwyd yr amcan gostau cludiant, (ii) os yw'r awdurdod wedi darganfod faint o blant fydd angen cludiant i Ysgol Sarn Bach, (iii) am wybodaeth am faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar y cynllun seddi gweigion, ac os yw'r disgyblion rheiny yn talu am y cludiant yn unol â'r polisi. Yn ogystal, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn datgan anfodlonrwydd am y diffyg cynnig o gludiant i ddisgyblion oed meithrin.**

6.12.2 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir mai Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yw anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud. Mae cludiant ar gael am ddim ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sydd yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch.*

6.12.3 *Pe gweithredir y cynnig, ni ragwelir y bydd angen i unrhyw ddisgybl deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol â'r strategaeth. Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle presennol Ysgol Sarn Bach a rhagwelir y byddai'r daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws.*

6.12.4 *Gan fod y llwybr o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn cael ei hystyried fel un anaddas i blant gerdded, mae'r awdurdod eisoes yn darparu cludiant di-dâl i ddisgyblion cymwys 8-11 oed s o Abersoch sy'n mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, m*ae bws ysgol gynradd eisoes yn weithredol rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch - felly ni ragwelir costau cludiant ychwanegol yn deillio o weithredu'r cynnig arfaethedig, *na chynnydd sylweddol yn allyriadau CO2.*

6.12.5 *Pe byddai angen darparu cludiant i holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch, gan gynnwys y disgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, yna byddai angen addasu trefniadau cludiant cyfredol Ysgol Sarn Bach. Gallai hyn olygu bod angen bws pwrpasol (bore a phrynhawn) ar gyfer disgyblion Ysgol Sarn Bach, ar gost ychwanegol o oddeutu £14,000 y flwyddyn.*

6.12.6 *Y gost bresennol o gludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yw £16,500. Pe byddai angen addasu'r trefniadau presennol, amcangyfrifir y byddai angen bws 49 sedd fyddai'n darparu cludiant ar gyfer holl*

ddisgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 y dalgylch, ar gost o £30,500. Byddai hyn felly yn arwain at gost uwch o £14,000 fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

6.12.7 *Os gweithredir y cynnig, byddwn yn trefnu arolwg gyda rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n dymuno trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn canfod faint o ddisgyblion fydd angen cludiant am ddim o Abersoch unwaith y bydd penderfyniad wedi ei wneud. Bydd hyn yn rhoi niferoedd pendant i'r Awdurdod benderfynu a fyddai angen bws mwy ai peidio.*

6.12.8 *Fel rhan o'r Cynllun Seddi Gweigion, mae'r Cyngor yn fodlon ystyried ceisiadau gan ddysgwyr sy'n mynychu ysgol (neu safle ysgol) heblaw ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch ar gyfer manteisio ar unrhyw seddi gwag ar gerbydau cytundeb trwy dalu ffi gyfredol tu allan i'r dalgylch. Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar:*

- *Bod seddi gwag ar gael*
- *Nid oes angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol*
- *Dim costau ychwanegol i'r Cyngor*
- *Dalu'r ffi gyfredol am seddi gwag.*

6.12.9 *Byddai'r holl ddysgwyr a wnaeth gais am gludiant wedi talu am gynllun sedd wag i deithio ar y bws ysgol ddynodedig. Mae rhwng 3 a 6 o ddysgwyr wedi manteisio ar y cynllun hwn ers 2017.*

6.12.10 *Mewn ymateb i'r pryder na fydd yr awdurdod yn cynnig cludiant i ddisgyblion oed meithrin, nodir mai cyfrifoldeb rhieni yw gwneud trefniadau cludiant ar gyfer disgyblion oedran meithrin. Dydy'r Awdurdod ddim yn darparu cludiant ar gyfer disgyblion oedran meithrin gan nad yw'n ofyn statudol arno i wneud.*

6.13 Y Gymuned

6.13.1 **Mae'r prif faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn ymwneud â'r gymuned wedi eu rhestru isod:**

- **Ysgol yn cefnogi bywyd pentref/rhan allweddol o'r pentref**
- **Byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref**
- **Mae angen mwy o dystiolaeth am yr effaith ar y gymuned**
- **Effaith twristiaeth ar yr ardal**
- **Diffyg perthynas efo cymuned Ysgol Sarn Bach**

6.13.2 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, y cynhaliwyd asesiad effaith ar y gymuned ar opsiynau'r rhestr fer. Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. O ganlyniad, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.*

6.13.3 *At hynny, nodir wrth gydnabod yr effaith negyddol y gallai cau'r ysgol ei gael ar gymuned Abersoch, fod 9 (35%) o ddisgyblion (3- 8) sy'n byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Credir felly bod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol amgen â'r gymuned yn Abersoch.*

6.13.4 *Mae'r Awdurdod yn derbyn y bydd effaith cymunedol posib o gau Ysgol Abersoch. I liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe gweithredir y cynnig, mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.*

6.14 Effaith ar ddysgwyr

6.14.1 **Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau yn cyfeirio at effaith negyddol ar ddysgwyr Ysgol Abersoch, gan gynnwys effaith ar iechyd meddwl petai'r cynnig arfaethedig o gau Ysgol Abersoch yn cael ei wireddu**. *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, bu i'r Cyngor gydnabod fod y cyfnod yma yn un o ansicrwydd a allai arwain at straen ac effaith ar ddysgwyr. Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i gynorthwyo'r dysgwyr i setlo yn eu hysgol newydd.*

6.14.2 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi pryder am y niferoedd uwch o ddysgwyr mewn dosbarthiadau yn yr ysgol amgen, ynghyd â phryder y byddai gwireddu'r cynnig o gau'r ysgol yn amddifadu plant Abersoch o'u hawliau i dderbyn addysg yn eu pentref eu hunain, gan eu hamddifadu o hanes eu pentref, ac yn sgil hynny byddai effaith ddwys ar ddyfodol y plant a'r gymuned.**

6.14.3 *Mewn ymateb i'r sylwadau, bu i'r Cyngor nodi ei fod yn ymwybodol bod yr ysgol amgen yn cynnig addysg o ansawdd cyfatebol, gan gynnig mwy o brofiadau i'r disgyblion gydweithio a chymdeithasu gyda'u cyfoedion, gan alluogi'r disgyblion i fanteisio ar ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.*

6.14.4 *Ymhellach, bu i'r Cyngor nodi ei fod wedi bod yn agored ynglŷn â'r heriau sydd yn wynebu Ysgol Abersoch o gychwyn y broses, gan fod o'r farn y byddai'r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn arwain at:*

- *Leihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion*
- *Cynnig profiadau i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion oed-berthnasol*
- *Addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas*
- *Lleihau'r amrediad o lwfans y pen ar gyfer holl ddisgyblion y Sir*
- *Sicrhau bod plant yn trosglwyddo unwaith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith*

6.15 Effaith ar yr iaith Gymraeg

6.15.1 **Cafwyd nifer o sylwadau a oedd yn cyfeirio at ddylanwad yr ysgol ar iaith a diwylliant Abersoch ac o golli'r ysgol, byddai hynny'n cael effaith negyddol ar faint o Gymraeg fyddai'n cael ei siarad mewn amgylchiadau bob dydd ym mhentref Abersoch. Cafwyd cyfeiriadau hefyd at lwyddiant Ysgol Abersoch i ennill gwobr aur y Siarter Iaith am ei hymdrechion i hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan felly wireddu un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, ynghyd â Llywodraeth Cymru. Fel rhan o hynny, cafwyd sylwadau a oedd yn nodi fod trigolion a busnesau Abersoch yn ymwybodol o fodolaeth y Gymraeg oherwydd yr holl waith a wna'r athrawon a'r disgyblion o'i hybu, gyda nifer o siopau yn arddangos arwyddion dwyieithog yn sgil hynny.**

6.15.2 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, bu i'r Cyngor gydnabod ymdrechion Ysgol Abersoch i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a'r diwylliant*

Cymreig yn ehangach yn y gymuned, gan gyfleu gwerthfawrogiad o gefnogaeth y gymuned i'r ysgol ac i'r iaith Gymraeg yn sgil hynny. Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd fod y Cyngor hefyd yn cydnabod y pryderon ynglŷn â'r effaith posib ar yr iaith Gymraeg. Er hynny, disgwyliad yr Awdurdod yw bod holl ysgolion cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysg ac iaith gymdeithasol disgyblion, gan mai'r un yw'r disgwyliadau ieithyddol ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd.

6.15.3 **Cyfeiria nifer o'r ymatebwyr yn benodol hefyd at ddyhead uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o hybu addysg cyfrwng Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, er mwyn cyrraedd nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a bod y cynnig o gau'r ysgol yn mynd yn groes i'r nod cenedlaethol hwn.** *Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd fod y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori wedi nodi bod unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag ad-drefnu angen cydnabod ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.*

6.15.4 *Nodwyd yn ogystal fod y Cyngor yn cydnabod y pryderon ynglŷn â'r effaith posib ar yr iaith Gymraeg ac wedi cwblhau asesiad o ardrawiad ieithyddol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Yn yr asesiad, deuir i gasgliad na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, a hynny'n bennaf yn sgil disgwyliadau'r Polisi Iaith, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu. At hyn, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf, gyda 57% o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gartrefi Cymraeg, o gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.*

6.15.5 **Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf ynglŷn â'r ysgol fel adnodd pwysicaf y pentref o ran adfywio a pharhad y gymuned a'r iaith Gymraeg.** *Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Cyngor i liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, bod yr asesiad o ardrawiad ieithyddol yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. Yn ogystal, nododd y Cyngor fod yr asesiad effaith ar y gymuned yn nodi y rhagwelir y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion Meithrin – Bl. 3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, o ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach eisoes.*

6.15.6 **Cafwyd nifer o sylwadau hefyd yn amau neu'n herio dibynadwyedd y data sydd wedi'i gynnwys yn yr asesiad o ardrawiad ieithyddol, ynghyd â herio'r farn am yr effaith positif tebygol o weithredu'r cynnig.** *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, bu i'r Cyngor nodi ei fod yn cynnig yr Asesiad Effaith ac yn canfod barn ar y cynnig o'r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad.*

6.15.7 *Mewn ymateb i'r sylwad am faint y sampl o blant ddaru gwblhau'r holiadur gwe iaith, bu i'r Cyngor gadarnhau mai sampl o blant Cyfnod Sylfaen ymhob un o'r ysgolion a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol, a hynny er mwyn sicrhau cymhariaeth deg ac ystyrlon ar draws yr ysgolion. Yn sgil niferoedd isel Ysgol Abersoch, cydnabyddir bod sampl y data yn fychan, fodd bynnag, nododd y Cyngor fod y data yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynodd y disgyblion eu hunain yn yr holiadur yn nodi eu harferion o ran defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.*

6.15.8 *Ymhellach, bu i'r Cyngor nodi, er bod y disgyblion o'r un grŵp oedran wedi cwblhau'r holiadur ymhob un o'r ysgolion, nid oedd yn annisgwyl bod data Ysgol Abersoch yn dangos mai o dan arweiniad athro neu gymhorthydd y mae'r disgyblion yn fwyaf hyderus i siarad Cymraeg, gan fod 67% o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn dod o gartrefi di-Gymraeg, ac nad yw'r gyfundrefn addysg wedi cael cyfle digonol i'w trochi yn y Gymraeg er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hyder a'r sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiol gyd-destunau.*

6.16 <u>Sylwadau yn ymwneud â'r Cylch Ti a Fi a'r Cylch Meithrin</u>

6.16.1 **Mae nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn nodi pryderon ynglŷn â dyfodol y Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn Abersoch pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.**

6.16.2 **Cyflwynwyd sylwadau penodol am yr effaith o golli'r Cylch Meithrin. Nodwyd gan rai o'r ymgynghorai fod galw am y gwasanaeth hwn yn nalgylch Ysgol Abersoch.**

6.16.3 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, eglurwyd pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.*

6.16.4 *Ond o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau efo'r cynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch. Fe nodir yn yr asesiad effaith cymunedol -"Cynhelir Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn adeilad yr ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd."*

6.16.5 **Nododd un sylw y byddai siawns cyson am fwy o ddisgyblion ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, awgrymwyd y byddai caniatáu mwy o amser i'r Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.** *Tra'n cydnabod effaith gadarnhaol posib y gall lleoli cylch meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar y niferoedd, nid oes modd gwarantu hyn, a rhagwelir y byddai'r heriau o leihad mewn niferoedd, maint dosbarthiadau bychain a'r heriau cyllidol yn parhau. Yn ogystal dylid nodi nad yw'r Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn rhan o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau gyda chynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, neu symud i safle arall yn ardal Abersoch.*

6.17 <u>Arall/Cyffredinol</u>

6.17.1 **Derbyniwyd nifer o sylwadau eraill yn nodi pa mor dda mae addysg Ysgol Abersoch wedi bod yn hanesyddol, megis pa mor dda ydi'r lleoliad, pa mor gefnogol yw rhieni, staff a llywodraethwyr wedi bod, pwysigrwydd yr ysgol i gynnal yr iaith Gymraeg a'r rhan mae'r ysgol wedi'i chwarae yn y gymuned leol.** *Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, serch hynny, mae'n rhaid cydnabod bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol yn sgil y niferoedd isel, fel y manylir yn adran 4.1.2. uchod.*

6.17.2 **Derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn cwestiynu penderfyniadau pwyllgorau Cyngor Gwynedd, ac yn cwestiynu a fydd gwrandawiad teg yn cael ei gynnal yn achos Ysgol Abersoch.**

6.17.3 *Galwyd penderfyniad y Cabinet 15 Medi 2020 gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 8 Hydref 2020, ble rhoddwyd ystyriaeth i benderfyniad Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch 31 Awst 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach a'r 1 Medi 2021. Yn dilyn ystyriaeth fanwl, pleidleisiodd y pwyllgor o blaid anfon y mater yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried.*

6.17.4 *Ar 3 Tachwedd 2020 bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gwrdd i drafod argymhelliad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ynglŷn â phenderfyniad y Cabinet ar 15 Medi 2020.*

6.17.5 *Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth fanwl, penderfynodd Cabinet y Cyngor, na ddylid addasu penderfyniad gwreiddiol y Cabinet a wnaethpwyd ar 15 Medi 2020 i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen a mabwysiadu hyn fel penderfyniad terfynol.*

6.17.6 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi'r broblem ail-gartrefi sydd yn Abersoch a'r effaith mae hyn wedi ei gael ar yr ysgol**. **Yn ogystal, derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi mai un o'r rhesymau nad yw nifer y disgyblion wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf yw'r diffyg tai fforddiadwy.**

6.17.7 *Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, fodd bynnag, dymuna'r Cyngor nodi nad oes ganddo reolaeth dros y farchnad dai agored. Ym mis Rhagfyr 2020 fe wnaeth Cyngor Gwynedd fabwysiadu Cynllun Gweithredu a fydd yn buddsoddi £77m mewn dros 30 o gynlluniau penodol i daclo'r her gynyddol o ddiffyg tai addas i drigolion y Sir, gan gynnwys cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol. Caiff y Cynllun ei weithredu dros y 6 mlynedd nesaf gan gynnwys prosiectau megis cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol yng Ngwynedd; prynu cyn-dai cymdeithasol a thai preifat i'w gosod ar rent fforddiadwy i drigolion Gwynedd; datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu; gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn "dai Cyngor"; Cynllun Cymorth Prynu a Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag. Mae union leoliadau rhai o'r cynlluniau hyn i'w cadarnhau yn dilyn ymarferiad o ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai.*

6.17.8 *Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hyn ac yn caniatáu i ni anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol. Rydym hefyd yn cydnabod y byddwn angen parhau i ymgyrchu am newidiadau pellach cenedlaethol er mwyn cryfhau ein gallu i weithredu o fewn Gwynedd a bydd y Cyngor yn parhau i wneud hynny ar bob cyfle posib yn y maes tai, trethiant, trwyddedu a chynllunio.*

6.17.9 **Roedd rhai sylwadau yn holi pam na ddefnyddir cyfran mwy o dreth y Cyngor sy'n cael ei gasglu yn yr ardal tuag at gostau cynnal yr ysgol.** *Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'n nodi fod yr ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym hob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582. Cost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yw £17,404 (2020-21), gyda chyfartaledd sirol cost fesul disgybl yn £4,198. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd fod rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol yn parhau.*

6.17.10 **Derbyniwyd un sylwad yn holi pam nad ydi Ysgol Abersoch yn cael chrybwyll fel ysgolion gwledig.** *Nid yw Ysgol Abersoch yn cael ei hystyried fel ysgol wledig yn Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 Llywodraeth Cymru.*

6.17.11 **Roedd rhai sylwadau yn nodi'r posibilrwydd y bydd mwy yn dewis gweithio o adref yn sgil COVID ac yn dewis byw mewn pentrefi fel Abersoch, ac y byddai hynny'n arwain at gynnydd yn niferoedd yr ysgol. Roedd eraill yn nodi fod potensial y bydd mwy o dai a swyddi yn cael eu creu yn yr ardal fyddai, o bosib, yn arwain at gynnydd yn niferoedd plant. Yn ogystal, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn nodi fod pobl yn gweld Abersoch fel pentref gwyliau yn hytrach na lle i bobl fyw ac y byddai cau'r ysgol yn cyfrannu at hyn.**

6.17.12 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir nad oes sicrwydd y byddai newidiadau demograffig i'r dyfodol yn cynyddu niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch. Byddai plant a phobl ifanc y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel yn Ysgol Sarn Bach sydd 1.4 milltir i ffwrdd o bentref Abersoch.*

6.18 Ymatebion i'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc

6.18.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 5.6 uchod, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori rhithwir gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd sydd yn destun i'r ymgynghoriad statudol hwn. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal sesiynau rhithwir â'r ysgolion i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn. Dyma'r prif bwyntiau gododd yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc:

Ysgol Abersoch	Ysgol Sarn Bach
Roedd yr holl ddisgyblion yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig.	Nid oedd unrhyw un o aelodau'r cyngor ysgol yn gwrthwynebu'r cynnig.
Codwyd gwrthwynebiadau gan y rhieni bod cynnal cyfarfod dros *Google Meet* ar fater mor sensitif yn annheg ar y plant.	Roedd y disgyblion yn ymddangos yn ddibryder ynghylch y posibilrwydd o groesawu 10 disgybl newydd i'r ysgol ym mis Medi.
Roedd rhieni yn teimlo'n gryf fod angen ystyried newidiadau diweddar yn yr ysgol ac effaith y pandemig ar addysg a lles y plant cyn symud ymlaen gydag unrhyw benderfyniad i gau'r ysgol. Gofynnodd rhai plant i aros ymlaen yn yr ysgol am flwyddyn arall.	Roedd y disgyblion yn hapus i wneud pob ymdrech i helpu disgyblion newydd i ymgartrefu. Roeddent yn barod i rannu syniadau ynghylch sut y gallai'r ysgol addasu i wneud i hyn ddigwydd trwy ddeall yr hyn roeddent yn ei fwynhau yn Ysgol Abersoch a dyblygu hynny yn Ysgol Sarn Bach.
Lleisiodd yr holl ddisgyblion y byddai cau Ysgol Abersoch, ysgol yr oeddent yn ei choleddu'n annwyl, a symud i Ysgol Sarn Bach yn annheg arnynt ac yn brofiad brawychus.	Roedd symud i Ysgol Sarn Bach o Ysgol Abersoch ar ddiwedd Blwyddyn 3 yn brofiad cadarnhaol a gwerth chweil ym marn holl aelodau'r cyngor ysgol. Roeddent yn credu y byddai hyn hefyd yn wir pe bai'n rhaid i ddisgyblion iau wneud hyn fis Medi nesaf.

6.18.2 Yn yr adroddiad ymgynghori â phlant a phobl ifanc, daeth yr Hwylusydd i gasgliad:

"Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynghori oedd bod disgyblion Ysgol Abersoch yn anhapus iawn gyda'r bwriad o gau eu hysgol ac yn ei gweld yn anodd iawn derbyn y gallent fod yn hapus yn Ysgol Sarn Bach. Roedd sylwadau disgyblion Ysgol Abersoch yn ei gwneud yn amlwg eu bod yn ymwrthod â'r cynnig i gau eu hysgol a symud eu haddysg i Ysgol Sarn Bach fis Medi nesaf. Un o'r prif negeseuon oedd eu pryder o golli profiadau pwysig o fewn amgylchfyd agos yr ysgol, sef ymweliadau addysgol â'r traeth a'r pentref lle'r oedd dysgu am y byd o'u cwmpas a'u cymuned drwy brofiadau uniongyrchol yn cael eu coleddu'n fawr gan y plant.

Roedd yn amlwg fod disgyblion Ysgol Sarn Bach yn cydymdeimlo gyda'i sefyllfa ond yn awyddus iawn i roi croeso cynnes i'r disgyblion newydd. Roedd y Cyngor Ysgol yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl hwy fel cyfoedion i helpu plant Abersoch i setlo yn eu hysgol newydd a gwneud iddynt deimlo'n hapus yno."

6.19 Estyn

6.19.1 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn ei wneud yn ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fel corff yr ymgynghorir ag ef, mae Estyn yn rhoi eu barn ar yr ymgynghoriad.

6.19.2 Mynegodd Estyn yn ei grynodeb:

"Mae Estyn o'r farn bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal o leiaf y safonau presennol o addysg gynradd yn yr ardal."

6.19.3 Yn ei ymateb i ddisgrifiad a manteision y cynnig, nodwyd:

"Mae'r cynnig yn cyflwyno achos cynhwysfawr dros newid sy'n ystyried yr heriau presennol i Ysgol Abersoch. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd disgyblion isel, canran uchel o lefydd gweigion, amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau ac adnoddau ariannol ychwanegol. Rhoddir ystyriaeth lawn i'r heriau hyn....

Mae'r cynnig yn gwerthuso'r opsiynau yn llawn cyn amlygu tair opsiwn fyddai fwyaf hyfyw sef opsiwn 2 (newid ystod oedran i 3-11oed), Opsiwn 3 ac Opsiwn 6. Asesir effaith y tri opsiwn uchod ar ansawdd yr addysg, trefniadau teithio a'r gymuned. Yn dilyn yr asesiad mae'r awdurdod lleol yn dewis ac yn cynnig Opsiwn 6, cau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 af o Fedi 2021...."

6.19.4 Wrth ystyried effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg, nodai Estyn:

"Ymddengys fod y cynigiwr wedi ystyried effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn briodol. Ni ragwelir bod y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg y disgyblion gan fod polisi iaith y cyngor yr un mor berthnasol yn yr ysgol amgen a byddai parhad o addysg cyfrwng Cymraeg."

6.19.5 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, bu i Estyn nodi:

"Mae safonau yn y ddwy ysgol a effeithir yn debyg iawn i'w gilydd ac yn yr arolygiadau mwyaf diweddar barnwyd y ddwy ysgol yn dda ar bob cwestiwn allweddol neu faes arolygu.

Mae'r cynnig yn ystyried deilliannau diweddaraf arolygiadau Estyn y ddwy ysgol sydd dan sylw. Arolygwyd Ysgol Abersoch yn Mehefin 2017 a barnwyd y tri chwestiwn allweddol yn dda. Yn Hydref 2017, arolygwyd Ysgol Sarn Bach gan farnu pob maes arolygu yn dda. Mae'r cynigiwr yn asesu effaith tebygol y cynnig ar feysydd y fframwaith arolygu. Dangosa hyn y gall effaith positif fod yn bosibl ar les a phrofiadau dysgu o gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo'r plant i Ysgol Sarn Bach. Mae hyn o ganlyniad i'r hyn mae'r awdurdod lleol wedi nodi am ddisgyblion yn elwa o brofiadau i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Er nad yw'r cynnig yn gwneud cymariaethau ar berfformiad y ddwy ysgol maent yn hyderus bod ansawdd y ddarpariaeth yn Ysgol Sarn Bach gystal â'r ddarpariaeth y cyfnod sylfaen yn Ysgol Abersoch. Gwelir bod y cynigiwr wedi ystyried parhad yn y ddarpariaeth gwricwlaidd yn briodol gan awgrymu bod ysgolion gyda niferoedd uwch o ddisgyblion yn gallu cynnig strwythur mwy cadarn wrth gynllunio a darparu'r cwricwlwm.

Yn eu asesiad o arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r cynnig yn dyfynnu o arolygiadau diweddar sy'n nodi bod ansawdd yr arweinyddiaeth yn dda. Mae Ysgol Abersoch ar hyn o bryd yn gweithredu dan arweiniad pennaeth mewn gofal tra bod pennaeth parhaol yn Ysgol Sarn Bach.(Nodwyd hyn yn sgil absenoldeb pennaeth parhaol Ysgol Abersoch) Mae'r ddwy ysgol wedi eu nodi fel bod yn y categori melyn o ran cefnogaeth a gallu i wella gan Lywodraeth Cymru

Nodir yn glir yr hyn y mae'r cynigiwr yn ei ddisgwyl o ran effaith ar lywodraethu a materion staffio. Mae'n amlinellu'r gefnogaeth fydd ar gael i aelodau staff Ysgol Abersoch yn benodol sydd yn bennaf yn cael eu heffeithio gan y cynnig.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sylw priodol i'r effaith ar grwpiau bregus o ddisgyblion gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n nodi sicrwydd bod gan Ysgol Sarn Bach y cyfleusterau i gynnig darpariaeth gyfatebol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Maent wedi cynllunio'n addas i ymgynghori gyda'r disgyblion. Mae'r awdurdod lleol wedi paratoi dogfennaeth addas ar gyfer egluro'r ymgynghoriad i ddisgyblion ac yn holi eu barn trwy holiadur syml. Nid yw'n glir i ba raddau maent am ystyried yr effaith ar ddisgyblion presennol Ysgol Sarn Bach."

6.19.6 *Mewn ymateb i'r sylwad yn ymwneud â'r ymgynghoriad gyda phlant, noda'r Awdurdod eu bod wedi llunio dogfen ymgynghorol i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig, ynghyd â chynnal sesiynau ymgynghori rhithwir gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal y sesiynau rhithwir gyda disgyblion y ddwy ysgol er mwyn canfod eu barn. Amlygodd prif bwyntiau'r ymgynghoriad fod disgyblion Ysgol Sarn Bach yn gefnogol i'r cynnig ac yn ddibryder am y newid, gan ddangos awydd i wneud pob ymdrech i helpu disgyblion newydd ymgartrefu.*

6.20 Yr opsiynau amgen a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol

6.20.1 Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, gall ymgynghorai awgrymu opsiynau amgen eraill yn ystod yr ymgynghoriad.

6.20.2 Awgrymwyd 5 opsiwn amgen arall yn ystod yr ymgynghoriad. (Roedd nifer o'r ymatebion yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ogystal.) Gwerthuswyd yr opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd gan roi ystyriaeth i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac ystyriaethau perthnasol eraill. Mae copi o'r gwerthusiad opsiynau llawn wedi ei gynnwys yn **Atodiad A**.

6.20.3 Yn dilyn gwerthuso'r opsiynau amgen a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, daethpwyd i'r casgliad y dylid rhoi ystyriaeth bellach i 3 opsiwn, sef:

- Ysgol Aml-safle (Safle Abersoch, Llanbedrog a Sarn Bach)
- Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron
- Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)

6.20.4 Mae'r tabl isod yn nodi'r opsiynau a awgrymwyd gan yr ymgynghorai ac yn crynhoi'r rhesymau dros beidio a bwrw ymlaen â'r opsiynau hynny.

Opsiwn	Disgrifiad	Rhesymau dros beidio ag bwrw ymlaen â'r opsiwn
Opsiwn 2(b)	Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed	Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau. Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth Cyfnod Allweddol 2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i

		drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.
Opsiwn 10	Canolfan Ddiwylliannol yn Ysgol Abersoch	Rhagwelir y byddai niferoedd disgyblion yn parhau'n isel i'r dyfodol yn seiliedig ar y rhagamcanion niferoedd, dosbarthiadau'n parhau'n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau. Tra'n cydnabod effaith gadarnhaol gall mentrau megis Canolfan ddiwylliannol ei gael o safbwynt y gymuned a photensial i ddenu incwm i'r ysgol, ni ragwelir y byddai'r opsiynau i sefydlu Ysgol Draeth, Canolfan Ddiwylliannol na Darparu Addysg Gyflawn arwain at gynnydd yn y niferoedd, a rhagwelir y byddai'r heriau'n parhau.
Opsiwn 11	Darparu Addysg Gyflawn ac Adnabod Bro yn Ysgol Abersoch	
Opsiwn 12	Ysgol Draeth	
Opsiwn 13	Ysgol Aml-safle (Safle Abersoch, Llanbedrog a Sarn Bach)	Caiff yr opsiwn yma ei ystyried ymhellach gan y byddai'n arwain at fwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol. Gan mai 1 ysgol fyddai hi, byddai mwy o hyblygrwydd yn y trefniadau arweinyddiaeth a staffio. Yn ogystal, byddai'n rhesymoli gwariant y disgybl o fewn yr ardal- defnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol gan mai 1 ysgol fyddai hi.
Opsiwn 14	Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron	Caiff yr opsiwn yma ei ystyried ymhellach gan y gallai gryfhau sefyllfa'r ysgol drwy alluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau ac arbenigeddau.
Opsiwn 15	Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)	Caiff yr opsiwn yma ei ystyried ymhellach gan y gallai gryfhau sefyllfa'r ysgol drwy alluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau ac arbenigeddau.

6.21 Asesiadau Effaith o'r opsiynau rhesymol eraill

6.21.1 *Yn* dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, cynhaliwyd asesiadau pellach o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill gan ystyried unrhyw wybodaeth bellach ddaeth i law yn ymwneud â'r ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad (Atodiad D).

6.21.2 O safbwynt yr asesiad effaith ar y gymuned derbyniwyd ymatebion oedd yn nodi fod gwallau yn y wybodaeth gefndirol a nodwyd yn yr asesiad. Yn ogystal, roedd un ymatebydd yn awgrymu y dylai'r asesiad o effaith y model ffederaleiddio, o safbwynt cyfleusterau a gwasanaethau eraill, gael ei nodi'n bositif. Mae'r Cyngor yn derbyn y sylwadau hyn ac mae'r wybodaeth a'r manylion hynny wedi eu cynnwys a'u cyfarch yn yr asesiad

effaith cymunedol diweddaraf. Yn ogystal, fe nodir yn yr asesiad diweddaraf fod nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi pwysleisio y byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref a'r gymuned leol. Mae'r asesiad o'r opsiynau rhesymol eraill a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn yr asesiad diweddaraf yn ogystal.

6.21.3 O safbwynt yr asesiad o'r effaith tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, a'r Asesiad effaith tebygol ar drefniadau teithio i ddisgyblion, ac eithrio'r angen i ystyried opsiynau amgen eraill, ni dderbyniwyd gwybodaeth penodol a fyddai'n cael effaith ar gasgliadau'r asesiadau effaith ar Ansawdd Addysg a Threfniadau teithio o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol a gyniwyd gan y Cyngor fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.

6.21.4 Mae'r asesiad o'r opsiynau rhesymol eraill wedi'u crynhoi yn y tabl isod (Gweler yr asesiadau llawn yn Atodiad D):

	Crynodeb o'r asesiad o'r effaith ar:		
	Ansawdd a Safonau Addysg	***Y gymuned***	***Trefniadau teithio i ddisgyblion***
Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg na ragwelir y byddai ymestyn ystod oedran yr ysgol yn cael effaith negyddol ar ansawdd a safonau'r addysg a ddarperir yn yr ysgol. Byddai ymestyn yr ystod oed yn cynyddu cyflenwad CA2 yr ysgol.	Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai newid ystod oedran yr ysgol yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed yn effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.
Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos.	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn effeithio'n bositif ar y meini prawf profiadau addysgu a dysgu yn ogystal ag ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gallai gweithredu model o'r fath arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol.	Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.

Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach	Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casglid fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach.	Yn gryno, nodai'r asesiad o'r effaith ar y Gymuned y byddai peth effaith negyddol ar y gymuned yn deillio o weithredu'r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach. Yn ogystal, nodir fod nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi pwysleisio y byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref a'r gymuned leol. Serch hynny, nodai'r awdurdod fod 35% o'r disgyblion (M-Bl.3) sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, ac o ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cysylltiad rhwng yr ysgol â'r ardal ehangach yn bodoli eisoes. I liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe gweithredir y cynnig, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.	Byddai'r opsiwn o gau'r ysgol yn golygu fod angen i ddisgyblion Ysgol Abersoch deithio yn bellach i'w hysgol bob dydd. Mae Ysgol Sarn Bach wedi ei lleoli 1.4 milltir o Ysgol Abersoch, ac amcangyfrifir fod y daith o ddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws sydd o fewn y pellter rhesymol y disgwylir i blant cynradd ei deithio i'w hysgol yn unol â'r 'Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd' o 30 munud bob ffordd. Bydd cludiant i'r ysgol amgen yn cael ei gynnig yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd.
Ysgol Aml-safle (Safle Abersoch, Llanbedrog a Sarn Bach)	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai Ysgol Aml-safle	Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai Ysgol Aml-safle yn cael effaith negyddol	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai sefydlu Ysgol Aml-safle yn

	yn effeithio'n bositif ar y meini prawf profiadau addysgu a dysgu yn ogystal ag ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Gall model Ysgol Aml-Safle arwain at arbed amser y Pennaeth, drwy gynllunio ar draws y safleoedd yr ysgol yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol.	ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned. Serch hynny, er bod presenoldeb safle ymhob cymuned, ni fyddai hunaniaeth gymunedol i'r safleoedd hynny.	debygol o effeithio ar drefniadau teithio disgyblion Ysgol Abersoch, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu ar safle presennol Ysgol Abersoch.
Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn effeithio'n bositif ar y meini prawf profiadau addysgu a dysgu yn ogystal ag ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gallai gweithredu model o'r fath arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol.	Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.
Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn effeithio'n bositif ar y meini prawf profiadau addysgu a dysgu yn ogystal ag ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gallai gweithredu model o'r fath arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach	Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.

	nac ar gyfer ysgolion unigol.		

6.22 Gwerthusiad o'r opsiynau amgen rhesymol a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol

6.22.1 **<u>Ffederaleiddio</u>**

Trafodwyd ac ystyriwyd 3 fersiwn gwahanol o'r opsiwn ffederaleiddio fel rhan o'r ymgynghoriad statudol. Yn ogystal, awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad y dylid rhoi ystyriaeth i 2 fersiwn pellach o'r opsiwn, sef:

(i) Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron

(ii) Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)

6.22.2 Byddai'r opsiynau uchod yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Abersoch trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un Corff Llywodraethol.

6.22.3 Byddai Cyrff Llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai Corff Llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (gan gynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn gallu cael eu cadw, neu eu haddasu er mwyn adlewyrchu hunaniaeth y ffederasiwn newydd. Byddai model o'r math hwn hefyd yn galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau, ac arbenigeddau.

6.22.4 Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r un o'r ddau opsiwn a nodir uchod yn cyfarch y prif heriau y mae'r ysgol yn ei hwynebu megis niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychan, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.

6.22.5 Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol.

6.22.6 **<u>Ysgol Aml-safle</u>**

6.22.7 Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

6.22.8 Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

6.22.9 Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai Ysgol Aml-safle yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai'n arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad Ysgol Aml-safle yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol.

6.22.10 Ar sail casgliadau'r asesiadau a'r gwerthusiad a nodir uchod, mae'r Awdurdod o'r farn mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig. Manylir hyn ymhellach yn yr adroddiad (Adran 9).

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

7.1 Cynhaliwyd asesiad Llesiant ar yr opsiynau gan ystyried amcanion lles Cyngor Gwynedd, a diweddarwyd yr asesiad wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

7.2 Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y Sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

7.3 Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, deuir i gasgliad fod y cynnig yn bodloni 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y cyngor. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol. Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion (mae copi o'r asesiad wedi ei gynnwys yn **Atodiad D**).

8. Cydraddoldeb

8.1 Mae polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal.

8.2 Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar yr opsiynau, sydd yn rhoi sylw i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae fersiwn diwygiedig o'r asesiad yn **Atodiad D**.

8.3 Bu i'r asesiad cydraddoldeb nodi pwysigrwydd hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

9. Casgliad

9.1 Argymhellir felly rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Rhagfyr 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, o 1 Ionawr 2022.

Er i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 rydym yn argymell addasu'r dyddiad gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Abersoch i 31 Rhagfyr 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad yn datgan pryder am yr amserlen amlinellol ystyrir y byddai gohirio gweithredu tan 31 Rhagfyr 2021 yn caniatáu mwy o amser i'r Adran Addysg roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach.

9.2 Deuir i'r casgliad mai'r cynnig hwn yw'r ymateb mwyaf priodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu a hynny am y rhesymau a nodir yn Adrannau 4.1 a 4.7 o'r adroddiad yma.

9.3 Mae'r argymhelliad i gymeradwyo'r cynnig yn dilyn ystyriaeth o ystod o opsiynau a gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol. Defnyddiwyd uchelgais y strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*', ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, a ffactorau perthnasol eraill.

Roedd y ffactorau yn cynnwys:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a Niferoedd disgyblion
- Arweinyddiaeth
- Yr effaith debygol ar y Gymuned
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau Daearyddol a'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
- Ansawdd a Safonau yr Addysg
- Ardrawiad Cydraddoldeb
- Ardrawiad Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Y sefyllfa argyfyngus y mae'r ysgol yn ei wynebu
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol

9.4 Mae'r gwerthusiad opsiynau llawn yma eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cabinet am ystyriaeth ar 15 Medi 2020 ac mae fersiwn diwygiedig sy'n cynnwys yr opsiynau amgen a awgrymwyd gan yr ymgynghorai i'w weld yn **Atodiad A.**

9.5 Mae'r asesiadau effaith yn **Atodiad D**, a'r holl ddogfennaeth gefndirol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg .

9.6 Yn dilyn ystyried yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ystyrir fod y cynnig ymgynghorwyd arno yn parhau i gynnig yr opsiwn orau ar gyfer dyfodol addysg dalgylch Abersoch. Mae dadansoddiad o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael sylw yn Adran 6 ac **Atodiad B**, ac mae'r ymatebion ar gael yn llawn yn **Atodiad Ch** ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

10. Camau Nesaf

10.1 Os bydd y Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn – bydd angen cyhoeddi rhybudd statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

10.2 Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

10.3 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu os bydd gwrthwynebiadau wedi dod i law rhaid i'r awdurdod gyhoeddi adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r holl wrthwynebiadau a'i ymateb iddynt. Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol (os na fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law, neu os bydd pob un wedi ei dynnu yn ôl, gall yr Aelod Cabinet wneud y penderfyniad). Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru am ystyriaeth, yn unol â Deddf 2013, a gall y Gweinidog benderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo gydag addasiadau.

10.4 Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

Mehefin 2021	**Cyhoeddi Rhybudd Statudol:** os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen a'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.
Medi 2021	**Penderfyniad terfynol ar y Cynnig :** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, os derbynnir gwrthwynebiadau, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. Os na fydd gwrthwynebiadau, neu os bydd pob un wedi ei dynnu yn ôl, gall yr Aelod Cabinet wneud y penderfyniad.
Hydref 2021	**Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:** Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, os y daeth

	gwrthwynebiadau i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w ystyried: i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno; ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni; iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.
Rhagfyr 2021	**Gweithredu'r cynnig:** Ysgol Abersoch yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet.

11. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad a'r broses wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Gellir gweld fod y cyfnod argyfwng COVID wedi gosod heriau ychwanegol ar gynnal y drefn ymgynghori. Fodd bynnag mae'r adroddiad yn cynnig sail priodol i'r Cabinet ddod i benderfyniad ar yr argymhelliad."

Y Pennaeth Cyllid:

"Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sydd yn rhan 4.1.2 v a vi, 4.7.2 Adnoddau Ariannol, a 6.8.4 o'r adroddiad unai yn wir gostau cywir, neu yn amcangyfrifon teg (lle'n briodol) wedi ystyried cost cludiant. Mae rhesymau amlwg yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, gan gynnwys rhesymau ariannol fel arbediad blynyddol o £96,062 mewn costau refeniw, a chost gyfredol Ysgol Abersoch yn £17,404 fesul disgybl, o'i gymharu â chyfartaledd sirol £4,198. Felly, rwy'n cefnogi'r argymhelliad."

Atodiadau:

Atodiad A: Cymhariaeth o nodweddion yr opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth.

Atodiad B: Dadansoddiad o ymatebion yr Ymgynghoriad

Atodiad C: Ymgynghoriad Plant a phobl ifanc

Atodiad Ch: Ymatebion

Atodiad D: Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith Ieithyddol
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

Atodiad Dd: Sylwadau'r Aelod Lleol

Sylwadau mewn **bold** wedi eu hychwanegu yn dilyn yr ymgynghoriad

Atodiad A – Cymharu'r Opsiynau

Allwedd: Glas = Manteision Coch = Anfanteision Du = Sylwadau a Ffeithiau

	1 **Status Quo**	2 (a) **Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed**	2 (b) **Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed**	3 **Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos**	4 **Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos**
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw. Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. Amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn y dosbarth CS a'r dosbarth CA2.
Niferoedd Disgyblion	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 26 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 26 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth hyd flwyddyn 6 yn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd disgyblion, ac o ganlyniad yn lleihau ychydig ar y llefydd gweigion. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 26 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth hyd flwyddyn 4 yn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd disgyblion, ac o ganlyniad yn lleihau ychydig ar y llefydd gwegion, ond nid cymaint ag opsiwn 2 (a).	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 26 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd disgyblion yr ysgol yn debygol o gynyddu gan mai Ysgol Abersoch fyddai'r darparwr addysg CS ar gyfer disgyblion dalgylch y 2 ysgol. Byddai cyfyngu'r ysgol gyfagos i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion CA2 yn unig yn arwain at leihad yn niferoedd disgyblion CS yr ysgol honno i 0. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion.

		yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.	Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion.		
Arweinyddiaeth a Staffio	Dim newid yn amser digyswllt y pennaeth.	Dim newid yn amser di-gyswllt y pennaeth.	Dim newid yn amser digyswllt y pennaeth.	Cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.	Cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.
Y Gymuned	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai'n effeithio ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. **Cymunedau yr ysgol arall yn cwestiynu pam fod yn rhaid iddynt newid trefniadau ei ysgol leol nhw er nad yw'r niferoedd disgyblion yno mor isel a ffigyrau Ysgol Abersoch. Hyn o bosib yn arwain at ddrwg deimlad lleol.**
Adnoddau Ariannol	Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros	Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros	Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel,	Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404,	Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.

Tud. 160	bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad.	bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad bychan yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn debygol o barhau mewn gwarchodaeth. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad.	£17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn debygol o barhau mewn gwarchodaeth. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad.	dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. Cyfle i rannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws ysgolion y ffederasiwn. Byddai unrhyw arbediad rheolaethol fyddai'n deillio o'r trefniant yn cael ei gadw gan yr ysgolion i redeg y ffederasiwn. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad.	Cost cyfartaledd y disgybl yn debygol o barhau i fod yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd sirol. Cyfle i rannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws ysgolion y ffederasiwn. Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yng nghost y disgybl. Byddai unrhyw arbediad rheolaethol fyddai'n deillio o'r trefniant yn cael ei gadw gan yr ysgolion i redeg y ffederasiwn. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.
Ffactorau Daearyddol	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid i ddisgyblion y CS. Ysgol yn parhau i fod o fewn pellter cerdded o'r cartref i mwyafrif o ddisgyblion CS dalgylch Ysgol Abersoch.

					Byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnânt ar hyn o bryd – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai'n deillio o hynny.
Ystyriaethau pellach		Dim torri ar draws darpariaeth CA2 yr ysgol – gall arwain at well parhad o'r cwricwlwm gan fod yr ysgol yn cynnig addysgu 2 gyfnod cyflawn (CS + CA2). Ystod oed yr ysgol yn gyson gyda'r mwyafrif o ysgolion cynradd y sir. Ni fyddai'r adeilad/safle presennol, heb addasiadau yn addas ar gyfer cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion.	Ni fyddai ystod oed yr ysgol yn gyson gyda'r mwyafrif o ysgolion cynradd y sir. Ni fyddai'r adeilad/safle presennol, heb addasiadau yn addas ar gyfer cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion.	Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio. Byddai Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy gyda niferoedd bychan ac yn parhau i dderbyn gwarchodaeth ariannol.	Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio. Posibilrwydd y byddai angen cynnal proses statudol i newid ystod oed yr ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn. Posib y byddai'n arwain at ostyngiad yn niferoedd yr ysgol gyfagos, gan y byddai'n ei chyfyngu i ddarparu addysg CA2 yn unig.
Rhai sylwadau gan selodau'r PA	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Potensial i'r niferoedd gynyddu trwy fenter tai lleol. Cyfleoedd parhaus i gryfhau'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Disgyblion yn cael yr opsiwn i barhau i gael eu haddysgu am flwyddyn ychwanegol yn Ysgol Abersoch. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Pryder am ddiffyg cynrychiolaeth lawn o'r cymunedau ar y corff llywodraethu ffederal. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Pryder am ddiffyg cynrychiolaeth lawn o'r cymunedau ar y corff llywodraethu ffederal. Gall dosbarthiadau rhy fawr o ran niferoedd disgyblion fod yn anfanteisiol - ond, onid yw'n wir y byddai lle i ddau ddosbarth CS yn Ysgol Abersoch a thri dosbarth CA2 yn Ysgol Sarn Bach? Gallasai'r newid arwain at rieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch

	5	6	7	8 (a)	8 (b)
	Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol	**Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen**	**Lleoli canolfan iaith ar safle Ysgol Abersoch**	**Sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch**	**Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + sefydlu Cylch Meithrin Ysgol Abersoch**
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw. Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.	Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw. Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. Amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn y dosbarth CS + CA2	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.
Niferoedd Disgyblion	Niferoedd disgyblion yr ysgol yn debygol o gynyddu gan mai Ysgol Abersoch fyddai'r darparwr addysg CS disgyblion dalgylch y 3 ysgol Byddai cyfyngu'r ysgolion cyfagos i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion 3 a 4 + 5 a 6 yn unig yn arwain at leihad yn niferoedd disgyblion yr ysgolion hynny. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd disgyblion yr ysgol fyddai'n darparu addysg ar gyfer yr ardal yn fwy cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol. Lleihad yng nghanran y llefydd gweigion yn yr ardal.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 26 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 26 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth hyd flwyddyn 4 yn arwain at gynnydd yn niferoedd disgyblion, ac o ganlyniad yn lleihau'r llefydd gwegion, ond nid cymaint ag opsiwn 2 (a). Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion.

Arweinyddiaeth a Staffio	Cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. **Mae Pennaeth yn y tair ysgol ar hyn o bryd. Gall y model hwn arwain at leihad posibl yn niferoedd staffio - golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyfleodd cyflogaeth.** **Cyfle i un pennaeth gael mwy o amser i fod yn arwain er fod hynny ar draws 3 safle.**	Diswyddiadau staff.	Dim newid i amser digyswllt y pennaeth.	Dim newid i amser digyswllt y pennaeth.	Dim newid i amser digyswllt y pennaeth.
Y Gymuned	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. **Plant yn symud o un safle i'r llall ac oherwydd hyn yn methu perthnasu yr un mor effeithiol ac y maent ar hyn o bryd i'w ardal leol.** **Cymunedau yr ysgolion eraill yn cwestiynu pam fod yn rhaid iddynt newid trefniadau ei ysgol leol nhw er nad yw'r niferoedd disgyblion yno mor isel a ffigyrau Ysgol Abersoch. Hyn o bosib yn arwain at ddrwg deimlad lleol.**	Colli presenoldeb ysgol ym mhentref Abersoch Noder fod canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion cyfagos a'r gymuned yn Abersoch eisoes yn bodoli.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad mae cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad mae cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad mae cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill.

Adnoddau Ariannol	Cyfle i rannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws ysgolion y ffederasiwn. Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yng nghost y disgybl. Byddai unrhyw arbediad rheolaethol fyddai'n deillio o'r trefniant yn cael ei gadw gan yr ysgolion i redeg y ffederasiwn. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad. Posib y byddai'r 3 ysgol angen dyraniad ychwanegol er mwyn sicrhau lefelau staffio priodol.	Gall arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r awdurdod (os yw'r ysgol amgen fwy na 2 filltir o gartrefi'r disgyblion) Ni fyddai'r ysgol yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio. Cost y disgybl o addysgu yn agosach at y cyfartaledd sirol.	Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. Ni fyddai gweithredu'r opsiwn yn cynhyrchu incwm i'r ysgol o safbwynt y ganolfan iaith. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad. Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad bychan yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn parhau mewn gwarchodaeth.	Potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant. Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad bychan yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn parhau mewn gwarchodaeth.	Potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant. Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad bychan yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn parhau mewn gwarchodaeth.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Colli darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mhentref Abersoch. Darpariaeth addysg Cymraeg cyffelyb yn cael ei gynnig yn yr ysgol amgen.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.

Ffactorau Daearyddol	Dim newid i ddisgyblion y CS. Ysgol yn parhau i fod o fewn pellter cerdded o'r cartref i mwyafrif o ddisgyblion CS dalgylch Ysgol Abersoch. Byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai'n deillio o hyn.	Ni fydd unrhyw ddisgybl yn yr ardal yn teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai'n deillio o hyn.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.
Ystyriaethau pellach Tud. 165	Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio. Nid yw'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws cyfreithiol gwahanol. Posibilrwydd y byddai angen cynnal proses statudol i newid ystod oed yr ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn. Posib y byddai'n arwain at ostyngiad yn niferoedd yr ysgolion cyfagos, gan y byddai'n eu cyfyngu i ddarparu addysg CA2 yn unig. Disgyblion yn trosglwyddo 2 waith yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. **Rhieni sydd a mwy nag un plentyn yn debygol o orfod mynd nol a blaen o dri safle,**		Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli'r ganolfan. Pryderon ynglŷn â'r diffyg galw am ddarpariaeth canolfan iaith ychwanegol yn yr ardal.	Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli'r Cylch Meithrin.	Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli'r Cylch Meithrin.

	hyn yn arwain at anghyfleustra iddynt.				
		marn i mae parhau â'r broses hon ar yr adeg hon yn ormesol yn erbyn rhyddid barn a chynrychiolaeth effeithiol. Byddai hyn ond yn arwain at apeliadau hir ac oedi ac ing pellach./ Unwaith ETO, mae Cyngor Gwynedd wedi cychwyn Ymgynghoriad Statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch. Mae'n anghywir ac yn lechwraidd yn arbennig yn ystod yr amser dirdynnol ac annormal hwn o Gyfnod Clo a Covid 19. Mae costau'r cyfarfodydd, cynghorwyr a biwrocratiaeth dros y blynyddoedd wedi bod ar gost enfawr i ni, y trethdalwyr./ Ysgrifennaf atoch gyda siom fawr o glywed eich bod yn bwrw ymlaen gyda'r ymgynghoriad statudol er gwaethaf yr amser pryderus yr ydym i gyd yn ei wynebu gyda covid./ Apeliaf atoch, yn enwedig yng nghanol amgylchiadau gwirioneddol anodd a rhwystredig y pandemig, i ystyried gohirio'r penderfyniad i gau'r ysgol a rhoi mwy o amser i gefnogwyr yr ysgol er mwyn iddynt allu cyfarfod wyneb yn wyneb fel fyddai'n digwydd mewn amser mwy 'arferol'. Nid yw mor hawdd cyfarfod yn 'rhithiol' ac nid pawb sydd gyda'r adnoddau na'r sgiliau i wneud hynny. Nid yw'r amrywiol gymdeithasau yn yr ardal yn gallu cyfarfod yn yr amgylchiadau presennol chwaith i allu cynnig eu cefnogaeth i'r ymgyrch i achub yr ysgol i'r dyfodol./ Mae'r pandemig Covid 19 wedi effeithio ar bob un ohonom yn bersonol, ac mae rhaid canmol ymrwymiad Llywodraethwyr a Chyfeillion Ysgol Abersoch ar yr adeg hon. Ni ddylid rhuthro penderfyniad mawr fel hyn. Mae Covid 19 wedi atal cyfarfodydd cyhoeddus ac ymgynghoriadau amrywiol a byddai fel arfer yn cael eu cynnal. Siawns felly y dylid gohirio penderfyniad mawr ddyfodol Ysgol Abersoch nes bod cyfyngiadau Covid 19 yn caniatau i ni gyd gwrdd eto./ Credwn ei bod yn eithaf amhriodol i ni gynnal yr ymgynghoriad hwn yn ystod anterth yr epidemig covid pan fu'n amhosibl dilyn gweithdrefnau democrataidd arferol. Am y rheswm hwnnw yn unig rydym yn teimlo y dylid rhoi'r gorau i'r broses hon neu ei gohirio o leiaf er mwyn caniatáu i opsiynau gael eu hadolygu a'u hailystyried yn iawn cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch dyfodol yr ysgol./ Oherwydd bod yr Ysgol yn adnodd ardderchog yma, ac a'r gais y Trethdalwyr fe ddylia fod yna gyfarfod cyhoeddus, tydi'r Adran Addysg ddim a'r fai am gynnal un, ond mae rhaid dilyn canllawiau Covid, er does yna ddim byd tebyg i gyfarfod agored, wyneb i wyneb, lygaid i lygaid a chael trafodaeth a fydd er lles a deall gyda'r Gymuned i gyd./ Yn sefyllfa bresennol Covid 19 a'i holl gyfyngiadau, mae peidio â gallu trafod y mater hwn ymhellach wyneb yn wyneb, yn anffodus iawn ac ynddo'i hun gall fod yn rheswm digon da i ohirio'r penderfyniad nes ein bod yn gwybod beth fydd canlyniad y 'Cyfnod clo' yn gliriach./ Yn sefyllfa bresennol Covid 19 a'i holl gyfyngiadau, i beidio â gallu trafod y mater hwn ymhellach wyneb yn wyneb, mae'n anffodus iawn ac felly mae'n rheswm digon da i ohirio'r penderfyniad./ Rwy'n siomedig ac yn flin bod Cyngor Gwynedd yn credu fod cynnal ymgynghoriad ar fater mor bwysig yng nghanol pandemig byd-eang yn dderbyniol, gan wrthod o ganlyniad y cyfle i drigolion Abersoch allu cymryd rhan yn hawdd, oherwydd y	would only lead to lengthy appeals and further delays and anguish./ Yet AGAIN , Gwynedd Council have commenced a Statutory Consultation on the proposal to close Ysgol Abersoch . It is particularly out of order and underhand during this stressful and abnormal time of Lockdown and Covid 19 . The cost of the meetings , councillors and bureaucracy over the years have been at a massive cost already to us , the taxpayers ./ I am writing to you with great disappointment to hear that you are proceeding with the statutory consultation despite the anxious time that we all face with covid./ I appeal to you, especially in the midst of the really difficult and frustrating circumstances of the pandemic, to consider delaying the decision to close the school and giving school supporters more time so that they can meet face to face as would happen in time more 'normal'. Meeting 'virtually' is not so easy and not everyone has the resources or skills to do so. The various associations in the area are also unable to meet in the present circumstances to be able to offer their support to the campaign to save the school for the future./ The Covid 19 pandemic has affected us all personally, and the commitment of the Governors and Friends of Ysgol Abersoch is to be commended at this time. A big decision like this should not be rushed. Covid 19 has prevented various public meetings and consultations and would normally be held. Surely, the big decision on the future of Ysgol Abersoch should be deferred until the restrictions of Covid 19 allow us all to meet again./ We think it quite inappropriate to have conducted this consultation during the height of the covid epidemic when it has been impossible to follow normal democratic procedures. For that reason alone we feel this process should be abandoned or at least postponed to allow options to be reviewed and reconsidered properly before a final decision about the future of the school is reached./ Because the School is an excellent resource here, and with the Taxpayers' request, there should be a public meeting, the Education Department is not at fault for hosting one, but Covid's guidelines must be followed, though there is nothing like it an open meeting, face to face, eyes to eyes and have a discussion that will be of benefit and understanding to the whole Community./ In the current situation of Covid 19 and all its restrictions, to not to be able to discuss this matter further face to face, is very unfortunate and in its self may be a good enough reason to postpone the decision until we know the outcome of 'Lockdown' is clearer./ In the current situation of Covid 19 and all its restrictions, to not to be able to discuss this matter further face to face, is very unfortunate and so it is a good enough reason to postpone the decision./ I am both disappointed and angry that Gwynedd Council think that it is in order to have a consultation on such an important issue in the middle of a global pandemic, consequently denying the opportunity for the residents of Abersoch to be able to easily participate, due to the regulations in place. / that the Statutory Consultation was held under the constraints of the pandemic, and further while the headmistress was absent due to personal tragedy. / Members hold to the fact that it does not make sense to hold a consultation in the midst of a pandemic - under very tight restrictions - in terms of fairness for all stakeholders. No-one could meet to discuss such a vital issue of keeping a school that is so central to the future of the Welsh language and culture in a village that has become so anglicised in recent years./ I do not use the internet hence this letter, however, your lack of compassion whilst there is a covid pandemic not allowing	• Dosbarthwyd copïau electroneg o'r ddogfen i'r rhan-ddeiliaid perthnasol (yn unol â gofynion y Cod) • Derbyniwyd sylwadau/ymatebion ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost. Nid yw'r Cod yn gosod gofyniad i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus/ymgynghori. Yn hytrach, fe nodir yn y Cod "gall cynigwyr ddefnyddio ffyrdd eraill o ymgysylltu ag ymgynghoreon, fel sy'n briodol yn eu barn hwy". Mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae'r Adran Addysg wedi cynnal sesiynau "Galw heibio" er mwyn trafod y cynnig arfaethedig gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yr ysgol dan sylw. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, nid oedd yn bosib cynnal y sesiynau "Galw heibio" yn yr un modd. Serch hynny, er mwyn sicrhau fod rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch yn derbyn yr un cyfle i gael gwybodaeth, holi am eglurhad a chyflwyno sylwadau, cynhaliwyd sesiynau "Galw heibio" dros gyfwng meddalwedd cyfarfodydd rhithiol. Yn ychwanegol i hynny, rhoddwyd cyfle i ran-ddeiliaid gyflwyno cwestiynau ynglŷn â'r cynnig dros e-bost i'r Adran Addysg. Cydymdeimlir â'r pryderon o gynnal ymgynghoriad yn ystod y pandemig, serch hynny, pwysleisir na allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ag ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Yn ychwanegol i hynny, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi hysbysiad ar 8 Ionawr 2021 er mwyn caniatáu i gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion barhau, lle nad yw pob ysgol ar agor.	• *Electronic copies of the document were distributed to the relevant stakeholders (in accordance with the Code's requirements)* • *Written comments / responses were received by post and email.* *The Code does not impose a requirement for public meetings / consultation. Instead, the Code states that "proposers may use other ways of engaging with consultees, as they deem appropriate".* *In previous consultations, the Education Department has held "Drop In" sessions to discuss the proposal with parents, staff and school governors. Due to the Covid-19 restrictions, it was not possible to host the "Drop In" sessions in the same way. However, in order to ensure that stakeholders at Ysgol Abersoch have the same opportunity to obtain information, seek clarification and comment, "Drop In" sessions have been held virtually. In addition, stakeholders were given the opportunity to e-mail questions about the proposal to the Education Department.* *We are sympathetic to the concerns of carrying out a consultation during the pandemic, however, it is emphasised that as an authority we cannot commit to not dealing with the school indefinitely. In addition, the Welsh Government issued a notice on 8 January 2021 to allow school organization proposals to continue, where not all schools are open.*

		cyfyngiadau ar waith. / yr Ymgynghoriad Statudol yn cael ei gynnal o dan cyfyngiadau y pandemig, ac yn bellach tra bod y brifathrawes yn absennol oherwydd trasiedi personol./ Deil yr Aelodau at y ffaith nad yw'n gwneud synnwyr cynnal ymgynghoriad yng nghanol pandemig – a chyfnod clo caeth iawn – o ran tegwch i bob rhanddeiliad. Ni allai neb gyfarfod i drafod mater mor hanfodol bwysig o gadw ysgol sydd mor greiddiol i ddyfodol yr iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn pentref a Seisnigeiddiodd cymaint dros y blynyddoedd diwethaf. / Nid wyf yn defnyddio'r rhyngrwyd, felly, y llythyr hwn, fodd bynnag, eich diffyg tosturi tra nad yw pandemig covid yn caniatáu ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac ati. Chi fyddwn yn eu cofio fel y cyngor yr hyn rydych chi'n ceisio ei wneud, beth am geisio newid hyn trwy cefnogi'r ysgol gyda'i syniadau newydd. Mae gan yr ysgol gefnogaeth ein cymuned./ Mae amseriad y bwriad hwn i gau Ysgiol Abersoch yn warthus, yng nghanol pandemig! Ni allaf fynychu/trefnu trafodaethau cyhoeddus na chodi ymwybyddiaeth na phrotestio hyd yn oed! Nid yw hyn yn deg./ Mae'r penderfyniad a'r brys i gyflawni'r nod hwn wedi cael ei baratoi i anwybyddu'r cyfyngiadau digynsail ar gymdeithas pandemig, gan fwrw ymlaen â phroses sydd, er ei bod yn cael ei chaniatáu'n gyfreithiol, yn cael ei hystyried gan lawer yn foesol anghywir./ Mae'n amhosib i rieni, llywodraethwyr ac eraill gyflwyno eu hachos yn llawn dros blatfform rhithwir. Mae cau ysgolion yn galw ar deimladau cryf ac rwy'n pryderu bod cryfder teimlad y gymuned leol yn cael ei wanhau gan ddefnyddio'r platfform hwn/ Credu ei fod yn amhriodol cynnal proses yn ystod pandemic.../ Credwn fodd bynnag mai camgymeriad ar ran yr Awdurdod, er i'r Gweinidog Addysg ddiwygio'r Côd ar frys ar 7.1.21 i ganiatau hyn, oedd dewis cynnal yr ymgynghoriad statudol holl-bwysig tra roedd yr ysgol ar gau am yr holl gyfnod, y rhieni a'r llywodraethwyr dan bwysau oherwydd y pandemig a'u gallu i drefnu gwrthwynebiad i'r cynnig yn gyfyngedig oherwydd rheol "aros adre".Credwn y dylai'r Awdurdod gymryd hyn i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniad. / Parhawn fod yn siomedig y teimlwyd ei bod yn addas parhau â'r Ymgynghoriad Statudol, er gwaethaf y pandemig cyfredol a'r cyfyngiadau eithafol cysylltiedig, a'n hataliodd rhag cynnal unrhyw gyfarfod staff, rhieni neu gymunedol nac unrhyw drafodaeth naturiol, effeithiol ar y mater difrifol hwn./ Er fy mod i'n ddim ond xx oed, rwy'n credu ei bod yn anghywir ceisio cau ysgol yn ystod pandemig Covid mae xx yn teimlo'n bryderus yn barod, efallai y dylech chi feddwl yn debycach i Roah Dahl a gofyn beth sydd orau i'r plant?	for public meetings etc. you will be the council remembered for what you are trying to do, why not try and change this by supporting the school with its new ideas. The school has the support of our community/ The timing of this proposed closure of Ysgol Abersoch is appalling, amid a pandemic! I can't attend / organize public discussions or even raise awareness or protest! This is not fair. / The decision and urgency to achieve this goal has been prepared to ignore the unprecedented restrictions on a pandemic Society, proceeding with a process that, while legally permitted, is being considered by many morally wrong./ It is impossible for parents, governors and others to present their case fully over a virtual platform. School closures call for strong feelings and I am concerned that the strength of feeling of the local community is being weakened using this platform./ Believes it is inappropriate to conduct a process during a pandemic. / We believe however that it was a mistake on the part of the Authority, although the Minister for Education urgently amended the Code on 7.1.21 to allow this, to choose to hold the all-important statutory consultation while the school was closed for the whole period, parents and governors were under pressure because of the pandemic and their ability to arrange opposition to the proposal limited because of a "stay at home" rule. We believe that the Authority should take this into account in reaching a decision/ We continue to be disappointed that it was felt appropriate to continue with the Statutory Consultation, despite the current pandemic and associated extreme constraints, which prevented us from holding any staff, parent or community meeting or any natural, effective discussion on the serious matter. / Even though I am just xx years old, I think it is wrong to try to close a school during a Covid pandemic xx feels anxious already, maybe you should think more like Roah Dahl and ask what is best for the kids?			
135		Yn bwysicach, efallai, parodd y penderfyniad o barhau gryn ofid i'r plant, sydd wedi gorfod ymdopi nid yn unig ag absenoldeb eu Pennaeth ac amodau ofnadwy Covid ond, hefyd, â'r syniad gofidus o gau eu hysgol. Teimlwn yn bendant na wnaed y penderfyniad hwn er lles y plant.	More importantly perhaps, the decision to continue caused considerable distress to the children, who have had to cope not only with the absence of their Headteacher and the terrible conditions of Covid but also with the upsetting thought of closing their school. We feel strongly that this decision was not made for the benefit of the children.			
136		Gofynnaf i'r cyngor roi'r gorau i wastraffu mwy o amser, arian ac adnoddau ar gyfarfodydd sy'n parhau ac nad ydynt yn dod i gasgliad	I ask the council to cease wasting yet more more time ,money and resources on meetings that are ongoing and		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.	*The Council notes the comments.*

		llwyddiannus. Stopiwch fod yn negyddol a chymerwch agwedd gadarnhaol os gwelwch yn dda.	do not achieve a successful conclusion . Stop being negative and please take a positive attitude .			
137		A phan dderbyniwyd y llythyr yn gwahodd rhanddeiliaid i'r sesiynau 'Galw Heibio Rhithwir', mynegwyd syndod ac anghrediniaeth o glywed mai 'uchafswm o dri' gai eu mynychu "er mwyn elwa ar drafodaeth gynhwysfawr a theg" o gofio y gall cynifer â chant (os nad mwy) fod yn rhan o gyfarfodydd Zoom neu Microsoft Teams. Yna, i goroni'r cwbl, gofynnwyd am "unrhyw gwestiynau perthnasol i'r ymgynghoriad" ymlaen llaw... ymddengys hyn yn annemocrataidd, annheg ac unochrog iawn!	And when the letter inviting stakeholders to the 'Virtual Drop-in' sessions was received, surprise and disbelief were expressed to hear that a 'maximum of three' would be attended "to benefit from a comprehensive and fair discussion" given that as many as one hundred can (if not more) be involved in Zoom or Microsoft Teams meetings. Then, to top it all off, we asked "any questions relevant to the consultation" beforehand ... this seems very undemocratic, unfair and unilateral!		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r anfodlonrwydd ynglŷn â threfniadau'r cyfarfodydd rhithwir. Mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae'r Adran Addysg wedi cynnal sesiynau "Galw heibio" er mwyn trafod y cynnig arfaethedig gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yr ysgol dan sylw. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, nid oedd yn bosib cynnal y sesiynau "Galw heibio" yn yr un modd. Serch hynny, er mwyn sicrhau fod rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch yn derbyn yr un cyfle i gael gwybodaeth, holi am eglurhad a chyflwyno sylwadau, cynhaliwyd sesiynau "Galw heibio" dros gyfwng meddalwedd cyfarfodydd rhithiol. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithwyr, a gwahoddwyd rhieni, llywodraethwyr, staff a rhan-ddeiliaid lleol eraill. Pwrpas y sesiynau oedd rhoi cyfle i ran-ddeiliaid ofyn cwestiynau am y cynnig fyddai'n eu galluogi i roi sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad. Gosodwyd uchafswm o 3 ar gyfer pob sesiwn rhithwir er mwyn sicrhau fod pawb sy'n mynychu yn elw ar drafodaeth gynhwysfawr a theg.	*The Council notes the comments and dissatisfaction with the arrangements for the virtual meetings.* *In previous consultations, the Education Department has held "Drop In" sessions to discuss the proposal with parents, staff and school governors. Due to the Covid-19 restrictions, it was not possible to host the "Drop In" sessions in the same way. However, in order to ensure that stakeholders at Ysgol Abersoch had the same opportunity to obtain information, seek clarification and comment, "Drop In" sessions have been held virtually. In addition, stakeholders were given the opportunity to e-mail questions about the proposal to the Education Department.* *A series of virtual meetings were held, and parents, governors, staff and other local stakeholders were invited. The purpose of the sessions was to give stakeholders the opportunity to ask questions about the proposal that would enable them to submit comments as part of the consultation.* *A maximum of 3 were allocated for each virtual session to ensure that all attendees benefit from a comprehensive and fair discussion.*
138		modd y gweithredwyd yr ymgynghoriad fel pe bai'r penderfyniad eisoes wedi ei gwneud.	the manner in which the consultation has been executed as if it's a foregone conclusion.		Mewn ymateb i'r sylwadau, nodir mai ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach a gynhaliwyd rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud hyd yma. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 bydd rhaid cyflwyno adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ai peidio. Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr yr ysgol fod yr adroddiad ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad ymgynghori ar gael, e.e. Estyn, Gweinidogion Cymru, Aelodau Cynulliad perthnasol ac Aelodau Seneddol ayyb. Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd a hefyd yn agos at brif dderbynfa'r ddwy ysgol sy'n ymwneud â'r cynnig; bydd copïau electroneg yn cael eu hanfon at yr ysgolion i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr. Bydd copïau caled ar gael ar gais gan y swyddfa moderneiddio addysg. Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu". Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod hefyd i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y ddwy ysgol fod yr adroddiad gwrthwynebiadau ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad gwrthwynebiadau ar gael. Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y ddwy ysgol yn cael gwybod am y penderfyniad. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill hefyd yn cael eu hysbysu am y penderfyniad.	*In response to the comments, it is noted that a consultation on the proposed closure of Ysgol Abersoch and the offer of a place for pupils at Ysgol Sarn Bach took place between 12 January and 23 February 2021. No decision has yet been made.* *Following the statutory consultation period, in accordance with the requirements of the School Organisation Code 011/2018 a report on the consultation will have to be presented to the Cabinet to summarise the issues raised by the consultee and set out the Council's response to those issues. Following consideration of the report, the Cabinet will decide whether or not to proceed with this proposal. The report will be published on the Council's website and hard copies will be available on request. Parents, carers and guardians, staff and school governors will be informed that the report is available. Many representatives of other agencies will be made aware of the availability of the consultation report, e.g. Estyn, Welsh Ministers, relevant Assembly Members and Members of Parliament etc. If Cabinet decides to proceed following consideration of the consultation report, the proposal will have to be published in the form of a statutory notice. The notice will be published on a school day and there will be a 28 day "objection period" from the date the proposal is published. Anyone can object to the proposal. The notice will be published on the Gwynedd Council website and also placed close to the main reception of the two schools involved in the proposal; electronic copies will be sent to schools for distribution to pupils, parents, carers and guardians, staff and governors. Hard copies will be available on request from the modernising education office.* *Following the end of the objection period, the Council will publish a summary of the statutory objections and the Council's response to the objections in an "Objection Report". The objection report will be published on the Council's website and hard copies will be available on request. Parents, carers and guardians, staff and governors of both schools will also be informed that the objections report is available. Many representatives from other agencies will be alerted of the objections report. Subsequently, the Council's Cabinet will make the final decision on the objection report. When the Cabinet has reached its final decision, the decision will be given in writing, specifying their reasons for the decision. The decision will be published on the Council's website, and parents, carers and guardians, staff and governors of both schools will be informed of the decision. Many representatives from other agencies will also be informed of the decision.*
139		Cadarnhawyd fy amheuon wrth weld y diffyg diddordeb hwn bod y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r Ymgynghoriad eisoes wedi'i wneud, ymhell cyn i aelodau'r Cabinet ddod i mewn i'r cyfarfod, ac ar ben hynny, bod yr holl broses wedi bod yn ymarfer ticio blwch o'r dechrau, gyda'r cyngor yn mynd trwy'r cynigion i roi'r argraff o ymgynghori ystyrlon./ dogfennau ymgynghori'r Adran Addysg fel ymarfer papur i gyfiawnhau'r sefyllfa hon heb wir ystyried y dewisiadau eraill. Mae'n ymddangos bod elfen o dicio blychau yn digwydd yma. Mae'r broses yn teimlo ychydig yn wahanol o safbwynt y rhanddeiliaid nag yr ymddengys o ongly Cyngor Gwynedd.	My scepticism at this lack of interest was confirmed that the decision to proceed with the Consultation had already been made, well before the Cabinet members came into the meeting, and furthermore, that the whole process had been a tick box exercise from the start, with the council going through the proposals to give the impression of meaningful consultation./The Department of Education consultation documents appear to be a paper exercise to justify this situation without really considering the alternative options./ There seems to be an element of box ticking going on here. The process has felt rather different from the stakeholder perspective than it appears to from Gwynedd Council's angle.	(3)		
140		Rwy'n dal i fod yn argyhoeddedig am reswm da pam nad oedd un opsiwn a awgrymwyd gan y rhanddeiliaid yn haeddu cael ei gynnwys yn y tri opsiwn olaf. Felly, gobeithio eich bod yn deall pam ei bod yn anodd cael gwared â'r teimlad, er gwaethaf y broses adolygu anffurfiol, mai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch fu'r unig eitem ar yr agenda o'r dechrau.	I remain to be convinced of a good reason why any of the options suggested by stakeholders did not merit inclusion in the final three options. So, I hope you understand why it is difficult to dispel the feeling that, despite the informal review Process, the proposal to close Ysgol Abersoch has been the only item on the agenda from the start.			
141		Aneglur pa fewnbwn gan randdeiliaid sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig gan ein harwain i gwestiynu a oedd barn rhanddeiliaid wedi derbyn gwrandawiad teg mewn gwirionedd. Teimlir fel pe bai Cyngor Gwynedd yn dilyn ei agenda ei hun a'u bod yn benderfynol o gau Ysgol Abersoch.	It is unclear what input from stakeholders has been included within the proposal leading us to question whether the views of stakeholders really listened to. It feels rather as if the Gwynedd Council are pursuing their own agenda and are determined to close Ysgol Abersoch.			
142		Mae cau Ysgol Abersoch, sydd ers blynyddoedd, wedi bod yn faethle i genedlaethau o blant a wasanaethodd eu Cymuned gartref ac ar led yn fater rhy bwysig i'w ystyried gan nifer fechan. Dylid cael cyfarfod cyhoeddus.	The closure of Ysgol Abersoch, which for many years has been a niche for generations of children who served their Community at home and beyond, is too important an issue to be considered by a small number. There should be a public meeting.		Nid yw'r Cod yn gosod gofyniad i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus/ymgynghori. Yn hytrach, fe nodir yn y Cod y "gall cynigwyr ddefnyddio ffyrdd eraill o ymgysylltu ag ymgynghoreon, fel sy'n briodol yn eu barn hwy".	*The Code does not impose a requirement for public meetings / consultations. Instead, the Code states that "proposers may use other ways of engaging with consultees, as they deem appropriate".*

					4Mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae'r Adran Addysg wedi cynnal sesiynau "Galw heibio" er mwyn trafod y cynnig arfaethedig gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yr ysgol dan sylw. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, nid oedd yn bosib cynnal y sesiynau "Galw heibio" yn yr un modd. Serch hynny, er mwyn sicrhau fod rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch yn derbyn yr un cyfle i gael gwybodaeth, holi am eglurhad a chyflwyno sylwadau, cynhaliwyd sesiynau "Galw heibio" dros gyfwng meddalwedd cyfarfodydd rhithiol. Yn ychwanegol i hynny, rhoddwyd cyfle i ran-ddeiliaid gyflwyno cwestiynau ynglŷn â'r cynnig dros e-bost i'r Adran Addysg.	*In previous consultations, the Education Department has held "Drop In" sessions to discuss the proposal with parents, staff and school governors. Due to the Covid-19 restrictions, it was not possible to host the "Drop In" sessions in the same way. However, in order to ensure that stakeholders at Ysgol Abersoch have the same opportunity to obtain information, seek clarification and comment, "Drop In" sessions have been held virtually. In addition, stakeholders were given the opportunity to e-mail questions about the proposal to the Education Department.*
143		Hoffwn wybod a yw'r cyngor wedi ystyried teimladau, meddyliau a barn y teuluoedd a oedd yn gyfrifol am ddarparu'r tir a'r ysgol i blant Abersoch, a yw eu disgynyddion, sy'n dal i fod â chysylltiadau yn y pentref, wedi cael gwybod am y cynigion?	I would like to know if the council have considered the feelings, thoughts and opinions of the families who were responsible for providing the land and school for the children of Abersoch, have their descendants, still with connections in the village been told of the proposals?		Roedd yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021 yn ymgynghoriad cyhoeddus, ac roedd posib i unrhyw un gynnig sylwadau ar y cynnig. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 bydd rhaid cyflwyno adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad hwnnw, bydd y Cabinet yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig hwn ai peidio.	*The statutory consultation held between 12 January and 23 February 2021 was a public consultation, and anyone could comment on the proposal. Following the statutory consultation period, in accordance with the requirements of the School Organization Code 011/2018 a consultation report will have to be submitted to Cabinet summarising the issues raised by the consultees and stating the Council's response to those issues. Following consideration of that report, the Cabinet will decide whether or not to proceed with this proposal.*
144		Mae cau ysgol yn fater difrifol a byddwn yn disgwyl cwestiynau difrifol, a thrafodaeth heriol dros fanylion y dogfennau ymgynghori, ynghyd ag ystyriaeth deg o'r materion a godwyd gan randdeiliaid a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.	Closure of a school is a serious issue and we will expect serious questions, and challenging discussion over the details of the consultation documents, together with a fair consideration of the issues raised by stakeholders received during the consultation period, before any decision is made.		Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion bydd rhaid cyflwyno adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad hwn cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig ai peidio.	*In accordance with the School Organization Code 011/2018 a consultation report will have to be submitted to Cabinet summarising the issues raised by the consultees and stating the Council's response to those issues. Following consideration of that report, the Cabinet will decide whether or not to proceed with this proposal.*
145		A oes synnwyr cyffredin o gau ysgol sydd â llefydd gweigion tra, ar yr un pryd, llenwi un arall ychydig dan filltir a hanner i ffwrdd tra gallai ymbellhau cymdeithasol fod yn rhan o'n bywydau am beth amser eto er gwaethaf llwyddiant y brechu?/	Is it common sense to close a school with surplus places while, at the same time, filling another just under a mile and a half away while social distancing may still be part of our lives for some time despite the success of vaccination?		O ganlyniad i niferoedd isel o ddisgyblion, mae nifer o lefydd gweigion yn Ysgol Abersoch (Derbyn – Bl.3) 26 (76%). Mae 21 (32%) o lefydd gweigion yn Ysgol Sarn Bach. Wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin y ddwy ysgol, mae gan Ysgol Abersoch 32 (75%) o lefydd gweigion ac Ysgol Sarn Bach 25 (34%) o lefydd gweigion. Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol San Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf. Yn Medi 2020, rhwng Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, roedd 47 (47%) o lefydd gweigion yn yr ardal. Byddai gwireddu'r cynnig arfaethedig yn gostwng llefydd gweigion yr ardal i 19 (29%) (Derbyn – Bl.6)	*As a result of low pupil numbers, there are a number of surplus places at Ysgol Abersoch (Reception - Yr.3) 26 (76%). There are 21 (32%) surplus places at Ysgol Sarn Bach. When including the capacity and Nursery numbers at both schools, Ysgol Abersoch has 32 (75%) surplus places and Ysgol Sarn Bach 25 (34%) surplus places. With 21 surplus places, (and 4 surplus places at the Nursery), Ysgol Sarn Bach has sufficient capacity for the current pupils of Ysgol Abersoch and Ysgol Sarn Bach, for the next five years.* *In September 2020, between Ysgol Abersoch and Ysgol Sarn Bach, there were 47 (47%) surplus places in the area. Realising the proposed proposal would reduce the area's surplus places to 19 (29%) (Reception - Yr.6)*
146		Nid oes unrhyw gyfeiriad at amgylchiadau ac effaith anghyffredin Covid 19, heb sôn am oblygiadau tymor hir Coronavirus a ddylai, yn sicr, gael ei adlewyrchu yn y strategaeth a chynllunio adnoddau o hyn ymlaen?	There is no reference to the unusual circumstances and impact of Covid 19, let alone the long term implications of Coronavirus which should surely be reflected in the strategy and resource planning from now on?		Mae'r Cyngor wedi ystyried goblygiadau Covid trwy gydol y broses ac wedi addasu trefniadau i'r sefyllfa newidiol tra'n sicrhau bod gofynion y broses statudol yn cael eu cyfarch. Bydd y Cyngor yn dilyn arweiniad cenedlaethol mewn perthynas â Covid wrth wireddu neu gynllunio strategaethau i'r dyfodol. Nid oes sicrwydd y byddai newidiadau demograffig i'r dyfodol yn cynyddu niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch. Pe gweithredir y cynnig, byddai plant a phobl ifanc y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel yn Ysgol Sarn Bach sydd 1.4 milltir i ffwrdd o bentref Abersoch.	*The Council has considered the implications of Covid throughout the process and adapted arrangements in line with the changing situation whilst ensuring that the requirements of the statutory process are met.* *The Council will follow national guidance in relation to Covid in realising or planning future strategies.* *There is no guarantee that future demographic changes would increase pupil numbers at Ysgol Abersoch. If the proposal were implemented, children and young people within the catchment area would be offered a high quality education at Ysgol Sarn Bach which is 1.4 miles away from the village of Abersoch.*
147		***Nid oes brawddeg na gwybodaeth am sefyllfa covid yn eich dadansoddiad nag ychwaith am y demograffig newidiol. Pam?***	***There is no sentence or information regarding covid in your analysis or the changing demographic. Why?***			
148		***Eich unig ddiddordeb yw cyllidebau yn seiliedig ar ddata ffug sydd wedi ei drin.***	***Your only interest is budgets based on manipulated fake data.***		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comments.*
149		Rwy'n ystyried bod llawer o gynnwys y dogfennau ymgynghori yn cael ei gyflwyno mewn modd camarweiniol ac annheg. Er enghraifft, mae'r ystod oedran yn Ysgol Abersoch dair blynedd yn llai nag ystod oedran yr ysgolion cyfagos, y mae'n cael ei chymharu'n gyson â hi ar draws ystod o ddata, sy'n golygu nad yw llawer o'r wybodaeth a gyflwynir yn cymharu tebyg â thebyg, gan ei rhoi ar y gorau yn ddryslyd iawn, ac ar y gwaethaf bron yn ddiystyr.	I consider much of the content of the consultation documents is presented in a misleading and unfair way. For example, the age range at Ysgol Abersoch is three years less than the age range of neighboring schools, which is constantly compared across a range of data, meaning that many information presented compares like with like, rendering it at best very confusing, and at worst almost meaningless.		Dymuna'r Awdurdod nodi ei fod yn gwbl di-duedd a thryloyw yn yr hyn a gyflwynir fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Mewn perthnasedd i'r sylwad am ystod oedran Ysgol Abersoch o gymharu ag ystod oedran yr ysgolion cyfagos, mae'r Awdurdod yn ystyried pob ysgol fel endidau cyfan waeth beth fo eu hystod oedran, ac er bod gwahaniaethau, ni fyddai'n ystyrlon dwyn cymhariaeth rhwng Ysgol Abersoch a rhai blynyddoedd penodol yn unig o'r ysgolion cyfagos.	*The Authority wishes to note that it is completely impartial and transparent in what is presented as part of the consultation documentation.* *In relation to the comment about the age range of Ysgol Abersoch compared to the age range of neighboring schools, the Authority regards all schools as whole entities irrespective of their age range, and although there are differences, it would not be meaningful to compare Ysgol Abersoch and certain years only from the neighboring schools.*
150		Credwn hefyd fod yr amserlen a roddir yn anffodus. Petai'r cynnig yn cael ei gadarnhau, ni byddai ond mis o amser ar ddiwedd tymor yr haf wedi hysbysu rhieni o'r penderfyniad terfynol iddynt ystyried yr opsiwn	We also believe that the timescale given is unfortunate. If the offer were to be approved, only a month's time at the end of the summer term would have informed parents of the final decision for them to then consider the most appropriate option for their children's education – and this		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Er i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021, mewn ymateb i'r sylwadau hyn, rydym bellach yn argymell addasu dyddiad gweithredu'r cynnig i gau Ysgol	*The Council notes the comments.* *Although the consultation was on the proposal to close Ysgol Abersoch on 31 August 2021 and provide a place for pupils at Ysgol Sarn Bach from 1 September 2021, in response to these comments, we are now recommend modifying the implementation*

		mwyaf priodol wedyn ar gyfer addysg eu plant – a'u penderfyniad nhw yw hwn yn gyfreithiol. Mae hyn yn groes i arfer gorau cydnabyddiedig o roi tymor cyfan o rybudd i rieni am unrhyw newid sylfaenol. Byddai gosod dyddiad mwy realistig o Fedi 2022 i gychwyn unrhyw drefn newydd yn caniatau digon o amser ar gyfer trafod yr opsiynau amgen y cyfeiriwyd atynt cyn cyhoeddi penderfyniad terfynol... byddai glynu at ddyddiad o Fedi 2021 i weithredu unrhyw newid yn gwbl afresymol. Ni buasai'r opsiynau wedi cael eu gwintyllu'n iawn, ac ni byddai mis o rybudd i rieni am y drefn newydd yn deg o gwbl.....	is legally their decision. This is contrary to recognised best practice of giving parents a whole term of notice of any fundamental change. Setting a more realistic date of September 2022 to initiate any new regime would allow sufficient time for the alternative options referred to to be discussed before a final decision is announced.... sticking to a date of September 2021 to implement any change would be totally unreasonable. The options would not have been properly worded, and a month's notice to parents of the new regime would not be fair at all.		Abersoch i 31 Rhagfyr 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022. Yn dilyn ystyried rhai o'r sylwadau dderbyniwyd o'r ymgynghoriad, rydym o'r farn y byddai gohirio gweithredu tan 31 Rhagfyr 2021 yn caniatáu mwy o amser i'r Adran Addysg roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach.	*date to close Ysgol Abersoch to 31 December 2021 and provide a place for pupils at Ysgol Sarn Bach from 1 January 2022.* *Following consideration of some of the comments received from the consultation, we are of the opinion that deferring the action until 31 December 2021 would allow the Education Department more time to put arrangements in place to ensure a smooth transition for Ysgol Abersoch pupils to Ysgol Sarn Bach.*
151		Byddai modd i chi drafod y rhain (Opsiynau Amgen) yn anffurfiol eleni, gan geisio cytundeb, ac yna gynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig ffordd newydd ymlaen pan na fyddai'r pandemig yn cyfyngu ar drafodaeth ystyrlon.... Galwn felly ar Gabinet Cyngor Gwynedd, wrth ystyried yr adroddiad ar yr ymatebion i ymgynghori, i oedi'r broses tan fis Tachwedd er mwyn caniatau amser i ysgolion a chymunedau'r ardal geisio ffordd gytûn ymlaen sy'n bodloni amcanion yr Awdurdod. Byddai proses wedyn yn mynd trwodd yn gyflym yn niwedd 2021 naill ai oherwydd fod cytundeb neu oherwydd fod pob opsiwn wedi ei wintyllu'n llwyr, a gellid gweithredu unrhyw newid yn ddiogel at Fedi 2022.	You would be able to discuss these (alternative options) informally this year, seeking agreement, and then undertake a statutory consultation on proposing a new way forward when the pandemic would not restrict meaningful discussion. We therefore call on Gwynedd Council's Cabinet, when considering the report on the consultation responses, to delay the process until November to allow time for schools and communities in the area to seek an agreed way forward that meets the Authority's objectives. A process would then go through quickly in late 2021 either because there was an agreement or because all options were completely vinded, and any change could be implemented promptly to September 2022.		Mae'r Cyngor yn nodi y bu iddynt gynnal cyfres o gyfarfodydd lleol dros gyfnod estynedig lle'r rhoddwyd cyfle i randdeiliaid wyntyllu opsiynau amgen. Bu i'r Cyngor werthuso'r opsiynau yma cyn llunio' cynnig. Bu i hyn ddigwydd cyn cyfnod Covid. Mae'r Cyngor o'r farn fod rhanddeiliad allweddol wedi medru cyfrannu'n llawn i'r ymgynghoriad hwn gyda nifer y cyfranogwyr yn dystiolaeth o hyn. Mae'r Cyngor o'r farn fod ymestyn y broses ymghyngori ymhellach na'r angen yn arwain at fwy o ansicrwydd a phryder i'r holl randdeiliad. Oherwydd hyn mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen a'r broses yn unol a'r hyn sydd yn ymarferol bosib.	*The Council notes that they held a series of local meetings over an extended period during which stakeholders were given the opportunity to air alternatives. The Council evaluated these options before deciding on the proposal. This happened before the Covid period.* *The Council considers that key stakeholders have been able to contribute fully to this consultation, the number of participants is evidence of this.* *The Council believes that extending the consultation process further than necessary leads to greater uncertainty and anxiety for all stakeholders. For this reason the Council is proceeding with the process in accordance with what is practically possible.*
152		Rhoddodd fframwaith ac amserlen yr holl broses gryn bwysau arnom fel grŵp o unigolion gwirfoddol sydd â chyfrifoldebau megis gwaith a theulu. Roedd rhaid i ni ddarparu arweiniad a gweledigaeth oherwydd absenoldeb ein Pennaeth, delio ag effaith Covid ac ymateb i alwadau'r broses ymgynghori, yn ogystal â'u heffaith cyfatebol ar redeg yr ysgol o ddydd-i-ddydd. Er hynny, fel Llywodraethwyr Ysgol Abersoch, gwnaethom ein gorau glas i ymgysylltu'n bositif â'r adolygiad anffurfiol dechreuol a'r Ymgynghoriad Statudol dilynol a, hyd eithaf ein gallu, annog yn weithredol ryngddeiliaid wneud yr un peth.	The framework and timetable of the whole process put considerable pressure on us as a group of volunteer individuals with other responsibilities such as work and family. We had to provide leadership and vision due to the absence of our Headteacher, deal with the impact of Covid and respond to the demands of the consultation process, as well maintaining the day-to-day running of the school. However, as Governors of Ysgol Abersoch, we did our utmost to engage positively with the initial informal review and subsequent Statutory Consultation and, to the best of our ability, actively encourage inter-stakeholders to do the same.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad ac yn ddiolchgar am gydweithdrediad y Corff Llywodraethol. Mae'r Corff Llywodraeth wedi derbyn cefnogaeth gyson yr adran addysg drwy gydol y broses gan gynnwys cefnogi'r ysgol mewn ymateb i broblemau staffio. Bydd y gefnogaeth yma'n parhau.	*The Council notes this comment and is grateful for the co-operation of the Governing Body. The Governing Body has received the Education Department's constant support throughout the process in supporting the school in response to staffing problems. This support will continue.*
153		Rydym yn amlygu ein pryderon ynglŷn a chyfreithlondeb y broses ymgynghori… Roedd yr ymgynghoriad gyda'r disgyblion yn anheg o ystyried ei h'oedran a'i deallusrwydd….. Cynhwysa dogfen Ymgynghoriad Statudol i Blant gwestiynau arweiniol, mae'n gamarweiniol a rhagfarnllyd yn erbyn Ysgol Abersoch. Datgana'r ddogfen bod 'gwell defnydd o adnoddau, e.e. offer TG', 'cyfle i gyfarfod a chwarae â ffrindiau newydd', 'mwy o athrawon' yn Ysgol Sarn Bach. Cynlluniwyd y geiriad hwn i ddenu plant ac awgryma bod TG gwell a mwy o athrawon yn Ysgol Sarn Bach; ni chredwn fod hyn yn wir. Ymhellach, dim ond buddion ymddangosiadol (os yn gywir) a nodir, heb gyfeirio dim at yr hyn y gellid ei golli.	We highlight our concerns about the legality of the consultation process ... The consultation with the pupils was unfair given their age and intelligence… .. The Statutory Children's Consultation document contains leading questions, is misleading and biased. The document states that there will be 'better use of resources, e.g. IT equipment, 'a chance to meet and play with new friends', 'more teachers' at Ysgol Sarn Bach. This wording is designed to attract children and suggests that there is better IT and more teachers at Ysgol Sarn Bach; we do not believe this to be the case. Furthermore, only apparent benefits (if correct) are identified, with no reference to what might be lost.		Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae'n ofynnol fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol i gynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n destun yr ymgynghoriad. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc wedi'i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg) Fel rhan o'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc, paratowyd dogfennau priodol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol; Ysgol Sarn Bach, a trefnwyd bod hwylusydd yn cynnal 3 chyfarfod dros y we (Google Meet) gyda'r ddwy ysgol i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatgan barn am y cynnig. Roedd rhieni Ysgol Abersoch yn bresennol ac anogwyd hwy gan yr hwylusydd i siarad ar ran eu plant er mwyn cryfhau'r broses o gasglu barn y plant am yr effaith posib arnynt pe byddai'r ysgol yn cau. Yn achos Ysgol Sarn Bach, roedd pedwar disgybl y Cyngor Ysgol yn cynrychioli pob blwyddyn o'r Adran Iau ac un rhiant (i aelod o'r Cyngor Ysgol) yn bresennol (ac yn cyfrannu ond er mwyn gwneud barn ei phlentyn yn gliriach i'r hwylusydd). Esboniwyd y byddai'r newid yn golygu: - Y byddai Ysgol Abersoch yn cau. - Y byddai disgyblion Ysgol Abersoch yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach ym Medi 2021. Roedd pob sesiwn yn cymryd tri chwarter awr i awr i'w gwblhau ac wedi eu rhannu i dri grŵp, Disgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Abersoch, disgyblion y Cyfnod Sylfaen Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a rhoi	*In accordance with the School Organisation Code, it is required of any statutory consultation to consult with the children and young people of the schools subject to the consultation. A report on the consultation with children and young people is included as an annex to the consultation report (www.gwynedd.llyw.cymru/modernisingeducation)* *As part of the consultation with children and young people, appropriate documents were prepared for pupils at Ysgol Abersoch and the School Council at Ysgol Sarn Bach, and a facilitator arranged 3 web meetings (Google Meet) with both schools to discuss the proposal with the children to ensure they understood what was being offered and to give them the opportunity to share their views on the proposal. Parents of Ysgol Abersoch pupils were also present and were encouraged by the facilitator to speak on behalf of their children in order to strengthen the process of gathering the views of the children and what the possible impact on them would be if the school is closed. Where Ysgol Sarn Bach is concerned, the four pupils representing each year from 3-6 on the School Council and one parent (to a member of the School Council) was present (and contributed only to make her child's views clearer).* *It was explained that the change would mean that:* - *Ysgol Abersoch would close.* - *Ysgol Abersoch pupils would transfer to Ysgol Sarn Bach in September 2021.* *Each session lasted three-quarters of an hour to an hour and was divided into three groups, Year 3 pupils from Ysgol Abersoch, Foundation Phase pupils Ysgol Abersoch*
154		Mae pryderon ynghylch yr Ymgynghoriad Plant. Mae'r dogfennaeth yn cynnwys cwestiynau arweiniol, yn gamarweiniol ac yn rhagfarnllyd yn erbyn Ysgol Abersoch.	There are concerns over the nature of the children's consultation. The Consultation Document for Children provides leading questions, is misleading and is biased against Ysgol Abersoch.			
155		Mae'r Ddogfen Ymgynghori Plant yn cynnwys cwestiynau arweiniol, mae'n gamarweiniol ac yn rhagfarnllyd yn erbyn Ysgol Abersoch.	The Children's Consultation Document provides leading questions, is misleading and is biased against Ysgol Abersoch.			
156		Mae hwn yn gwestiwn arweiniol ac amhriodol. A yw Cyngor Gwynedd yn awgrymu bod gwell darpariaeth TG yn Ysgol Sarn Bach?	This is a leading and inappropriate question. Is the Gwynedd Council suggesting that there is better IT provision at Ysgol Sarn Bach?			

157		Dogfen Ymgynghori Plant - Nid yw'n glir y byddant yn mynd o gymhareb o 10: 1 i uwch na 20: 1	Dogfen ymgynghori plant - It is not made clear that they will be going from ratio of 10:1 to above 20:1		cyfle i ddisgyblion fynegi eu meddyliau a'u teimladau. Roedd yr hwylusydd eisoes wedi derbyn holiaduron cyn cychwyn y broses o holi dros Google Meet. Yn dilyn y cyfarfod derbyniwyd sylwadau un disgybl o Ysgol Abersoch ar ffurf fideo a gymerwyd gan ei fam a'i hanfon i sylw'r hwylusydd drwy law yr ysgol. Mewn ymateb i'r cwestiynau yngylch sefyllfa staffio, fe nodir yn y ddogfen ymgynghori fod "strwythur staffio presennol Ysgol Abersoch yn cynnwys un pennaeth llawn amser, athrawes rhan amser, athrawes CPA rhan amser, a chymhorthydd rhan amser. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu 70% o'i hamser ac yn derbyn 30% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth. Yn Ysgol Sarn Bach, mae pennaeth, dwy athrawes rhan amser (cyfwerth ag athrawes llawn amser 1.0), a thri cymhorthydd rhan amser. Mae'r pennaeth yn dysgu 80% o'r amser ac yn derbyn 20% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth. Mewn perthynas â'r datganiad "Pan ddaw'n amser i fynd i'r Ysgol Uwchradd, byddwch yn adnabod mwy o blant a fydd yn symud yno gyda chi." – mae'r Cyngor yn derbyn nad yw'n bwynt dilys gan fod disgyblion eisoes yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach ar ôl blwyddyn 3.	*and Ysgol Sarn Bach's School Council. The session explained the proposal and gave pupils the opportunity to express their thoughts and feelings. The facilitator had already received the questionnaires prior to the process of questioning over Google Meet. Following the meeting one pupil's comments from Ysgol Abersoch were received in the form of a video taken by his mother and sent to the facilitator via the school.* *In response to the questions regarding staffing, it is noted in the consultation document that "Ysgol Abersoch's current staffing structure consists of one full-time head teacher, a part-time teacher, a part-time CPA teacher, and a part-time assistant. The head teacher commits 70% of her time to teaching and receives 30% non-contact time for management and leadership issues. At Ysgol Sarn Bach, there is a headteacher, two part-time teachers (full-time equivalent 1.0), and three part-time assistants. The head teacher teaches 80% of the time and receives 20% non-contact time for management and leadership issues.* *In relation to the statement "When the time comes to attend Secondary School, you will know more children who will be moving there with you." - the Council accepts that this is not a valid point as pupils are already transferring to Ysgol Sarn Bach after year 3.*
158		Dyma gwestiwn arweiniol ac amhriodol. Ydy Cyngor Gwynedd yn cynnig nad ydy hyn yn digwydd yn barod?	This is a leading and inappropriate question. Is Gwynedd Council implying that this doesn't already happen at present?			
159		A yw hyn yn ffeithiol gywir? Sut mae mwy o athrawon - mae 2 yn Ysgol Sarn Bach, 2 yn Ysgol Abersoch. Onid yw'r gymhareb athro i ddisgybl yn llawer uwch? Gofynnwn ichi ddarparu'r wybodaeth hon.	Is this factually correct? How are there more teachers - there are 2 at Ysgol Sarn Bach, 2 at Ysgol Abersoch. Isn't the teacher to pupil ratio much higher? We request that you provide this information.			
160		Sut mae disgwyl i blentyn ddehongli'r datganiad hwn? Beth sydd yn anheg ar hyn o bryd?	How is a child meant to interpret this statement? What is not fair at the moment?			
161		Pwynt annilys - bydd y disgyblion eisoes wedi bod yn Ysgol Sarn Bach am 3 blynedd cyn ysgol uwchradd waeth beth fo'r senario bresennol.	This is an invalid point - the pupils will already have been at Ysgol Sarn Bach for 3 years presecondary school regardless under the current scenario.			
162		O ran yr holiadur a roesoch i'r disgyblion, rwy'n teimlo bod angen i mi fynd i'r afael â rhai o'ch datganiadau a'ch materion yr wyf i a rhieni eraill wedi'u codi. Darllenodd fy merch eich pamffled cyn darllen yr holiadur a dywedodd hi, sydd ond yn 8 oed, ei fod yn gamarweiniol, 'bydd gan ddisgyblion yr opsiwn i symud i Sarn Bach'. Felly, diffiniad y gair 'opsiwn' yw; 'peth a all gael ei ddewis neu beidio' ac felly meddai fy merch nad yw hi'n dewis gadael Ysgol Abersoch. Dyfyniad arall yw 'y bydd Mwy o Athrawon yn… ..'- gwiriwch a yw hynny'n ffeithiol oherwydd ar hyn o bryd mae fy merch yn cael ei haddysgu gan Athrawon Cymwysedig Llawn, ni chredaf fod hyn yn wir yn Ysgol Sarn Bach felly byddwn i yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ymhellach ar hyn. 'Gwell defnydd o adnoddau e.e. TG ', - A allech chi wirio hefyd a yw hynny'n ffeithiol, mae gan bob dysgwr yn Ysgol Abersoch offer TG rhagorol ac rydw i fy hun wedi ei chael hi'n anodd gweithredu mwy nag un ddyfais ar unwaith, fodd bynnag, os oes angen mwy o offer mae'r Gymdeithas Rhieni yn darparu hyn i'r plant heb unrhyw gost i'r cyngor. 'Cyfle i gwrdd a chwarae gyda ffrindiau' - A ydych yn awgrymu nad oes gan blant Ysgol Abersoch ffrindiau eisoes? Mae gan fy mhlant ffrindiau ledled Gwynedd, fodd bynnag, dewisiom Ysgol Abersoch yn ôl ei rhinweddau addysgol, a ydych chi'n awgrymu bod gwneud ffrindiau yn bwysicach? Mae mwyafrif ffrindiau fy mhlant yn mynychu Ysgol Llanbedrog felly pe bawn i eisiau iddyn nhw ddewis ffrindiau dros addysg byddwn wedi eu symud i Ysgol Llanbedrog.	With regards to the questionnaire that you issued to the pupils I feel that I need to address some of your statements and issues that myself and other parents have raised. My daughter read your pamphlet before reading the questionnaire and she at 8 years old said that it was misleading, 'pupils will have the option to move to Sarn Bach'. The definition of the word 'option' is thus; 'it is a thing that is or may be chosen' my daughter said therefore she does not choose to leave Ysgol Abersoch. Another quote is that 'there will be More Teachers at ….'- please check if that is factual as currently my daughter is taught by Fully Qualified Teachers, I do not believe this to be the case at Ysgol Sarn Bach therefore I would be grateful if you could elaborate further. 'Better use of resources e.g. IT', - Please could you also check if that is factual, every learner at Ysgol Abersoch has excellent IT and I myself have found it difficult to operate more than one device at any one time, however, if more is needed The Parents association provides this for the children at no cost to the council. 'An Opportunity to meet and play with friends'- Are you suggesting the children of Ysgol Abersoch do not have friends already? My children have friends all over Gwynedd, however, we chose Ysgol Abersoch for its educational merits, are you suggesting that making friends is more important? The majority of my children's friends attend Ysgol Llanbedrog therefore if I wanted them to choose friends over education I would have moved them to Ysgol Llanbedrog.			
163		Derbyniodd fy Mab holiadur a anfonwyd trwy'r post ar Chwefror yr 8fed a oedd yn ofynnol iddo gael ei bostio yn ôl erbyn Chwefror y 12fed yn gofyn yr un cwestiynau iddo ag y gwnaethoch chi ei ofyn i blant Ysgol Abersoch. Ni allaf weld perthnasedd yr holiadur hwn, nid oedd y cwestiynau'n glir iawn, ar C4, at ba ysgol rydych chi'n cyfeirio? A oedd hwn yn holiadur cyffredinol i bawb ac heb ei deilwra mewn gwirionedd ar gyfer yr unigolion? Roeddwn hefyd yn ei chael yn rhyfedd iawn bod yr holiaduron yn cael eu hanfon yn ôl i Ysgol Sarn Bach ac nid yn uniongyrchol atoch chi'ch hun. Dywedodd fy mab nad oedd yn teimlo y gallai fod yn agored i fynegi ei feddyliau a'i deimladau rhag ofn i'w Bennaeth adnabod ei lawysgrifen, credaf fod hyn yn wir am blant eraill hefyd. A allwch ddweud wrthyf pam na anfonwyd y llythyrau yn ôl yn uniongyrchol at Gyngor	My Son received a questionnaire sent through the post on February the 8th requiring it to be posted back by February the 12th asking him the same questions that you asked the children of Ysgol Abersoch. I cannot see the relevance of this questionnaire, the questions were not very clear, on Q4, which school are you referring to? Was this a one size fits all questionnaire not really tailored towards the individuals? I also found it very strange that the questionnaires were sent back to Ysgol Sarn Bach and not directly to yourselves. My son said that he did not feel he could be open to expressing his thoughts and feelings in case his Head teacher recognised his handwriting, I also believe this to be the case of other children as well. Can you please tell me why the letters were not sent back directly to Gwynedd Council? Can you also tell me how many responses have you received from Ysgol Sarn Bach? The reason I ask this is because I know of some families who did not get a questionnaire, therefore was this a			

		Gwynedd? A allwch hefyd ddweud wrthyf faint o ymatebion a gawsoch gan Ysgol Sarn Bach? Y rheswm dwi'n gofyn hyn yw oherwydd fy mod yn gwybod am rai teuluoedd na chafodd holiadur, felly a oedd yr holiadur yn ymarfer dibwrpas sydd ddim yn gynrychiolaeth wirioneddol o ffigurau?	pointless exercise and not a true representation of figures?			
164		…pryderon ynglŷn a chyfreithlondeb y broses ymgynghori… Mae'r ffurflen ymateb yn annigonol. Nid oes manylion o sut all pobol ofyn cwestiynau pellach ynglyn a'r cynnig neu cynnig dewisiadau amgen. Nid yw'r ymgyngoreion wedi cael gwybod o'r cyfleon i wneud sylwadau am ddewisiadau amgen i gau yr Ysgol sydd wedi ei adnabod gan Cyngor Gwynedd ynghyd a'u prif ddewis. Nid yw'r ymgyngoreion wedi cael gwybod am y cyfle i gynnig syniadau amgen i gau fyddai hefyd yn ymateb i rhesymau dros gloi (h.y y brif sialens mae'r Ysgol yn ei wynebu).	… Concerns about the legality of the consultation process… The response form is inadequate. There are no details of how people can ask further questions about the proposal or offer alternatives. Consultees have not been informed of the opportunities to comment on alternatives to closing the School identified by Gwynedd Council as well as their preferred option. Consultees have not been informed of the opportunity to propose alternative closures that would also respond to closing reasons (i.e. the main challenge facing the School).		Mae'r Awdurdod yn hyderus fod ein prosesau a'r ffurflen ymateb yn cyfarch gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Fe nodir ar dudalen 38 o'r ddogfen ymgynghori "Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, gall yr ymatebion gynnwys sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd o'r cynnig neu awgrymu opsiynau eraill."	*The Authority is confindent that our processes and response forms meet the requirements of the School Organisation Code 011/2018.* *As is noted on page 38 of the consultation document, "During this consultation, the responses could include observations or questions on any aspect of the proposal, or they could suggest other options."*
165		….pryderon ynglŷn a chyfreithlondeb y broses ymgynghori. …. Mae diffyg eglurhad/rhesymeg dros y tafluniad 5 mlynedd o niferoedd disgyblion yr ysgol. Mae penderfyniad Cyngor Gwynedd i beidio â ystyried ardrawiad Ti a Fi a'r Cylch Meithrin ar niferoedd amcan yr Ysgol yn anheg.	…. Concerns about the legality of the consultation process. …. There is a lack of explanation / rationale for the 5 year projection of the school's pupil numbers. Gwynedd Council's decision not to consider the impact of Ti a Fi and the Cylch Meithrin on the School's objective numbers is unfair.		Mae'r Cyngor yn cydnabod fod rhagfynegi nifer plant i'r dyfodol yn anodd yn arbennig felly gan nad oes rheidrwydd ar rieni i yrru eu plant i'r ysgol ddalgylch. Mae'r rhagamcanion a gyflwynir yn y ddogfen wedi ei seilio ar ragamcanion 3 blynedd a gyflwynwyd gan benaethiaid yr ysgolion. Amcangyfrifir y rhagamcanion 5 mlynedd ar sail cyfartaledd niferoedd derbyn yr ysgol dros y dair blynedd ddiwethaf.	*The Council acknowledges that estimating the number of future children is difficult especially as parents are not obliged to send their children to the school within their catchment area.* *The projections presented within the documents are based on 3 year projections that were presented by school head teachers. The 5 year projections were estimated based on the school's average admission numbers over the last three years.*
166		*Nid yw'r mewnlif plant o'r CMA i Ysgol Abersoch wedi cael ei ystyried* er gwaethaf y dystiolaeth gan Gylchoedd eraill bod hyn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd; fel achos penodol, er gwaethaf Covid, cofrestrodd dau o blant CMA gydag Ysgol Abersoch ym mis Medi 2020 ac ar hyn o bryd, mae o leiaf un o blant CMA bellach wedi cofrestru ar gyfer mynediad yn Medi 2021 i Ysgol Abersoch.	The feed from CMA to Ysgol Abersoch numbers has not been taken into account despite the evidence from other Cylchoedd that this does lead to an increase in numbers; as a case in point, despite Covid, two CMA children registered with Ysgol Abersoch in September 2020 and at least one of our CMA children has now registered for the September 2021 intake to Ysgol Abersoch		Mae'r ffigwr a rhagfynegwyd ar gyfer Medi 2021 sef 3 yn uwch na'r ffigwr ragfynegwyd ar gyfer y blynyddoedd canlynol ond un yn llai na'r ffigwr awgrymir yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, sef 1. Mae'r Awdurdod yn cydnabod perthynas Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin gydag ysgolion yng Ngwynedd, fodd bynnag, yn achos Ysgol Abersoch, o ystyried maint y cynnydd fyddai'n deillio o'r Cylch Meithrin, bydd yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau.	*The figure predicted for September 2021, which is 3 higher than the figure predicted for the following years but 1 less than the figure implied in the consultation response, which is 1.* *The Authority acknowledges the relationship all Cylch Ti a Fi and Cylch Meithrin have with schools in Gwynedd, however, in the case of Ysgol Abersoch, considering the amount of increase that could derive from the Cylch Meithrin, the challenges currently facing Ysgol Abersoch would remain.*
167		Ymddengys bod cynnwys a natur cwblhau'r asesiadau effaith yn ymarfer ticio'r blwch cyfyngedig a gwblhawyd gan staff y Cyngor, yn hytrach nag ymgais gydnabyddedig i ganfod gwir gynrychiolaeth o'r effaith o fewn y gymuned a effeithir… Ac eto, mae'r Asesiadau Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn ymarferion ticio blwch a gwblhawyd gan benaethiaid sy'n byw tu allan i'r gymuned. Nid yw'r rhain yn mynd i'r afael yn ddigonol ag effaith gyffredinol cau ar y gymuned leol.	The content and nature of completing the impact assessments appears to be a tick box exercise completed by Council staff, reather than a recognized attempt to find a true representation of the impact within the affected community… Yet the Community and Language Impact Assessments are tick box exercises completed by headteachers who live outside of the community. These do not adequately address the overall effect of closure on the local community.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Mae'r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn cyfarch yr awgrymiadau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a'r gymuned a geir yn Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae'r Awdurdod yn cynnig yr Asesiad Effaith ac yn canfod barn ar y cynnig o'r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad.	*The Council notes the comments.* *The considerations that are included in the Community and Language Impact Assessment address the suggestions of what can be included in the Welsh Language Impact Assessment contained in Appendix C: Community impact and Welsh-medium impact assessments, School Organisation Code 011/2018.* *The Authority presents the Impact Assessment and seeks views on the proposal's impact through the consultation.*
168		Mynna'r Cod Trefniadaeth Ysgolion bod "Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin". Yn gyntaf, nis ymgynghorwyd â'r Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi sydd ar y safle ynglŷn â'r Ymgynghoriad Statudol er gwaethaf bod yn rhanddeiliad cydnabyddedig ac ni chynhaliwyd trafodaeth parthed goblygiadau cau'r ysgol ar y ddarpariaeth o addysg blynyddoedd cynnar yn Abersoch. Mae'r hepgoriad hwn yn tanseilio ymddiriedaeth dull cynnal yr ymgynghoriad…. A yw'r wybodaeth am yr ymgynghoriad wedi'i dosbarthu'n ddigon eang? Faint o sefydliadau eraill a oedd if od i gael eu hybysu na chwasant wybod?... Nid yw'n amlwg bod unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith cau'r ysgol ar y gwasnaethau hyn (Cylch Meithrin/Cylch Ti a Fi)/ Mae'n amlwg bod y cyngor wedi methu ag ymgynghori nac ystyried y CMA yn yr holl broses hon	The SOC requires that "There are specific factors to consider for proposals to add or remove nursery classes". Firstly, the Cylch Meithrin and Cylch Ti a Fi who are on site were not consulted on the Statutory Consultation despite being a recognised stakeholder and no discussion took place regarding the implications of closing the school on the provision of early years education in Abersoch. This omission undermines the trust of the conduct of the consultation…. Has the information on the consultation been distributed widely enough? How many other organisations that were due to be informed were not informed? …. It is not apparent that any consideration has been made of the impact of the closure of the school on these services./ The council has manifestly failed to consult or consider the CMA in this whole process which, particularly in the middle of a pandemic, is very hard to justify.	(2)	Yn anffodus, yn dilyn yr ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn y ddogfen ymgynghoriad fel sy'n ofynnol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, mae'n ymddangos bod camgymeriad gweinyddol wedi bod wrth anfon e-bost yn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y Cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer yr e-bost cyhoeddi, ond fe ymddengys fod bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir a hoffem ymddiheuro am y camgymeriad yma. I sicrhau fod y Cylch yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Cod Trefniadaeth rhoddwyd cyfle i gynrychiolwyr y cylch anfon unrhyw sylwadau pellach atom erbyn **1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021,** ac y byddai'r sylwadau hynny yn cael eu derbyn a'u hystyried fel ymateb i'r ymgynghoriad statudol. Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar safle Ysgol Abersoch ac yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol.	*Unfortunately, following the consultation it became clear that the representatives of the Cylch Meithrin had not received a copy of the consultation document, as is required in accordance with the School Organisation Code 011/2018. It appears there had been an administrative error when sending the e-mail publishing the consultation.* *As is stated in the consultation document, we had included the Cylch as a consultee on our distribution list for e-mailing the publication, but it appears that the Cylch's e-mail address was spelled incorrectly and we wish to apologise for this mistake.* *To ensure that the Cylch had the opportunity to consider the consultation document in accordance with the timetable set out in the Organisation Code, the Cylch representatives were given the opportunity to send us any further comments by **1pm Wednesday 21 April 2021**, and these comments would be accepted and considered in response to the statutory consultation.* *The Council is aware that Cylch Meithrin and Cylch Ti a Fi are presently being held on the Ysgol Abersoch site and notes the responses to the statutory consultation.*

		sydd, yn enwedig yng nghanol pandemig, yn anodd lawn ei gyfiawnhau a'i chyflawni.			Mae'n gywir nodi, pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, yna byddai'r ysgol amgen yn darparu addysg o 3 oed i fyny. Ond o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, os fydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau hefo'r cynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch. Fe nodir yn yr asesiad effaith cymunedol y "Cynhelir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn adeilad yr ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd."	*It is correct to note that if the proposal is to be realised, the alternative school would provide education from 3 years of age and upwards. However, in terms of the Cylch Meithrin provision, if the proposal was to continue, the Council is eager to discuss the options with the relevant representatives – the options could include staying at present location, re-locating to the alternative school, or moving to another site within the village of Abersoch.* *It is noted in the community impact assessment that "Cylch Meithrin and Cylch Ti a Fi ar held in the school's building. If it is decided to close the school, options for post-closure use of the school would need to be considered, taking into account the activities that are currently taking place at the school."*
169		Awgrymiadau Cyngor Gwynedd yw'r tri opsiwn hyn [opsiynau rhestr fer]. Mae awgrymiadau arfaethedig Ysgol Abersoch wedi cael eu diystyru gan ein harwain i gredu nad oes neb wedi gwrando arnom.	These three options *[short list options]* are all Gwynedd Council suggestions, Ysgol Abersoch proposed options have been disregarded leading us to believe that we have not been listened to.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Pwysleisir mai pwrpas y cyfnod ymgynghori statudol yw casglu sylwadau a barn rhan-ddeiliaid ar y cynnig arfaethedig. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor, yn manylu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn. Bydd yn rhaid i'r Cabinet ystyried yr ymgynghoriad ac unrhyw sylwadau sy'n deillio ohono.	*The Council notes the comment. It is emphasized that the purpose of the statutory consultation period is to gather stakeholder's comments and opinions on the proposal.* *Following the statutory consultation period a further report will be presented to the Council's Cabinet, detailing the results of this consultation. The Cabinet will then have to consider the consultation and any comments arising from it.*
170		Mae goblygiad yma bod Ysgol Abersoch, fel rhan o'r "panel adolygu", yn cytuno â'r cynnig a gafodd ei "ddatblygu". Nid yw hyn yn wir. Eglurwch os gwelwch yn dda.	There is an implication here that as part of the "review panel" Ysgol Abersoch agreed with the proposal that was "developed". This is not the case. Please clarify.		Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Abersoch ym mis Hydref 2019 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Hydref 2019 ac Ionawr 2020, gyda'r olaf ar 6 Ionawr 2020. Roedd y PAY yn cynnwys pennaeth yr ysgol, llywodraethwyr, yr Aelod Lleol, rhieni, a staff. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd dalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddisgyblion, a maint bychain y dosbarthiadau. Bu i'r Adran Addysg gwblhau gwerthusiad o'r holl opsiynau er mwyn crynhoi prif gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r opsiynau o dan ystyriaeth. Gwerthuswyd yr holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd gan roi ystyriaeth i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac ystyriaethau perthnasol eraill. Yn dilyn gwerthusiad o'r opsiynau, y cyfeiriad a ffafrir a'r cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad statudol hwn yw cau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021, gyda'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach, sef yr 'Ysgol Amgen', o 1 Medi 2021.	*School Review Panel (PAY) Abersoch was established in October 2019 and a series of meetings were held between October 2019 and January 2020, with the last meeting on 6 January 2020. The PAY included the head teacher, school governors, Local Member, parents and staff. During the meetings, several options for the primary education of the Ysgol Abersoch catchment area were considered to ensure a sustainable provision for the future, responding in particular to the low pupil numbers, and the small class sizes.* *The Education Department completed an evaluation of all options in order to summarise the main strengths, weaknesses, opportunities and threats of every option under consideration. All options were evaluated against the factors of the Gwynedd Primary Education Strategy of the Best Quality for Children taking into account the School Organisation Code, and other relevant considerations.* *Following an options appraisal, the preferred direction and proposal subject to this statutory consultation is to close Ysgol Abersoch on 31 August 2021, with the pupils to be educated at Ysgol Sarn Bach, the 'Alternative School', from 1 September 2021.*
171		6.1 Cymharu Opsiynau (Opsiwn 4) - Pam fyddai'r ddwy ysgol wedyn yn dibynnu ar bolisi staffio lleiaf?	6.1 Comparing Options (Option 4) - Why would both schools then be reliant on minimum staffing policy?		Rhagwelir y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd ddisgyblion cyfnod sylfaen Ysgol Abersoch, ond yn lleihau niferoedd yr ysgol gyfagos. Byddai amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn parhau yn y dosbarth cyfnod sylfaen a'r dosbarth cyfnod allweddol 2. Er y byddai'n lleihau swm gwarchodaeth ariannol yn Ysgol Abersoch, mae'n bosib y byddai'n arwain at sefyllfa ble y byddai'r ddwy ysgol sydd yn rhan o'r ffederasiwn yn ddibynnol ar ddyraniad cyllidol ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai'n lleihau niferoedd yr ysgol gyfagos (Ysgol Sarn Bach).	*It is predicted that this option will lead to an increase in the number of foundation phase pupils at Ysgol Abersoch, but decrease the numbers of the nearby school. An age range of up to 4 years would continue in the foundation phase and key stage 2 classes. Although it would reduce the amount of financial protection at Ysgol Abersoch, it could lead to a situation where the two schools within the federation would be dependent on an additional funding allocation through the minimum security policy staffing as it would reduce the numbers of the nearby school (Ysgol Sarn Bach).*
172		A yw Cyngor Gwynedd yn hyderus yn yr amcanestyniadau rhif disgyblion a gyflwynwyd gan Ysgol Sarn Bach?	Is Gwynedd Council confident in the pupil number projections put forward by Ysgol Sarn Bach?		Mae'r rhagamcanion a gyflwynir yn y ddogfen wedi ei seilio ar ragamcanion 3 blynedd a gyflwynwyd gan benaethiaid yr ysgolion. Amcangyfrir y rhagamcanion 5 mlynedd ar sail cyfartaledd niferoedd derbyn yr ysgol dros y dair blynedd ddiwethaf.	*The projections presented within the document is based on 3 year projections presented by the schools' head teachers. The 5 year projections are estimated based on the school's average admission numbers over the last three years.*
173		6.1 Cymharu Opsiynau Opsiwn 5 - "… byddai'n arwain at sefyllfa lle byddai'r tair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y ffederasiwn yn dibynnu ar ddyraniad ariannol ychwanegol trwy'r polisi amddiffyn staff lleiaf". A yw hwn yn opsiwn rhagweladwy credadwy pe bai Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog yn ffederaleiddio fel 3 ysgol? Ar hyn o bryd mae mwy na 160 o ddisgyblion ym mhob un o'r 3 ysgol, gan ostwng i ddim llai na 100 os yw'r rhagamcanion ysgol i'w credu.	6.1 Comparing Options Option 5 - "… it would lead to a situation where the three schools included in the federation would be reliant on an additional financial allocation by means of the minimum staffing protection policy". Is this a credible foreseeable option if Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach and Ysgol Llanbedrog were to federalise as 3 schools? There are more than 160 pupils at all 3 schools at present, dropping to no less than 100 if the school projections are to be believed.		Rhagwelir y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd ddisgyblion cyfnod sylfaen Ysgol Abersoch, ond yn lleihau niferoedd y ddwy ysgol gyfagos. Byddai amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn parhau yn y dosbarth cyfnod sylfaen. Er y byddai'n lleihau'r swm gwarchodaeth ariannol yn Ysgol Abersoch, mae'n bosib y byddai'n arwain at sefyllfa ble mae'r tair ysgol sydd yn rhan o'r ffederasiwn yn ddibynnol ar ddyraniad cyllidol ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae trefniadau cyllido ysgolion ffederal yn golygu y bydd y tair ysgol yn derbyn cyllidebau ar wahân ac oherwydd hyn nid yw cyfanswm y plant ar y tri safle yn ffactor. Un o anfanteision y model yw y byddai'n golygu fod angen i blant symud o un safle i'r llall, ac oherwydd hyn yn methu perthnasu yr un mor effeithiol ac y maent ar hyn o bryd i'w ardal leol.	*It is predicted that this option will lead to an increase in the number of foundation phase pupils at Ysgol Abersoch, but decrease the numbers of both nearby schools. An age range of up to 4 years would continue in the foundation phase class. Although it would reduce the amount of financial protection at Ysgol Abersoch, it could lead to a situation where the two schools within the federation would be dependent on an additional funding allocation through the minimum security policy staffing.* *Federal school funding arrangements mean that the three schools will receive separate budgets and because of this the total number of children on the three sites is not a factor.* *One of the other disadvantages of this model is that it would mean that children would need to move from one site to another, and because of this would not relate as effectively as they do currently to their local area.*

					Wrth drafod yr opsiynau hefo'r Panel Adolygu Ysgol yn Ionawr 2020, nodwyd pryder y gallasai'r newid arwain at rieni'n dewis peidio anfon eu plant i'r ysgol – mae'n deg nodi felly y gallasai'r newid arwain at leihad yn niferoedd y disgyblion yn y tair ysgol fyddai'n rhan o'r ffederasiwn, ac o ganlyniad, gall arwain at sefyllfa ble mae'r tair ysgol sydd yn rhan o'r ffederasiwn yn ddibynnol ar ddyraniad cyllidol ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio.	*While discussing the options with the PAY in January 2020, concern was expressed that the change could lead to parents choosing not to send their children to the school - therefore it is fair to note that the change could lead to a reduction in pupil numbers at the three schools involved the federation, and as a result, may lead to a situation where the three federated schools are dependent on an additional funding allocation through the minimum staffing protection policy.*
174		6.1 Cymharu Opsiynau "Serch hynny, ar ôl gwerthuso'r opsiynau yn erbyn ffactorau strategaeth Addysg Gynradd Ardderchog i Blant Gwynedd, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiynau hyn yn llwyddo i gwrdd, na datrys, y prif heriau a wynebai'r ysgol (fel y manylir yn adran 5.1). " Ar ba sail y daethpwyd â hyn i ben? Pam nad oes unrhyw sôn am y goblygiad ar y meintiau dosbarth oedran cymysg uchaf a argymhellir a'r cymarebau staff: disgybl uwch?	6.1 Comparing Options "Nevertheless, after appraising the options against the factors of the Excellent Primary Education for the Children of Gwynedd strategy, it was concluded that these options did not manage to meet, or resolve, the main challenges faced by the school (as detailed in section 5.1)." On what basis was this concluded? Why is there no mention of the implication on the maximum recommended mixed age class sizes and higher pupil: staff ratios?		Wrth ddatblygu'r cynnig, cwblhawyd gwerthusiad o'r holl opsiynau er mwyn crynhoi prif gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r opsiynau o dan ystyriaeth. Gwerthuswyd yr holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd gan roi ystyriaeth i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac ystyriaethau perthnasol eraill. Roedd 'Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran' yn un o'r ffactorau a ystyriwyd wrth werthuso'r opsiynau, ac fe nodwyd yr '*Amrediad oedran hyd at 4 mlynedd'* fel un o anfanteision yr opsiwn ffafredig. Serch hynny, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, os gweithredir y cynnig, disgwylir y bydd Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol. Gellir gweld copi o'r gwerthusiad opsiynau cyflawn ar ein gwefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.	*In developing the proposal, an evaluation of all options were completed in order to summarise the main strengths, weaknesses, opportunities and threats of every option under consideration. All options were evaluated against the factors of the Gwynedd Primary Education Strategy of the Best Quality for Children taking into account the School Organisation Code, and other relevant considerations.* *'Class sizes and age range' was one of the factors considered when evaluating the options, and the 'Age range up to 4 years' was identified as one of the disadvantages of the preferred option. However, as noted in the consultation document, if the proposal is implemented, it is expected that the Governing Body of Ysgol Sarn Bach will give due consideration to determining class sizes and the distribution of school staff resources.* *A copy of the full options appraisal can be found on our website www.gwynedd.llyw.cymru/modernisingeducation*
175		6.4 Gwerthuso'r Opsiynau i'w hystyried ar gyfer yr Ysgol Newid ystod oedran Ysgol Abersoch, Opsiwn i Gynyddu i 3-11 Pam na chyflwynwyd hyn? Anogodd Cyngor Gwynedd Ysgol Abersoch i edrych ar ystod oedran 3-11, yna ei diystyru. Nid oedd hwn erioed yn opsiwn mewn gwirionedd ond sgrin fwg.	6.4 Appraisal of the Options to consider for the School Change the age range of Ysgol Abersoch Option increase to 3-11 Why was this not put forward? Gwynedd Council encouraged Ysgol Abersoch to look at age range 3-11, then disregarded it. This was never really an option but a smokescreen.		Trafodwyd dau opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol, sef ymestyn i 3-9 ac ymestyn i 3-11. Dylid nodi mai'r opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9, gan gynnwys datblygiad y Cylch Meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma yn lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol yn sgil darparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 dalgylch Abersoch). Wrth gymharu'r ddau opsiwn, daethpwyd i'r canlyniad mai'r opsiwn gorau ar gyfer ystyriaeth bellach oedd yr opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11. Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am sawl rheswm, yn benodol: • Ni ragwelir y byddai ychwanegu blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau. • Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir. • Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd. Credir y byddai'r opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11 yn cynnig mwy o fanteision o safbwynt cyfle i godi niferoedd yr ysgol. Byddai'r opsiwn hefyd yn cysoni'r ystod oed gyda gweddill ysgolion y sir, ac yn golygu fod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Er mwyn i'r opsiwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, byddai'n rhaid i'r cynnydd hwn fod yn un sylweddol. Serch hynny, mae'n debygol y byddai unrhyw gynnydd yn y niferoedd Ysgol Abersoch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn achosi lleihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach, ac o bosib, yr ysgolion cyfagos. Yn dilyn ystyriaeth bellach, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol, a gall gael effaith ar niferoedd disgyblion yr ysgolion cyfagos.	*Two options were discussed to extend the age range of the school, namely to extend to 3-9 and extend to 3-11.* *It should be noted that the option favourited locally was the option to extend the school's age range from 3-9, including the development of Cylch Meithrin. This option was favourited locally for practical reasons such as better use of free space within the school buidling as a result of providing a setting for the Cylch Meithrin, and to mitigate the potential impact the change could have on the numbers of Ysgol Sarn Bach (the school which provides education for 9-11 pupils in the Abersoch catchment area).* *By comparing both options, it was concluded that the best option for further consideration was the option to extend the age range to 3-11. The 3-9 year old option was discounted for several reasons, in particular:* • *It is not anticipated that adding an educational year would result in an adequate increase in numbers. As a result, the challenges facing the school would continue.* • *The age range would not be consistent with the majority of the county's primary schools.* • *It would not allow the school to offer complete KS2 provision. Pupils would continue to transfer to Ysgol Sarn Bach to complete their primary education.* *It is believed that the option to extend the age from 3-11 would provide further advantages from the standpoint of increasing the school's numbers. The option would also harmonise the age range with the rest of the schools within the county, and mean that the school offers complete KS2 provision.* *In order for the option to respond to the challenges facing the school, this increase would need to be significant. However, it is likely that any increase in the numbers of Ysgol Abersoch as a result of extending the age range would cause a reduction in the numbers of Ysgol Sarn Bach, and possibly the neighboring schools.* *Following further consideration, it was concluded that the option would not be a sustainable future solution for the school, and could have an impact on the pupil numbers of neighboring schools.*
176		Effaith ar y Gymraeg – Defnyddiwyd gwahanol ddata o'i gymharu â'r asesiad drafft – Haf 2019 yn hytrach na Hydref 2019. Pam bod set ddata hŷn yn cael ei defnyddio yn y fersiwn hon? A yw hyn i gyflwyno data sy'n adlewyrchu dibenion Cyngor Gwynedd ei hun?/	Impact on Welsh Language Different data has been used compared to the draft assessment - Summer 2019 as opposed to October 2019. Why is an older dataset being used in this version? Is this to present data that reflects Gwynedd Council's own purposes? / I noticed that the data in the Welsh Language presented in the draft document has been discounted in	(2)	Mewn perthnasedd i'r sylwad am y sampl o blant ddaru gwblhau'r holiadur gwe iaith, gall yr Awdurdod gadarnhau mai sampl o blant Cyfnod Sylfaen ymhob un o'r ysgolion a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol, a hynny er mwyn sicrhau cymhariaeth deg ac ystyrlon ar draws yr ysgolion. Nid oedd gwybodaeth gyffelyb ar gael ar gyfer tymor yr Hydref 2019.	*In relation to the comment regarding the sample of children that completed the language questionnaire, the Authority can confirm that it was a sample of Foundation Phase children from each school that were asked to complete the Language Impact Assessment in order to ensure a fair and meaningful comparison across the schools. Similar information was not available during the Autumn term of 2019.*

		Sylwaf fod data ar ddefnydd y Gymraeg a gyflwynir yn y dogfennau drafft, wedi cael eu ddiystyru o blaid set wahanol o ddata sy'n fwy ffafriol i'r naratif gwrth Ysgol Abersoch, a thrwy hynny ychwanegu cryfder at y ddadl sy'n ceisio cyfiawnhau'r cynnig i gau'r ysgol.	favour of a different set of data that is more conducive to the anti- Ysgol Abersoch narrative, thus adding strength to the argument seeking to justify the proposal to close the school.		Yn sgil niferoedd isel Ysgol Abersoch, cydnabyddir bod sampl y data yn fychan, fodd bynnag mae'r data yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynodd y disgyblion eu hunain yn yr holiadur yn nodi eu harferion o ran defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.	*Due to the low numbers at Ysgol Abersoch, it is acknowledged that the data sample is small, however the data is based on the information presented by the pupils themselves in the questionnaire noting their habits in terms of using the Welsh language within different situations.*
177		7.15 Peryglon Posibl Diffyg gwneud penderfyniadau - Anallu i roi newid ar waith oherwydd diffyg gwneud penderfyniadau sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o darfu ar addysg y disgyblion. Gallai niweidio enw da'r Cyngor. Bydd yn cael ei niweidio os bydd Cyngor Gwynedd yn mynnu gwthio trwy gynlluniau amhoblogaidd yn ystod pandemig a heb ofal a sylw dyladwy i fanylion a'r effeithiau ar y gymuned a'r iaith yn Abersoch.	7.15 Potential Risks Lack of decision-making - An inability to put change into practice due to a lack of decision-making which increases the likelihood of disturbing the pupils' education. It could harm the Council's reputation. It will be harmed if Gwynedd Council insist on pushing through unpopular plans during a pandemic and without due care and attention to detail and the impacts on the community and language in Abersoch.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*
178		7.15 Peryglon Posibl Ansawdd yr addysg yn y tymor byr tra bo sefyllfa'r ysgol yn cael ei hadolygu - Ansawdd y ddarpariaeth addysg ar gyfer y disgyblion yn is Mae'r sylw hwn yn sarhad i ymroddiad staff addysgu a chymorth Ysgol Abersoch. Gofynnwn ichi dynnu'r datganiad hwn yn ôl a chyhoeddi ymddiheuriad.	7.15 Potential Risks The quality of the education in the short-term whilst the school's situation is under review - Reduced quality of education provision for the pupils This is an insulting remark to the dedication of Ysgol Abersoch teaching and support staff. We request that you retract this statement and issue an apology.		Mewn perthnasedd i'r sylwad am yr effaith posib ar ansawdd yr addysg, gall yr Awdurdod gadarnhau nad oedd yn cyfeirio at weithlu Ysgol Abersoch yn benodol, ond yn hytrach yn cyfleu ac yn cydnabod yr effaith y gall proses o newid megis ad-drefnu ysgolion ei gael ar berfformiad y gweithlu a effeithir yn ystod y cyfnod. Mae sawl astudiaeth Rheoli Newid Sefydliadol yn cadarnhau (hyd yn oed mewn achosion lle mae'r gweithlu yn rhagori a'r rheolaeth ac arweinyddiaeth o'r newid yn gadarn) mae risg syfrdanol bod gostyngiad ansawdd perfformiad ***yn ddisgwyliedig ac angen ei gydnabod fel rhan o'r broses.*** "Self-esteem and performance can drop during periods of change. In a sense this is unavoidable – a natural and normal reaction to change affecting individuals" *(MAKING SENSE OF CHANGE MANAGEMENT Esther Cameron and Mike Green 2012)* Mae astudiaeth Roffey Park (Devine 1999) yn cadarnhau hyn hefyd wrth nodi, mae anghydfod rhwng 2 safbwynt a barn ddiwylliannol wahanol (sy'n arwain at ymgynghoriadau o newid sefydliadol), ***yn anochel yn arwain at rhwng 25% - 30% o ostyngiad mewn ansawdd perfformiad*** oherwydd y posibiliad o'r canlynol: • Sylw yn mynd at feddylfryd "nhw a ni" yn hytrach nag undod o gyfeiriad • Ymdrech ac egni yn mynd tuag at y broses o naillai Newid neu warchod beth sy'n bodoli • Clymbleidiau anffurfiol a ffurfiol yn ymgeisio arwain • Portreadu naill ochr yn well na'r llall. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod cyfnodau o newid yn gallu creu ansefydlogrwydd a pheri pryder personol i bob unigolyn sydd hefyd yn cynyddu'r risg o ostyngiad mewn perfformiad. Mae'r ymdrechion sydd wedi eu gweithredu gan yr awdurdod i gynnwys safbwyntiau staff yr ysgol a'u hannog i fod yn "rhan o'r newid" wedi arwain at y tebygolrwydd o lai o effaith ar ansawdd yr addysg a'r gwaith dydd i ddydd o addysgu, ac felly llai o risg o effaith ar berfformiad.	*In relation to the comment regarding the possible impact on the quality of education, the Authority can confirm that it was not aimed at the Ysgol Abersoch workforce in particular, rather conveys and acknowledges the impact that a process of change such as re-organising schools can have on the performance of the affected workforce during the period.* *Various Change management studies confirm (even in case where the workforce excel and where the management and leadership of change is strong) there is a significant risk that a reduction in the quality of performance* **is expected and needs to be recognised as part of the Process** *"Self-esteem and performance can drop during periods of change. In a sense this is unavoidable – a natural and normal reaction to change affecting individuals"* *(MAKING SENSE OF CHANGE MANAGEMENT Esther Cameron and Mike Green 2012)* *The Roffey Park study (Devine 1999) also confirms the above, noting that between 2 differing views and cultural views (which lead to consultations of organisational change), inevitably results in a reduction of between 25% - 30% quality of performance due to the possibility of:* • *Attention is drawn towards the "us and them" mentality rather than that of unity of direction* • *Effort and energy goes towards the process of either change of safeguarding what already exists* • *Formal and informal coalitions seeking leadership* • *Portraying one side better than the other* *The Authority recognises that periods of change can lead to uncertainty and cause personal anxiety for all individuals which in turn increases the risk of a drop in performance. Efforts that have been implemented by the authority to include the views of school staff and encourage them to be "part of the change" have led to the likelihood of less impact on the quality of education and day to day of teaching, and therefore less risk of impact on performance.*
179		Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig Ni aethpwyd i'r afael â hyn er ei fod yn rhan o'r CTY.	How parents' and pupils' engagement with the alternative school and any facilities it may offer could be supported This has not been addressed despite being part of the SOC.		Fel rhan o'r broses statudol, wrth ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Rydym o'r farn fod yr asesiad a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion.	*As part of the statutory process, in developing the proposal(s) for re-organsing school(s), the Authority must carry out an assessment of the likely impact on the community, in accordance with the School Organisation Code (011/2018). We are of the opinion that the assessment presented as part of the consultation is in line with Welsh Government national guidelines on school reorganisation.*
180		Nid yw pwyllgor a staff y CMA wedi cael gwybod am y bwriad i gau'r ysgol a ni ymgynghoriwyd â hwy er ei bod yn ofyniad statudol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (CTY). Nid ydym wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfodydd rhanddeiliaid felly anwybyddwyd ein mewnbwn yn llwyr…. Nid yw'r CMA wedi derbyn y ddogfen ymgynghori mewn unrhyw fformat ac mae'n llawer rhy hwyr i ni gael unrhyw fewnbwn ystyrlon i broses hyd yn hyn oni bai a cyflwynir oedi i'r broses hon!	The CMA committee and staff have not been informed of the intention to close the school or consulted despite it being a statutory requirement under the **Schools Organisation Code (SOC).** We have not been invited to stakeholder meetings so our input has been completely ignored….The CMA has not received the consultation document in any format and it is far too late now for us to have any meaningful input to a process so far advanced unless a delay is introduced into this process!		Yn anffodus, yn dilyn yr ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn y ddogfen ymgynghoriad fel sy'n ofynnol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, mae'n ymddangos bod camgymeriad gweinyddol wedi bod wrth anfon e-bost yn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y Cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer yr e-bost cyhoeddi, ond fe ymddengys bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir a hoffem ymddiheuro am y camgymeriad yma. I sicrhau fod y Cylch yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Cod Trefniadaeth rhoddwyd cyfle i gynrychiolwyr y cylch anfon unrhyw sylwadau pellach atom erbyn **1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021,** ac y byddai'r sylwadau hynny yn cael eu derbyn a'u hystyried fel ymateb i'r ymgynghoriad statudol.	*Unfortunately, following the consultation it became clear that the representatives of the Cylch Meithrin had not received a copy of the consultation document as is required in accordance with the School Organisation Code 011/2018, it appears there had been an administrative error while sending the e-mail publishing the consultation.* *As is stated in the consultation document, we had included the Cylch as a consultee on our distribution list for e-mailing the publication, but it appears that the Cylch's e-mail address was spelled incorrectly and we wish to apologise for this mistake.* *To ensure that the Cylch had the opportunity to consider the consultation document in accordance with the timetable set out in the Organisation Code the Cylch representatives were given the opportunity to send us any further comments to by* ***1pm Wednesday 21 April 2021****, and these comments would be accepted and considered in response to the statutory consultation.*

181		Comisiwn Elusennau - Noda CTY /.6 "Rhaid i gynigion sy'n effeithio ar elusennau gyd-fynd a'r gyfraith elusennau neu er diben a ddatganwyd ar gyfer yr ymddiriedolaeth elusennol" Rydym wedi cyflwyno ymholiad gyda'r Comisiwn Elusennau gan ein bod yn credu bod yn rhaid i'r ymgynghoriad ystyried y mater hwn./ Rhaid i gynigion sy'n effeithio ar elusennau gyd-fynd a'r gyfraith elusennau neu er diben a ddatganwyd ar gyfer yr ymddiriedolaeth elusennol" Rydym wedi cysylltu â'r Comisiwn Elusennau ac yn aros am ymateb.	Charities Commission - The SOC states any impact on nursery provision needs to be considered but this has not happened and we have lodged a query with the Charities Commission as we believe that the requirement that "Proposals which affect charities must be consistent with charity law or the stated purpose of the charitable trust" has been breached./ Proposals which affect charities must be consistent with charity law or the stated purpose of the charitable trust" We have contacted the Charities Commission and await response.	(2)	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*
182		Mae'n werth nodi nad yw barn rhieni yn cael ei chofnodi yn y ddogfen ymgynghori.	It is notable that parents opinions are not recorded in the consultation document.		Pwrpas yr ymgynghoriad statudol yw canfod barn rhan-ddeiliaid, gan gynnwys rhieni, ar y cynnig arfaethedig.	*The purpose of the statutory consulation is to gather the opinions of stakeholders, including that of the parents on the proposal.*
183		Ymddengys bod adroddiad yr Ymgynghoriad yn ddethol yn ei ddewis o gynnwys a geiriad, gan amlygu buddion Ysgol Sarn Bach ond, eto'n eithrio rhai Ysgol Abersoch. Er enghraifft, penodwyd pennaeth Ysgol Abersoch, Linda Jones yn Gydlynydd Clwstwr Siarter Iaith i gefnogi'r Sector Uwchradd ond eto ni chydnabyddir dim o hyn. Awgryma hyn bod mwy i'w ennill nac o'i golli o gau Ysgol Abersoch.	The Consultation report appears selective in its choice of content and wording, highlighting the benefits of Ysgol Sarn Bach but, again, excluding those of Ysgol Abersoch. For example, the head of Ysgol Abersoch, Linda Jones has been appointed as the Language Charter Cluster Coordinator to support the Secondary Sector and yet none of this is acknowledged. This suggests that more is to be gained than lost from the closure of Ysgol Abersoch.		Dymuna'r Awdurdod nodi ei fod yn gwbl di-duedd a thryloyw yn yr hyn a gyflwynir fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Mewn perthnasedd i'r sylwad am rôl y Cydlynydd Clwstwr, bu i'r Awdurdod wahodd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer y rôl ar draws Gwynedd, ac yn sgil hynny, ceir 13 Cydlynydd Clwstwr yn y sir, sef un i bob dalgylch. O ystyried hyn, nid yw'r Awdurdod o'r farn fod y rôl yn berthnasol i'r cynnig o ystyried nad ydyw'n creu mantais nac anfantais i Ysgol Abersoch.	*The Authority wishes to note that it is completely un-biased and transparent in that which it presents as part of the consultation's documentations.* *In relation to the comment about the role of the Cluster Co-ordinator, the Authority invited expressions of interest for the role across Gwynedd, and as a result, there are 13 Cluster Co-ordinators in the county, one per catchment area. In view of this, the Authority does not consider that the role is relevant to the proposal given that it does not create an advantage or disadvantage for Ysgol Abersoch.*
184		Rwyf yn ei chael hi'n anodd i ddod o hyd i unrhyw beth yn y dogfennau sy'n taflu goleuni ar lwyddiant neu gyflawniadau'r ysgol	I find it hard to find anything in the documents that sheds light on the success or achievements of the school.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Pwysleisir fod cynnwys y ddogfen ymgynghori wedi ei lunio yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.	*The Council notes the comment.* *It is emphasised that the consultation document contents complied in accordance with the School Organisation Code (011/2018).*
185		Gwnaeth swmp sylweddol yr wybodaeth hi'n amhosibl i ni ymateb, yn unol â chais yr Adran Addysg, mewn unrhyw ffordd yn ystod penwythnos cyntaf yr ymgynghoriad, yn arbennig pan na dderbyniwyd y copïau caled a ofynnom amdanynt ar Ionawr 6ed yn llawn tan Ionawr 19eg.	The substantial amount of information made it impossible for us to respond, as requested by the Department of Education, in any way during the first weekend of the consultation, especially when the hard copies we requested on 6/1 were not received until 19/1.		Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, anfonwyd e-bost at yr ymgynghorai perthnasol a oedd yn cynnwys linc at y ddogfen ymgynghori electroneg. Darparwyd copïau caled ar gais yn ogystal. Ailgyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 12 Ionawr 2021 (gyda dyddiad cau diwygiedig o 23 Chwefror), a bu i'r Tîm Moderneiddio Addysg ddosbarthu'r copïau caled cyfredol erbyn 19 Ionawr 2021.	*In accordance with the requirements of the School Organization Code, an e-mail was sent to the relevant consultees which included a link to the electronic consultation document. Hard copies were also provided on request.* *The consultation was re-issued on 12 January 2021 (with a revised deadline of 23 February), and the Modernizing Education Team distributed the relevant hard copies by 19 January 2021.*
186		Nid y plant fyddai'r unig rai i ddioddef. Beth am yr athrawon? Rydych chi nid yn unig yn mynd â'r ysgol i ffwrdd, ond hefyd swyddi, swyddi sydd eu hangen i dalu biliau a chael lle i fyw. A ydych wedi ystyried yr effeithiau ar iechyd meddwl a'r pryderon ariannol y gall eu hachosi?	The children would not be the only ones to suffer. What about the teachers? You not only take the school away, but also jobs, jobs that are needed to pay bills and have a place to live. Have you considered the effects on mental health and the financial concerns it may cause?		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Petai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai'r swyddi yn dod i ben pan fyddai'r ysgol yn cau. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig gydymffurfio â'r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu ar unrhyw gynnig. Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiynau galw heibio rhithwir lle'r oedd posib trefnu i staff o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor fod yn bresennol os oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Rhoddwyd gwybod fod croeso hefyd i staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cael trafodaethau un i un. Cynigir pecyn cymorth, gan gynnwys hyfforddiant os yw'n briodol, i'r holl staff a effeithir arnynt gan y cynnig.	*The Council notes the comments.* *Should the proposal to close Ysgol Abersoch be implemented, it is anticipated that staffing implications will lead to redundancies as the posts would cease when the school closes. Staff and Union representatives will be consulted specifically as part of the statutory consultation period. Any redundancies arising from the proposal will have to comply with the relevant employment law and the Gwynedd Redundancy scheme. Clear and open communication with staff will play a central role in implementing any proposal.* *During the consultation, virtual drop-in sessions were held where it was possible to arrange for staff from the Council's Human Resources team to be present if any member of staff wished to discuss their situation. It was reported that staff were also welcome to contact the HR service directly if they wished to have one to one discussions. All staff affected by the proposal will be offered a package of support, including training if appropriate.*
187		Mae'r ysgol hon yn achubiaeth i gynifer gan gynnwys y swyddi addysgu ac mae angen iddi barhau i fod felly.	This school is the lifeline for so many including the teaching jobs and needs to continue to be so.			
188		***A roir ystyriaeth i'r athrawon a'r staff ategol eraill? Mae'n anhebygol iawn y byddant yn dod o hyd i unrhyw swyddi yn yr hinsawdd bresennol. Oes modd datgelu beth fydd cost y diswyddo? Sut y dengys gwerthfawrogiad i brofiad y staff dysgu a'r staff ategol?***	***Are teachers and other support staff considered? It is highly unlikely that they will find any jobs in the current climate. Can the redundancy cost be disclosed? How is the teaching and support staff experience appreciated?***			
189		Bydd yr ansicrwydd sydd ar ddod yn cael effaith negyddol ar addysg a lles emosiynol y plant, gan achosi ansicrwydd a gallu'r ysgol i recriwtio,	This impending uncertainty will negatively effect the children's education and emotional well being, causing insecurity and the ability of the school, to recruit,		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Mae hyn wedi ei nodi fel risg yn y ddogfen ymgynghori statudol (7.15). I liniaru'r risg, nodir y bydd y Cyngor yn monitro'r ysgol yn unol â pholisi'r adran Addysg a chynnig cefnogaeth yn ôl yr angen.	*The Council notes the comments.* *This has been noted as a risk within the statutory consultation document (7.15). To reduce the risk, it is noted that the Council is to monitor the school in accordance with the Education Department's policy and will offer support as is necessary.*
190		Maent hefyd wedi achosi ansicrwydd enfawr sy'n effeithio ar ddewis addysg rhieni, wedi tanseilio'r staff yn addysgu \ cynlluniau a hyder pawb yn y dyfodol.	They have also caused huge uncertainty affecting parent education choice , undermined the staff teaching \ planning and everyone's confidence in the future .		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.	*The Council notes the comments.*

191		***Un o'r rhesymau dros bresenoldeb isel yw'r bygythiad o gau'r ysgol ers ychydig o flynyddoedd. Oherwydd hyn nid yw'n denu pobl newydd yma i'r ardal, ymwelwyr na phlant o'r oedran addas fyddai'n barod i ddechrau yn yr ysgol.***	***One of the reasons for low attendance is the threat of closing the school for a few years. Because of this it does not attract new people here to the area, visitors or children of a suitable age that would be ready to start school.***		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.	*The Council notes the comments.*
192		Mae teuluoedd yn cael eu digalonni rhag anfon eu plant i Ysgol Abersoch a'r CMA gan eu bod yn pryderu y bydd y rhain yn cau.	Families are disencouraged in sending their children to Ysgol Abersoch and the CMA as they worry these will close.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.	*The Council notes the comments.*
193		Mae angen cynllun ar gyfer tai, swyddi a diwylliant arnom, ond byddai colli'r ysgol leol yn golygu bod yr holl ymdrechion hyn wedi darfod.	We need a plan for housing, jobs and culture, but losing the local school means that the effort so far will be in vain.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.	*The Council notes the comments.*
194		Rwy'n credu bod y cyngor yn rhannol gyfrifol am y nifer llai o ddisgyblion yn yr ysgol, gan fygwth cau yn gyson a pheidio â dilyn dalgylch polisi.	I think the council are partly responsible for the reduced pupil numbers at the school, constantly threatening closure and actively not following a catchment area policy.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.	*The Council notes the comments.*
195		Felly, yn fwy nag erioed dylem fod yn cynnal a chadw ein presenoldeb yng Nghymru heb geisio cau cyfleuster fel Ysgol Abersoch a oedd yn hyrwyddo ac yn eiriolwr hawdd dros yr iaith Gymraeg mewn pentref sy'n agos at golli ei hunaniaeth. Pe bai'r ysgol yn cau yna byddai'r hunaniaeth honno'n sicr o gael ei cholli ac ni fyddai cyfleuster addysgol par rhagoriaeth byth yn cael ei weld eto.	Therefore, more than ever we should be maintaining our presence in Wales without seeking to close a facility such as Ysgol Abersoch which was a champion and advocate for the Welsh language in a village close to losing its identity. If the school were to close then that identity would be lost and a par excellence educational facility would never be seen again.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.	*The Council notes the comments.*
196		***Pe byddai unrhyw brinder lleoedd ysgol yn y 4 blynedd nesaf yn yr ardal, rwyf yn credu y dylid eich dal yn bersonol gyfrifol am hynny.***	***Should there be any shortage of school places in the next 4 years in the area, I think you should be held personally responsible for that.***		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.	*The Council notes the comments.*
197		y ffaith bod Ysgol Abersoch o dan fygythiad o gau - a'r hyn wedi'i seilio ar adroddiad hynod wallus a chamarweiniol	the fact that Ysgol Abersoch is under threat of closure - and based on an extremely inaccurate and misleading report		Mae'r Cyngor yn hyderus yng nghywirdeb y wybodaeth a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori.	*The Council is confident in the accuracy of the information presented within the consultation document.*
198		Mae'n werth tynnu sylw bod lleoliad Ysgol Sarn Bach, fel y dynodir ar dudalen 35 y Ddogfen Ymgynghoriad Statudol, yn anghywir. Efallai y cydiodd yr Adran Addysg yn ein syniad o Ysgol Draeth (Atodiad C) ac y dymuna ddatblygu Ysgol Sarn Bach yn Ysgol Fferm? Arweinia hyn at achos pryder yn anad dim ynghylch cywirdeb rhannau mwy cymhleth yr adroddiad.	It is worth noting that the location of Ysgol Sarn Bach, as identified on page 35 of the Statutory Consultation Document, is incorrect. Perhaps the Education Department has taken up our idea of a Beach School (Appendix C) and wishes to develop Ysgol Sarn Bach into a Farm School? This leads to concern above all about the accuracy of the more complex parts of the report.		Mae'r Cyngor yn debryn y sylwadau. Dyma fap diwygiedig sy'n nodi lleoliad Ysgol Sarn Bach.  	*The Council accepts the comments. Below is a revised map showing the location of Ysgol Sarn Bach.* 
199		Ni leolir Ysgol Sarn Bach yng nghanol y pentref – mae ar ei gyrion.	Ysgol Sarn Bach is not located at the centre of the village – it is on the outskirts.			
200		Mae'n werth tynnu sylw bod lleoliad Ysgol Sarn Bach, fel y dynodir ar dudalen 35 y Ddogfen Ymgynghoriad Statudol, yn anghywir. Efallai y cydiodd yr Adran Addysg yn ein syniad o Ysgol Draeth (Atodiad C) ac y dymuna ddatblygu Ysgol Sarn Bach yn Ysgol Fferm? Arweinia hyn at achos pryder yn anad dim ynghylch cywirdeb rhannau mwy cymhleth yr adroddiad.	It is worth noting that the location of Ysgol Sarn Bach, as identified on page 35 of the Statutory Consultation Document, is incorrect. Perhaps the Education Department has taken up our idea of a Beach School (Appendix C) and wishes to develop Ysgol Sarn Bach into a Farm School? This leads to concern above all about the accuracy of the more complex parts of the report.			
201		Mae'r ysgol yn cynnig cychwyn ysgol draeth, pam nad ydych chi wedi eu canmol am y syniad arloesol hwn?	The school proposes to start a beach school, why have you not commended them for this innovative idea?		Mae ymateb y Cyngor i'r cynnig i sefydlu Ysgol Draeth wedi ei nodi yn yr adran 'Opsiynau Amgen' isod.	*The Council's reponse to the proposal to establishing a Beach School is noted under the 'Alternative Options' below.*
	3 Opsiynau amgen *Alternative options*					
	Oedi'r broses *Delay the process*					
202		***Tybir taw'r penderfyniad mwyaf addas fyddai i atal cau Ysgol Abersoch yn llwyr ac ymgynghori gyda'r holl ran-ddeiliad yn dilyn cyfnod Covid-19 ac ystyried sut y gellir cynnwys yr ysgol i'r rhaglen addysg lleol. Rwy'n cynnig dod â'r cyfnod ymgynghori hwn i ben a rhoi blwyddyn ysgol lawr i'r ysgol gan ddechrau ym Medi 2021. Yna gellir cynnig sut gall yr ysgol symud ymlaen a sicrhau fod y cynnig yn un hir oes am rai blynyddoedd i ddod.***	***It is considered that the most appropriate decision would be to prevent the closure of Ysgol Abersoch completely and to consult with all stakeholders following the Covid-19 period and consider how the school could be included in the local education program. I propose to end this consultation period and put a school year down to school starting in September 2021. It can then be proposed how the school can move forward and ensure longevity for a number of years to come.***		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Serch hynny, ni allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Mae niferoedd y disgyblion yn Ysgol Abersoch wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. Mae'r Awdurdod o'r farn na fyddai parhau â'r ddarpariaeth addysg bresennol yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:	*The Council notes the comments.* *Despite this, we as an authority cannot commit to not dealing with the school indefinitely. The number of pupils at Ysgol Abersoch have decreased consistently since 2016 and have remained fragile for some time.* *The Authority is of the opinion that continuing with the current educational provision is not a viable option going forwards. The Education Department is of the opinion that it is not practical to continue with the current situation, mainly because of:*

		Byddwn yn eich annog i ohirio pob cynllun o leiaf nes bydd rhybudd pellach a thystiolaeth brofedig y gall yr ysgol hon ffynnu unwaith eto a pharhau â phwysigrwydd yr iaith Gymraeg	I would urge you to at the very least put all plans on hold until further notice and proven evidence that this school can thrive once again and continue the importance of the Welsh language.		• Dosbarthiadau bychan iawn. • Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion. • Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf, gyda 11 disgybl yn mynychu erbyn 2025. Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi wedi ei agor ar safle'r ysgol ym mis Chwefror 2020. Serch hynny, ac er yn cydnabod yr effaith gadarnhaol bosib gall lleoli Cylch Meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar niferoedd, nid oes modd gwarantu y byddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd, a rhagwelir y byddai heriau'r ysgol yn parhau. Dengys y tabl isod na ragwelir cynnydd mawr yn y niferoedd dros y 5 mlynedd nesaf: **Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch** | | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm | |---|---|---|---|---|---|---|---|---|---| | Medi 2020 | 2 | 3 | 2 | 0 | 3 | - | - | - | 10 | | Amcangyfrif Medi 2021 | 3 | 2 | 3 | 2 | 0 | - | - | - | 10 | | Amcangyfrif Medi 2022 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | 12 | | Amcangyfrif Medi 2023 | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | - | - | - | 12 | | Amcangyfrif Medi 2024 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | 11 | | Amcangyfrif Medi 2025 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | - | - | - | 11 |	• *Very small class sizes.* • *Low numbers and a lack of experiences of socialising and working with peers on a daily basis for the pupils.* • *Future projections show that numbers will remain low over the next 5 years, with 11 pupils attending by 2025.* *The Council is aware that the Cylch Meithrin and Cylch Ti a Fi have been open on the school's site since February 2020. However, and although the positive impact that locating the Cylch Meithrin on site could have on numbers are acknowledged, there is no guarantee that it will lead to a significant increase in numbers, and it is predicted that the challenges facing the school will remain.* *The following table shows that a large increase in numbers are not predicted over the next 5 years:* **Table 1 - Number projections for Ysgol Abersoch** | | N | R | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Total | |---|---|---|---|---|---|---|---|---|---| | September 2020 | 2 | 3 | 2 | 0 | 3 | - | - | - | 10 | | September 2021 Projection | 3 | 2 | 3 | 2 | 0 | - | - | - | 10 | | September 2022 Projection | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | 12 | | September 2023 Projection | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | - | - | - | 12 | | September 2024 Projection | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | 11 | | September 2025 Projection | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | - | - | - | 11 |
203		yr amser y maent yn ei haeddu i gynyddu nifer y disgyblion ar gyfer ysgol unigryw mewn lleoliad arfordirol gwledig.	should be given the time they deserve to increase pupil numbers for a unique school in a rural coastal setting.			
204		Gofynnaf am ystyriaeth ddifrifol i ohirio, er mwyn caniatau amser i'r mentrau a roddwyd mewn lle ddangos effaith, cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud.	I ask for serious consideration to postpone, in order to allow time for the initiatives put in place to demonstrate impact, before a final decision is made.			
205		Ailystyriwch eich cynnig neu o leiaf gohiriwch y penderfyniad am o leiaf 2 flynedd arall i weld pa effaith y mae Covid 19 yn ei chael ar ein cymuned leol.	Please reconsider your proposal or at least defer the decision for at least another 2 years to see what effect post Covid 19 has on our local community.			
206		Ailystyriwch eich cynnig neu o leiaf gohiriwch y penderfyniad am oleiaf 2 flynedd arall i weld pa effaith mae'r Cylch Meithrin ac Ysgol Traeth newydd yn ei chael ar nifer y disgyblion sy'n mynychu.	Please reconsider your proposal or at least defer the decision for at least another 2 years to see what effect the new Cylch Meithrin and Beach School have on the number of pupils attending.			
207		Os na nifer o blant yw'r rheswm i gau, rhowch amser i ni gael gafael ar y mater!	If a number of children are not the reason to close, give us time to grasp the issue!			
208		Mae'n bosibl y bydd nifer y bobl sydd bellach wedi profi gweithio gartref mewn trefi a dinasoedd yn parhau i dyfu a byddant yn sylweddoli y gallant fyw a gweithio yn unrhyw le, gan roi hwb i fwy o deuluoedd sy'n symud i fyw mewn pentref ag addysg dda integredig ac ati. dyweder Abersoch, rheswm arall i ohirio cau unrhyw ysgol.	It is possible that the number of people who have now experienced working from home in towns and cities will continue to grow and will realise they can live and work anywhere may give a boost to more families moving to live in a village with integrated good education etc. in say Abersoch, another reason to defer any school closure.			
209		Rhowch gyfle i'r gymuned a'r llywodraethwyr yr Ysgol ddangos i chi fod yna ddyfodol i'r Ysgol a plant y pentref. Yr wyf yn gwybod fod yna lond llaw yn barod i gychwyn yn 2021/22 fy ŵyr yn un, ac yn edrych ymlaen yn fawr iawn.	please give the community and School governors an opportunity to show you that there is a future for the School and the children of the village. I know there are a handful ready to start in 2021/22 my grandson is one, and very much looking forward.			
		Ymestyn ystod oed (3-9 oed) *Extend the age range (3-9 years)*				
210		Ar y cyd â Thi a Fi, gallai addysg i gynnwys Blwyddyn 4 gynnig pecyn hirdymor o ymrwymiad, parhad a sefydlogrwydd i blentyn a'i rieni hyd at wyth neu naw mlynedd. Mae gan hyn botensial mawr i adeiladu cysylltiadau ar bob lefel o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach a, hefyd, buasai'n annog mwy o rieni wneud Ysgol Abersoch eu prif ddewis. Mae'n aneglur i ni pam yr anghytuna'r Adran Addysg â'r flwyddyn ychwanegol hon na pham y diystyrir dymuniadau'r plant a'r rhieni. *Mae ychwanegu Blwyddyn 4 yn gwneud synnwyr greddfol ac yn unol â dymuniad y plant a'r rhieni?*	Together with Ti a Fi, education including Year 4 could offer a child and his parents a long-term package of commitment, continuity and stability up to eight or nine years of age. This has great potential to build links at all levels within the school and the wider community and would also encourage more parents to make Ysgol Abersoch their main choice. It is unclear to us why the Education Department disagrees with this extra year or why the wishes of the children and parents are disregarded. *Adding Year 4 makes sense and is in line with the wishes of the children and parents?*		Mae'r Cyngor yn nodi'r gefnogaeth i'r opsiwn i ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch i 3-9 oed. Fel a nodir yn y ddogfen ymgynghori (adran 6.4), yr opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed, gan gynnwys datblygiad y Cylch Meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma'n lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol gan ddarparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed ardal Ysgol Abersoch). Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am y rhesymau a ganlyn: • Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau. • Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir. • Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd. Ym mis Medi 2020, roedd holl ddisgyblion Ysgol Abersoch (Meithrin i Bl.3) yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth gyda 10 disgybl. Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020 yw 24. Dengys y tabl isod maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020.	*The Council notes the support that extending the age range of Ysgol Abersoch to 3-9 years of age has.* *As is noted in the consultation document (section 6.4), the option that was favoured locally was the option to extend the age range to 3-9 years of age, including the development of the Cylch Meithrin. This option was favoured for a number of practical reason such as better use of the empty space within the school building therefore creating a space for the Cylch Meithrin, and to mitigate the potential impact the change could have on the numbers of Ysgol Sarn Bach (the school that provides education for 9-11 year olds in the Ysgol Abersoch area).* *The 3-9 years of age option was disregarded for the following reasons:* • *It is not predicted that adding one extra school year would lead to an adequate increase in numbers. As a result, the challenges facing the school would remain.* • *The age range would be inconsistent with the majority of schools within the county.* • *It would not allow the school to offer complete KS2 provision. The pupils would still have to transfer to Ysgol Sarn Bach to complete their primary education.* *In September 2020, all the pupils at Ysgol Abersoch (Nursery to Year 3) were educated within the same classroom consisting of 10 pupils. The average class size at Ysgol Sarn Bach in September 2020 is 24.* *The following table shows the class sizes at both Ysgol Abersoch and Sarn Bach in September 2020.*
211		Gofynnwyd hefyd i'r ysgol fynd hyd at flwyddyn 4, felly gall gynnig dysgu hirach, ond nid yw'r cwestiwn hwn wedi'i ateb, felly a allwch chi ateb os gwelwch yn dda. A ellid caniatáu i'r ysgol addysgu hyd at flwyddyn 4?	Also it has been requested that the school goes up to year 4, so it can offer longer learning, but this question has not been answered, so can you please answer. Could the school be allowed to educate up to year 4?			
212		*Rwyf wedi ysgrifennu i ofyn i Kirsty Williams 'Pam na all XX aros yn Ygol Abersoch tan Flwyddyn pedwar dywedodd "Nid wyf yn gwybod pam na all eich chwaer aros yn yr ysgol tan Flwyddyn 4 ond dylai'r awdurdod lleol allu dweud wrthych "Felly rydw i'n gofyn i chi PAM NA ALL xxx AROS YN YR YSGOL AM UN FLWYDDYN YCHWANEGOL DAN FLWYDDYN 4?*	I have written to ask Kirsty Williams 'Why cant XX stay at Ygol Abersoch until Year four she said " I don't know why your sister can't stay in the school until Year 4 but the local authority should be able to tell you" So I am asking you WHY CANT xxx STAY AT THE SCHOOL FOR ONE MORE YEAR UNTIL YEAR 4?			
213		Yn wir, byddai'r uchod hefyd yn cefnogi'r ddadl bod yr ysgol yn cynyddu ei chwmpas oedran o flwyddyn 3 i gynnwys blwyddyn 4. Mae gan hyn	Indeed the above would also support the argument that the school increase its age coverage from year 3 to include year 4. This has multiple benefits allowing for increased			

		nifer o fuddion sy'n caniatáu ar gyfer cwmpas addysgu cynyddol a chaniatáu i fyfyriwr mwy aeddfed symud ymlaen i'w ysgol nesaf.	scope of teaching and allowing a more mature student to progress onwards to their next school.			
214		cyngor i ganiatáu i blant aros am flwyddyn ychwanegol yn yr ysgol cyn mynd ymlaen i Sarn Bach.	have put it to the council to allow kids to stay on an extra year at the school before going on to Sarn Bach.			
215		yn bendant mi fuasai fy meibion wedi aros ymlaen am y flwyddyn ychwanegol sef bl 4 ,pe byddai'r opsiwn yna.	definitely my sons would have stayed on for the extra year of year 4, if that option were available			
216		Hefyd rydych wedi diystyru cynnig Llywodraethwyr Ysgol Abersoch o ddanfon y disgyblion i Ysgol Sarn Bach yn 9 oed yn lle 8 oed, gan fod hyn yn amharu a'r rhif y disgyblion yn yr Ysgol yna, er mwyn y sefyllfa addysgol roedd y cynnig yn cael ei wneud dim er mwyn rhifau, a mae eich ymateb hefyd yn golygu gymaint mae Ysgol Sarn Bach yn ddibynnol a'r ddisgyblion o gyfeiriad Abersoch.	You have also ruled out Abersoch School Governors' proposal of sending the pupils to Ysgol Sarn Bach at the age of 9 instead of 8 years, as this affects the number of pupils at that School, for the educational situation the proposal was being offered do nothing for the sake of numbers, and your response also shows how much Ysgol Sarn Bach depends on the pupils from Abersoch.			
217		Roedd fy mhlant hefyd yn mynychu Ysgol Abersoch i fynd i glwb yr Urdd a'r Clwb Crefft, lle roeddent yn mwynhau yn fawr. Oni bai mai dim ond blwyddyn fyddai gan yr hynaf cyn symud i fyny i Sarn Bach - a phoeni am symud plentyn ddwywaith mewn dwy flynedd - yna symud i Ysgol Abersoch yn bendant fyddai ein dewis cyntaf wedi bod. Petai 'opsiwn 9' - a gynigwyd yn y cyfarfod lleol - ar gael, yn Ysgol Abersoch fyddai fy mhlant heddiw.	My children also attended Ysgol Abersoch to go to the Urdd club and Craft Club, where they thoroughly enjoyed themselves. Unless the oldest had only a year to move up to Sarn Bach - and worrying about moving a child twice in two years - then moving to Ysgol Abersoch would definitely have been our first choice. If 'option 9' - proposed at the local meeting - was available, my children would be at Ysgol Abersoch today.			
218		pwynt arall da ydi cadw y plant yn yr ysgol am flwyddyn arall cyn ei symud i fyny i Sarn Bach i leihau y straen ar Sarn Bach hefyd.	another good point is to keep the children in school for another year before moving him up to Sarn Bach to reduce the stress on Sarn Bach too.			
219		Rwyf yn gofyn i chi os mae hi yn bosib i aros yn Ysgol Abersoch am flwyddyn arall dan diwedd flwyddyn pedwar.	I ask you if it is possible to stay in Ysgol Abersoch for another year until the end of year four.			
220		Ni fuasai'r tro cyntaf i blant Ysgol Aber-soch drosglwyddo i Sarn Bach yn naw oed wrth newid yr ystod oedran o 3 – 8 i 3 – 9 oed, gan y gwneid hynny hyd at ddechrau/canol y pumdegau.	This would not be the first time that the children of Abersoch would transfer to Sarn Bach at the age of 9 by changing the age range from 3-8 to 3-9, this was done until the begining/mid fifties.			
221		Byddai'n braf cael Blwyddyn ychwanegol yn yr ysgol hon (I fyny i Bl 4 yn lle 3) fel nad yw'r plant yn symud i fyny i ysgol newydd i ganol dosbarth dieithr megis ysgolion gyda Bl.3 a 4 yn un dosbarth. Deall fod 3, 4,5 a 6 gyda'u gilydd mewn rhai ysgolion- disgyblion ddim yn cael yr un sylw wedyn yn sicr.	It would be nice to have an extra Year at this school (up to Yr 4 instead of 3) so that the children do not move up to a new school to the middle of an unfamiliar class such as schools with Years 3 and 4 as one class. It is understood that years 3, 4, 5 and 6 are together in some schools- pupils certainly don't get the same attention then.			
222		Pam nad ydy Cyngor Gwynedd wedi ystyried o ddifrif caaniatáu i Ysgol Abersoch 4 gynnal blwyddyn, fel ysgolion eraill? Mae fy mhlentyn ar hyn o bryd ym mlwyddyn 3 yn Ysgol Abersoch ac mae hi wedi gofyn sawl gwaith pam na chaiff hi aros tan flwyddyn pedwar? Dwi'n methu ateb y cwestiwn hwn ac ni allaf feddwl am unrhyw reswm o gwbl pam na all hyn fod. Rydym fel llywodraethwyr a rheini wedi cynnig hyn ac wedi gofyn yr un cwestiwn i chi. Pryd bynnag y mae hyn wedi ei holi, eich ymateb pob tro yw 'byddai'n niweidiol i Ysgol Sarn Bach', fodd bynnag mae blynyddoedd 3 a 4 Ysgol Sarn Bach eisoes yn cael eu haddysgu gyda'u gilydd. Roedd yn ymddangos i mi pan ddechreuodd fy mab ym mlwyddyn 4 yn Sarn Bach ei fod yn mynd dros waith yr oedd eisoes wedi ei wneud ym mlwyddyn 3 yn Ysgol Abersoch. Mae'r adroddiad manwl iawn gan y Pennaeth Mrs Linda Jones yn cadarnhau hyn. Felly, teimlaf y byddai plant Ysgol Abersoch yn elwa mwy wrth fynd i Sarn Bach ym	Why has Gwynedd Council not seriously considered allowing Ysgol Abersoch to host a year 4, putting them in line with other schools? My child is currently in year 3 at Ysgol Abersoch and she has asked several times why she cannot stay until year four? I cannot answer this question and I can see absolutely no reason why this cannot be set in place. We as parents and Governors have also put forward and asked you this question. Whenever this has been put to you, your responses are always 'it will be detrimental to Ysgol Sarn Bach,' however at Ysgol Sarn Bach the years 3&4 are already taught together. It seemed to me when my son started in year 4 in Sarn Bach that he was going over old work he had previously done in year three at Ysgol Abersoch. The very detailed pupil report set out by Head Teacher Mrs Linda Jones would confirm this. Therefore I feel that the children of Ysgol Abersoch would benefit more, by going to Sarn Bach in Year 4. I also feel the children of Sarn Bach would benefit from this as well to avoid the strain of larger class sizes and the upheaval			

Ysgol	Meithrin	Derbyn	Bl 1	Bl2	Bl 3	Bl 4	Bl 5	Bl 6	Cyfanswm	Nifer y dosbarthiadau	Dosbarth mwyaf	Dosbarth lleiaf	Maint dosbarth ar gyfartaledd
Abersoch	2	3	2	-	3	-	-	-	10	1	10	10	10
Sarn Bach	3	2	5	4	8	5	10	11	48	2	34	14	24

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020

Byddai gwireddu'r cynnig arfaethedig yn golygu fod disgyblion Ysgol Abersoch yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.

Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.

Os gweithredir y cynnig, disgwylir y bydd Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol.

Yn dilyn ystyriaeth, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ddatrysiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol. Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau. Rhagwelir y byddai niferoedd a'r rhagamcanion yn parhau'n isel, dosbarthiadau yn parhau'n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau.

School	Nursery	Reception	Yr 1	Yr2	Yr 3	Yr 4	Yr 5	Yr 6	Total	Number of classes	Largest class	Smallest class	Average class size
Abersoch	2	3	2	-	3	-	-	-	10	1	10	10	10
Sarn Bach	3	2	5	4	8	5	10	11	48	2	34	14	24

Source: September 2020 Annual School Census

Realising this proposal would mean that Ysgol Abersoch pupils would be educated in more viable classes, and with more children of the same age group.

With 21 surplus places, (and 4 surplus plaes in Meithrin), Ysgol Sarn Bach has the sufficient capacity for the current pupils at both Ysgol Abersoch and Sarn Bach, for the next five years.

If the proposal is realised, Ysgol Sarn Bach's Governing Body is expected to pay appropriate attention to determining class sizes and the distribution of school staff resources.

Following consideration, it was concluded that the option of extending the age range to 3-9 years would not be a sustainable future solution for the school. It is not anticipated that the addition of one educational year would result in an adequate increase in numbers. As a result, the challenges facing the school would continue. It is anticipated that numbers and projections would remain low, classes still small, and a wide age range within classes continuing.

Mae'r Cyngor yn nodi'r gefnogaeth i'r opsiwn i ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch i 3-9 oed.

Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori (adran 6.4), yr opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma'n lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol gan ddarparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed ardal Ysgol Abersoch).

Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am y rhesymau a ganlyn:

- Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
- Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.
- Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.

The Council notes the support that extending the age range of Ysgol Abersoch to 3-9 years of age has.

As is noted in the consultation document (section 6.4), the option that was favoured locally was the option to extend the age range to 3-9 years of age, including the development of the Cylch Meithrin. This option was favoured for a number of practical reason such as better use of the empty space within the school building therefore creating a space for the Cylch Meithrin, and to mitigate the potential impact the change could have on the numbers of Ysgol Sarn Bach (the school that provides education for 9-11 year olds in the Ysgol Abersoch area).

The 3-9 years of age option was disregarded for the following reasons:

- *It is not predicted that adding one extra school year would lead to an adequate increase in numbers. As a result, the challenges facing the school would remain.*
- *The age range would be inconsistent with the majority of schools within the county.*
- *It would not allow the school to offer complete KS2 provision. The pupils would still have to transfer to Ysgol Sarn Bach to complete their primary education.*

		mlwyddyn 4. Hefyd teimlaf y byddai plant Sarn Bach yn elwa o hyn hefyd gan y byddai'n lleddfu pwysau dosbarthiadau mwy a'r cynnwrf y mae plant yn ymuno hanner ffordd drwy'r maes llafur yn ei achosi.	caused by children joining their teaching part way through the syllabus.		Ym mis Medi 2020, roedd holl ddisgyblion Ysgol Abersoch (Meithrin i Bl.3) yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth gyda 10 disgybl. Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020 yw 24. Dengys y tabl isod maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020. Ysgol / Meithrin / Derbyn / Bl 1 / Bl2 / Bl 3 / Bl 4 / Bl 5 / Bl 6 / Cyfanswm / Nifer y dosbarthiadau / Dosbarth mwyaf / Dosbarth Isaf / Maint dosbarth ar gyfartaledd Abersoch: 2 / 3 / 2 / - / 3 / - / - / - / 10 / 1 / 10 / 10 / 10 Sarn Bach: 3 / 2 / 5 / 4 / 8 / 5 / 10 / 11 / 48 / 2 / 34 / 14 / 24 *Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020* Byddai gwireddu'r cynnig arfaethedig yn golygu fod disgyblion Ysgol Abersoch yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf. Os gweithredir y cynnig, disgwylir y bydd Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol. Yn dilyn ystyriaeth, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ddatrysiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol. Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau. Rhagwelir y byddai niferoedd a'r rhagamcanion yn parhau'n isel, dosbarthiadau yn parhau'n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau.	*In September 2020, all the pupils at Ysgol Abersoch (Nursery to Year 3) were educated within the same classroom consisting of 10 pupils. The average class size at Ysgol Sarn Bach in September 2020 is 24.* *The following table shows the class sizes at both Ysgol Abersoch and Sarn Bach in September 2020.* School / Nursery / Reception / Yr 1 / Yr2 / Yr 3 / Yr 4 / Yr 5 / Yr 6 / Total / Number of classes / Largest class / Smallest class / Average class size Abersoch: 2 / 3 / 2 / - / 3 / - / - / - / 10 / 1 / 10 / 10 / 10 Sarn Bach: 3 / 2 / 5 / 4 / 8 / 5 / 10 / 11 / 48 / 2 / 34 / 14 / 24 *Source: September 2020 Annual School Census* *Implementing this proposal would mean that Ysgol Abersoch pupils would be educated in more viable classes, and with more children of the same age group.* *With 21 surplus places, (and 4 surplus plaes in Meithrin), Ysgol Sarn Bach has the sufficient capacity for the current pupils at both Ysgol Abersoch and Sarn Bach, for the next five years.* *If the proposal is realised, Ysgol Sarn Bach's Governing Body is expected to pay appropriate attention to determining class sizes and the distribution of school staff resources.* *Following consideration, it was concluded that the option of extending the age range to 3-9 years would not be a sustainable future solution for the school. It is not anticipated that the addition of one educational year would result in an adequate increase in numbers. As a result, the challenges facing the school would continue. It is anticipated that numbers and projections would remain low, classes small, and a wide age range within classes continuing.*
223		Opsiwn 9… Dyma'r opsiwn a ffefrir gan Ysgol Abersoch ond cafodd ei ddiystyru gan Gyngor Gwynedd. Dylid nodi y gallai rhieni fod yn fwy tueddol o deimlo ei bod yn werth anfon eu plant i Ysgol Abersoch pe bai blwyddyn ychwanegol yn cael ei chynnig. Byddai hyn yn cynyddu nifer y disgyblion ac yn lleihau'r gost y pen ac fel y nodwyd uchod mae'n ddull naturiol a chyffredin o ddysgu Blynyddoedd 3 a 4 gyda'i gilydd mewn un ystafell ddosbarth.	Option 9…This is the favoured option by Ysgol Abersoch but was disregarded by Gwynedd Council. It should be noted that parents might be more inclined to feel it's more worth sending their children to Ysgol Abersoch should an extra year be offered. This would both increase pupil numbers and reduce the cost per head and as stated above it is a natural and common approach to teach Years 3 and 4 together in a single classroom.			
224		6.4 Gwerthuso'r Opsiynau i'w ystyried ar gyfer yr Ysgol Newid ystod oedran Ysgol Abersoch "Ni ragwelir y byddai ychwanegu un blwyddyn addysgol arall yn arwain at gynnydd sylweddol mewn niferoedd." Barn sydd yma. Byddai hyn yn darparu hyd at 7 mlynedd o addysg barhaus ar un safle (Cylch Meithrin 1 flwyddyn, Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1,2,3,4, ynghyd â phosiblrwydd o 2 flynedd ychwanegol yn Ti a Fi). Mae'n gais gan y rhieni a'r plant a byddai'n cael effaith bositif yn ariannol, yn lleihau cost y disgybl. Rhagwelir y bydd blynyddoedd 4-6 i Sarn Bach yn parhau yn uwch na 20 am y 2 flynedd nesaf. Byddai caniatáu blwyddyn ychwanegol yn helpu i ryddhau'r pwysau ar ddosbiarthiadau gorboblog Ysgol Sarn Bach (yn ogystal ag Ysgol Llanbedrog) .	6.4 Appraisal of the Options to consider for the School Change the age range of Ysgol Abersoch "It is not anticipated that adding one educational year would lead to a sufficient increase in the numbers." This is a matter of opinion. This option would provide up to 7 years of continuous education at a single site (1 year Cylch Meithrin, Nursery, Reception, Years 1,2,3,4, plus a potential further 2 years at Ti a Fi). It has been asked for by the parents and children and it would have a positive financial impact, reducing the cost per pupil. Years 4-6 at Sarn Bach are projected to continue to be above 20 for the next 2 years. Allowing an extra year at Ysgol Abersoch would help to relieve the pressure on the oversized classes at Ysgol Sarn Bach (as well as probably Ysgol Llanbedrog).			
225		Trosglwyddo ar Ddiwedd Blwyddyn 3 Awgryma'r cynnig trwy gael eu dysgu'n unig yn Ysgol Sarn Bach, ac nad oes angen trosglwyddo disgyblion yn ystod eu haddysg gynradd, yn fudd diriaethol ond, eto, ni ddarparir tystiolaeth i gefnogi'r pwynt hwn. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effaith negyddol yn gysylltiedig â'r trosglwyddiad hwn. Nid oes sylfaen i'r datganiad ac mae'n hynod oddrychol..... 7. Y Cynnig e) Sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo unwaith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith. Ar ba sail y mae hwn yn bwynt dilys? Pa dystiolaeth allwch chi ei darparu bod hon yn broblem. O ystyried polisi Llywodraeth Cymru, mae'n ymddangos bod plant yn torri ac yn newid ysgolion ar fympwy. Gellir dadlau bod plant sy'n dysgu addasu i newid ac yn fwy gwydn ac yn barod ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd. Nid yw trafodaeth â disgyblion a rhieni presennol a blaenorol, yn ogystal â Llywodraethwyr a fynychodd yr ysgol wedi nodi unrhyw effaith negyddol sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad hwn. A adroddwyd am unrhyw broblemau gan blant yn Ysgol Morfa Nefyn, sy'n darparu ar gyfer yr un ystod oedran?	Transfer at the end of Year 3 The proposal suggests that by being taught at Ysgol Sarn Bach alone, and that pupils do not need to be transferred during their primary education, it is a tangible benefit but, again, no evidence is provided to support this point. We are not aware of any negative impact associated with this transfer. The statement is unfounded and highly subjective ..... 7. The Proposal e) Ensuring that pupils transfer once during their primary and secondary education rather than twice. On what basis is this a valid point? What evidence can you provide that this is a problem. Given Welsh Government policy, children seem to be chopping and changing schools at a whim. It can be argued that children who learn to adapt to change and are more resilient and ready for the move to secondary school. Discussion with current and past pupils and parents, as well as Governors who attended the school have not identified any negative impact associated with this transfer. Have any problems reported from children at Ysgol Morfa Nefyn, which caters for the same age range?		Cred y Cyngor fod symud ysgol neu bontio o un ysgol i'r llall ar unrhyw amser mewn gyrfa addysgol yn gallu arwain at darfu ar gynnydd rhai plant wrth iddynt gynefino mewn ysgol ac amgylchedd newydd ac yn ogystal gall danseilio gwydnwch rhai disgyblion. Gan fod sefyllfa Ysgol Abersoch yn gymharol unigryw o ran pryd mae'r plant yn symud, prin yw'r dystiolaeth i brofi neu ddad-brofi'r rhagdybiaeth hwn ar gyfer pontio ar ddiwedd blwyddyn 3. Fodd bynnag ceir tystiolaeth o ffynonellau eraill, lle y cyfeirir at bontio cynradd / uwchradd arferol, megis adroddiad ddiweddar Estyn (*Gwydnwch dysgwyr - meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion Gorffennaf 2020)* lle nodi'r "Mae adegau pontio, fel symud ysgol, yn gyfnodau lle gall plant ddioddef gofid emosiynol, neu ostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu, y gall pob un ohonynt danseilio gwydnwch." Drwy leihau'r nifer o weithiau y bydd plant yn pontio cred y Cyngor y bydd llai o siawns i'r plant ddioddef gofid emosiynol, gostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu. Mae cysondeb a chyd gynllunio'n allweddol ar gyfer pontio effeithiol. Nid yw pryd y mae'r plant yn pontio i ysgol arall yr unig ffactor i'w hystyried wrth geisio lleihau'r effaith. Cred y Cyngor mae'r unig ffordd o sicrhau lleihad effeithiau negyddol posib pontio yw drwy leihau'r cyfnodau lle mae'n rhaid i blant bontio yn ystod ei gyrfa addysgol yn y lle cyntaf.	*The Council believe that moving schools or transition from one school to another at any time within an educational career could interrupt some children's progress as they inhabit a different school and environment and it could also undermine some pupil's resilience.* *As Ysgol Abersoch's situation is relatively unique in terms of when the children move, there is little evidence to prove or disprove this hypothesis for transition at the end of year 3. However there is evidence from other sources, where reference is made to routine primary / secondary transition, such as the recent Estyn report (Learner resilience - building resilience in primary schools, secondary schools and pupil referral units July 2020) where it states that "Transition times, such as school moves, are periods where suffering emotional distress, or a decrease in progress and a commitment to learning, all of which can undermine resilience. "* *By reducing the number of times children transition, the Council believes that children will be less likely to experience emotional distress, reduced progress and a commitment to learning.* *Consistency and joint planning are key to effective transition.* *When the children transition to another school is not the only factor to consider when trying to minimize the impact. The Council believes that the only way to minimize the potential negative effects of transition is to reduce the periods during which children have to make a transition during their educational career in the first place.*
307		Awgryma daroganau yr Adran Addysg yr hanera niferoedd disgyblion Ysgol Sarn Bach o fewn y bum mlynedd nesaf. Ymddengys y sylfeinir y rhain ar asesiadau penaethiaid ond, eto, rhagamcana Crynodeb Archwiliad Blynyddol Cyngor Gwynedd 20201 gynnydd mewn poblogaeth o 5.3% rhwng 2020 a 2040 gan gynnwys cynnydd o 0.4% yn nifer y plant. Ymddengys y ffafria'r Adran Addysg ddibynnu ar asesiadau anffurfiol penaethiaid sydd ddim yn byw yny gymuned i gefnogi ei dadleuon dros gau, yn hytrach na daroganiadau ffurfiol a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Dengys rhagolygon Adran Addysg y Cyngor dueddiad cryn dipyn gwahanol i'r boblogaeth Gymreig ehangach a'r Archwilydd Cyffredinol. O ganlyniad, dylid talu sylw gofalus iawn i ystod realistig o senarios wrth ystyried darpariaeth addysg gynradd yn yr ardal. Pan weithredir rhagamcanion yr Archwilydd Cyffredinol am niferoedd plant, deil niferoedd disgyblion yn ddiwyro wrth gydfynd â blynyddoedd diweddar ac nid ydynt yn gostwng: pe caeir Ysgol Abersoch, dynoda ein dadansoddiad yr addysgir 100% o blant mewn dosbarthiadau gorfaint cymysg (uchafswm maint dosbarth 20) yn y dalgylch lleol. Mae cau Ysgol Abersoch yn ganlyniad o'r Cyngor ddim yn cwrdd â'i amcanion ac yn cyfaddawdu'r ddarpariaeth addysg i'r disgyblion.Pa mor sicr yw'r dadansoddiad tueddiadau niferoedd disgyblion a adnabyddid yn yr adroddiad?	The Education Department's forecasts suggest that pupil numbers at Ysgol Sarn Bach will decline within the next five years. These appear to be based on head teacher assessments but, again, Gwynedd Council's Annual Audit Summary 20201 project a 5.3% population increase between 2020 and 2040 including a 0.4% increase in the number of children. The Education Department appears to favor relying on informal assessments of headteachers that do not live in the community to support its arguments for closure, rather than formal predictions issued by the Council. The Council's Education Department forecasts show a markedly different trend from the wider Welsh population and the Auditor General. As a result, very careful consideration should be given to a realistic range of scenarios when considering primary education provision in the area. When the Auditor General's projections for the number of children are implemented, pupil numbers remain constant in keeping with recent years and do not fall: if Ysgol Abersoch is closed, our analysis indicates that 100% of children are taught in mixed overpopulated classes (maximum class size 20) in the local catchment area. The closure of Ysgol Abersoch is a result of the Council not meeting its objectives and compromising the education provision for the pupils. How sure is the analysis of the pupil number trends identified in the report?		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ynglŷn â phryderon am gywirdeb a sail y rhagamcanion niferoedd. Mae'r rhagamcanion niferoedd i'r dyfodol wedi eu creu drwy ddefnyddio gwybodaeth am dueddiadau'r gorffennol. Darperir rhagamcanion 3 blynedd gan benaethiaid yr ysgolion unigol a chyfrifir rhagamcanion blwyddyn 4 a 5 gan yr awdurdod. Cydnabyddir nad yw cyfrifo rhagamcanion yn wyddoniaeth, ac mae'n debygol y bydd y niferoedd yn amrywio ychydig mewn gwirionedd. Serch hynny, mae'r Adran Addysg o'r farn, ar sail y niferoedd Medi 2020, a chyfartaledd niferoedd derbyn y 3 mlynedd flaenorol, y bydd y niferoedd yn parhau'n isel yn Ysgol Abersoch am y bum mlynedd nesaf: **Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch** | | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm | |---|---|---|---|---|---|---|---|---|---| | Medi 2020 | 2 | 3 | 2 | 0 | 3 | - | - | - | 10 | | Amcangyfrif Medi 2021 | 3 | 2 | 3 | 2 | 0 | - | - | - | 10 | | Amcangyfrif Medi 2022 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | 12 | | Amcangyfrif Medi 2023 | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | - | - | - | 12 | | Amcangyfrif Medi 2024 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | 11 | | Amcangyfrif Medi 2025 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | - | - | - | 11 | Ym Medi 2020, o'r 26 disgybl (3-8 oed) oedd byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, 5 o'r plant hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch, gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch. O ganlyniad, mewn ymateb i'r sylwadau sy'n nodi y bydd niferoedd a phoblogaeth plant yr ardal yn cynnyddu dros yr 20-25 mlynedd nesaf, ar sail ffigyrau Medi 2020, deuir i'r casgliad nad oes modd gwarantu y byddai'r plant hynny yn dewis mynychu Ysgol Abersoch.	*The Council notes the comments regarding concerns about the accuracy and basis of the projections.* *The future projections for numbers are created using information on past trends. 3 year projections are provided by the heads of the individual schools and year 4 and 5 projections are calculated by the authority.* *It is recognized that calculating projections is not a science, and actual numbers are likely to vary slightly. However, the Education Department is of the view that, based on September 2020 numbers, and the average of the previous 3 years' admission numbers, the numbers will remain low at Ysgol Abersoch for the next five years:* **Table 1 - Number projections for Ysgol Abersoch** | | N | R | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Total | |---|---|---|---|---|---|---|---|---|---| | September 2020 | 2 | 3 | 2 | 0 | 3 | - | - | - | 10 | | September 2021 Projection | 3 | 2 | 3 | 2 | 0 | - | - | - | 10 | | September 2022 Projection | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | 12 | | September 2023 Projection | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | - | - | - | 12 | | September 2024 Projection | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | 11 | | September 2025 Projection | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | - | - | - | 11 | *In September 2020, of the 26 pupils (3-8 years) living in the Abersoch catchment area, 5 of those children attended Ysgol Abersoch, 21 (81%) attended schools outside the catchment area . As a result, in response to the comments that the numbers and population of children in the area will increase over the next 20-25 years, based on the September 2020 figures, it is concluded that it can't be guaranteed those children choose to attend Ysgol Abersoch.*
308		Nodir bod y rhagamcanion yn parhau'n isel dros y pum mlynedd nesaf. Dywed Noda Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylid edrych 25 – 50 mlynedd i'r dyfodol ac, o astudio'r dangosyddion, dylai Aber-soch ffynnu yn ystod y cyfnod yma.	It is noted that projections remain low over the next five years. The Future Generations Commissioner states that we should look 25 - 50 years to the future and, by studying the indicators, Abersoch should thrive during this time.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Serch hynny, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, gofynnir i'r cynigwyr nodi "rhagolygon pum mlynedd o'r disgyblion ar y gofrestr ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, a hynny ar hyn o bryd (h.y. yn seiliedig ar y ffordd y mae ysgolion wedi'u trefnu ar hyn o bryd)"	The Council notes the comments. However, in accordance with the School Organisation Code 2018, it is required for the proposer to note *"five year forecasts of pupil rolls at all existing schools likely to be affected by the proposals both currently (i.e. based on the existing configuration of schools)"*
309		Rwy'n casglu bod llawer o fabanod newydd wedi cael eu geni yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, i le fydd y plant hyn yn mynd i Cylch? I ble fydd y plant hyn yn mynd i'r ysgol?	I gather that lots of new babies have been born in the last 2 years, where will these children go to cylch? Where will these children go to school?		Y cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad yw cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach. Pe gweithredir y cynnig, gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol San Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.	*The proposal that is subject to the consultation is to close Ysgol Abersoch and for the pupils to be taught in Ysgol Sarn Bach. If the proposal is implemented, with 21 surplus places, (and 4 surplus places in the Meithrin), Ysgol Sarn Bach has adequate capasity for Ysgol Abersoch pupils in Ysgol Sarn Bach, for the next 5 years.*
310		Rydw i, fy hun, wedi cael babi yn ddiweddar, ac yn gobeithio iddi ddilyn ei brawd a mynychu Ysgol Abersoch.	I, myself have recently had a baby, and plan on her following in the footsteps of her brother & attending Ysgol Abersoch.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*
311		mae teuluoedd lleol ifanc yn y pentref o hyd am anfon plant i'r ysgol.	there are still young local families in the village wanting to send there kids to the school		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*
312		Mae hi wedi bod yn chwip o Ysgol dda i'r pentra ers blynyddoedd lawer ac mae cymaint ohonom sydd yn oedolion rwan wedi cael ei addysg cynta yn yr Ysgol bach hon ac yn meddwl y byd ohonni.Fel llawer i ysgol arall mae na gyfnodau lle does ddim cymaint o blant yn mynychu ond wedyn mae'r niferoedd yn medru codi mwyaf sydyn.	It has been an outstandingly good School for the village for many years and so many of us who are adults now have had their first education in this small school and think the world of it. Like many other schools there are periods when there are not so many children attending but then the numbers can rise most suddenly.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*
313		Mae'r ysgol yn ased gwerthfawr i'r pentref ac mae'n bwysig ei bod yn parhau ar agor. Mae'n darparu safon uchel o addysg a bydd yr ysgol	The school is a great asset to the village and it is important that it remains open. It provides a high standard of teaching and the proposed beach school will be a unique		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*

		draeth arfaethedig yn gyfle unigryw i'r plant lleol ei mwynhau. Mae'r pentref yn newid, gyda mwy o bobl ifanc yn byw gerllaw a chyda meithrinfa newydd Cylch Meithrin a grŵp rhieni a phlant bach Ti a Fi bydd mwy o blant eisiau dod i Ysgol Abersoch.	opportunity for the local children to enjoy. The village is changing, with more young people living near-by and with the new Cylch Meithrin nursery & Ti a Fi parent & toddler group there will be more children wanting to come to Ysgol Abersoch.			
		Maint dosbarthiadau *Class sizes*				
314		2.1. Maint Dosbarthiadau Ymrwymodd Cyngor Gwynedd i strategaeth o 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant yng Ngwynedd'1. Yn y strategaeth hon, dynodir meintiau dosbarth fel elfen bwysig er mwyn i blant feithrin y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl. Mae gan y pedair ysgol yn y dalgylch (Ysgolion Abersoch, Sarn Bach, Llanbedrog a Foel Gron) ddosbarthiadau oed cymysg fel yr arferol. Ymrwymodd Cyngor Gwynedd sicrhau bod yna, ar gyfartaledd, dim mwy nag 20 neu lai na 12 disgybl mewn unrhyw ddosbarth oed cymysg ond, eto, mae meintiau dosbarth 2020 – 2021 yn uwch nag 20 mewn chwe dosbarth allan o naw (Atodiad B – Adolygiad o Feintiau Dosbarth, Capasiti a Rhagolygon y Boblogaeth – Adroddiad gan Gyfeillion Ysgol Abersoch Chwefror 2021 /Appendix B – Review of Class Sizes, Capacity and Population Forecasts – A report by Cyfellion Ysgol Abersoch Friends, February 2021).	2.1 Class Sies Gwynedd Council is committed to a strategy of 'Excellent Primary Education for Children in Gwynedd'. In this strategy class sizes are identified as an important factor so that children acquire the best possible experience and opportunities. All of the four schools in the area (Ysgol Abersoch,Ysgol Sarn Bach, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Foel Gron) have mixed age classes as the norm. Gwynedd Council has committed to ensuring that there is on average no more than 20 pupils or fewer than 12 pupils in any mixed age class yet the class sizes for 2020-21 are above 20 in 6 classes out of 9 (Appendix B- Review of Class Sizes, Capacity and Population Forecasts - A report by Cyfeillion Ysgol Abersoch Friends, February 2021)		Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys: • Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol. • Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.) • Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3) • Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran. • Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed). • Adnoddau Ariannol: Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio. Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 yw £52,582. Y gost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 – y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yw £4,198. • Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch. Mae adran 7.3 o'r Ddogfen Ymgynghori yn darparu gwybodaeth ar sefyllfa bresennol maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach. Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol San Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf. Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y bydda 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Mi fydda'r cynnydd yn eu cyllideb flynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, yn achos cynnig i ad-drefnu ysgolion, mae'n rhaid i'r ddogfen ymgynghori gynnwys manylion am yr holl ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y bydd disgyblion yn dymuno trosglwyddo iddynt. O ganlyniad, mae manylion Ysgol Sarn Bach, Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Foel Gron wedi eu cynnwys yn y ddogfen yn ychwanegol i'r manylion am Ysgol Abersoch. Pwysleisir mai'r cynnig sy'n destun i'r ymgynghoriad statudol yw cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, *"Dim ond gydag Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach y*	*Ysgol Abersoch has been prioritised for a review of the education provision because of a number of challenges facing the school. The number of children at the school has consistently decreased since 2016 and has been fragile for some time.* *As a result the school is facing continuous challenges, including::* • *Low pupil numbers: In September 2020, there were 8 full-time pupils, and 2 nursery pupils registered at the school.* • *Number projections: Numbers are projected to remain low over the next few years (September 2021 = 10; September 2022 = 12; September 2023 = 12.)* • *High percentage of surplus places: Based on September 2020 figures, there are approximately 76% surplus places at the school (26 in number) (D-Yr.3)* • *Small class sizes: The 10 pupils are taught in one mixed-age class.* • *Wide age range within classes: Pupils are taught in one class with an age range up to 5 years (3-8 years).* • *Financial Resources: Ysgol Abersoch receives an additional amount from the normal allocation through the minimum staffing policy. The total amount for the financial year 2020-21 is £52,582. The cost per pupil at Ysgol Abersoch in the financial year 2020/21 is £17,404 - the county average cost per pupil is £4,198.* • *Pupil residence: 2020 data shows that 26 pupils aged 3-8 live in the Ysgol Abersoch catchment area with 21 (81%) attending schools outside the catchment area.* *Section 7.3 of the Consultation Document provides information on the current class sizes of Ysgol Abersoch and Ysgol Sarn Bach.* *With 21 surplus places, (and 4 surplus places at the Nursery), Ysgol San Bach has sufficient capacity for the current pupils of Ysgol Abersoch and Ysgol Sarn Bach, for the next five years.* *Should the proposal be realized, it is envisaged that there would be 21 children in the Foundation Phase and 37 in KS2 at Ysgol Sarn Bach. The Headteacher and Governing Body of the alternative school would be expected to give due consideration to determining suitable class sizes and the resources of school staff to respond to the latest numbers. The increase in their annual budget will facilitate options to consider additional classes and staff.* *In accordance with the School Organization Code 2018, in the case of a proposal to reorganize schools, the consultation document must include details of all neighboring schools that pupils might reasonably be expected to transfer to. As a result, details of Ysgol Sarn Bach, Ysgol Llanbedrog and Ysgol Foel Gron were included in the document in addition to the details of Ysgol Abersoch.* *It is emphasized that the proposal which is the subject of the statutory consultation is to close Ysgol Abersoch and offer pupils a place at Ysgol Sarn Bach. As stated in the consultation document, " This consultation only relates to Ysgol Abersoch and Ysgol Sarn Bach; therefore, responses to this*
315		Mae dwy ystafell ddosbarth, ac mae'r plant yn treulio tua 50% o'u hamser gyda 2 athro (wedi'u rhannu rhwng 2 ystafell ddosbarth), a 50% o'u hamser gydag 1 athro ac 1 cynorthwyydd. Yn Ysgol Sarn Bach mae dau ddosbarth - un ar gyfer Meithrin i Flwyddyn 3 (pedair ystod oedran) ac un ar gyfer Blynyddoedd 3,4,5 a 6 (pedair ystod oedran). Esboniwch sut y byddai cau Ysgol Abersoch yn gwella'r ddarpariaeth addysg?	There are two physical classrooms, and the children spend approximately 50% time with 2 teachers (split into 2 classrooms), and 50% of their time with 1 teacher and 1 assistant. In Ysgol Sarn Bach there are two classes - one for Nursery to Year 3 (four age ranges) and one for Years 3,4,5 and 6 (four age ranges). Please explain how closing Ysgol Abersoch would improve the education provision?			
316		"Byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn rhoi cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau â chymheiriaid sydd â llawer llai o ystod oedran a chyfle i wella profiad addysgol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol." Beth yw'r dystiolaeth ar gyfer hyn? Meintiau dosbarth Ysgol Sarn Bach yw Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1,2 mewn un dosbarth, yna Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 mewn ail ddosbarth. Yn Ysgol Abersoch y dosbarth yw Meithrin - Blwyddyn 3 ond wedi'i rhannu ar draws 2 athro. Nodwch ym mha ffyrdd y byddai'r addysg yn gwella.	"Implementing this option would give pupils an opportunity to be educated in peer groups with much less of an age range and an opportunity to improve the educational and social experience of the pupils, on a daily basis." What is the evidence for this? Ysgol Sarn Bach class sizes are Nursery, Reception, Years 1,2 in one class, then Years 3, 4, 5 and 6 in a second class. In Ysgol Abersoch the class is Nursery – Year 3 but split across 2 teachers. Specify in which ways the education would improve.			
317		7.3 Maint Dosbarthiadau ac Ystod Oedran Briodol "Nod Cyngor Gwynedd yw cael dim mwy na 2 ystod oedran o fewn yr un dosbarth" Mae pob dosbarth yn Ysgol Sarn Bach yn fwy na'r ystodau dwy-flynedd o oed o fewn yr un dosbarth. Mae gan Ysgol Sarn Bach 2 ddosbarth o 4 ystod oedran: Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1,2 mewn un dosbarth, yna Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 mewn ail ddosbarth. O ganlyniad i beidio â chyrraedd yr amcanion strategol a nodwyd, rydym yn teimlo na all Ysgol Sarn Bach letya mwy o blant oherwydd natur yr ystafelloedd dosbarth sydd ar gael yn Ysgol Sarn Bach. Bydd canlyniad negyddol i addysg plant yn y ddwy ysgol.	7.3 Class Sizes and Appropriate Age Range "Gwynedd Council aim to have no more than 2 age range within the same class" The classes at Ysgol Sarn Bach all exceed the two-age ranges within the same class objective. Ysgol Sarn Bach has 2 classes of 4 age ranges: Nursery, Reception, Years 1,2 in one class, then Years 3, 4, 5 and 6 in a second class. As a result of not meeting the stated strategic objectives we feel that Ysgol Sarn Bach cannot accommodate additional children due to the nature of the classrooms available at Ysgol Sarn Bach. There will be a negative outcome for the schooling of children at both schools.			
318		7.3 Maint Dosbarth ac Ystod Oedran Briodol	7.3 Class Sizes and Appropriate Age Range			

		"Ym mis Medi 2020, addysgwyd holl ddisgyblion Ysgol Abersoch (Meithrin i Flwyddyn 3) mewn un dosbarth gyda 10 disgybl. Maint dosbarth ar gyfartaledd yn Ysgol Sarn Bach ym mis Medi 2020 yw 24. " Mae maint y dosbarth ar gyfartaledd yn Ysgol Sarn Bach eisoes yn uwch na'r hyn a nodir yn "Addysg Gynradd Ardderchog i Blant yng Nghyngor Gwynedd" o ddim mwy nag 20 mewn dosbarth oedran cymysg.	"In September 2020, all Ysgol Abersoch (Nursery to Year 3) pupils were educated in one class with 10 pupils. The average class size at Ysgol Sarn Bach in September 2020 is 24." The average class size at Ysgol Sarn Bach is already above that set out in Gwynedd Council's "Excellent Primary Education for Children in Gwynedd" of no more than 20 in a mixed-age class.		*mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud , felly dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gyfeirio at y cynnig ble y'i disgrifir ym mharagraff 1.1 uchod."* Nid ystyrir felly fod maint dosbarthiadau'r ysgolion cyfagos (Ysgol Foel Gron ac Ysgol Llanbedrog) yn berthnasol i'r cynnig. Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd yr addysg yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig.	*consultation should only refer to the proposal as described in paragraph 1.1 above." The class sizes of neighboring schools (Ysgol Foel Gron and Ysgol Llanbedrog) are therefore not considered relevant to the proposal.* *Based on the outcome of the assessment of the Likely Impact on Quality and Standards of Education, it is concluded that the standard of education provided at Ysgol Sarn Bach is at the same level as that of Ysgol Abersoch. The information in the assessment of the likely impact on the quality of education following the most recent Estyn inspections of the schools in question indicates that all of the schools have been placed in at least an equivalent category to Ysgol Abersoch, and all of the schools were categorized as yellow, or green in terms of the Welsh Government support category. As such, it is not anticipated that there would be any negative impact on the quality and standards of education arising from the proposal.*
319		7.16 Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig "Meintiau dosbarth" Mae maint dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach eisoes yn uwch nag argymhelliad "Addysg Gynradd Ardderchog i Blant yng Ngwynedd" Cyngor Gwynedd ar gyfer maint dosbarth oedran cymysg o 20. Bydd cau Ysgol Abersoch yn gwaethygu'r sefyllfa.	**7.16 Expected advantages and disadvantages of the proposal** **"Class sizes"** Class sizes at Ysgol Sarn Bach are already above Gwynedd Council recommendation for mixed-age class size of 20 "Excellent Primary Education for Children in Gwynedd". Closing Ysgol Abersoch will make the situation worse.			
320		Mae'r dadansoddiad isod yn dangos bod maint y dosbarthiadau ar gyfer 2020-21 yn uwch na 20 mewn 6 dosbarth allan o 9 yn y pedair ysgol. Yn ogystal, mae dros 80% o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau cymysg rhy fawr. Casgliad: Mae angen ystyried maint dosbarthiadau yn ofalus wrth wneud penderfyniadau fel y gall Cyngor Gwynedd gyflawni ei strategaeth o'r sefyllfa bresennol hon.	The analysis below shows that in the four schools, the class sizes for 2020-21 are above 20 in 6 classes out of 9. In addition, over 80% of pupils are being educated in oversized mixed classes. **Conclusion:** Class size needs to be carefully considered in the decision-making so that Gwynedd Council can achieve its strategy from this current situation.			
321		Mae'r tabl isod yn crynhoi maint presennol y dosbarthiadau ar gyfer pob un o'r pedair ysgol. Gellir arsylwi bod yna nifer o 'flynyddoedd mawr', fodd bynnag mae'r ystod o niferoedd disgyblion blynyddol fesul grŵp blwyddyn yn amrywio o 18 i 33, gyda chyfartaledd cyffredinol o 25 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn a nifer fwyaf cyffredin o 22.	The table below summarises the current class sizes for all four schools. It can be observed that there are a number of 'big years', however the typical range of annual pupil numbers per year group ranges from 18 to 33, with an overall average of 25 pupils per year group and a most common number of 22.			
322		Nid yw'r Cyngor wedi darparu asesiad effaith ar faint dosbarthiadau os trosglwyddir disgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach fel y cynigir. Pe bai hyn yn digwydd, yna maint y dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach fydd 21 a 37 yn y drefn honno. Mae hyn yn amlwg yn fwy na'r 20 a ddatganwyd fel maint dosbarth cymysg ar y mwyaf. Yn ogystal â fy mhryderon fy hun, credaf y byddai llywodraethwyr a rhieni Ysgol Sarn Bach hefyd yn bryderus ac mae angen ystyried eu barn yn yr ymgynghoriad.	The Council has not provided an impact assessment on class sizes if the pupils of Ysgol Abersoch are transferred to Ysgol Sarn Bach as proposed. If this were to occur, then the class sizes at Ysgol Sarn Bach will be 21 and 37 respectively. This is clearly in excess of the started 20 as a maximum mixed class size. In addition to my own concerns, I believe that the governors and parents of Ysgol Sarn Bach would also be concerned and their views need to be taken into account in the consultation.		Mae adran 7.3 o'r Ddogfen Ymgynghori yn darparu gwybodaeth ar sefyllfa bresennol maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, pe gwireddir y cynnig, yna disgwylir y bydd Pennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd newydd. Mi fyddai'r cynnydd yn eu cyllideb blynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol.	*Section 7.3 of the Consultation Document provides information on the current class sizes of Ysgol Abersoch and Ysgol Sarn Bach.* *As stated in the consultation document, should the proposal be realized, then it is expected that the Head and Governing Body of the alternative school will give appropriate attention to determining appropriate class sizes and appropriate classes and the resources of school staff to respond to the new numbers. The increase in their annual budget would facilitate options to consider additional classes and staff.*
323		Credwn y cynhwysa lefelau staffio Ysgol Sarn Bach bennaeth llawn amser, athrawes rhan amser ac athrawon achlysurol, yn ogystal â chymorthyddion dysgu. Rhennir y plant i ddau ddosbarth ffurfiol mewn tair ystafell ddosbarth. Dysga'r pennaeth Meithrin – Blwyddyn 2 mewn dosbarth sengl a'r athrawes ran-amser Flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 mewn dwy ystafell ddosbarth wedi'u cefnogi gan gymhorthydd dysgu. Credwn y dysgir y plant ym Mlynyddoedd 5 a 6 gan gymhorthydd dosbarth ddeuddydd yr wythnos. Mae'n rhesymol gofyn pam fod cynyddu maint dosbarthiadau, trwy gynnwys disgyblion Ysgol Abersoch, yn "Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl" a "byddai addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach yn cael effaith bositif". O	We believe that staffing levels at Ysgol Sarn Bach include a full-time headteacher, part-time teacher and substitute teachers, as well as teaching assistants. The children are divided into two formal classes in three classrooms. The headteacher teaches Nursery - Year 2 and the part-time teacher Years 3, 4, 5 and 6 in two classrooms supported by a teaching assistant. We believe that the children in Years 5 and 6 are taught by a classroom assistant two days a week. It is reasonable to ask why increasing class sizes, by involving pupils at Ysgol Abersoch, is "Offering the highest possible quality of education" and "teaching the children at Ysgol Sarn Bach would have a positive impact" In comparison, the children of Ysgol Abersoch are always taught by a teacher, as is expected in a school			

		gymharu, dysgir plant Ysgol Abersoch bob amser gan athrawes, fel y disgwylir mewn ysgol.....			Mater i Gorff Llywodraethol ysgol unigol yw penderfynu ar ei strwythur staffio mwyaf addas. Pe byddai nifer disgyblion yn cynyddu gall Ysgol Sarn Bach benderfynu addasu'r strwythur staffio i gynnwys mwy o athrawon. Ni all y Cyngor rhagweld penderfyniad y Corff Llywodraethol ac o ganlyniad ni fyddai'n briodol amlygu lefelau staffio posib i'r dyfodol. Pe byddai'r nifer disgyblion yn cynyddu tu hwnt i'r canllawiau statudol byddai'n rhaid i'r ysgol newid y strwythur staffio. Mae nifer helaeth o ysgolion yn gwneud defnydd o uwch gymorthyddion er mwyn darparu amser digyswllt i athrawon dosbarth gynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r gwaith a fydd yn cael ei gyflwyno wedi ei baratoi gan yr athro neu athrawes dosbarth o flaen llaw a gan amlaf yn barhad o'r hyn y mae'r athro neu athrawes ddosbarth wedi ei gyflwyno o flaen llaw. Mae'r dyraniad ychwanegol a dderbynnir gan Ysgol Abersoch yn sgil niferoedd isel o blant yn sicrhau lefelau staffio uwch na'r hyn a dderbynnir mewn ysgolion sydd y tu allan i'r warchodaeth yma. Nid yw Ysgol Sarn Bach yn derbyn lefel uchel o warchodaeth ac o ganlyniad maent yn wynebu her i gynnal lefelau staffio cyffelyb ac Ysgol Abersoch. Fodd bynnag gwelir o arolwg Estyn o Ysgol Sarn Bach yn 2017 nad yw hyn yn effeithio ar ansawdd profiadau dysgu'r plant a bod y dysgu ac addysgu ac ansawdd profiadau dysgu'r plant.	
324		Pam y cyfeirir yma at lefelau staffio yn Ysgol Abersoch ond nid Ysgol Sarn Bach? Beth yw'r lefelau staffio yn Ysgol Sarn Bach, fesul dosbarth ac ystafell ddosbarth, gyda chymarebau athro i blentyn? A oes athro ym mhob ystafell ddosbarth bob dydd? Mae gennym reswm i gredu bod 1 pennaeth amser llawn, 1 athro rhan-amser, athro achlysurol yn ogystal â chymhorthyddion dysgu ..... Nid yw'r datganiad hwn yn adlewyrchu'r cynnig addysgu presennol yn Ysgol Sarn Bach ac nid yw'n hysbysu rhieni nad yw plant yn cael eu haddysgu gan athro cymwys pob tro. Rydym yn deall bod dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach yn cael eu haddysgu gan 1 pennaeth llawn amser, 1 athro rhan-amser, ac athrawon achlysurol, yn ogystal â chymorthyddion dysgu. Rhennir y plant i 2 ddosbarth ffurfiol, ar draws 3 ystafell ddosbarth. Mae'r pennaeth yn dysgu Meithrin - Blwyddyn 2 mewn un ystafell ddosbarth, yr athro rhan-amser yn dysgu blynyddoedd 3,4,5 a 6 ar draws 2 ystafell ddosbarth gyda chefnogaeth cymhorthydd dysgu. Mae diwrnodau rheolaidd yr wythnos pan fydd y plant ym Mlynyddoedd 3,4, 5 a 6 yn cael eu dysgu gan y cymhorthydd dysgu yn unig. Er enghraifft, yn ystafell ddosbarth Blwyddyn 5 a 6, mae'r plant yn cael eu haddysgu gan yr athro rhan-amser 2 ddiwrnod yr wythnos, gan athro achlysurol 1 diwrnod yr wythnos a chan gymhorthydd dysgu 2 ddiwrnod yr wythnos. Mae 21 o blant yn yr ystafell ddosbarth hon, ynghyd â 13 o blant eraill yn ystafell ddosbarth Blwyddyn 3 a 4. Felly cyfunwyd 34 o blant ar draws dwy ystafell ddosbarth ar wahân, a rheiny yn cael eu haddysgu gan gyfuniad o athro rhan-amser, athro achlysurol, a chymorthydd dysgu. Ym mha ffordd, trwy gynnwys disgyblion Ysgol Abersoch, y mae maint dosbarthiadau cynyddol yn cwrdd â'r amcan o 'ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl' pan fydd y dosbarthiadau'n fwy ac mewn rhai achosion yn uwch na uchafswm cyfreithiol Cyngor Gwynedd o 30 ac hefyd y disgyblion ddim yn cael eu haddysgu gan athro ar nifer o ddyddiau'r wythnos? .... I'r gwrthwyneb, yn Ysgol Abersoch mae plant bob amser yn cael eu haddysgu gan athro, fel y byddai disgwyl i gyfarch y nod o "Ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl".	Why are staffing levels at Ysgol Abersoch but not Ysgol Sarn Bach referred to here? What are the staffing levels at Ysgol Sarn Bach, per class and classroom, with teacher to child ratios? Does each classroom have a teacher in it every day? We have reason to believe there is 1 full-time headteacher, 1 part-time teacher, an occasional teacher as well as teaching assistants..... This statement does not reflect the present teaching offer at Ysgol Sarn Bach and does not inform parents that children are routinely not being taught by a qualified teacher. We understand that classes in Ysgol Sarn Bach are taught by 1 full-time headteacher, 1 part-time teacher, and occasional teachers, as well as teaching assistants. The children are split into 2 formal classes, across 3 classrooms. The headteacher teaches Nursery - Year 2 in a single classroom, the part-time teacher Years 3,4,5 and 6 across 2 classrooms supported by a teaching assistant. There are regular days per week when the children in Years 3,4, 5 and 6 are taught by the teaching assistant only. For example, in the Year 5 and 6 classroom, the children are taught by the part-time teacher 2 days per week, by an occasional teacher 1 day per week and by a teaching assistant 2 days per week. There are 21 children in this classroom, plus a further 13 children in the Year 3 and 4 classroom. Therefore 34 children combined across two separate classrooms being taught by a combination of part-time teacher, occasional teacher, and teaching assistant. In what way, by including Ysgol Abersoch pupils, does increasing class sizes meet the objective of 'providing education of the best possible quality' when the classes are larger and in some cases exceed Gwynedd Council's legal limit of 30 and pupils are not being taught by a teacher on a number of days per week? .... Conversely, at Ysgol Abersoch children are always taught by a teacher, as would be expected to "Provide education of the best possible quality".		*It is a matter for the Governing Body of an individual school to determine its most appropriate staffing structure. Should pupil numbers increase Ysgol Sarn Bach may decide to adapt the staffing structure to include more teachers.The Council cannot anticipate the decision of the Governing Body and consequently it would not be appropriate to highlight possible future staffing levels.* *If the number of pupils increased beyond the statutory guidelines the school would have to change the staffing structure.* *A large number of schools make use of senior assistants to provide classroom teachers with non-contact time for planning, preparation and assessment. The work to be presented has been prepared by the class teacher in advance and is usually a continuation of what the class teacher has presented in advance.* *The additional allocation received by Ysgol Abersoch due to low numbers of children ensures higher staffing levels than that received in schools not receiving this protection. Ysgol Sarn Bach does not receive a high level of protection and as a result faces the challenge of maintaining similar staffing levels as Ysgol Abersoch. However, it is clear from Estyn's inspection of Ysgol Sarn Bach in 2017 that this does not affect the quality of children's learning experiences and that the teaching and learning and the quality of children's learning experiences.*
325		Nid oes sôn am Bennaeth na Llywodraethwyr Aber-soch dan Reolaeth ac Arweinyddiaeth; ac mae Pennaeth Mewn Gofal yn bresennol oherwydd sefyllfa anghyffredin oherwydd rhesymau trist.	There is no mention of the Head and Governors of Abersoch under Management and Leadership; and an Acting Headteacher is present due to an unusual situation due to sad reasons.		Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori (tudalen 28) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, mae Ysgol Abersoch yn gweithredu dan arweiniad pennaeth mewn gofal. Mae'r cyngor o'r farn na fyddai'n briodol manylu ar sefyllfa bersonol unrhyw aelod o'r staff mewn dogfen ymgynghori statudol yn ymwneud â chynnig i ad-drefnu ysgolion.	*As noted in the consultation document (page 28) published in January 2021, Ysgol Abersoch operates under the leadership of a headteacher in charge. The council considers that it would not be appropriate to detail the personal situation of any member of staff in a statutory consultation document relating to a proposal for school reorganization.*
326		Tra bod meintiau dosbarthiadau yn llai na'r rhai mewn ysgolion cyfagos, buasai'r mwyafrif o bobl yn tystio ei fod o fantais i'r plant yn nhermau canlyniadau addysgol gwell. Mewn cymhariaeth, sylwyd ar ddosbarthiadau mawr mewn ysgolion cyfagos sydd, gyda llaw, yn fwy na maint y dosbarthiadau a nodwyd gan Gyngor Gwynedd ei hun, a allai arwain at ganlyniadau gwaelach.	While class sizes are smaller than those in neighboring schools, most people would testify that it is beneficial for the children in terms of better educational outcomes. By comparison, large classes were noticed in nearby schools which, incidentally, are larger than the class sizes identified by Gwynedd Council itself, which could lead to poorer results. Unsurprisingly, the Education Department		Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd yr addyg yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn	*Based on the outcome of the Assessment of Likely Impact on Quality and Standards of Education, it is concluded that the standard of education provided at Ysgol Sarn Bach is at the same level as that of Ysgol Abersoch. The information in the assessment of the likely impact on the quality of education following the most recent Estyn inspections of the schools in question indicates that all of the schools have been placed in at least an equivalent category to Ysgol Abersoch, and all of the schools were*

		Mae'n syndod y rhodda'r Adran Addysg fwy o bwyslais ar ryngweithiad cymdeithasol na chyrhaeddiad addysgol.	places more emphasis on social interaction than educational attainment.		categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig.	*categorized as yellow, or green in terms of the Welsh Government support category. As such, it is not anticipated that there would be any negative impact on the quality and standards of education arising from the proposal.*
327		Eto, anghytunir "y buasai cau Ysgol Aber-soch ac addysgu'r disgyblion yn Sarn Bach yn gwella eu profiad addysgiadol a chymdeithasol". Mae dosbarthiadau bychain yn galluogi cyrhaeddiad uwch ac maent yn cyfarfod eu cyfoedion mewn clybiau eraill tu allan i oriau'r ysgol.	Again, it is agreed that "the closure of Abersoch School and the education of the pupils at Sarn Bach would improve their educational and social experience". Small classes enable higher attainment and meet their peers in other out of school clubs.			
328		Maint presennol y dosbarth yn Ysgol Abersoch yw 10 o blant, ac yn Ysgol Sarn Bach maint cyfartalog y dosbarth yw 24, sydd eisoes yn fwy na datganiad Cyngor Gwynedd yn 'Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau'. Mae'n peri penbleth y gall Cyngor Gwynedd gyfiawnhau gwthio drwy benderfyniad a fydd yn cynyddu maint dosbarthiadau uwchlaw ei arfer gorau ei hun ar sail 'lles'. O ystyried cyd-destun y dogfennau ymgynghori, mae'n ymddangos nad yw'r Adran Addysg yn ystyried y ddarpariaeth addysg bresennol yn Ysgol Abersoch i gynhyrchu 'dinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn' mewn 'cymdeithas naturiol Gymraeg'.	The current class size at Ysgol Abersoch is 10 children, and at Ysgol Sarn Bach the average class size is 24, which is more than Gwynedd Council's statement in 'Education of the Best Quality Strategy'. It is puzzling that Gwynedd Council can justify pushing through a decision that will increase class sizes above its own best practice on a 'wellbeing' basis. Given the context of the consultation documents, it appears that the Education Department is not considering the current education provision at Ysgol Abersoch to produce 'bilingual, successful and full citizens' in a 'naturally Welsh society'.		Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y byddai 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Mi fyddai'r cynnydd yn eu cyllideb blynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol.	*Should the proposal be realized, it is envisaged that there would be 21 children in the Foundation Phase and 37 in KS2 at Ysgol Sarn Bach. The Headteacher and Governing Body of the alternative school would be expected to give due consideration to determining suitable class sizes and the resources of school staff to respond to the latest numbers. The increase in their annual budget would facilitate options to consider additional classes and staff.*
329		Anghytunir â'r sylw "yr effeithia'r dosbarthiadau bychain iawn a niferoedd isel ar brofiadau'r plant o gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion" – maent yn aelodau o wahanol glybiau megis Clwb Syrffio Llŷn a phêl-droed/rygbi un ai yma yn Aber-soch neu ym Mhwllheli a chynhelir gwersi/gweithgareddau nofio/hwylio ar ôl ysgol fel disgyblion ysgolion eraill.	Disagree with the comment that "the very small classes and low numbers affect children's experiences of socializing and working daily with peers" - they are members of different clubs such as Clwb Syrffio Llŷn and football / rugby clubs either here in Abersoch or Pwllheli and after school swimming / sailing lessons / activities after school like other school pupils.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*
330		'Addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas' -nodir fod cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Sarn Bach ym mis Medi 2020 yn 24. Os felly, fe'u cynyddir â disgyblion Ysgol Aber-soch ac, o ganlyniad, buasai hyn yn groes i'r hyn a nodir ym mhwynt 4.1.3 Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd pan nodir, "Anelu at sicrhau nad oes gan unrhyw ddosbarth oed cymysg mwy nag 20 disgybl na llai na 12 disgybl".	'Educate the children in more suitable size classes' - the average class size at Ysgol Sarn Bach in September 2020 is stated to be 24. If so, they will be increased with the pupils of Ysgol Aber-soch, as a result, this would be contrary to what is noted in point 4.1.3 Best Quality Primary Education for Gwynedd's Children when stating "Aim to ensure that no mixed age class has more than 20 pupils or less than 12 pupils".		Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y byddai 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Mi fyddai'r cynnydd yn eu cyllideb blynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol.	*Should the proposal be realized, it is envisaged that there would be 21 children in the Foundation Phase and 37 in KS2 at Ysgol Sarn Bach. The Headteacher and Governing Body of the alternative school would be expected to give due consideration to determining suitable class sizes and the resources of school staff to respond to the latest numbers. The increase in their annual budget would facilitate options to consider additional classes and staff.*
331		***Gyda'r rhan fwyaf o'ch gwybodaeth dim ond ystyried y safbwynt ariannol a geir a chostau elfennol fesul plentyn. Mae addysg o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd yn un o'r amcanion er mwyn datblygu'r system – pa system yw honno?***	***Most of your information only takes into account the financial outlook and elementary costs per child. High quality education for the children and young people of Gwynedd is one of the objectives for developing the system - what system is that?***		Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf. Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y bydda 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Mi fyddai'r cynnydd yn eu cyllideb blynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol.	*With 21 surplus places, (and 4 empty places in the Nursery), Ysgol Sarn Bach has sufficient capacity for the current pupils of Ysgol Abersoch and Ysgol Sarn Bach, for the next five years.* *Should the proposal be realized, it is envisaged that there would be 21 children in the Foundation Phase and 37 in KS2 at Ysgol Sarn Bach. The Headteacher and Governing Body of the alternative school would be expected to give due consideration to determining suitable class sizes and the resources of school staff to respond to the latest numbers. The increase in their annual budget would facilitate options to consider additional classes and staff.*
		All-dalgylch *Out of catchment*				
332		Nid oes yr un plentyn yn byw ym mhentref Sarn Bach ei hun. Mae nifer o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn all-ddalgylch hefyd, heb gynnwys y rhai a drosglwyddodd yn wyth oed o Ysgol Aber-soch.	There is not a single child living in Sarn Bach itself. Many of the pupils at Ysgol Sarn Bach are live outside the catchment area as well, not to mention those that transferred at eight years old from Ysgol Abersoch.		Mae'r tabl yn adran 5.1 o'r ddogfen ymgynghori yn nodi annedd disgyblion Ysgol Abersoch a'r ysgolion cyfagos, gan gynnwys Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach. Yn Medi 2020, roedd 20 allan o'r 48 o ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn byw y tu allan i'r dalgylch. Roedd 6 o ddisgyblion Ysgol Llanbedrog (102) yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch. Dylid nodi fod Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion ardal Abersoch ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 8 oed (mae ardal dalgylch Ysgol	*The table in section 5.1 of the consultation document notes the homes of pupils at Ysgol Abersoch and its neighbouring schools, including Ysgol Llanbedrog and Ysgol Sarn Bach.* *In September 2020, 20 out of the 48 pupils at Ysgol Sarn Bach lived outside the catchment area. 6 pupils at Ysgol Llanbedrog (102) lived in the Ysgol Abersoch catchment area.* *It should be noted that Ysgol Sarn Bach already admits pupils in the Abersoch area in the September following their 8th birthday (the Ysgol*
333		Pam na soniwyd am nifer y plant all-ddalgylch sydd yn Ysgol Llanbedrog? Aiff nifer ohonynt yno o Aber-soch.	Why was the number of out-of-catchement area children at Ysgol Llanbedrog not mentioned? Many of them are from Aber-soch.			

					Abersoch yn perthyn id ddalgylch Ysgol Sarn Bach i ddisgyblion Blwyddyn 4 – 6). Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dalgylch Ysgol Sarn Bach yn cael ei addasu i gynnwys ardal yr ysgol bresennol, yn ogystal ag ardal dalgylch presennol Ysgol Abersoch.	*Abersoch catchment area is part of Ysgol Sarn Bach catchment area for Year 4 - 6 pupils). Should the proposal be implemented the catchment area of Ysgol Sarn Bach would be amended to include the area of the existing school, as well as the existing catchment area of Ysgol Abersoch.*
					cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Yn CA2, parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion wneud defnydd o'r Saesneg fel cyfrwng wrth i ddisgyblion symud drwy CA2. Bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir. Byddai'r trefniant hwn yn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn yr ardaloedd mwy Seisnig. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu Canolfan Iaith, neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / ddwyieithog.	*introducing English in the final term at the end of the Foundation Phase. Welsh will be the official language of assessment in the school at the end of the key stage.* *KS2 continues to develop pupils' grasp of Welsh with attention to developing their skills in both languages. In this context, schools are expected to make use of English as a medium as pupils move through KS2. The emphasis placed on the two languages at different stages of a pupil's development will differ according to the pupil's linguistic background and the area served. This arrangement would provide opportunities to develop the Welsh language across the curriculum in the areas where English is more prominent. The progress of the pupils in Welsh and English is assessed at the end of KS2.* *In addition, schools are expected to ensure that pupils who are Welsh learners in KS2, learn Welsh as soon as possible, either by attending a Language Center, or through intensive school provision, so that they can access the curriculum through the medium of Welsh / bilingually.*
381		O ran sefyllfa Covid, fel y gwyddoch, mae angen ystyried faint o awyr iach a phellter sydd rhwng disgyblion. **Mae cael llai o blant mewn dosbarth ac ysgol am fod yn hanfodol bwysig yn y bywyd newydd sydd o'n blaenau ar ôl y cyfnod clo.** O ran iechyd a lles plant Abersoch a'r cyffiniau, dylai'r Cyngor weld gwerth ysgol fach a'r ffaith bod traeth dim ond pum munud i lawr y lôn. Yn eironig iawn, mae eich dadl o gau'r ysgol oherwydd nifer bychan o ddisgyblion a'u cludo mewn bws gyda'i gilydd i ysgol gyda mwy o ddisgyblion ynddi yn gwbl afresymol a ddim yn cyd-fynd â'r hyn sydd ei angen oherwydd y pandemig ac sydd am fod yn llesol i blant Abersoch.	With regard to the Covid situation, as you know, there is a need to consider how much fresh air and distance there is between pupils. **Having fewer children in class and school is vitally important in the new life ahead of lock-down**. In terms of the health and well-being of Abersoch children and the surrounding area, the Council should see the value of a small school and the fact that there is a beach just five minutes down the lane. Ironically, your argument of closing the school because of a small number of pupils and transporting them in a bus together to a school with more pupils is completely unreasonable and does not fit what is needed because of the pandemic and wanting to benefit the children of Abersoch.		Mae pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn gweithdrefnau priodol o ran rheolau ymbellhau cymdeithasol ac awyru oherwydd y coronafirws.	*All schools in Gwynedd follow appropriate procedures in relation to social distancing rules and ventilation due to the coronavirus.*
382		Hefyd, ni allwn ddod o hyd i unrhyw beth yn yr adroddiad ynghylch y Pandemig Covid cyfredol, gan edrych ar bethau fel; presenoldeb disgyblion trwy gydol y cyfnod hwn. Dwi'n ymwybodol o sawl plentyn o ysgolion eraill yn yr ardal na fynychodd yr ysgol, oherwydd bod rhieni'n bryderus am y dosbarthiadau mwy. Elwodd Ysgol Abersoch o faint dosbarthiadau llai gan fod rhieni'n teimlo'n hyderus i'w hanfon i'r ysgol gan y byddai'r gyfradd R yn sylweddol is. A oes gennych ffigurau absenoldeb yn ystod mis Medi i fis Rhagfyr 2020? Sylwais hefyd fod yn rhaid i Ysgol Llanbedrog glustnodi dwy amser wahanol i godi plant gan fod y llwybr troed cyhoeddus lle mae rhieni'n aros i gyfarch eu plant yn orlawn o dagfeydd, does dim sôn am hyn yn unman. Fodd bynnag, mae buddion Ysgol Abersoch yn cynnwys ei lleoliad wrth ymyl Maes Parcio mawr sy'n galluogi rhieni i gasglu plant mewn modd diogel a theimlaf y dylid nodi hyn hefyd wrth lunio'ch asesiad.	I also could not find anything in the report regarding the current Covid Pandemic, looking at things such as; pupil attendance throughout this period. I know of several children from other schools in the area who did not attend school, because parents were concerned with larger class sizes. Ysgol Abersoch benefitted from smaller class sizes as parents felt confident to send them to school as the R rate would be significantly lower. Do you have figures of absenteeism during September to December 2020? I also noted that Ysgol Llanbedrog had to have two pick up times for children as the public footpath where parents wait to greet their children was too congested, this is not mentioned anywhere either. However the benefit of Ysgol Abersoch includes its location next to a large Car Park enabling parents to collect children in a safe manner and I feel that this should also be noted when drawing up your assessment.		Mae pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn gweithdrefnau priodol o ran rheolau ymbellhau cymdeithasol ac mae ysgolion wedi addasu amseroedd casglu plant oherwydd y coronafirws. Nid yw'n briodol i rannu gwybodaeth sensitif am bresenoldeb disgyblion.	*All schools in Gwynedd follow appropriate procedures in relation to social distancing rules and ventilation due to the coronavirus.* *It is not appropriate to share sensitive information regarding pupils' attendance.*
383		Pe dysgid rhywbeth o'r pandemig, y sylweddoliad yw nad oes dim pwysicach na chymuned a bod gosodiadau addysgol ar raddfa fechan yn ddiogelach.	If any lessons were learned from this pandemic, it is the realisation that there is nothing more important than community and that educational setings on a smaller scale are safer.		Mae pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn gweithdrefnau priodol o ran rheolau ymbellhau cymdeithasol ac awyru oherwydd y coronafirws.	*All schools in Gwynedd follow appropriate procedures in relation to social distancing rules and ventilation due to the coronavirus.*
384		Os ydym wedi dysgu unrhyw beth o bandemig Covid 19, mae'n siŵr bod "niferoedd bach (a lleol) yn dda".	If we have learned anything from the Covid 19 pandemic, "small numbers (and local) are probably good".		Mae pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn gweithdrefnau priodol o ran rheolau ymbellhau cymdeithasol ac awyru oherwydd y coronafirws.	*All schools in Gwynedd follow appropriate procedures in relation to social distancing rules and ventilation due to the coronavirus.*
		5. Materion Cyllidol *Financial Matters*				

385		***Ymddengys taw ymarfer torri costau ydyw.***	***It appears to be a cost cutting excercise***		Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn ogystal â'r heriau cyllidol sy'n wynebu Ysgol Abersoch, mae nifer o faterion eraill yn ymwneud â'r ysgol yn peri pryder. Mae'r Awdurdod wedi blaenoriaethu Ysgol Abersoch ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, yn benodol: • Mae niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin. . • Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran. • Mae rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023 • Dengys data 2020 fod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch. • Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd a llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582. • Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod yn £4,198 • Nifer o lefydd gweigion – 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer) Pe gweithredir ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, mae'r Cyngor o'r farn y byddai'n: • Cynnig mwy o brofiadau a chyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion • Lleihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion • Addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas • Lleihau'r amrediad o lwfans y pen ar gyfer holl ddisgyblion y Sir • Sicrhau bod plant yn trosglwyddo un waith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith	*As stated in the consultation document, as well as the financial challenges facing Ysgol Abersoch, there are a number of other school issues of concern.* *The Authority has prioritised Ysgol Abersoch for a review of educational provision as it faces a number of challenges. The school's pupil numbers have fallen steadily since 2016 and have been vulnerable for some time.* *Due to the current low numbers, the school is in a vulnerable position and under increasing budgetary pressures, in particular:* • *School numbers are a cause for concern. In September 2020, there were 8 full-time pupils, and 2 nursery pupils. .* • *Class sizes are small - with 10 pupils taught in one mixed-age class.* • *Forecasts show 10 pupils in 2021, 12 pupils in 2022, and 12 pupils in 2023* • *2020 data shows that 26 pupils live in the Abersoch catchment area with 21 attending other schools. It also shows that 5 pupils outside Abersoch catchment area attend Ysgol Abersoch.* • *Ysgol Abersoch receives an additional amount over and above the normal allocation through the minimum staffing protection policy (which guarantees at least a headteacher and teacher in each school, and a headteacher and assistant in schools with fewer than 15 pupils). The total amount during the financial year 2020/21 (based on September 2019 numbers) is £ 52,582.* • *The cost per pupil of Ysgol Abersoch in the financial year 2020/21 is £ 17,404 compared with the County average cost per pupil for the same period of £ 4,198* • *Number of surplus places - 76% of surplus places in the school (32 in number)* *If the proposal to close Ysgol Abersoch and offer the pupils a place at Ysgol Sarn Bach is implemented, the Council considers that it would:* • *Offer more experiences and opportunities for pupils to socialise and work daily with peers* • *Reduce the number of surplus places within schools* • *Educate the children in a more appropriate class size* • *Reduce the range of allowance per head for all pupils in the County* • *Ensure that children transfer once during their primary and secondary education rather than twice*
386		Nid yw popeth am arian!!! Plis cadwch hyn mewn cof pan yda chi'n penderfynu ar ddyfodol Ysgol Abersoch……	Some things aren't just about the money!!! Please bear this in mind when deciding the future of Ysgol Abersoch……			
387		Rydym o'r farn bod y cynnig yn canolbwyntio llawer gormod ar feini prawf ariannol cul yr adran addysg. Mae costau a buddion cynnal a chadw'r ysgol yn llawer ehangach na mesur cost / disgybl syml.	We consider the proposal is far too focussed on the narrow financial criteria of the education department. The costs and benefits of maintaining the school are much wider than a simple cost/pupil measure.			
389		Ni ddylai moderneiddio addysg fod am arian yn unig, na ddylai??	Modernising education should not be all about money, should it ??			
390		Mae'n hawdd ymateb i agwedd ariannol ysgol yn unig ond fe'ch anogaf i ystyried y byddai rhywbeth llawer pwysicach nag arian yn cael ei golli pe caniateir i'r ysgol hon gau.	It is easy to react only to the financial aspect of a school but I urge you to consider that something far more important than money would be lost if this school were allowed to close.			
391		Rwy'n credu bod y cynnig i gau Ysgol Abersoch yn dibynnu yn ormodol ar fesurau ariannol ac yn methu ag ystyried cyd-destun ehangach polisïau'r cyngor a'r angen i gefnogi'r gymuned leol.	I think the proposal to close Ysgol Abersoch rests too much on a short-sighted focus on financial measures and fails to consider the wider context of council policies and the need to support the local community.			
392		Deellir bod cost i barhau i gadw'r ysgol ar agor ond siawns na fyddai'r buddion yn gorbwyso costau cynnal y status quo presennol.	It is understood there is a cost to continue keeping the school open but surely the benefits would outweigh the costs of maintaining the existing status quo.			
393		Deallir bod cost i barhau i gadw'r ysgol ar agor ond siawns nad yw'r byddai buddion yn gorbwyso costau ei ragolygon yn y dyfodol.	It is understood there is a cost to continue keeping the school open but surely the benefits would outweigh the costs of its future prospects.			
394		Dywedir bod yr arbediad o gau ysgol Abersoch oddeutu £ 100,000 y flwyddyn neu oddeutu 0.1% o gyfanswm cyllideb addysg y Cyngor o £108.8mn yn 2020/21. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn cynnig buddsoddi tua £ 5.4mn mewn ysgol gynradd hollol newydd (Ysgol Treferthyr) ar gyrion Cricieth. Nid yw'r asesiad o gynilo yn ystyried unrhyw gost ac aflonyddwch i'r gymuned yn Abersoch nac yn ystyried colli adeilad cwbl gadarn os na ellid dod o hyd i ddefnydd arall ar ei gyfer. Mae'n ymddangos bod ystyriaethau ariannol yn unig yn gyrru polisi canolbwyntio i	The net cost saving of closing Abersoch school is stated to be in the region of £100,000/year or about 0.1% of the total Council education budget of £108.8mn in 2020/21. At the same time, the Council is proposing to invest some £5.4mn in an entirely new primary school (Ysgol Treferthwyr) on the outskirts of Criccieth. The assessment of saving takes no account of the cost and disruption to the community in Abersoch nor considers the loss of a perfectly sound building if no alternative use for it could be found. It appears that financial considerations alone are driving a policy of concentration into larger schools at the cost		Mae'r arian y mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn ei fuddsoddi yng Nghricieth oherwydd cyflwr gwael iawn adeilad Ysgol Treferthyr, sef ysgol gydag ymhell dros 100 o ddisgyblion. Fel rhan o'r broses ymgynghori paratôdd a rhannodd y Cyngor asesiadau effaith cymunedol fyddai'r cynnig yn ei gael. Casgliad yr asesiad oedd y bydd peth effaith negyddol o gau'r ysgol ar y gymuned. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Abersoch yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. O safbwynt adeilad yr ysgol, pe gweithredir y cynnig mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion a byddai'r polisi yn cael ei ddilyn er mwyn penderfynu ar ddefnydd yr adeilad/safle i'r dyfodol, gan gynnwys defnydd cymunedol posib.	*The money that the Council and the Welsh Government are investing in Criccieth is due to the very poor condition of the Ysgol Treferthyr building, a school with well over 100 pupils.* *As part of the consultation process the Council prepared and shared the community impact assessments the proposal would have. The assessment concluded that the closure of the school will have some negative impact on the community. To mitigate the impact on the community opportunities are identified to ensure that the Abersoch community is aware of the activity of the alternative school, and community collaboration between the alternative school and the Abersoch community is encouraged, where appropriate.*

		ysgolion mwy ar gost amddifadu cymunedau o'u gwasanaethau eu hunain a lleihau amrywiaeth a dewis yr ysgolion sydd ar gael iddynt.	of depriving communities of their own services and reducing the variety and choice of schools available to them.			*In terms of the school building, should the proposal be implemented the Council has a policy for the after-use of school buildings and the policy would be followed to determine the future use of the building / site, including possible community use.*
395		Mae'r costau i ariannu parhad cyllido Ysgol Abersoch fel y nodwyd yn ymddangos yn uchel ac nid ydynt yn ddigon tryloyw i roi sylwadau arnynt.	The costs to finance the continuation of funding Ysgol Abersoch as stated appear high and are not transparent enough to comment upon.		Mae dyraniad 2020/21 Ysgol Abersoch yn £137,140, ac mi fyddai trosglwyddo disgyblion Ysgol Abersoch yn golygu dyraniad ychwanegol i Ysgol Sarn Bach o £27,078. O'r gweddill o £110,062 bydd costau cludiant ychwanegol posib o £14,000, mae hyn yn gadael arbedion tebygol o £96,062. Nid yw'r ffigyrau yn cymryd unrhyw gostau cynnal a chadw ar safle Ysgol Abersoch nac Ysgol Sarn Bach i ystyriaeth. Pe byddwn wedi ystyried y costau hyn mi fyddai'n golygu mwy o arbedion gan na fydda unrhyw gostau cynnal a chadw i Ysgol Abersoch i'r dyfodol. Tydi clystyru cost y 4 ysgol leol at ei gilydd i gyrraedd cyfartaledd cost o £5,000 ddim yn lleihau cost uchel y pen Ysgol Abersoch. Bydd unrhyw gostau diswyddo yn cael eu hariannu o'r arbedion hyn. Nid yw costau'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys wrth gyfrifo arbedion gan eu bod yn annibynnol o gostau rhedeg gwirioneddol yr ysgolion dan sylw. Mae gan Ysgol Sarn Bach wisg ysgol swyddogol ac mae'r ysgol yn annog pawb i'w gwisgo. Mae disgwyliad ar rieni disgyblion blwyddyn 3 brynu gwisg ysgol wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach beth bynnag. Gall plant sydd yn trosglwyddo o Ysgol Abersoch barhau i wisgo ei gwisg (Ysgol Abersoch) hyd at ddiwedd blwyddyn 3 os mai dyma ddymuniad y rhieni. Pwysleisir na benderfynwyd ymgynghori ar yr opsiwn i gau Ysgol Abersoch ar sail materion cyllidol yn unig. Mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys: • Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol. • Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.) • Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3) • Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran. • Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed). • Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.	*Ysgol Abersoch's 2020/21 allocation is £137,140, and transferring Ysgol Abersoch pupils would mean an additional allocation to Ysgol Sarn Bach of £27,078. With the balance of £110,062 there will be potential additional transport costs of £14,000, leaving a likely saving of £96,062.* *The figures do not take into account any maintenance costs at the Ysgol Abersoch or Ysgol Sarn Bach site. If these costs were to be considered, it would mean more savings as there would be no future maintenance costs for Ysgol Abersoch.* *Clustering the cost of the 4 local schools together to reach an average cost of £5,000 does not reduce the high per capita cost of Ysgol Abersoch.* *Any redundancy costs would be funded from these savings.* *Consultation costs are not included in the calculation of savings as they are independent of the actual running costs of the schools involved.* *Ysgol Sarn Bach has an official school uniform and the school encourages everyone to wear it. Parents of year 3 pupils are expected to buy a school uniform when they transfer to Ysgol Sarn Bach anyway. Children transferring from Ysgol Abersoch can continue to wear their uniform (Ysgol Abersoch) until the end of year 3 if this is their parents' preference.* *It is emphasised that it was not decided to consult on the option to close Ysgol Abersoch on the basis of financial issues alone.* *The school has been prioritised for a review of educational provision as it faces many challenges. The school's pupil numbers have fallen steadily since 2016 and has been vulnerable for some time. As a result, the school is therefore likely to face increasing challenges, including:* • *Low pupil numbers: In September 2020, there were 8 full-time pupils, and 2 nursery pupils registered at the school.* • *Number projections: Numbers are projected to remain low over the next few years (September 2021 = 10; September 2022 = 12; September 2023 = 12.)* • *High percentage of surplus places: Based on September 2020 figures, there are approximately 76% surplus places at the school (26 in number) (R-Yr.3)* • *Small class sizes: The 10 pupils are taught in one mixed-age class.* • *Wide age range within classes: Pupils are taught in one class with an age range of up to 5 years (3-8 years).* • *Pupils residence: 2020 data shows that 26 pupils aged 3-8 live in the Ysgol Abersoch catchment area with 21 (81%) attending schools outside the catchment area.*
396		Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi y bydd arbediad net blynyddol o oddeutu £ 96k. Mae hyn tua 0.01% o gyllideb gyffredinol Adran Addysg Gwynedd. Dydi sut mae'r arbediad wedi'i gyfrifo ddim yn aneglur, heb ddarparu dadansoddiad o'r costau e.e. a yw costau addysgu'r plant mewn ysgol arall a chynnal a chadw parhaus yr ysgol, sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor, wedi'u cynnwys? Mae'n destun pryder mawr bod penderfyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet gyda dadl sy'n seiliedig ar gost fesul disgybl yn hytrach na chost absoliwt o redeg yr ysgol. Gan fynd â'r pedair ysgol at ei gilydd, fel dalgylch mae'r gost fesul disgybl oddeutu £ 5k y disgybl. Mae hyn yn unol ag ysgolion gwledig eraill yr ardal.	The consultation document indicates that there will be a net annual saving of approximately £96k. This is about 0.01% of the overall Gwynedd Education Department budget. How the saving has been calculated is unclear, with no breakdown of costs provided e.g. are the costs of educating the children at another school and the ongoing maintenance of the school, which is a responsibility of the Council, included? It is highly concerning that decisions are being put forward to the Cabinet with an argument based on a cost per pupil rather than an absolute cost of running the school. Taking all four schools together, as a catchment the cost per pupil is approximately £5k per pupil. This is in step with other rural schools in the area.			
397		8.1. Arbedion Amcangyfrifedig Mae'r arbedion o £110,000 yn gyfartaledd bychan (0.1%) o gyllideb gyfan Cyngor Gwynedd o £90.4 miliwn. Ond, eto, yn nhermau tryloywder, nid yw'n glir pa gostau a gynhwyswyd ac na chynhwyswyd yn yr amcangyfrifon hyn. O ystyried y dibynna mwyafrif dadl Cyngor Gwynedd ar gost, mae'n syndod nad yw'n dweud llawer am hyn o gymharu â'r manylder a geir yng ngweddill y ddogfennaeth.	8.1. Estimated Savings The savings of £ 110,000 represent a small average (0.1%) of Gwynedd Council's total budget of £ 90.4 million. However, in terms of transparency, it is unclear what costs were and were not included in these estimates. Given that the majority of Gwynedd Council's argument depends on cost, it is surprising that it does not say much about this compared to the detail found in the rest of the documentation.			
398		7.6 Adnoddau Ariannol "rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £ 110,062, heb y costau cludiant ychwanegol." Mae'r arbedion o £ 110,000 yn gyfran fach (0.1%) o gyllideb gyffredinol Cyngor Gwynedd o £ 90.4 miliwn. Er budd tryloywder, gofynnwn i Gyngor Gwynedd ddarparu'r cyfrifiadau i gefnogi'r arbediad rhagamcanol hwn. Nid yw'n eglur pa gostau sydd wedi'u cynnwys neu eu heithrio yn y cyfrifiadau hyn. O ystyried bod llawer o ddadl Cyngor Gwynedd yn dibynnu ar gost, mae'n syndod nad yw'r un lefel o fanylion a roddir i weddill y ddogfen yn cael ei rhoi i'r ymarfer costio.	7.6 Financial Resources "it is projected that the proposed proposal would create an annual saving of £110,062, less the additional transport costs." The savings of £110,000 are a small proportion (0.1%) of the overall Gwynedd Council budget of £90.4 million. In the interests of transparency, we request Gwynedd Council provided the calculations to support this projected saving. It is unclear what costs have been included or excluded in these calculations. Given that much of the Gwynedd Council's argument hinges on cost, it is surprising that the same level of detail afforded to the rest of the document is not conferred to the costing exercise.			
399		A fyddai'n bosibl i Gyngor Gwynedd ddarparu dadansoddiad manwl o'r costau yr ydych wedi sôn amdanynt yn fyr yn eich adroddiad. Ymddengys bod gan bopeth arall fwy o bwyslais a manylder na'r mater hwn, a allwch chi ymhelaethu gan fy mod i'n teimlo bod angen i chi fod yn fwy tryloyw ar feysydd fel: - Trafnidiaeth - Staffio - Diswyddiadau - Costau proses yr	Would it be possible for Gwynedd Council to provide a detailed analysis of costs that you have mentioned briefly in your report. Everything else seems to have more emphasis and detail than this matter, please can you elaborate as I feel that you need to be more transparent on areas such as: - Transport - Staffing - Redundancies - Costs for the process of the			

		ymgynghoriad hyd yma; - Stampiau dosbarth cyntaf x 2 i holl ddisgyblion Sarn Bach, yna danfon llythyrau oddi wrth Sarn Bach atoch chi'ch hun? - Mr Arwel Jones - cyfwelydd - Cwnsela ar gyfer y plant pe bai ei angen arnynt. - Cyfarfodydd Cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd - Treuliau petrol a milltiroedd - Cyfieithydd ar gyfer cyfarfodydd - A fydd y plant yn cael Grant gwisg ysgol? (os ydyn nhw'n newid ysgolion, bydd y gwisgoedd a brynir yn ddiangen).	consultation to date; - First class stamps x 2 to all pupils of Sarn Bach, then the delivery of letters from Sarn Bach to yourselves? - Mr Arwel Jones-interviewer - Counseling for the children should they need it. - Public Meetings that Gwynedd Council hosted - Petrol and mileage expenses - Translator for meetings - Will the children be given a uniform Grant? (if they change schools, the uniforms bought will be redundant).			
400		7.16 Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig "Effaith ar gyflogaeth staff" Mae diswyddo yn ddrud ac o bosibl yn ddiangen os oes angen i Ysgol Sarn Bach gyflogi mwy o athrawon. A yw costau diswyddo wedi'u cynnwys yng nghyfrifiadau costau? A yw'r dadleuon ariannol yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol yn Ysgol Sarn Bach? Er tryloywder, darparwch y manylion hyn. O ystyried bod llawer o ddadl Cyngor Gwynedd yn dibynnu ar gostau, mae'n syndod nad yw'r un lefel o fanylion a roddir i weddill y ddogfen yn dryloyw.	7.16 Expected advantages and disadvantages of the proposal "Impact on staff employment" Redundancy is expensive and potentially unnecessary if Ysgol Sarn Bach needs to employ more teachers. Have redundancy costs been included in the cost calculations? Do the financial arguments include any additional costs at Ysgol Sarn Bach? For transparency, please provide this detail. Given that much of the Gwynedd Council's argument hinges on cost, it is surprising that the same level of detail afforded to the rest of the document is not transparent.			
401		Dim ond swm pitw iawn yw'r arbediad ariannol.	The financial savings are only a tiny amount.		Yn y flwyddyn ariannol 2020-21, dyrannwyd cyfanswm o £366,030 i ysgolion Abersoch a Sarn Bach. O ran costau refeniw, rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £110,062, llai anghenion cludiant ychwanegol, sef o oddeutu £14,000 y flwyddyn. O ganlyniad, byddai'r arbedion net arfaethedig yn debygol o fod yn £96,062 y flwyddyn. Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Byddai gwireddu'r opsiwn hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol.	*In the 2020-21 financial year, a total of £366,030 was allocated to Ysgol Abersoch and Ysgol Sarn Bach. In terms of revenue costs, it is anticipated that implementing the proposal would create an annual saving of £110,062, less additional transport costs, of approximately £14,000 per annum. As a result, the proposed net savings are likely to be £96,062 per annum.* *Based on the outcome of the assessment of the Likely Impact on Quality and Standards of Education, it is concluded that the standard of education provided at Ysgol Sarn Bach is at the same level as that of Ysgol Abersoch. Consequently, it is not anticipated that there would be any negative impact in terms of quality and standards of education arising from the proposal to close Ysgol Abersoch and transfer pupils to Ysgol Sarn Bach.* *Implementing this option would give pupils an opportunity to be educated in peer groups with much less of an age range and an opportunity to improve the educational and social experience of the pupils, on a daily basis.*
402		Bydd cau Ysgol Abersoch yn cael effaith amherthnasol ar y gyllideb, ond byddai'n erydu safonau addysg yn ddifrifol ar gyfer y 200 o ddisgyblion yn Abersoch a'r ysgolion cyfagos.	Closing Ysgol Abersoch will make an immaterial impact on the budget, but would seriously erode education standards for the 200 pupils in Abersoch and the surrounding schools.			
403		Mae ysgol fach i gyd yn ymwneud â'r synnwyr o berthyn. Yn naturiol, mae unrhyw un yn costio mwy i'w chynnal ond, edrychwn ar hyn fel iawndal.	A small school is all about a sense of belonging. Naturally, it costs more to maintain but we overlook this matter as compensation.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*
404		Nid yw'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r effaith ar adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn Sarn Bach i gefnogi'r safon addysgol barhaus trwy gynnwys y plant ychwanegol. Nodwch beth fydd y rhain a'r costau a ragwelir.	The report does not address the impact on additional resources needed at Sarn Bach to support the continued educational standard by including the additional children. Please specify what these will be and the anticipated costs.		Pe gweithredir y cynnig, yn seiliedig ar ddyraniad 2020/21, byddai trosglwyddo disgyblion Ysgol Abersoch yn arwain at ddyraniad ychwanegol o £27,078 ar gyfer Ysgol Sarn Bach. Disgwylir y byddai Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn penderfynu ar y defnydd gorau o'r dyraniad ychwanegol hwn.	*If the proposal were implemented, based on the 2020/21 allocation, the transfer of pupils at Ysgol Abersoch would result in an additional allocation of £27,078 for Ysgol Sarn Bach. It is expected that the Governing Body of Ysgol Sarn Bach would decide on the best use of this additional allocation.*
405		Rydym yn tynnu sylw yn barhaus at y ffaith ei bod yn amhriodol cymharu'r gost fesul disgybl ag ysgolion mwy. Darparwch gymhariaeth cost fesul disgybl o'i gymharu ag ysgolion bach tebyg eraill.	We continually point out that it is inappropriate to compare the cost per pupil to larger schools. Provide a cost per pupil comparison compared to other similar small schools.		Ysgol Abersoch sydd â'r nifer lleiaf o ddisgyblion a'r gost uchaf fesul disgybl yng Ngwynedd, felly dwyn cymariaethau ag ysgolion mwy a chyfartaledd y sir yw'r unig opsiwn.	*Ysgol Abersoch has the lowest number of pupils and the highest cost per pupil in Gwynedd, therefore drawing comparisons with larger schools and the county average is the only option.*
406		Ar ddechrau'r adolygiad anffurfiol, ym mis Medi 2019, derbyniom bod niferoedd disgyblion is yn arwydd o'r angen am newid, a diolch i symbyliad y cyfarfodydd dechreuol, darganfuwyd nifer o bethau newydd i wella cynaladwyedd yr ysgol. Yr ydym nawr hefyd wedi sicrhau bod y strwythur staffio yn cydfynd â'r gyllideb. Yn	At the start of the informal review, in September 2019, we accepted that lower pupil numbers were indicative of the need for change, and thanks to the impetus of the initial meetings, a number of new things were discovered to improve the sustainability of the school. We have now also made sure that the staffing structure matches the budget. During challenging times, Ysgol Abersoch has seized the		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad fod Ysgol Abersoch bellach wedi balansio ei chyllideb ar gyfer 2020-21. Serch hynny, dylid nodi fod Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio. Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 oedd £52,582. Y gost fesul disgybl yn Ysgol	*The Council notes the comment that Ysgol Abersoch has now balanced its budget for 2020-21.* *However, it should be noted that Ysgol Abersoch receives an additional amount to the usual financial allocation via the minimum staffing protection policy. The total amount during the 2020-21 financial year was £52,582. The cost per pupil at Ysgol Abersoch in the 2020-21 financial year*

		ystod cyfnod heriol, mae Ysgol Abersoch wedi bachu ar y cyfle ac wedi cyflwyno mesurau cynaliadwy i wynebu niferoedd disgyblion isel	opportunity and introduced sustainable measures to address low pupil numbers		Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd £17,404 - y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl ar gyfer y un flwyddyn oedd £4,198. Pwysleisir na benderfynwyd ymgynghori ar yr opsiwn i gau Ysgol Abersoch ar sail materion cyllidol yn unig. Mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys: • Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol. • Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.) • Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3) • Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran. • Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed). • Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.	*was £17,404 – the county average cost per pupil for the same year was £4,198.* *It is emphasized that it was not decide to consult on the proposal to close Ysgol Abersoch on the basis of financial issues alone.* *The school has been prioritised for a review of the educational provision as it faces a number of challenges. Pupil numbers at the school have reduced consistently since 2016 and have been fragile for some time. Consequently, it is likely that the school is facing increasing challenges, including:* • *Low pupil numbers: In September 2020, there were eight full-time pupils and two part-time nursery pupils registered at the school.* • *Projected numbers: It is anticipated that the numbers will continue to be low over the coming years (September 2021 = 10; September 2022 = 12; September 2023 = 12.)* • *High percentage of surplus places: Based on the figures for September 2020, there were 76% surplus places at the school (a total of 26 (R-Yr.3))* • *Small class sizes: The 10 pupils are taught in one mixed-age class.* • *Broad age ranges within classes: The pupils are taught in one class with an age range of up to 5 years (3-8 years).* • *Pupil residence: 2020 data shows that 26 3-8 year old children live in the Ysgol Abersoch catchment area with 21 (81%) of them attending schools outside the catchment area.*
407		8.2. Cyllideb Ymrwymodd Ysgol Abersoch i falanshio ei chyllideb yn nhermau dyraniad ariannol a strwythur staffio. Datryswyd unrhyw ddiffygion cyllidebol ar gyfer 2021 – 2022 erbyn hyn hefyd.	8.2. Budget Ysgol Abersoch undertook to balance its budget in terms of financial allocation and staffing structure. Any budget deficits for 2021 - 2022 have now also been resolved.			
408		5.3. Cryfderau a Gwendidau'r Sefyllfa Bresennol "Ni fyddai dyraniad ariannol yr ysgol yn cynnal y strwythur staffio presennol yn y dyfodol" Datryswyd hyn i sicrhau bod y gyllideb bellach yn mantoli wrth symud ymlaen.	5.3. Strengths and Weaknesses of the Current Situation "The financial allocation of the school would not maintain the current staffing structure in the future" This has been resolved to ensure the budget now balances moving forward.			
409		5.3. Cryfderau a Gwendidau'r Sefyllfa Bresennol Mae Ysgol Abersoch yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad ariannol arferol trwy'r polisi isafswm staffio. Polisi Cyngor Gwynedd yw hwn ac nid gwendid.	5.3. Strengths and Weaknesses of the Current Situation Ysgol Abersoch continues to receive an additional sum to the usual financial allocation via the minimum staffing policy. This is Gwynedd Council policy and not a weakness.			
		6. Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant *Assessment against the Well-being Act*				
410		Anghytunir â'r datganiad yr ystyriwyd saith nod y Ddeddf Llesiant – gan nad oes tai fforddiadwy i deuluoedd yn y pentref ac nad yw'n bosib cynnal gweithgarwch cymunedol oherwydd mae'r athrawon yn byw tu allan i'r gymuned (fel yn achos Ysgol Aber-soch) ac ni fu cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt.	Disagree with the statement that the seven aims of the Well-being Act were considered - because there are no affordable family homes in the village and it is not possible to carry out community activity because the teachers live outside the community (as in the case of a School Abersoch) and were not directly linked.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*
411		Byddai cydnabyddiaeth o bandemig Covid-19 yn briodol, gan gyfeirio at "y gallu i addasu i newid" Mae'r pandemig wedi arwain ac yn arwain at newidiadau cymdeithasol. Mae bywyd gwledig yn dod yn fwy deniadol wrth i fwy a mwy o bobl weithio gartref, maent yn llai cyfyngedig o ran lle sy'n rhaid byw; efallai y byddem yn disgwyl i ail gartrefi yn Abersoch ddod yn gartrefi cyntaf gyda gofynion addysg cysylltiedig. Mae'r adroddiad yn methu â chydnabod hyn yn ei niferoedd capasiti.	An acknowledgement of the Covid-19 pandemic would be appropriate, with reference to "the ability to adapt to change" The pandemic has led and is leading to changes in society. Rural life is becoming more attractive as more and more people work from home, they are less restricted as to where they must live; we might expect second homes in Abersoch to become first homes with attendant schooling requirements. The report fails to acknowledge this in its capacity numbers.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Nid oes sicrwydd y byddai newidiadau demograffig i'r dyfodol yn cynyddu niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch.	*The Council notes the comment.* *There is no guarantee that future demographic changes would increase pupil numbers at Ysgol Abersoch.*
412		Collir y gallu i blant a rhieni gerdded i'r ysgol a chael mynediad at adnoddau naturiol fel y traeth ac ati ar droed yn ystod y diwrnod ysgol. Dim ond un tymor o wersi nofio y mae ysgolion eraill yn eu cynnig, sgil hanfodol a phwysig i blant sy'n byw mewn ardal arfordirol. Yng nghyd-destun Covid-19 mae grwpiau bach wedi'u creu mewn ysgolion i reoli haint, gan awgrymu felly bod ysgolion bach yn fwy diogel. Ni chydnabyddir hyn.	The ability for children and parents to walk to school and access the natural resources such as the beach etc on foot during the school day will be lost. Other schools only offer one term of swimming lessons, a vital and important skill to children living in a coastal area. In the context of Covid-19 small groups have been created within schools to control infection, thus implying that small schools are safer. This is not acknowledged.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Mae pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn gweithdrefnau priodol o ran rheolau ymbellhau cymdeithasol ac awyru oherwydd y coronafirws. Anogir pob ysgol i wneud defnydd o'r adnoddau awyr agored lleol.	*The Council notes the comment.* *All schools in Gwynedd follow appropriate procedures in relation to social distancing rules and ventilation due to the coronavirus. All schools are encouraged to make use of local outdoor resources.*
413		Trwy weithredu'r cynnig bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau hyn rhwng cymuned Abersoch ac Ysgol Sarn Bach trwy gynnal trafodaethau a fyddai'n hyrwyddo cynnwys cymuned Abersoch yng ngweithgaredd cymunedol yr ysgol" Unwaith eto rydym yn cwestiynu dilysrwydd y datganiad	By implementing the proposal there will be an opportunity to build on these links between the Abersoch community and Ysgol Sarn Bach by holding discussions that would promote the inclusion of the Abersoch community in the community activity of the school" Again we question the validity of this statement. Outside of the fact that		Cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau er mwyn cymharu'r effaith tebygol y byddent yn ei gael ar y cymunedau dan sylw. Mae copi o'r adroddiad llawn wedi ei gynnwys yn y pecyn cefndirol ar wefan y Cyngor: ww.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg	*The Council completed a community impact assessment of the options in order to compare the impact they would have on the communities in question. A copy of the full report is included in the background pack on the Council's website www.gwynedd.llyw.cymru/modernisingeducation.*

		hwn. Ar wahân i'r ffaith bod plant Abersoch yn mynychu'r ysgol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gysylltiadau sydd gan Ysgol Sarn Bach â chymuned Abersoch. Gall union natur y cynnig i gau Ysgol Abersoch ymrannu, gan greu drwg deimlad o fewn y gymuned a chreu anghytgord ac anghytuno.	Abersoch children attend the school, we are not aware of any links that Ysgol Sarn Bach has with the Abersoch community. The very nature of the proposal to close Ysgol Abersoch is potentially divisive, driving a wedge between communities and creating discord and disagreement.		Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned. Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.	*When developing any proposals relating to education modernisation, full consideration must be given to the potential impact on the community. The assessment noted that by closing Ysgol Abersoch, some elements of community events would be affected.* *To mitigate any potential negative impact on the community should the proposal be implemented, the assessment notes the importance of ensuring that the community of Abersoch is included in the activities of the alternative school, and to encourage community collaboration between the alternative school and the Abersoch community, where appropriate.*
414		Unwaith eto mae'r thema hon yn amlwg, ac eto ni chyflwynwyd tystiolaeth o ran sut y cynlluniwyd hyn na sut y byddai'n digwydd.	Yet again this theme is apparent, yet no evidence has been put forward as to how this has been planned and would take place.		Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.	*The Council notes the comment.*
415		Ni fydd cau ysgol Gymraeg mewn pentref lle mae'r Gymraeg dan bwysau yn "hyrwyddo ac amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg." Yr ysgol yw'r hysbyseb orau a'r unig hysbyseb ar gyfer yr iaith Gymraeg, treftadaeth a diwylliant yn y pentref. Mae'r effaith hon bron yn amhosib ei chyfrifo mewn termau ariannol. Bydd bodolaeth y Gymraeg fel iaith fyw yn cael ei hisraddio gan na fydd ymwelwyr Abersoch yn clywed yr iaith naturiol yn cael ei defnyddio. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yng nghanol y pentref ac mae prif faes parcio'r pentref wrth ymyl yr ysgol. Mae'r ysgol yn symbol o'r Gymraeg, yn weledol ac yn glywedol gan y plant y tu allan yn ystod y diwrnod ysgol.	Closing a Welsh medium school in a village where the Welsh language is under pressure will not "promote and protect culture, heritage and the welsh language." The school is the best and only advertisement for the Welsh language, heritage, and culture in the village. This impact is almost impossible to calculate in monetary terms. The existence of Welsh as a living language will be relegated as visitors to Abersoch will not hear the natural language being used. The school is in the centre of the village and the main village car park is adjacent to the school. The school is a beacon of the Welsh language, both visually and audibly through the children being outside during the school day.		Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion er gwaethaf pa ysgol y byddent yn dewis mynychu. Yn ogystal, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg. Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr aur y Siarter Iaith Gymraeg yn 2019. Mae'n hollbwysig felly bod y cynnig arfaethedig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn.	*In accordance with the Schools Organisation Code 011/2018, an assessment was completed of the linguistic impact of the proposal to close Ysgol Abersoch and educating the children at Ysgol Sarn Bach. The assessment is available on the Council website www.gwynedd.llyw.cymru/modernisingeducation . It is concluded in this assessment that no negative impact on the Welsh language is anticipated, should the proposal be realised. This is specifically so as the alternative school offers a Welsh-medium education, as currently offered at Ysgol Abersoch. The Language Policy is the same for all Gwynedd primary schools; therefore, the provision would be the same, regardless of which school they would choose to attend. In addition, it appears that the linguistic situation at Ysgol Sarn Bach is strong. With 57% of Ysgol Sarn Bach pupils coming from Welsh speaking homes. In comparison, 33% of Ysgol Abersoch pupils come from Welsh speaking homes.* *Ysgol Abersoch has worked hard to develop the learners' bilingual skills and promote the importance of Welsh culture. The school managed to win the gold Welsh Language Charter in 2019. Therefore, it is all important that the proposal acknowledges the need to support and continue with this work.*
[redacted]

Get Outlook for iOS

--
Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd

This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council
Marcio fel sbam / Mark it as spam
Gwahardd y anfonwr / Blacklist sender

84

Nid yw'r ymatebydd yn fodlon i'r ymateb gael ei gyhoeddi

84

The respondent does not want the response to be published

Ffurflen Ymateb
Cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021,yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Eich Manylion:

Dyddiad: 21.02.2021

Enw: [redacted]

Cyfeiriad e-bost: [redacted]

Rwy'n ymateb fel: (ticiwch yr ymateb perthnasol)

- ◯ Rhiant
- ◯ Staff
- ◯ Llywodraethwr
- ◯ Disgybl
- ◯ Arall (nodwch) Cyfaill yr ysgol

Os ydych yn dymuno derbyn hysbysiad pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori, ticiwch y blwch priodol isod

- [x] Hoffwn gael fy hysbysu
- [ ] Na, nid wyf yn dymuno cael fy hysbysu

Yn unol â gofynion [redacted] diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad.

Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi ✓yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

* Dewiswch **un** o'r atebion canlynol

- [ ] Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb yn llawn, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol
- [x] Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol
- [ ] Nid wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

Anfonwch eich ymateb at:
Swyddfa Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,
Caernarfon
LL55 1SH
*neu*ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

Dyddiad cau: 13:00 ar ddydd Mawrth, 23Chwefror 2021

Nodwch mai sylwadau yw'r ymatebion ac nidgwrthwynebiad i'r cynnig.

Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.

Ffurflen Ymateb

Cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021,yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Sylwadau:

Gweler fy llythyr sy' wedi'i atodi.

86

[redacted]

Moderneiddio Addysg

Adran Addysg

Cyngor Gwynedd

Caernarfon

LL55 1SH

20/02/2021

Annwyl Foderneiddio Addysg,

Ymgynghoriad Statudol Ysgol Abers[redacted]

Mae Ysgol Abersoch yn unigryw ac yn galon i bentref Abersoch. Rhoddwyd pob math o ddadleuon gerbron gan y ddwy ochor o blaid ac yn erbyn cau yr ysgol ers i'r broses ymgynghori i'w chau ddechrau.

Nid oes angen profi mor ganolog yw'r ysgol fechan hon i'r pentref – mae gymaint o dystiolaeth eisoes wedi'i chyflwyno am hyn, fel y gallaf innau fel cyn-ddisgybl sydd wedi cefnogi'r ysgol drwy'r blynyddoedd dystio.

Nid oes cwestiwn am safon yr addysg a ddarperir. Mae addysgu plant mewn ysgol fechan yn gostus ond mae cost ei chau ac effaith hynny yn llawer mwy pellgyrhaeddol. Mae'r ysgol yn rhan greiddiol o ddyfodol pentref Abersoch – lle mae diwylliant, yr iaith Gymraeg, ffyniant economaidd, 'hawl i fyw adra', tai fforddiadwy ac addysg i gyd yn cydblethu – gwerthoedd sy'n ganolog i Gyngor Gwynedd fe gredaf. Onid dyletswydd Cyngor Gwynedd yw edrych ar y darlun cyflawn ac ar ffyniant y pentref cyfan yn hytrach nag ystyried dyfodol yr ysgol allan o gyd-destun ac ar ei phen ei hun? Pe gwneir hyn byddai cyfle i gynnig rhywbeth arloesol, unigryw a gwahanol yn Abersoch.

Anodd credu fod pob opsiwn posib dros gadw'r ysgol ar agor wedi'i diystyru a'u gwrthod – dewisiadau cadarn megis ffederaleiddio, sefydlu ysgol draeth, addysgu'r plant nes eu bônt yn 9 oed cyn trosglwyddo.

Gwych fyddai gweld Cyngor Gwynedd yn gwneud safiad, yn arwain y ffordd ac yn dangos blaengarwch. Erfyniaf arnoch ail-ddechrau â dalen lân ond y tro yma ystyried rhesymau cadarnhaol dros gadw'r ysgol ar agor yn hytrach na phwysleisio'r rhesymau dros ei chau. Mae'n eithriadol bwysig credu a buddsoddi yn nyfodol yr ysgol amhrisiadwy hon a thrwy hynny ym mhentref Abersoch.

Yn gywir,

[redacted]

87

[redacted] (ADDYSG)

Oddi wrth: Erin haf Parry-hughes <[redacted]>
Anfonwyd: Dydd Llun, 22 Chwefror 2021 13:24
At: Moderneiddio Addysg
Copi: [redacted]
Pwnc: Ysgol Aberosch

Fflag Atgoffa: Camau Pellach
Statws Fflag: Wedi gorffen

[redacted]

Annwyl Syr/Madam

Ysgrifennwn atoch fel dwy gyn ddisgybl Ysgol Abersoch. Rydym yn drist iawn i glywed bod yna fwriad i gau ein hysgol leol.

Cawsom amser hapus iawn yno gyda'n hathrawon caredig Mrs Lorina Hughes a Mrs Rhian Williams. Yn yr haf cynhelid mabolgampau yn y cae a gwahoddwyd y rhieni i'n gwylio. Cawson lawer tro i lan y mor ac yn y gwanwyn aethom gyda'r Urdd oedd yn cyfarfod yn yr ysgol i Gastellmarch i weld yr wyna. Gan fod maes parcio'r neuadd drws nesa i'r ysgol cawsom weld yr arddangosfa hen geir -diddorol.
Wrth gwrs yn y neuadd y cynhelid ein cyngerdd nadolig.
Wrth gwrs arwahan i'r gwersi arferol, y canu, y crefftau ac ati, deuai y parchedigion Andrew Jones ac Olwen Williams i roi stori o'r beibl yn y boreau.

Biti mawr fuasai cau ysgol mor dda.

Yr eiddoch yn gywir

Fflur ac Erin Parry

--

Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd
This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council
Marcio fel sbam / Mark it as spam
Gwahardd y anfonwr / Blacklist sender

88

[redacted]

Swyddfa Moderneiddio Addysg
Adran Addysg,
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
LL55 1SH

22/02/21

Annwyl Moderneiddio Addysg,

Rwy'n Llywodraethwr, yn gyn-ddisgybl ac yn rhiant, ac rwy'n gwrthwynebu'n bersonol yn y modd cryfaf i'r bwriad i gau Ysgol Abersoch.

Ysgrifennaf hefyd fel ymgyrchydd, a wrthdystiodd yn erbyn y cynlluniau ad-drefnu ysgolion a gynigiwyd dros ddegawd yn ôl, pan oedd fy mhlant fy hun yn ddisgyblion yn Ysgol Abersoch. Rwy'n mawr obeithio, ar yr achlysur hwn, y gellir dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen i sicrhau dyfodol yr ysgol bentref fach annwyl hon, sy'n chwarae rhan mor bwysig yn ein cymuned.

Fodd bynnag, wrth wylio'r gwe ddarllediad y cyfarfod cychwynnol y Cabinet, lle ceisiwyd caniatâd i gynnal Ymgynghoriad Statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch, cefais sioc o weld nad oedd bron dim ymrwymiad gan aelodau'r Cabinet ar y mater pwysig hwn, cyn i'r pleidleisiau gael eu castio. Roeddwn wedi disgwyl yn naïf gweld rhywfaint o drafodaeth neu ddadl yn digwydd. Yn anffodus, cadarnhawyd fy amheuon wrth weld y diffyg diddordeb hwn bod y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r Ymgynghoriad eisoes wedi'i wneud, ymhell cyn i aelodau'r Cabinet ddod i mewn i'r cyfarfod, ac ar ben hynny, bod yr holl broses wedi bod yn ymarfer ticio blwch o'r dechrau, gyda'r cyngor yn mynd trwy'r cynigion i roi'r argraff o ymgynghori ystyrlon.

Rwy'n dal i fod yn argyhoeddedig am reswm da pam nad oedd un opsiwn a awgrymwyd gan y rhanddeiliaid yn haeddu cael ei gynnwys yn y tri opsiwn olaf. Felly, gobeithio eich bod yn deall pam ei bod yn anodd cael gwared â'r teimlad, er gwaethaf y broses adolygu anffurfiol, mai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch fu'r unig eitem ar yr agenda o'r dechrau. Mae'r penderfyniad a'r brys i gyflawni'r nod hwn wedi cael ei baratoi i anwybyddu'r cyfyngiadau digynsail ar gymdeithas pandemig, gan fwrw ymlaen â phroses sydd, er ei bod yn cael ei chaniatáu'n gyfreithiol, yn cael ei hystyried gan lawer yn foesol anghywir.

Rwyf yn ei chael hi'n anodd i ddod o hyd i unrhyw beth yn y dogfennau sy'n taflu goleuni ar lwyddiant neu gyflawniadau'r ysgol, ac nid oes unrhyw gyfeiriad at amgylchiadau ac effaith anghyffredin Covid 19, heb sôn am oblygiadau tymor hir Coronavirus a ddylai, yn sicr, gael ei adlewyrchu yn y strategaeth a chynllunio adnoddau o hyn ymlaen?

Mae'r modd diystyriol y mae potensial y Cylch Ti a Fi a Cylch Meithrin newydd wedi eu trin yn destun pryder mawr. Mae hyn yn fy arwain i gwestiynu didwylledd bwriad y Cyngor, a fynegwyd yng nghyfarfod rhanddeiliaid cyntaf yr adolygiad anffurfiol, i gefnogi a helpu'r ysgol i ddod o hyd i ffyrdd o gynyddu nifer y disgyblion i lefel fwy cynaliadwy. Mae ein gweithredoedd a'n hawgrymiadau cadarnhaol mewn ymateb i hyn, gan gynnwys y mentrau a gefnogir gan Mudiad Meithrin, ynghyd â chysyniad Ysgol y Traeth, ac ychwanegu blwyddyn ysgol ychwanegol, i gyd yn opsiynau sydd â siawns go iawn o gael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd tymor hir Ysgol Abersoch, a minnau, ynghyd â llawer o rai eraill, yn credu y dylid rhoi cyfle teg iddynt ffynnu.

Rwy'n ystyried bod llawer o gynnwys y dogfennau ymgynghori yn cael ei gyflwyno mewn modd camarweiniol ac annheg. Er enghraifft, mae'r ystod oedran yn Ysgol Abersoch dair blynedd yn llai nag ystod oedran yr ysgolion cyfagos, y mae'n cael ei chymharu'n gyson â hi ar draws ystod o ddata, sy'n golygu nad yw llawer o'r wybodaeth a gyflwynir yn cymharu tebyg â thebyg, gan ei rhoi ar y gorau yn ddryslyd iawn, ac ar y gwaethaf bron yn ddiystyr. Sylwaf fod data ar ddefnydd y Gymraeg a gyflwynir yn y dogfennau drafft, wedi cael eu ddiystyru o blaid set wahanol o ddata sy'n fwy ffafriol i'r naratif gwrth Ysgol Abersoch, a thrwy hynny ychwanegu cryfder at y ddadl sy'n ceisio cyfiawnhau'r cynnig i gau'r ysgol.

Rwyf wedi bod yn siomedig iawn o weld natur arwynebol yr Asesiadau Effaith Cymunedol ac laith yn benodol, sy'n ymddangos yn barod heb unrhyw fewnbwn cymunedol go iawn. Yn syml, nid wyf yn derbyn y canlyniad na fydd unrhyw effaith ar y Gymraeg yn Abersoch pe bai'r ysgol yn cau. Mae'r tablau yn yr asesiadau hyn yn parhau i gynnwys gwybodaeth ffug, er enghraifft nid oes eglwys na chapel yn Sarn Bach. Fel cyn-ddisgybl Ysgol Sarn Bach, cefais fy synnu o ddarganfod bod yr ysgol, yn ôl map yn yr adroddiad, wedi symud i gaeau Fferm Ty Newydd. Mae gwallau mewn ffeithiau a gwybodaeth mor sylfaenol yn parhau i danseilio fy hyder ym meysydd mwy cymhleth yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sefyllfa bryderus iawn yn Ysgol Llanbedrog, lle gwelwn niferoedd y disgyblion ymhell dros gapasiti'r ysgol, gan arwain at sefyllfa lle nad yw plant o'r pentref hwnnw'n gallu mynychu eu hysgol bentref eu hunain. Mae hyn hefyd yn effeithio ar ysgolion cyfagos fel Ysgol Abersoch lle mae capasiti, ac mae'n ymddangos yn eithaf rhyfeddol i mi fod y sefyllfa hon wedi cael parhau i gael ei gwirio. Mae'r Adran Addysg yn rhoi pwyslais mawr ar ddata lleoedd dros ben a chapasiti ysgol, yr wyf yn deall sy'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla. Ymddengys bod hyn wedi cael ei ddiystyru'n llwyr yn achos Ysgol Llanbedrog, a byddwn yn awgrymu y gallai hyn arwain at effaith ar ganlyniadau dysgu disgyblion, heb sôn am faterion iechyd a diogelwch posib gorlenwi? Os nad yw data gallu yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig mewn gwirionedd, yna pam y dylid ei ddefnyddio fel ffactor wrth adeiladu'r achos i gau ysgol?

Derbynnir bod ysgolion gwledig yn ôl eu natur bron bob amser yn ysgolion bach, ond nid yw eu maint yn arwydd o'u pwysigrwydd i'w cymuned. Yn ei 'Study of Economics as if People Mattered', ysgrifennodd E F Schumacher 'Small is Beautiful', ac mae'n ymddangos yn amser priodol i ychwanegu 'and Safer' nawr, ar ôl y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig. Nid oes

unrhyw adran ar fantolen i roi gwerthoedd lles cymuned neu ddiwylliant, oherwydd yn syml, nid yw'n bosibl cloriannu pwysigrwydd ehangach ysgol mewn termau ariannol yn unig. Nid oes unman yn fwy amlwg nag yn achos Abersoch, cymuned sy'n drech nag ail gartrefi, lle mai'r ysgol fwy neu lai yw'r unig symbol sy'n weddill o iaith, diwylliant a threftadaeth Gymraeg yn y pentref.

Mae Ysgol Abersoch mewn sefyllfa dda yng nghanol y pentref, gan alluogi mynediad hawdd i gynifer o adnoddau naturiol heb faich costau cludo gwaharddol, ac mae'r disgyblion hyd yn oed yn defnyddio opsiwn economaidd ac amgylcheddol gyfeillgar y gwasanaeth bws cyhoeddus i fynychu gwersi nofio wythnosol yn Pwllheli. Mae cynaliadwyedd cymunedau gwledig ym mhobman yn cael eu bygwth gan gostau cynnal adnoddau pwysig fel capeli, llyfrgelloedd a neuaddau pentref. Mae ein pentref yn hynod ffodus bod Neuadd Abersoch yn cael ei ariannu'n dda iawn gan refeniw o'i faes parcio, ac mae'n fraint i'r ysgol gyfagos fwynhau'r defnydd am ddim o gyfleusterau rhagorol y neuadd. Mae gan y neuadd ddigon o le ar gyfer gweithgareddau dan do, gan gynnwys llwyfan gwych, sy'n cynnig cyfle gwych i'r disgyblion arddangos eu sgiliau perfformio mewn dathliadau amrywiol trwy gydol y flwyddyn, ond yn enwedig yn y Cyngerdd Nadolig, lle gwahoddir y gymuned gyfan iddo. Mae caeau chwarae'r pentref, dim ond taith gerdded fer i ffwrdd hefyd ar gael am ddim i'r ysgol, lle cynhaliwyd diwrnodau chwaraeon yno yn y gorffennol.

Mae Ysgol Abersoch hefyd yn gweithredu fel pont werthfawr, gan groesawu ac integreiddio teuluoedd sydd newydd gyrraedd yng nghalon ein cymuned amrywiol, gan annog a hyrwyddo lles dwyieithrwydd a dathlu diwylliant Cymru.

Byddai cau Ysgol Abersoch yn torri parhad cymuned a chysylltiadau cenedlaethau o deuluoedd a addysgir yn yr ysgol bentref hon, y mae'n anrhydedd i rai o'u disgynyddion wasanaethu ar fwrdd presennol y llywodraethwyr. Rydym wedi ein hymrwymo gan ymdeimlad cyffredin o dreftadaeth ac yn perthyn i'r lle arbennig hwn, ac mae ein hargyhoeddiad cryf fod Abersoch yn haeddu ysgol, ynghyd â phenderfyniad i beidio â cholli'r Gymraeg fel iaith fyw yng nghanol y pentref.

Mae cau ysgol yn fater difrifol a byddwn yn disgwyl cwestiynau difrifol, a thrafodaeth heriol dros fanylion y dogfennau ymgynghori, ynghyd ag ystyriaeth deg o'r materion a godwyd gan randdeiliaid a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.

Rwy'n mawr obeithio y bydd y rhai sydd mewn swyddi grym yn bachu ar y cyfle i ddangos eu cefnogaeth frwd i'r Gymraeg a gwerth cymuned trwy ddod o hyd i ffordd i gadw Ysgol Abersoch ar agor er budd y cenedlaethau o blant i ddod.

Yr eiddoch yn gywir

Margot Jones

[redacted]

Swyddfa Moderneiddio Addysg
Adran Addysg,
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
LL55 1SH

22/02/21

Dear Moderneiddio Addysg,

I am a Governor, former pupil and parent, and I object personally in the strongest terms to the proposed closure of Ysgol Abersoch.

I also write as a campaigner, who protested against the school reorganisation plans that were proposed over a decade ago, when my own children were pupils at Ysgol Abersoch, and I sincerely hope that on this occasion, a positive way forward can be found to secure the future of this dearly loved small village school that plays such an important role in our community.

However, on watching the recording of the initial Cabinet meeting, in which permission was sought to hold a Statutory Consultation on the proposal to close Ysgol Abersoch, I was shocked to see almost no engagement from Cabinet members on this important issue, prior to the votes being cast. I had naively expected to see some discussion or debate take place. Unfortunately, witnessing this lack of interest confirmed my suspicions that the decision to go forward with the Consultation had already been made, well before the Cabinet members entered the meeting, and furthermore, that the whole process has been a tick box exercise from the beginning, with the council just going through the motions to give the impression of meaningful consultation.

I remain to be convinced of a good reason why not a single option suggested by the stakeholders merited inclusion in the final three options. Therefore, I hope you understand why it is hard to shake the feeling that, despite the informal review process, the proposal to close Ysgol Abersoch has actually been the only item on the agenda from the start. The determination and urgency to achieve this aim has been prepared to ignore the unprecedented restrictions on society of a pandemic, forging ahead with a process which, although legally allowed, is considered by many to be morally wrong.

I am hard pressed to find anything in the documents that shines a light on the success or achievements of the school, nor is there any reference to the extraordinary circumstances and impact of Covid 19, let alone the long-term implications of Coronavirus which should surely be reflected in strategy and planning of resources from now on?

The dismissive manner in which the potential of the newly established Cylch Ti a Fi and Cylch Meithrin has been treated, is a cause of great concern. This leads me to question the sincerity of the Council's intention, expressed in the first stakeholder meeting of the informal review, to support and help the school to find ways to increase pupil numbers to a more sustainable level. Our positive actions and suggestions in response to this, including the Mudiad Meithrin supported intiatives, along with the Beach School concept, and the addition of an extra school year, are all options that have a real chance of positively impacting the long term sustainability of Ysgol Abersoch, and I, along with many others, believe they should be given a fair chance to flourish.

I consider much of the content of the consultation documents to be presented in a misleading and unfair manner. For example, the age range at Ysgol Abersoch is three years less than the age range of the neighbouring schools, with whom it is constantly compared across a range of data, meaning a lot of the information presented is not comparing like with like, rendering it at best very confusing, and at worst almost meaningless. I notice that some of the data on the use of the Welsh language presented in the draft documents, has been disregarded in favour of a different set of data that more favourably suits the anti Ysgol Abersoch narrative, thereby adding strength to the argument which tries to justify the proposal to close the school.

I have been very disappointed to see the superficial nature of the Community and Language Impact Assessments in particular, which appear to be prepared without any actual community input. I simply do not accept the finding that there will be no impact on the Welsh language in Abersoch if the school were to close. The tables in these assessments continue to contain false information, for example there is no church or chapel in Sarn Bach. As a former pupil of Ysgol Sarn Bach, I was very surprised to discover that, according to a map in the report, the school has moved into the fields of Fferm Ty Newydd. Inaccuracies in such basic facts and information continue to undermine my confidence in the more complex areas of the report.

The report highlights a very worrying situation in Ysgol Llanbedrog, where we see pupil numbers well over school capacity, leading to a situation where children from that village are not able to attend their own village school. This also impacts neighbouring schools such as Ysgol Abersoch where there is capacity, and it seems quite extraordinary to me that this situation has been allowed to continue unchecked. The Education Department places great emphasis on data of surplus places and a school's capacity, which I understand is calculated using a formula. This appears to have been completely disregarded in the case of Ysgol Llanbedrog, and I would suggest this could lead to an impact upon pupil learning outcomes, not to mention possible health and safety issues of over-crowding? If in fact capacity data is not considered particularly important, then why should it be used as a factor in building the case to close a school?

It is accepted that rural schools by their nature are almost always small schools, but their size is not an indication of their importance to their community. In his 'Study of Economics as if People Mattered', E F Schumacher wrote 'Small is Beautiful', and it seems an appropriate

time to now add '*and Safer*', after the lessons learned from the pandemic. There is no section in a balance sheet in which to put the values of wellbeing of a community or culture, because it is simply not possible to quantify the wider importance of a school in purely financial terms. Nowhere is this more apparent than in the case of Abersoch, a community which is overrun with second homes, where the school is virtually the only remaining symbol of Welsh language, culture and heritage in the village.

Ysgol Abersoch is well placed in the centre of the village, enabling easy access to so many natural resources without the burden of prohibitive transport costs, and the pupils even use the economic and environmentally friendly option of the public service bus to attend weekly swimming lessons in Pwllheli. The sustainability of rural communities everywhere is threatened by the costs of maintaining important resources such as chapels, libraries and village halls. Our village is extremely fortunate that Neuadd Abersoch is very well funded by revenue from its car park, and the adjacent school is privileged to enjoy the free use of the hall's excellent facilities. The hall has plenty of room for indoor activities, including a marvelous stage, which offers the pupils a wonderful opportunity to showcase their performance skills in various celebrations throughout the year, but especially at the Christmas Concert, to which the whole community is invited. The village playing fields, just a short walk away are also freely available to the school, which has hosted sports days there in the past.

Ysgol Abersoch also acts as a valuable bridge, welcoming and integrating newly arrived families into the heart of our diverse community, encouraging and promoting the benefits of bilingualism and celebrating Welsh culture.

The closure of Ysgol Abersoch would sever the continuity of community and connections of generations of families educated at this village school, some of whose descendants are honoured to serve on the present board of governors. We are bound by a shared sense of heritage and belonging to this special place, and our strongly held conviction that Abersoch deserves a school, along with a determination not to lose Welsh as a living language in the centre of the village.

Closing a school is a serious matter and I would expect serious questions, and challenging debate over the detail of the consultation documents, along with fair consideration of the matters raised by stakeholders received during the consultation period, before any decision is made.

I fervently hope that those in positions of power will seize the opportunity to show their wholehearted support for the Welsh language and the value of community by finding a way to keep Ysgol Abersoch open for the benefit of the generations of children to come.

Yours sincerely

Margot Jones

89

Ffurflen Ymateb
Cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021,yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Eich Manylion:

Dyddiad: Chwefror 22ain, 2021

Enw: [redacted]

Cyfeiriad e-bost: [redacted]

Rwy'n ymateb fel: (ticiwch yr ymateb perthnasol)

- ○ Rhiant
- ○ Staff
- ○
- ○
- ○ Capel yr Annibynwyr Aber-soch

Llywodraethwr

Disgybl

X **Arall** (nodwch)

Os ydych yn dymuno derbyn hysbysiad pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori, ticiwch y blwch priodol isod

☒ **Hoffwn gael fy hysbysu**

Na, nid ☐ wyf yn dymuno cael fy hysbysu

Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad.

Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi ✓yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

* Dewiswch **un** o'r atebion canlynol

☐ Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb yn llawn, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol

☒ **Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol**

☐ Nid wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb

Ffurflen Ymateb

Cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

Anfonwch eich ymateb at:
Swyddfa Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,
Caernarfon
LL55 1SH
*neu*ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

Dyddiad cau Sylwadau: 15:00 ddydd Mawrth, 23Chwefror 2021

Nodwch mai sylwadau yw'r ymatebion ac nid gwrthwynebiad i'r cynnig.

Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.

CAPEL YR ANNIBYNWYR ABER-SOCH

[redacted]

Chwefror 22ain, 2021

Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg,
Cyngor Gwynedd,
CAERNARFON,
Gwynedd.
LL55 1SH

Annwyl Moderneiddio Addysg,

YMGYNGHORIAD STATUDOL CAU YSGOL ABER-SOCH

Ysgrifennaf atoch, ar ran Swyddogion ac Aelodau'r Capel, i fynegi ein pryder am y posibilrwydd o gau Ysgol Aber-soch.

Mae'n ysgol brysur, hapus, llawn bywyd sy'n darparu dechrau ardderchog i fywyd ei disgyblion ac mae'n cael, a mwynhau, llwyr gefnogaeth cymuned y pentref. Hyfryd yw cael gweld y plant yn cymryd rhan yn y gwasanaethau – yn y ddau gapel – megis y Nadolig a'r Pasg dros y blynyddoedd. Ni fuasai hyn yn digwydd o symud y plant i Sarn Bach. Byddai'r pentref yn colli'r gweithgareddau, sy'n gwneud cyfraniad mor sylweddol at gadw'r Gymraeg yn fyw ym mhentref Aber-soch.

O gau'r ysgol, dieithrir y plant o'u pentref – yma mae eu lle nhw, yn eu pentref eu hunain ble mae pawb yn adnabod ei gilydd. Dysga a gwerthfawroga plant ysbryd cymunedol gwell mewn ysgol leol ac erys hyn â hwy weddill eu hoes.

Lleihau mae cynulleidfaoedd capeli oherwydd oedran yr aelodau ac, yn sicr, gan nad oes tai fforddiadwy ar gyfer teuluoedd ifainc, cau bydd eu hanes hwythau hefyd. O gau'r ysgol, nid oes gobaith denu aelodau newydd, gan mai tai haf yw'r mwyafrif o dai yn Aber-soch erbyn hyn.

Erfynnir arnoch ailystyried eich penderfyniad o gau Ysgol Aber-soch ar fyrder. O wneud hynny, gobeithir y bydd yn parhau cynnal y gwerthoedd sy'n cydfynd â'r addysg sy'n

greiddiol i flynyddoedd cynnar plant mewn ysgol fach wrth osod seiliau iaith, moeseg a chyfathrebu cymdeithasol a hynny mewn awyrgylch glos, deuluol.

Yn gywir,

[redacted]
ar ran y Swyddogion a'r Aelodau

90

[redacted] (ADDYSG)

Oddi wrth: Dylan Llwyd <[redacted]>
Anfonwyd: Dydd Llun, 22 Chwefror 2021 15:15
At: Moderneiddio Addysg
Pwnc: Ymateb i Adroddiad Ymgynghorol Ysgol Abersoch

Fflag Atgoffa: Camau Pellach
Statws Fflag: Wedi gorffen

I sylw Mr Garem Jackson,

Rwyf yn rhiant i ddau o fechgyn (8 oed a 6 oed) sydd wedi symud ym Medi 2020 i Ysgol Sarn Bach o Ysgol Foel Gron, lle'r roeddwn hefyd yn Llywodraethwr ar ran y Cyngor Cymuned.

Mae fy mab hynaf yn blentyn gydag anghenion arbennig; yn Foel Gron fo oedd yr unig fachgen yn ei flwyddyn, a'i frawd oedd ei ffrind pennaf o'r herwydd Fe benderfynom symud y plant i ysgol gyda gwell trawsdoriad o ran rhyw - penderfyniad anodd gan fod amharu ar yrfa ysgol yn enwedig i blentyn sydd yn cael addysg yn anodd, yn peri pryder.

Roedd fy mhlant hefyd yn mynychu Ysgol Abersoch i fynd i glwb yr Urdd a'r Clwb Crefft, lle roeddent yn mwynhau yn fawr. Oni bai mai dim ond blwyddyn fyddai gan yr hynaf cyn symud i fyny i Sarn Bach - a phoeni am symud plentyn ddwywaith mewn dwy flynedd - yna symud i Ysgol Abersoch yn bendant fyddai ein dewis cyntaf wedi bod. Petai 'opsiwn 9' - a gynigwyd yn y cyfarfod lleol - ar gael, yn Ysgol Abersoch fyddai fy mhlant heddiw.

Fel person lleol sydd wedi byw'r rhan fwyaf o'm bywyd ym mhlwyf Llanengan ac yn gyn-gynghorydd cymunedol ar ward Abersoch, rwyf yn teimlo yn gryf na ddylid cau'r ysgol.

Yn wir fy nghred yw mai gwir fwriad y cyngor yw cau cymaint o ysgolion bach â phosib, i gael rheoli llai o ysgolion mwy. Mae'r polisi wedi bod yn cropian ers degawd a mwy. Canlyniad y bwriad hwn yw'r bwriad i gau Ysgol Abersoch. Torri ar ariannu yw'r nod. Y drafferth efo torri yw'r difrod o dorri gormod. A'r dioddefwyr fydd trigolion cymuned Abersoch.

Mae'r gymuned Gymreig yn Abersoch er yn fach erbyn heddiw, yn un gref. Mae'r Ysgol yn rhan bwysig o hyn, a brofir gyda gwobr aur y Siarter Iaith. Mae polisïau Gwynedd wedi caniatáu i Abersoch fod yn bentref gwyliau (ail gartrefi) mwyaf proffidiol y Sir o ran trethi, a bwriedir cynnydd pellach. Yn ôl ystadegau'r cyngor mae Plwyf Llanengan yn cyfrannu dros 4% o'r dreth a gesglir yng Ngwynedd, dros £3,000,000. Ar ôl tynnu 'presept' y Cyngor Cymuned a chyfraniad yr Heddlu, mae hyn yn gadael dros £2.3 miliwn. Oni ddyliai canran cyfrannol o'r dreth hon fynd i gefnogi cnewyllyn Cymreig y pentref ac adnodd pwysig i drigolion llai breintiedig y ward?

Sylwadau pellach.

Wrth ddarllen pecyn cefndir yr Ymgynghoriad, cefais fy synnu gan **niferoedd** Ysgol Llanbedrog (Appendix 4). Caniatéir iddi drwy ryw ddirgel ffordd, i gymeryd pedwar ar bymtheg o blant yn fwy na'r capasiti! Pedwar ar bymtheg a ddylai fod wedi ei rhannu rhwng ysgolion cyfagos! Dim ond Yr Adran Addysg allai fod wedi rhoi'r caniatád i hyn. Sut bod hyn yn bosib? Sut y caniatáwyd hyn?

O ran '**rhagamcanion** o ddisgyblion' (ffigwr 5.2) a'r dyfyniad oddi tano: "I'r gwrthwyneb, mae niferoedd Ysgol Llanbedrog wedi cynyddu 15% yn yr un cyfnod" - yr un 15% ag mae'r ysgol dros ei chapasiti!

Ni wn sut yr amcangyfrifir y rhagamcanion hyn ond rwy'n mawr obeithio nad ydych yn ceisio cau ysgol ar amcangyfrifiad o lai na 10 plentyn. Rwyf ar ddeall bod nifer o blant o dan oed ysgol yn y cylch - un ar ddeg yn ôl bob sôn. Pe na byddai Ysgol Llanbedrog wedi cael 'caniatád' i fynd dros gapasiti, yna mae'n debyg na fyddai Ysgol Abersoch mewn sefyllfa i chi fod yn dadlau dros ei chau.

Ar y pwynt o '**niferoedd**': rwy'n siŵr nad all Ysgol Foel Gron gynnal 61 o blant, nag Ysgol Abersoch gynnal 42. O adnabod y ddwy ysgol, mae'r ddau ffigwr yna yn swnio'n llawer rhy uchel. A allwch gadarnhau bod y ffigyrau yn 'Appendix 4' yn gywir, rhag ofn eu bod yn gamarweiniol?

Yn gywir,

Dylan Llwyd

--

Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd

This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council
Marcio fel sbam / Mark it as spam
Gwahardd y anfonwr / Blacklist sender

91

Ysgol Abersoch
Lôn Gwydryn
Abersoch
Gwynedd
LL53 7EA

Chwefror 20fed, 2021

Swyddfa Moderneiddio Addysg
Yr Adran Addysg
Cyngor Gwynedd
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Annwyl Moderneiddio Addysg ac Aelodau'r Cabinet,

Hoffem gymryd y cyfle hwn i fynegi ein gwerthfawrogiad o'r sensitifrwydd a estynnwyd atom fel cymuned ysgol yn ystod cyfnod colledion trasig teulu ein Pennaeth y llynedd, ac am y gefnogaeth o gynnal trefniadau cynnal staffio i sicrhau parhad addysg ein disgyblion. Mae'n dyled a'n diolchgarwch yn fawr i dîm gwych staff addysgu a chefnogol Ysgol Abersoch a ddangosodd wydnwch, gofal a sensitifrwydd unedig trwy gydol yr amseroedd heriol yn ystod blwyddyn eithriadol anodd.

Roeddem hefyd yn ddiolchgar o ohirio'r ymgynghoriad tan ar ôl y Nadolig. Fodd bynnag, parhawn fod yn siomedig y teimlwyd ei bod yn addas parhau â'r Ymgynghoriad Statudol, er gwaethaf y pandemig cyfredol a'r cyfyngiadau eithafol cysylltiedig, a'n hataliodd rhag cynnal unrhyw gyfarfod staff, rhieni neu gymunedol nac unrhyw drafodaeth naturiol, effeithiol ar y mater difrifol hwn. Yn bwysicach, efallai, parodd y penderfyniad o barhau gryn ofid i'r plant, sydd wedi gorfod ymdopi nid yn unig ag absenoldeb eu Pennaeth ac amodau ofnadwy Covid ond, hefyd, â'r syniad gofidus o gau eu hysgol. Teimlwn yn bendant na wnaed y penderfyniad hwn er lles y plant.

Treuliwyd cryn amser yn astudio'r ddogfen Ymgynghoriad Statudol, ynghyd â'r Pecyn Cefndir a baratowyd gan yr Adran Addysg, yn fanwl. Gwnaeth swmp sylweddol yr wybodaeth hon hi'n amhosibl i ni ymateb, yn unol â chais yr Adran Addysg, mewn unrhyw ffordd yn ystod penwythnos cyntaf yr ymgynghoriad, yn arbennig pan na dderbyniwyd y copïau caled a ofynnom amdanynt ar Ionawr 6ed yn llawn tan Ionawr 19eg.

Cefnogwn ymateb Cyfeillion Ysgol Abersoch sy'n delio â'r dogfennau Ymgynghoriad Statudol yn fanwl. Felly, er mwyn osgoi ailadrodd, penderfynom ganolbwyntio'r ymateb hwn ar gryfderau presennol yr ysgol a syniadau a mentrau o sicrhau ffordd gynaliadwy ymlaen.

Ysgol Abersoch

Mae'n ysgol gymunedol yng ngwir ystyr y gair, ymhle dysgir plant mewn dosbarthiadau bychain ac y clywir pob llais. Gwneir defnydd llawn o gyfleusterau gwych y Neuadd Bentref gyfagos, a darperir gwersi nofio trwy'r flwyddyn. Ymgysyllta'r disgyblion â'r gymuned trwy gyflwyniad arloesol o'r cwricwlwm a wêl y plant allan yn y pentref yn rheolaidd. Trefnir amrywiol glybiau ar-ôl-ysgol, gan gynnwys Cangen Tudwal o'r Urdd, sy'n cynnig gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Tra bod meintiau dosbarthiadau yn llai

na'r rhai mewn ysgolion cyfagos, buasai'r mwyafrif o bobl yn tystio ei fod o fantais i'r plant yn nhermau canlyniadau addysgol gwell. Mewn cymhariaeth, sylwyd ar ddosbarthiadau mawr mewn ysgolion cyfagos sydd, gyda llaw, yn fwy na maint y dosbarthiadau a nodwyd gan Gyngor Gwynedd ei hun, a allai arwain at ganlyniadau gwaelach. Mae'n syndod y rhodda'r Adran Addysg fwy o bwyslais ar ryngweithiad cymdeithasol na chyrhaeddiad addysgol. Gadawa disgyblion yr ysgol wedi'u cymhwyso â sgiliau angenrheidiol a hyder fel unigolion dwyieithog, yn ymwybodol o ddiwylliant a'r amgylchedd â synnwyr o dreftadaeth a chysylltiad gydol oes â phentref a chymuned Abersoch.

Ar ddechrau'r adolygiad anffurfiol, ym mis Medi 2019, derbyniom bod niferoedd disgyblion is yn arwydd o'r angen am newid, a diolch i symbyliad y cyfarfodydd dechreuol, darganfuwyd nifer o bethau newydd i wella cynaladwyedd yr ysgol. Yr ydym nawr hefyd wedi sicrhau bod y strwythur staffio yn cydfynd â'r gyllideb.

Yn ystod cyfnod heriol, mae Ysgol Abersoch wedi bachu ar y cyfle ac wedi cyflwyno mesurau cynaliadwy i wynebu niferoedd disgyblion isel

Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi

Mae'r Corff Llywodraethol yn falch, a chynhyrfus, o gefnogi a chroesawu'r Cylch Ti a Fi a'r Cylch Meithrin mewn dosbarth pwrpasol yn adeilad yr ysgol, gan y profodd y grwpiau hyn gynnydd yn niferoedd disgyblion mewn ysgolion eraill yn yr ardal. Yn dilyn ymchwil, a chyda cefnogaeth lawn Mudiad Meithrin, ffurfiwyd pwyllgor annibynnol a sefydlwyd y ddwy fenter mewn cyfnod byr iawn, gan agor ym mis Chwefror 2020. Ond, eto, dewisodd yr Adran Addysg anwybyddu unrhyw effaith posibl o'r ymdrechion hyn ar niferoedd y disgyblion.

Cylch Ti a Fi

Grŵp wythnosol sy'n darparu gweithgareddau datblygu plant o'u genedigaeth at oed ysgol, gan ganiatáu rhieni/gofalwyr gyfarfod i gymdeithasu a rhannu profiadau mewn awyrgylch anffurfiol Gymreig sydd, hefyd, yn cynnig cyflwyniad gwych i'r Cylch Meithrin ac Ysgol Abersoch. Mae'n gyfle gwych i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer dysgwyr, annog teuluoedd di-gymraeg ddefnyddio'r iaith am y tro cyntaf â'u plant. Mynychodd, ar gyfartaledd, pymtheg rhiant a'u plant bach y sesiynau ond, yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau Covid, ni lwyddodd y grŵp hwn gyfarfod ers mis Mawrth 2020.

Cylch Meithrin Abersoch

Gall plant ddysgu trwy chwarae a chymdeithasu dan oruchwyliaeth staff proffesiynol, cymwysedig ac ymroddedig. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygiad iaith, personol, cymdeithasol ac emosiynol plant. Dyfarnwyd arian nawdd o £12,500 gan y Mudiad fel rhan o raglen i gefnogi ac annog profiadau'r iaith Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar i gydfynd â Strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i'w gofrestriad fel Sefydliad Corfforedig Elusennol, ynghyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru, mae'r Cylch hefyd yn rhan o'r cynllun 30 awr gofal plant am ddim a chyflogir dau aelod o staff cymwysedig. Enwebwyd y Cylch am wobr yng Ngwobrau Blynyddol y Mudiad Meithrin, sy'n adlewyrchiad gwych o'r gofal plant o'r safon uchaf a gynigir. Cynigia'r Cylch gyflwyniad a throsglwyddiad didrafferth i Ysgol Abersoch. Yn wir, ymunodd dau o gyn-blant y Cylch Meithrin â'r pum disgybl newydd a ddaeth i'r ysgol ym mis Medi 2020.

Chwaraea'r mentrau pwysig hyn rôl hanfodol yn y gymuned, gan ddarparu profiadau a gwasanaethau gofal plant blynyddoedd cynnar ond, y tebygrwydd yw y collir hwy pe caeid yr ysgol.

Mae'r ffaith bod yr Adran Addysg wedi diystyru effaith y Cylch Meithrin ar nifer y disgyblion yn hepgoriad difrifol.

Ysgol Draeth

Cam positif proactif arall yw hyfforddiant a chofrestru fel Ysgol Draeth (Atodiad A) i gywiro tyfiant a chynaladwyedd. Mae lleoliad Ysgol Abersoch yn ddelfrydol ar gyfer datblygu'r cysyniad gwych hwn, drwy gyflenwi ethos a gweledigaeth i'n hysgol. Heb amheuaeth, mae profiad Covid yn cyflymu'r symbyliad o fanteisio ar y cyfle i fabwysiadu'r awyr agored fel adnodd dysgu. Mae gan y cynllun unigryw hwn y potensial i gynnig cyfleoedd cynhyrfus i'w rhannu ag ysgolion eraill y dalgylch, gan fod yn llwyfan i brosiect blaenllaw gosodiad addysg prif ffrwd yng Ngwynedd. Saif Ysgol Abersoch mewn man delfrydol ac unigryw i gerdded i'r traethau, twyni, harbwr ac afon i wneud yn fawr o'r adnoddau naturiol sydd o'i hamgylch er budd pob grŵp oedran. Dysga a datblyga disgyblion yn yr amgylchedd naturiol, gan gynnau eu cymhellion cynhenid i chwilota, creu a chwilfrydedd am y byd o'u hamgylch, gan ysbrydoli meddwlgarwch a dychymyg plant. Darpara'r ysgol gyfoeth o gyfleoedd dysgu o redeg yn ffri ar hyd y traeth, cynnau tân a thostio malws melys, ysgrifennu yn y tywod â phriciau, gwylio adar, dilyn ôl troed anifeiliaid, neidio dros y tonnau, chwilota cynefinoedd crancod, i wylio'r melinau gwynt lleol yn gweithio. Cofrestrwyd ein Pennaeth i fynychu hyfforddiant Ysgol Awyr Agored/Traeth y llynedd ond, yn anffodus, oherwydd profedigaeth deuluol ni allai fynychu ac, yn dilyn hynny, rhoddodd Covid ddiwedd yn syth ar unrhyw gwrs hyfforddiant uniongyrchol yn y tymor byr.

A all Cyngor Gwynedd fanteisio ar y cyfle i archwilio cam i gyfeiriad gwahanol trwy mabwysiadu agwedd arloesol i addysg yng Ngwynedd, gan fanteisio ar ein hadnoddau naturiol

Amcanestyniadau Disgyblion

Awgryma daroganau yr Adran Addysg yr hanera niferoedd disgyblion Ysgol Sarn Bach o fewn y bum mlynedd nesaf. Ymddengys y sylfeinir y rhain ar asesiadau penaethiaid ond, eto, rhagamcana Crynodeb Archwiliad Blynyddol Cyngor Gwynedd 20201 gynnydd mewn poblogaeth o 5.3% rhwng 2020 a 2040 gan gynnwys cynnydd o 0.4% yn nifer y plant. Ymddengys y ffafria'r Adran Addysg ddibynnu ar asesiadau anffurfiol penaethiaid sydd ddim yn byw yn y gymuned i gefnogi ei dadleuon dros gau, yn hytrach na daroganiadau ffurfiol a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Dengys rhagolygon Adran Addysg y Cyngor dueddiad cryn dipyn gwahanol i'r boblogaeth Gymreig ehangach a'r Archwilydd Cyffredinol. O ganlyniad, dylid talu sylw gofalus iawn i ystod realistig o senarios wrth ystyried darpariaeth addysg gynradd yn yr ardal. Pan weithredir rhagamcanion yr Archwilydd Cyffredinol am niferoedd plant, deil niferoedd disgyblion yn ddiwyro wrth gydfynd â blynyddoedd diweddar ac nid ydynt yn gostwng: pe caeir Ysgol Abersoch, dynoda ein dadansoddiad yr addysgir 100% o blant mewn dosbarthiadau gorfaint cymysg (uchafswm maint dosbarth 20) yn y dalgylch lleol. Mae cau Ysgol Abersoch yn ganlyniad o'r Cyngor ddim yn cwrdd â'i amcanion ac yn cyfaddawdu'r ddarpariaeth addysg i'r disgyblion.

Pa mor sicr yw'r dadansoddiad tueddiadau niferoedd disgyblion a adnabyddid yn yr adroddiad?

Blwyddyn 4 Ychwanegol

Derbyniwyd ceisiadau oddi wrth rieni a disgyblion am gynnwys blwyddyn ychwanegol yn Ysgol Abersoch, a chredwn yn gryf y buasai cynnwys addysg Blwyddyn 4 o fudd enfawr mewn sawl ffordd. Rydym yn hapus 'meddwl tu allan i'r blwch' ac ni ddeallwn pam, dim ond oherwydd bod y model hwn yn wahanol i fwyafrif ysgolion, o ganlyniad na allai fod yn bosibl. Cynyddid niferoedd y disgyblion heb effeithio ar ysgolion cyfagos gan mai ond oedi trosglwyddiad y plant i'w hysgol nesaf a wneid. Mae yna grwpio naturiol mewn dosbarthiadau o Flynyddoedd 3 a 4 a Blynyddoedd 5 a 6 mewn ysgolion cyfagos felly, mae'r syniad hwn yn ffitio'n daclus. Ar y cyd â Thi a Fi, gallai addysg i gynnwys Blwyddyn 4 gynnig pecyn hirdymor o ymrwymiad, parhad a sefydlogrwydd i blentyn a'i rieni hyd at wyth neu naw mlynedd. Mae gan hyn botensial mawr i adeiladu cysylltiadau ar bob lefel o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach a, hefyd, buasai'n annog mwy o rieni

wneud Ysgol Abersoch eu prif ddewis. Mae'n aneglur i ni pam yr anghytuna'r Adran Addysg â'r flwyddyn ychwanegol hon na pham y diystyrir dymuniadau'r plant a'r rhieni.

Mae ychwanegu Blwyddyn 4 yn gwneud synnwyr greddfol ac yn unol â dymuniad y plant a'r rhieni?

Ffederaleiddio

Credwn nad archwiliwyd ffederaleiddio'n ddigonol. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi "rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio". Nid yr ydym yn teimlo bod hyn wedi caei ei ystyried yn llawn, yn arbennig o ran Ysgol Llanbedrog ymhle mae niferoedd disgyblion yn fwy na'r capasiti. Nid yw'r ddadl o beidio â dilyn hyn ymhellach wedi'i gyfiawnhau'n ddigonol, gan 'nad oedd tystiolaeth glir yr arweiniai ffederaleiddio at gynnydd mewn niferoedd'. O ganlyniad, cynigwn yr ailystyrir hyn i gydfynd ag Dalgylch, gan fod y criteria, yn ôl 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant yng Ngwynedd' Cyngor Gwynedd wedi'i gyrraedd.

Mae Ffederaleiddio'n gynnig realistig sy'n cyfiawnhau ystyriaeth briodol

Yr Iaith Gymraeg, Diwylliant a Chymuned

Mae dogfennau'r Ymgynghoriad yn cynnig nad effeithir ar yr iaith a'r gymuned yn ormodol o gau Ysgol Abersoch. Eto, nid yw natur yr ymarfer 'ticio'r blwch' hwn yn cynnwys mewnbwn gan y gymuned ac felly ni all ystyried y gwir effaith ar yr iaith a'r gymuned. Mae disgyblion Ysgol Abersoch yn llysgenhadon i ddyfodol yr iaith a'r diwylliant Cymraeg â'r capasiti i effeithio ar wir newid, fel y tystiolaetha eu llwyddiannau yn cynyddu arwyddion dwyieithog yn siopau'r pentref.

Mae parhad y gymuned yn amlwg trwy deulu'r ysgol; mae'r Pennaeth, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, ynghyd â Llywodraethwyr a rhieni yn gyn-ddisgyblion. Profa hyn bwysigrwydd y cysylltiad gydol oes a geir mewn ysgol bentref fach ag unigolion yn fodlon camu i rolau amlwg yn y gymuned a chyfrannu a chryfhau'r edeifion cymdeithasol a ffurfia wneuthuriad cymuned.

Mae'r ysgol yn ffagl i'r iaith a diwylliant Cymreig, gan arddangos ein treftadaeth heddiw a sicrhau ei pherthnasedd yn y dyfodol

Y Cyd-destun Ehangach

Hoffem weld tystiolaeth sy'n dangos y meddyliodd yr Adran Addysg yn arloesol am y materion hyn, yn hytrach na mynd i'r afael ag o â'r un hen ddatrysiad 'go-to' o gau. Tra bod gan yr Adran Addysg gyfrifoldeb rheoli ei chyllideb ysgol yn briodol, teimlwn ei bod yn hynod bwysig i gydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd o wynebu anghenion hir dymor gan ystyried cyd-destun y gymuned ehangach. Adnabyddir Abersoch fel gwir hwb economaidd i dwristiaeth, yn ogystal â chefnogi'r economi ehangach tu allan i ffiniau'r pentref a gellid dadlau bod economi Pen Llŷn yn elwa o lwyddiant Abersoch.

Wynebir yr argyfwng tai parhaus a llym yn Abersoch â chynlluniau am dai fforddiadwy a Chynllun y Cyngor newydd i brynu eiddo i'w rhyddhau ar rent ar gyfraddau fforddiadwy. Anelir Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd at gywiro problemau stoc dai fforddiadwy, problem sy'n arbennig o endemig yn Abersoch. Ariannir y cynllun hwn yn rhannol gan gynnydd yn Nhreth y Cyngor ar dai haf a gwag ac mae Abersoch mewn safle da i elwa ohono. Yn economaidd, mae Abersoch yn mynd o nerth i nerth â chyfleoedd cyflogaeth megis cynllun y gwesty newydd sy'n darogan 150 o swyddi newydd. Gallwn hefyd, yn rhesymol, ddisgwyl weld cynnydd posibl mewn disgyblion o ganlyniad i'r posibilrwydd o berchnogion ailgartrefi symud yn barhaol i'r ardal o ganlyniad i

Covid. Yn ôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, dylem edrych 25 i 50 mlynedd i'r dyfodol a dengys y dangosyddion presennol y dylai Abersoch ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r swyddi newydd a'r cynlluniau ar gyfer tai yn ddangosyddion allweddol at newid y demograffigau lleol; maent yn pwysleisio'r angen i gynnal darpariaeth addysgol yn y pentref a buasai'r penderfyniad o gau'r ysgol yn tanseilio'r mentrau hyn.

Buasai gweledigaeth ehangach ac integredig tu hwnt i arbedion ariannol cau'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd Abersoch i economi Pen Llŷn; yn ddigwestiwn ar gyfer hyn, mae'r pwysigrwydd o gynnal gwasanaethau sylfaenol o dai, cyflogaeth ac addysg.

Diweddglo

Rhoddodd fframwaith ac amserlen yr holl broses gryn bwysau arnom fel grŵp o unigolion gwirfoddol sydd â chyfrifoldebau megis gwaith a theulu. Roedd rhaid i ni ddarparu arweiniad a gweledigaeth oherwydd absenoldeb ein Pennaeth, delio ag effaith Covid ac ymateb i alwadau'r broses ymgynghori, yn ogystal â'u heffaith cyfatebol ar redeg yr ysgol o ddydd-i-ddydd. Er hynny, fel Llywodraethwyr Ysgol Abersoch, gwnaethom ein gorau glas i ymgysylltu'n bositif â'r adolygiad anffurfiol dechreuol a'r Ymgynghoriad Statudol dilynol a, hyd eithaf ein gallu, annog yn weithredol ryngddeiliaid wneud yr un peth.

Cydnabyddwn, o edrych yn ôl, y buasai gweithredu pendant buan i gyflwyno mentrau positif megis Ti a Fi, Cylch Meithrin a'r Ysgol Draeth wedi osgoi'r argyfwng presennol a wyneba'r ysgol. Fel Llywodraethwyr, rydym yn gwneud hynny a allwn i gadw'r ysgol ar agor ond, teimlwn fod y cyfrifoldebau a roddwyd i ni o'r meintioliad mwyaf perthynol i'n rôl fel gwirfoddolwyr heb gymhwyso ac, felly, yn ymddangos yn anaddas ac annheg. Awgrymwn y strwythurwyd trefniadau llywodraethu'r ysgol bresennol yn anaddas ac mae hyn yn fethiant cryf o system sydd angen ei chywiro. Onid yw cefnogaeth amserol ac ymyriad gan yr Adran Addysg i ddelio â phroblemau, a chydweithio'n broactif â chymuned ysgol yn sicr, yn ffordd fwy adeiladol o fynd ati, yn hytrach na rhuthro mewn ar y funud olaf ag agenda amlwg o gau ysgol?

Canolbwyntiodd yr Adran Addysg ar dri o'r cynigion a gyflwynwyd at ddyfodol Ysgol Abersoch: newid yr ystod oedran o 3 – 11, ffederaleiddio neu gau'r ysgol. Ymddengys mai cau'r ysgol yw'r un a ffafrir wedi'i seilio ar arbedion ariannol â dogfennau ymgynghori'r Adran Addysg fel ymarfer papur i gyfiawnhau'r sefyllfa hon heb wir ystyried y dewisiadau eraill.

Mae'r gefnogaeth a dderbyniom yn ystod y cyfnod ymgynghori o'r galon ac yn eglur; mae yna gryfder teimlad angerddol yn ein cymuned y dylai Ysgol Abersoch gael y cyfle i barhau â'r hyn a ddechreuwyd yng nghysgod Covid fel y gall ein mentrau cysylltiedig â Chylch Ti a Fi, Cylch Meithrin a'r Ysgol Draeth gwreiddio a flodeuo. Pe dysgid rhywbeth o'r pandemig, y sylweddoliad yw nad oes dim pwysicach na chymuned a bod gosodiadau addysgol ar raddfa fechan yn ddiogelach.

Erfyniwn ar y Cabinet ystyried y cynnig o'i flaen yn hynod ofalus. Awgrymwn yn barchus bod gwaith pellach i'w wneud yma, trwy archwilio ffederaleiddio a modelau arloesol eraill o drefniadaeth ysgol cyn cynnig y mesur eithafol o gau'r ysgol. Buasai canlyniadau'r penderfyniad o gau Ysgol Abersoch yn effeithio ar gymuned Abersoch a'r iaith Gymraeg am genedlaethau i ddod. Erfyniwn arnoch gamu'n ôl o'r dibyn a manteisio ar y cyfle i effeithio newid positif ar gyfer dyfodol hirdymor addysg yn y pentref.

Yr eiddoch yn gywir

Tud. 481

MARGOT JONES AC EIFIONA WOOD
ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Abersoch

Ysgol Abersoch
Lôn Gwydryn
Abersoch
Gwynedd
LL53 7EA

Modernising Education Office
Education Department
Gwynedd Council
Caernarfon
LL55 1SH

20 February 2021

Dear Education Department and Cabinet Members,

We would like to take this opportunity to express our appreciation for the sensitivity shown towards us as a school community at the time of our headteacher's tragic family bereavements last year, and for the support in maintaining staffing arrangements to ensure the continuity of education for our pupils. We owe a debt of gratitude to the excellent team of dedicated teaching and support staff at Ysgol Abersoch, who have shown such unified resilience, care and sensitivity throughout very testing times over the last extremely difficult year.

We were also grateful for the postponement of the consultation until after the Christmas period. However, we remain disappointed that it was felt appropriate to continue with the Statutory Consultation, despite the ongoing pandemic and associated extreme restrictions, which have prevented us from holding any staff, parent or community meetings or any natural, effective discussion on this serious matter. Perhaps more importantly, the decision to continue has caused great distress to the children, who have had to cope not only with the absence of their headteacher and the frightening conditions of Covid but also with the upsetting idea of their school being closed. We feel this decision was clearly not made with the best interests of the children in mind.

Mae unrhyw golled o addysg cyfrwng y Gymraeg mewn cymuned fel hon yn gwbl annerbyniol. Amlygir hyn fwyfwy o ystyried dyhead uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o hybu addysg cyfrwng Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, er mwyn cyrraedd nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dechrau'r daith yw hybu a chynorthwyo pob darpariaeth o addysg cyfrwng y Gymraeg, i gefnogi cymuned a chymdeithas gyda'r her yma.

Colled drychinebus fyddai cychwyn blwyddyn ysgol 2022, pan ddaw Cwricwlwm i Gymru yn weithredol, gydag un ysgol cyfrwng y Gymraeg yn llai.

Yn gywir iawn,

[redacted]

--
Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd

This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council
Marcio fel sbam / Mark it as spam
Gwahardd y anfonwr / Blacklist sender

139

[redacted]

Oddi wrth: Anne Dack [redacted]
Anfonwyd: Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021 12:58
At: Moderneiddio Addysg
Copi: [redacted]
Pwnc: School Closure

Fflag Atgoffa: Camau Pellach
Statws Fflag: Wedi gorffen

Hello,

I do not agree with the proposed closure of Ysgol Abersoch. It provides and excellent education and children will suffer without it. Please rethink this strategy.

Best wishes,
Anne McHardy
Sent from my iPhone
--

Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd.

This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council.

https://gwynedd02.esvacloud.com/action/73BA641AA6.A3C61/learn-spam

https://gwynedd02.esvacloud.com/action/73BA641AA6.A3C61/blacklist

140

[redacted] **(ADDYSG)**

Oddi wrth: [redacted]
Anfonwyd: Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021 13:06
At: Moderneiddio Addysg
Copi: [redacted]
Pwnc: CLOSURE OF YSGOL ABERSOCH

Fflag Atgoffa: Camau Pellach
Statws Fflag: Wedi gorffen

Good afternoon
This school must not be closed. I do not agree with the proposed closure.
Kind regards
[redacted]

[redacted]

Virus-free. www.avast.com

--
Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd

This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council
Marcio fel sbam / Mark it as spam
Gwahardd y anfonwr / Blacklist sender

141

Ffurflen Ymateb

Cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021,yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Eich Manylion:

Dyddiad: Chwefror 22ain, 2021

Enw: [redacted]

Cyfeiriad e-bost: [redacted]

Rwy'n ymateb fel: (ticiwch yr ymateb perthnasol)

- ○ Rhiant
- ○ **Staff**
- ○
- ○
- ○ _____

Llywodraethwr

Disgybl

Arall (nodwch)

Os ydych yn dymuno derbyn hysbysiad pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori, ticiwch y blwch priodol isod

[x] **Hoffwn gael fy hysbysu**

Na, nid [ ] wyf yn dymuno cael fy hysbysu

Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad.

Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi ✓yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

* Dewiswch **un** o'r atebion canlynol

[ ] Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb yn llawn, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol

[x] **Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol**

[ ] Nid wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb

Ffurflen Ymateb

Cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

Anfonwch eich ymateb at:
Swyddfa Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,
Caernarfon
LL55 1SH
*neu*ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

Sylwadau:

Dyddiad cau: 15:00 ddydd Mawrth, 23Chwefror 2021

Nodwch mai sylwadau yw'r ymatebion ac nid gwrthwynebiad i'r cynnig.

Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.

[redacted]

Chwefror 20fed, 2021

Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg,
Cyngor Gwynedd,
CAERNARFON,
Gwynedd.
LL55 1SH

Annwyl Swyddogion,

Ymgynghoriad Statudol Cau Ysgol Aber-soch

Ysgrifennaf atoch fel cyn-ddisgybl, cyn-glerc i'r Corff Llywodraethol ac aelod presennol o'r staff i gyflwyno fy sylwadau ar y cynnig o gau Ysgol Aber-soch. Ymatebaf i Adrannau'r ddogfen ymgynghori yn eu trefn, ynghyd â thynnu sylw at gamgymeriadau ffeithiol ac ychwanegu sylwadau.

2. **YR YMGYNGHORIAD**

- Mae posibilrwydd y gallai'r disgyblion drosglwyddo i ysgolion eraill yn hytrach nag Ysgol Sarn Bach, gan fod y dewis ar gael i rieni.

3. **GWYBODAETH GEFNDIROL**

Gwireddir Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, sef:

"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu bod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn."

4. **TREFNIADAU PRESENNOL YN ARDAL ABER-SOCH**

- Ymatebodd cymuned/llywodraethwyr yr ysgol i'r niferoedd isel drwy sefydlu Ti a Fi a Chylch Meithrin yn yr ysgol, gan y profodd sefydlu rhai mewn pentrefi eraill lwyddiant trwy ddenu'n naturiol ddisgyblion newydd i'r ysgol leol.

- Mae cymharu nifer y siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2011) yn sicr o fod yn wahanol oherwydd prinder tai fforddiadwy i deuluoedd yn Aber-soch a daw mwyafrif plant Ysgol Sarn Bach o deuluoedd amaethyddol cynhenid.
- Pam na nodwyd canran siaradwyr Cymraeg Ysgol Aber-soch (PLASC 2020) fel tair ysgol arall y dalgylch?
- Ni leolir Ysgol Sarn Bach yng nghanol y pentref – mae ar ei gyrion.
- Nid oes yr un plentyn yn byw ym mhentref Sarn Bach ei hun. Mae nifer o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn all-ddalgylch hefyd, heb gynnwys y rhai a drosglwyddodd yn wyth oed o Ysgol Aber-soch.
- Pam na soniwyd am nifer y plant all-ddalgylch sydd yn Ysgol Llanbedrog? Aiff nifer ohonynt yno o Aber-soch.
- Yn yr un modd, pam na nodwyd canrannau siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2011) Ysgolion Llanbedrog a Foel Gron?

5. **ACHOS DROS NEWID**

Wynebodd Ysgol Aber-soch heriau tu hwnt i'w rheolaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn arbennig o golli disgyblion heb unrhyw fai arni hi ac, yn anffodus, brofedigaethau'r Pennaeth.

- Ysgol o fynd a dod erioed o ran niferoedd yw Ysgol Aber-soch, hyd yn oed pan fynychais i hi. Yn naturiol llai o deuluoedd rŵan oherwydd tai haf, diffyg tai fforddiadwy.
- A gyfrifwyd niferoedd mynychwyr Ti a Fi a'r Cylch Meithrin yn y rhagamcanion?
- Er yn cydnabod bod canran uchel o blant y pentref yn mynychu ysgolion all-ddalgylch, anghytunir â'r farn *"nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol"* – pam na roddir cyfle i'r mentrau o sefydlu Ti a Fi a'r Cylch Meithrin gyfle i wreiddio a ffynnu? Hefyd, effeithiwyd ar hynny gan y pandemig.
- Anghytunir â'r sylw *"yr effeithia'r dosbarthiadau bychain iawn a niferoedd isel ar brofiadau'r plant o gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion"* – maent yn aelodau o wahanol glybiau megis Clwb Syrffio Llŷn a phêl-droed/rygbi un ai yma yn Aber-soch neu ym Mhwllheli a chynhelir gwersi/gweithgareddau nofio/hwylio ar ôl ysgol fel disgyblion ysgolion eraill.
- Nodir bod y rhagamcanion yn parhau'n isel dros y pum mlynedd nesaf. Dywed Noda Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylid edrych 25 – 50 mlynedd i'r dyfodol ac, o astudio'r dangosyddion, dylai Aber-soch ffynnu yn ystod y cyfnod yma.

6. **GWERTHUSO OPSIYNAU**

- Teimlir nad ystyriwyd y rhain yn ddigon manwl, yn arbennig o ran y bygythiadau i'r gymuned a'r Gymraeg.
- Eto, ni chafodd lleoli Ti a Fi a'r Cylch Meithrin yn yr ysgol gyfle i wreiddio na ffynnu oherwydd sefyllfa'r pandemig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a dylai gael effaith gadarnhaol yn lleol. Er mai ond am gyfnod byr y bu ar agor oherwydd y cyfnod clo, enwebwyd y Cylch am Wobr Dewin a Doti yng Ngwobrau Blynyddol y Mudiad Meithrin a dyfarnwyd y drydedd wobr iddo.

- Ni fuasai'r tro cyntaf i blant Ysgol Aber-soch drosglwyddo i Sarn Bach yn naw oed wrth newid yr ystod oedran o 3 – 8 i 3 – 9 oed, gan y gwneid hynny hyd at ddechrau/canol y pumdegau. (Ar nodyn personol – deg oed oedd fy Nhad [94 oed] pan drosglwyddodd o i Ysgol Sarn Bach.) Ni fuasai'n amharu ar niferoedd Sarn Bach dim ond oedi'r trosglwyddo.
- **Pam cadw at y *status quo*?** Buasai'n gyfle i Gyngor Gwynedd allu bod yn wahanol ac arloesol wrth nodi, *"Ni fyddai'r ystod oed yn gyson â mwyafrif ysgolion cynradd y sir. Byddai'r opsiwn hefyd yn cysoni'r ystod oed â gweddill ysgolion cynradd y sir ac yn golygu bod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn".*
- Anghytunir â'r awgrym *"...y byddai unrhyw gynnydd yn y niferoedd yn Ysgol Aber-soch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn arwain **at leihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach** ac, o bosib, yn yr ysgolion cyfagos"*; credir mai oedi'r trosglwyddiad a fyddai.
- Eto, anghytunir *"y buasai cau Ysgol Aber-soch ac addysgu'r disgyblion yn Sarn Bach yn gwella eu profiad addysgiadol a chymdeithasol"*. Mae dosbarthiadau bychain yn galluogi cyrhaeddiad uwch ac maent yn cyfarfod eu cyfoedion mewn clybiau eraill tu allan i oriau'r ysgol.
- Cerdded neu feicio i'r ysgol wna disgyblion Ysgol Aber-soch er lles eu hiechyd, rhyngweithiad cymdeithasol a'r amgylchedd. Ychwanega teithio i Sarn Bach at gynnydd mewn ôl-troed carbon wrth eu cludo ar fws/car – nid yw'n lles i'r amgylchedd, yn arbennig yn y dyddiau yma o newid hinsawdd sylweddol.

7. **Y CYNNIG**

O barhau â'r cynnig o gau'r ysgol, gobeithir:

a) **lleihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion**
ni amharodd llefydd gweigion ar addysg neb hyd yma. Teimlir y poenir mwy am y rheiny nag am y plant eu hunain. Gadawa pob plentyn Ysgol Aber-soch yn gwybod sut i ddarllen ac ysgrifennu, canu, cymdeithasu ac, yn sicr, siarad Cymraeg yn rhugl. Gellir dweud, hyd yn oed, y gadawant yr ysgol ag acen Pen Llŷn. Teimlir, hefyd, nad ystyrir cyfraniad ysgol at iaith yr ardal wrth ystyried ei dyfodol. Mae ysgolion bychain yn fwy llwyddiannus o safbwynt y Gymraeg, gan y trochir y disgyblion ynddi'n ddyddiol.

c) **addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas**
nodir fod cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Sarn Bach ym mis Medi 2020 yn 24. Os felly, fe'u cynyddir â disgyblion Ysgol Aber-soch ac, o ganlyniad, buasai hyn yn groes i'r hyn a nodir ym mhwynt 4.1.3 Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd pan nodir, *"Anelu at sicrhau nad oes gan unrhyw ddosbarth oed cymysg mwy nag 20 disgybl na llai na 12 disgybl".*

Gall presenoldeb plant o wahanol oedrannau yn yr un dosbarth fod yn adlewyrchiad cywirach o fywyd y gymdeithas a'r cartref na'r grwpiau mawr a geir mewn ysgolion mwy. Yn ogystal, gall fod o fantais addysgol iddynt gael eu haddysgu ochr yn ochr.

Mae ymdeimlad o deulu bach hapus yn Ysgol Aber-soch – ymdeimlad o gymuned deuluol sy'n rhoi seiliau cadarn i'r plant. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig at ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol yr ardal.

e) (d i fod o ddefnyddio'r Wyddor Gymraeg)
Sicrhau bod plant yn trosglwyddo unwaith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith
bu trosglwyddo o Aber-soch i Sarn Bach o fantais i'r disgyblion ar hyd y blynyddoedd, gan ei fod yn eu paratoi at newid ysgol o'r cynradd i'r uwchradd.

- Teimlir y dirmygir yr addysg a geir yn Ysgol Aber-soch yn 'Llesiant ac Agweddau Dysgu' Tabl Pum Maes Arolygu Estyn wrth ddweud *"...deuir i'r casgliad y byddai addysgu'r plant yn YSB yn cael effaith bositif"*. Pwysleisir y gall plant Aber-soch "addysgu'n annibynnol" hefyd.
- Nid oes sôn am Bennaeth na Llywodraethwyr Aber-soch dan Reolaeth ac Arweinyddiaeth; ac mae Pennaeth Mewn Gofal yn bresennol oherwydd sefyllfa anghyffredin oherwydd rhesymau trist.
- Dim ond swm pitw iawn yw'r arbediad ariannol.
- Syndod yw darllen y cwblhaodd y Cyngor asesiad o **effaith cymunedol** ar yr opsiynau – sut a holi pwy? Nodir o gau Ysgol Aber-soch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Noda casgliad yr asesiad na ragwelir y byddai unrhyw un o'r opsiynau yn cael effaith **negyddol sylweddol** ar y gymuned.
- Mae'r ysgol yn greiddiol i fywyd cymdeithasol Aber-soch a defnyddir y neuadd – a roddwyd at ddefnydd y pentrefwyr i gymdeithasu a chynnal gweithgareddau. Gwahoddir y disgyblion i ddiddanu gwahanol grwpiau'n rheolaidd – ni ellid gwneud hynny o Ysgol Sarn Bach oherwydd yr angen i gludo a chostau llogi bws. Erbyn hyn, mae'n rhaid i Ysgol Sarn Bach ddod i gynnal ei chyngherddau yn y neuadd hefyd oherwydd nad yw ei ystafell fwyta/neuadd yn ddigon mawr. O ganlyniad, buasai'r cynnydd o blant Ysgol Aber-soch yn ychwanegu at y diffyg lle.
- Tablau'n anghywir o ran defnydd cymunedol.
- Adrannau nid Aelwydydd yr Urdd. Nid oes Adran yn Ysgol Sarn Bach – hyfforddir y disgyblion ar gyfer yr Eisteddfod yno ond, yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanengan gyda'r nos y cynhelir Adran yr Urdd Llanengan. Cynhelir Adran Tudwal yn syth ar ôl yr ysgol yn Aber-soch ac fe'i mynychir gan gyn-ddisgyblion yn ogystal. [Er gwybodaeth – ffurfiwyd Adran ac Aelwyd yr Urdd yn Abersoch yn wreiddiol yn y 1920'au, yn fuan ar ôl sefydlu'r Urdd ei hun yn 1922.]
- **Gweithgareddau/Grwpiau –** anghywir o ran Ysgol Sarn Bach. Ni chynhaliwyd Cylch Meithrin yn yr ysgol – yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanengan y gwnaed hynny a daeth i ben yn 2019 oherwydd na ellid ffurfio pwyllgor.
- Anogir *"cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch lle bo'n briodol"*. Sut? Nid oes dim yn gyffredin, dim cysylltiad yn sicr o ran yr ochr fusnesion. Byddai'r pentref yn colli'r gweithgareddau sydd yn gwneud cyfraniad mor sylweddol at gadw'r Gymraeg ym mhentref Aber-soch. O gau'r ysgol, dieithrir y plant o'u pentref, Seisnigir y gymuned a byddid yn gyfrifol am

atgyfnerthu'r darlun stereoteipio parhaus a wna ddrwg i'r pentref fel rifieria y di-gymraeg.

- Miliwn o Siaradwyr Cymraeg 2050 – buasai ei chadw ar agor yn hwb sylweddol at hynny trwy godi ymwybyddiaeth mewnfudwyr ac ymwelwyr o fodolaeth yr iaith.
- **Y gymuned sy'n colli allan – "***Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu".*
- Pryder beth sydd am ddigwydd gan mai rhodd i'r gymuned oedd y tir a'r adeilad ac am y Cylch/Ti a Fi.
- Y Gymuned – colli presenoldeb ysgol ym mhentref Abersoch
- Ystyriaethau Eraill – buddiannau ac adnoddau'r ysgol. Cynnig profiadau i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio â chyfoedion; cael hynny rŵan trwy ac ar ôl yr ysgol pan ymgasgla'r plant a rhieni un ai yng nghae chwarae'r pentref neu ar y traeth, ynghyd â bod yn aelodau o glybiau eraill tu allan i'r ardal fel sawl disgybl ysgol arall ym Mhen Llŷn. Buasai cefnogi'r Ysgol Draeth yn fenter arloesol a fuasai'n dod â budd i'r holl ddalgylch ac ysgolion.

PECYN CEFNDIROL

1. ADRODDIAD ASESIAD EFFAITH IEITHYDDOL

- Enillodd yr ysgol Wobr Aur Siarter Iaith y Cyngor yn haf 2019 ar ôl gweithio'n galed â'r disgyblion a gododd ymwybyddiaeth o'r iaith a thystiolaeth o'i defnydd â'r gymuned.
- **Gweithgareddau Cymunedol** - gwneir defnydd rheolaidd o'r Neuadd o ran ymarfer corff a chynnal cyngherddau a gwasanaethau yn y capeli ond, fe'i gwahoddir i fod yn rhan o weithgareddau cymdeithasau megis Clwb Paned 50+, Sefydliad y Merched. Ni ellid gwneud hyn yn Sarn Bach oherwydd gofynion trafnidiaeth/costau llogi bws ac, o ganlyniad, collir y cysylltiad cymunedol. Ysgol yng nghanol cae yn y wlad ydyw hefyd a fuasai'n atal hyn oherwydd dibyniaeth ar drafnidiaeth - haws uno â chlybiau mewn llefydd erial.
- Mae brawddeg olaf y Casgliad yn 'gwrthddweud' y tabl – pam gadael allan y frawddeg bwysicaf un, sef: ***"O ganlyniad, gallai cau Ysgol Abersoch GAEL EFFAITH NEGYDDOL ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned leol."?***
- Ydi aelodau Plaid Cymru yn barod i droi cefn ar y gymuned hon – gwnaed o ran tai eisoes.

2. ADRODDIAD ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED

- **Y Gymuned** – ni holwyd neb o'r trigolion lleol ar gyfer yr asesiad hwn na'r un o'r lleill.
- Nid oes na chapel nac eglwys yn Sarn Bach.
- Mae Swyddfa'r Post yn Abersoch.
- Nodwyd eisoes am y gweithgareddau a ddigwydd a'r effaith tebygol o gau'r ysgol ar y gymuned.

3. ADRODDIAD ASESIAD LLESIANT

Anghytunir â'r datganiad yr ystyriwyd saith nod y Ddeddf Llesiant – gan nad oes tai fforddiadwy i deuluoedd yn y pentref ac nad yw'n bosib cynnal gweithgarwch cymunedol oherwydd mae'r athrawon yn byw tu allan i'r gymuned (fel yn achos Ysgol Aber-soch) ac ni fu cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt.

Mae'n dalcen caled o ran yr iaith oherwydd diffyg tai fforddiadwy – fi yw'r unig un o'm cyd-ddisgyblion/cyfoedion sy'n byw yn y pentref – a diffyg cyflogaeth ar wahân i'r un dwristiaeth a thymhorol ydi hwnnw.

Addysg benigamp - nid arbed y geiniog yw popeth. Mae'n gyfle i Gyngor Gwynedd fynd tu hwnt i'r *status quo* a chefnogi syniad arloesol o Ysgol Draeth a rhoi cyfle i'r mentrau o westeio Ti a Fi a'r Cylch Meithrin gael eu gwireddu - anffodus o ran sefyllfa bersonol y Pennaeth a Chovid. Elwodd cenedlaethau o blant yr ysgol o droeon natur - gwylio a dysgu enwau adar megis glas y dorlan yn nythu ar lan yr afon; teithiau i'r traeth i gasglu cregyn.

Amrywiol Ddyfyniadau i Gefnogi PEIDIO Â CHAU YSGOL ABER-SOCH

- Mae ysgol yng nghanol pentref a'i chymuned o fudd i'r disgyblion, yn arbennig pan fo pwyslais yn y Cwricwlwm newydd o ddysgu am yr amgylchedd, awyr agored.
- Mae ysgol fach i gyd yn ymwneud â'r synnwyr o berthyn. Yn naturiol, mae unrhyw un yn costio mwy i'w chynnal ond, edrychwn ar hyn fel iawndal.
- Gall cau ysgol effeithio ar y gymuned – nid yn unig nad yw'r Gymraeg yn iaith y plant ar y stryd ond, nid oes plant ar y stryd.
- Rhinwedd arbennig ysgol yw'r ymdeimlad o gymuned deuluol sy'n rhoi seiliau cadarn i'r plant. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig i ddiwylliant yr ardal.
- Mae gwerth ysgol fach yn ddigamsyniol. Gall fod yr un mor effeithiol ag ysgol fwy – yn wir, mae tystiolaeth bendant ei bod yn fwy effeithiol yn amlach na dim. Mae pob ysgol fach yn ei chymuned ei hun yn endid unigryw – â'i gwerthoedd a'i dyheadau mae'n awyddus i'w gwarchod a'i datblygu i'r dyfodol.
- Ymysg y gwerthoedd yma mae'r rhai sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant – gwerthoedd sydd angen eu gwarchod yn ofalus.
- Ni all gwarchodaeth o'r fath ffynnu heb i'r ysgol leol fod yn siâp i'r cyfan.
- Os credwch mewn pentref fel uned bwysig, gwnewch bopeth i amddiffyn yr uned honno. Os caewch uned fel hon, rydach chi'n arbed arian, ydach, ond rydych chi'n colli deinameg y lle, colli'r bwrlwm, ymlyniad cryf sydd gan rieni at sefydliad. Collir un peth allweddol – cysylltiad â'r gymuned ac ymroddiad y gymuned honno i'r ysgol.
- Cymuned naturiol yn marw – colli etifeddiaeth a'r iaith a throi'r pentref yn ddim ond cyrchfan gwyliau'n llawn tai haf, dim teuluoedd.
- Ysgol brysur, hapus, llawn bywyd sy'n darparu dechrau ardderchog i fywyd ei disgyblion ac mae'n cael, a mwynhau, llwyr gefnogaeth cymuned y pentref.
- Mae'r ysgol yn greiddiol i fywyd cymdeithasol Abersoch.
- Mae yna le pendant i ofal y disgyblion hŷn dros yr iau ac mewn sefyllfa fel Abersoch mae mwy o'r plant yn cael cyfle i fod yn 'arweinwyr' ac o'r herwydd yn aeddfedu'n gynt.

- Mae plant yn dysgu a gwerthfawrogi ysbryd cymunedol gwell mewn ysgol leol ac erys hyn â hwy weddill eu hoes.

Terfynaf wrth awgrymu, ar ôl misoedd o darfu a cholli addysg oherwydd y pandemig, mai'r peth diwethaf ar feddwl unrhyw un fuasai trafod cau ysgol. Gall ymyriad pellach o gau'r ysgol niweidio cenhedlaeth o ran addysg ac iechyd meddwl am byth, gan mai yn Ysgol Abersoch y dysgodd y plant ddarllen ac ysgrifennu, gwerth cyfeillgarwch a gwaith tîm. Gall ysgol fach gael effaith bositif ar y gymuned ehangach o'i chwmpas.

A oes synnwyr cyffredin o gau ysgol sydd â llefydd gweigion tra, ar yr un pryd, llenwi un arall ychydig dan filltir a hanner i ffwrdd tra gallai ymbellhau cymdeithasol fod yn rhan o'n bywydau am beth amser eto er gwaethaf llwyddiant y brechu?

Gobeithir y bydd Cyngor Gwynedd yn ailfeddwl ac ystyried ei benderfyniad eto ac nad yw barn y cyhoedd yn mynd i darfu ar hynny ac na fydd yn rhan o'r ystadegau am ymgynghoriadau cyhoeddus o faint ohonynt sy'n diweddu â buddugoliaeth i'r cyhoedd? Hyderir yr ailystyria Aelodau'r Cabinet y chwalfa a wnânt o'r gymuned fel y gall 'Ysgol Bach' ddathlu ei chanmlwyddiant ymhen tair blynedd yn 2024.

Dyfynnaf o gerdyn dymuno'n dda i Ysgol Abersoch ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn 1914 oddi wrth gyn-ddisgybl (diweddar erbyn hyn yn anffodus) na allai fod yn bresennol yn y dathliadau,

"Wrth feddwl am fy nghyfnod fel disgybl yn yr ysgol, mae gennyf lawer o atgofion: dathlu'r Nadolig, trip ysgol i fynwentydd Eifionydd!, Miss Thomas, y brifathrawes, **a'r ffaith mai ond y fi oedd o gartref Cymraeg ei iaith yn fy mlwyddyn i hyd yn oed yn y '50'au!**
Mi rôf **2024** yn fy nyddiadur a gobeithiaf y gallaf fod yn bresennol bryd hynny (i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol)."

Yn gywir,

[redacted]

142

[redacted] (ADDYSG)

Oddi wrth: Kate Ransom <[redacted]>
Anfonwyd: Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021 18:30
At: Moderneiddio Addysg
Copi: [redacted]
Pwnc: Abersoch School.

Fflag Atgoffa: Camau Pellach
Statws Fflag: Wedi gorffen

My name is Kate Ransom, and I have holidayed in Abersoch for over 60 years. I consider Abersoch to be my homebase in an ever changing world.
Whilst (sadly) I don't live in the village, I appreciate the opportunity to add a few words to those of residents who are campaigning to keep the school open.

I have read with interest documentation on the proposed closure of the school in Abersoch.

My Maternal Grandfather, F C Minoprio, was one of the Liverpool businessmen who invested in Abersoch, and in this case the school, in its inception in its current building. I have been fortunate to be able to continue my connections with Abersoch being able to enjoy its magic, but with an understanding of the underlying complications associated with being an 'Holiday destination'.

My Paternal Grandfather, Sam Aston also maintained long term connections with Abersoch, eventually being able to spend his later years living there. Aged 70plus, he decided that to be better involved with life in Abersoch he would learn to speak Welsh, taking an 'O'Level' in the language.
Abersoch School offers so much to the local residents of Abersoch, with the educational needs of its young being wrapped up in village life, and the language centre being an established element of the Abersoch culture.
Maintaining village life for locals who live in these challenging environments is a hard won balance, in this case made even more difficult this year by the closures and home schooling necessary as a result of the Covid Pandemic.
Children have been so badly unsettled by the last months that anything we as adults can do to minimise further their disruption seems to me to be a giant win. Also, the possibilities for families to move out of towns to the villages, and still be able to work, with remote working being a positive in the pandemic, would appear to offer the potential of a further pool of prospective pupils to this highly successful village school.

I also live in a 'holiday hotspot', in the Cotswolds, and for us too the dynamics of rural life are on a knife edge, with second homes, holiday cottages, 'staff accommodation', etc undermining the fabric of village life.
Those of us who have experienced small community benefits have a duty to try to protect that for future generations.

Thank you for giving me this opportunity to show my support.

--
Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd

This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council
Marcio fel sbam / Mark it as spam
Gwahardd y anfonwr / Blacklist sender

143

[redacted] (ADDYSG)

Oddi wrth: [redacted]
Anfonwyd: Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021 19:58
At: Moderneiddio Addysg
Pwnc: Ysgol Abersoch

Fflag Atgoffa: Camau Pellach
Statws Fflag: Wedi gorffen

Sent from
Whilst talking to my grandson recently, who is aged 9 and a very recent pupil of this school, having just moved up to Ysgol Sarn Bach last year,I was saddened when without any prompting he said

" I think it would be a real shame if the school closes, we had such a great time there, we did loads of really cool stuff around the village with the shopkeepers, playing rounders and football on the beach, I really hope it can be saved". Out of the mouth of babes, and from one who really relished in his time there.

Please think on, once it's gone, it's gone forever.

Thank you. Diolch
[redacted]

--
Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd

This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council
Marcio fel sbam / Mark it as spam
Gwahardd y anfonwr / Blacklist sender

144

[redacted]

20/2/21.

Annwyl Moderneiddio Addysg,

Ysgrifennaf atoch yn erfyn arnoch i beidio a cau YSGOL ABERSOCH, dyrwd cyfle i'r gymuned a'r Llywodraethwyr yr ysgol ddangos i chi fod yna ddyfodol i'r ysgol a plant y pentref. Yr wyf yn gwybod fod yna lond llaw yn barod i gychwyn yn 2021/2022, fy ŵyr yn un, ac yn edrych ymlaen yn fawr iawn.

Y dechrau gorau i unrhyw blentyn. fuasai cael mynd i Ysgol Abersoch. Cefais y fraint i fynd iddi fy hun, fy mhlant i a plant fy Merch.

Os ag diffyg arian sydd tu ôl i eich rhesymau i gau yr Ysgol, pam na wnewch chi ddefnyddio canran o'r Codiad yr ydych yn bwriadu ei roi ar yr 'ail cartrefi' haf yma. Dwiln siwr y buasai y perchenogion yn hapusach yn ei dalu yn gwybod eu bod yn helpu cadw'r ysgol yn agored.

Calon y pentref, Calon y Gymuned, Cadw'r iaith yn fyw

Bechod Mawr fuasai cau yr ysgol, yr ydym yn barod wedi colli y Meddygfa a'r Banc yma, Ond Colled Enfawr fuasai colli ein Ysgol yma yn Abersoch.

Ar hud y blynyddoedd Mae ffigyrau yr ysgol i fynnu ac i lawr, Ond codi y maent bob tro ac siwr o woneud y tro yma gydalr Cylch Meithrin newydd lluyddiannus.

Fel rhiant buasai well gen i, i fy mhlant fod mewn dosbarth gyda llai o ddisgyblion, na un llawn lle Mae'n amhosib i'r athrawes rhoi ei 100% sylw i'r disgyblion

Dyfodol plant y pentref a rhai cyfagos fydd yn dioddef, nid rhai chi!!

Gobeithio fod yr holl sylw mae'r Ysgol yn ei dderbyn a ffyddlondeb y cannoedd sydd wedi arwyddo y petisiwn a ysgrifennu /ebostio. atoch yn dangos pa Mor bwysig ydi'r Ysgol Fach yma yn Abersoch i ni

Yr Eiddoch Yn gywir

[redacted]

145



19/2/2021

ANNWYL MODERNEIDDIO ADDYSG,

FÉL PERCHENNOG BUSNAS YN ABERSOCH YR WYF WEDI CAEL FY SIOMI. I GLYWED EICH BOD YN MEDDWL AM GAU YR YSGOL,

MAE WEDI BOD YN BLESER HELPUR YSGOL AR HYD Y BLYNYDDOEDD, WRTH WERTHU RAFFLES A CAEL. STONDIN BACH TU ALLAN YN GWERTH HWYAID YN Y RAS BLYNYDDOL. MIS AWST.

MAER YSGOL YN GALON Y PENTREF, AC. MAE PAWB YN DOD AT EI GILYDD I DDANGOS I CHI PA MOR BWYSIG YW EI CHADW YN AGORED I BLANT Y DYFODOL.

BYDDAF WRTH FY MODD PAN MAE'R PLANT YN MYND O GWMPAS Y PENTREF YN SIARAD GYDA'R SIOPWYR A'R YMWELWYR.

PAM YR YDYCH DAL I ADAEL YSGOL CYFAGOS FOD YN ORLAWN? PAM MAE HI RHU HAWDD I RIENI SYMUD O UN YSGOL I LLALL, FATHA NEWID DILLAD!! MAE FAI MAWR AR SYSTEM Y CYNGOR. AM RHIFAU YR YSGOL YN DOD I LAWR!!..

MAE ANGEN RHOI CYFLA IR YSGOL ETO. AWAN, YN ENWEDIG EFO RHIFAU GENEDIGAETH. Y PENTREF YN DDIWEDDAR. DIM MEITHRIN YN LLANENGAN, AC UN NEWYDD ARBENNIG YMA

GANDDOM YN ABERSOCH, GYDA RHAI WEDI YMUNO YN BAROD A RHAI YN EDRYCH YMLAEN I FYND. LLE PERFFAITH IDDYNT DDECHRAU EU ADDYSG GYDA IARD A CHAE I DDYSGU Y TU ALLAN, AC HEFYD LAN-Y-MOR I GAEL CYFLE I FOD YN 'YSGOL TRAETH'.

GWERSI NOFIO TRWY'R FLWYDDYN SYDD DDIM I GAEL YM MHOB YSGOL A NEUADD Y PENTREF DROS NESAF I FWYNHAU CAEL GWELD Y PLANT YN CANU ADRODD A ACTIO.

COLLED FAWR I ABERSOCH FUASAI CAU YR YSGOL.

MEDDYLIWCH O DDIFRI CALON AM BEIDIO, RHOI DIWADD AR DDYFODOL Y PLANT A ATHRAWON GWYCH YMA.

YR EIDDOCH YN GYWIR

[redacted]

146

Ffurflen Ymateb
Cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig ile i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021, yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Eich Manylion:

Dyddiad: Chwefror 19, 2021

Enw: IOLA THOMAS

Cyfeiriad ~~e-bost~~: [redacted]

Rwy'n ymateb fel: (ticiwch yr ymateb perthnasol)

- ○ Rhiant
- ○ Staff
- ○ Llywodraethwr
- ○ Disgybl
- ○ Arall (nodwch) Yr lewenyn a chwech o blant gafodd eu haddysg gynnar yn Ysgol Abersoch.

Os ydych yn dymuno derbyn hysbysiad pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori, ticiwch y blwch priodol isod

- ☑ Hoffwn gael fy hysbysu
- ☐ Na, nid wyf yn dymuno cael fy hysbysu

Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad.

Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

* Dewiswch **un** o'r atebion canlynol

- ☑ Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb yn llawn, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol
- ☐ Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol
- ☐ Nid wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

Anfonwch eich ymateb at:
Swyddfa Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,
Caernarfon
LL55 1SH
neu ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

Dyddiad cau: 13:00 ar ddydd Mawrth, 23 Chwefror 2021

Nodwch mai sylwadau yw'r ymatebion ac nid gwrthwynebiad i'r cynnig.

Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.

CYNNIG I GAU YSGOL ABERSOCH
ar 31 AWST 2021, A CHYNNIG LLE i'r
DISGYBLION yn YSGOL SARN BACH
o 1 MEDI 2021.

Ysgrifennaf i wrthwynebu'r cynnig uchod.

Dechreuodd fy ngyrfa yn Ysgol Abersoch pan oeddwn yn deirblwydd oed ac ymhen dwy flynedd roedd y wlad mewn argyfwng, gyda'r Ail Ryfel Byd. Gorchuddiwyd y ffenestri â rhwyd ludiog i atal y gwydr rhag chwalu mewn ffrwydrad bom a chafodd bob un ohonom fwgwd nwy. Roedd yn gyfnod peryglus er nad oedd mor gaethiwus â heddiw, yma, Eto roedd Abersoch rhwng dau faes-awyr. Yr athrawon ar y pryd oedd Miss Elisabeth Thomas, y Brifathrawes, a Miss Mary Griffith, y ddwy o Ddyffryn Nantlle. Ni chawsom unrhyw gam ac âi'r gwersi ymlaen fel arfer, ond pan waeddai Miss Thomas, "Air Raid!" ac allan â ni ar ruthr i'r Neuadd Bentref i swatio dan y bwrdd derw mawr yn y llyfrgell nes deuai'r "All Clear!" Yr ymarfer oedd hwn. Chwaraeai'r Neuadd ran bwysig yni mywyd yr ysgol.

Ar wahân i'r plant lleol, roedd yn yr ysgol ifaciwîs preifat, plant rhieni allai fforddio i rentu tai dros yr heldrin. Pan ddaeth plant bach Lerpwl, addysgwyd hwy yn y Neuadd am gyfnod.

Er mai Saesneg oedd prif gyfrwng addysg y dyddiau hynny, ni chafodd y Gymraeg ei hesgeuluso. Roedd Miss Thomas yn un o aelodau cyntaf Plaid Cymru ac yn un oedd "o flaen ei hamser." Cawsom actio dramau bach yn y dosbarth a chynnal Cyngerdd Cymraeg am hanes Cymru, yn y Neuadd. Cofiaf hyd heddiw'r

caneuon Cymraeg syml a thlws a'r caneuon hylendid a rhifo ofn Saesneg a'r rhigymau a ddysgwyd i ni. Gwnaeth fy chwaer fap pin ac inc o Gymru ac roedd mor gywrain fel bu ar y wal am flynyddoedd.

Roedd amser chwarae'n gallu bod yn hwyl: gwau awenau yn y dosbarth a charlamu fel ceffylau gylch y buarth; chwarae gemau rhigwm fel "Dwynog llwyd sy'n cysgu" a'r chwaraeon Saesneg ddysgodd yr ifaciwîs i ni. Uchafbwynt yr haf oedd "Scramble". Safem i gyd â'n cefnau ar wal y cae, gwasgarai Miss Thomas lond tun o fferins ar y glaswellt ac ar y floedd, "Scramble!" rhuthrai pawb am y cyntaf i'w casglu.

Roedd rhai o Saeson caredig y pentref bryd hynny a'r mamau, fel heddiw, yn rhoi help llaw i wneud gwisgoedd at y ddrama Nadolig. Caem bnawn rhydd hefyd i gasglu blodau gwylltion a pherchen un o'r bythynnod del, syml, bryd hynny, ar Ben Benar fyddai'n dyfarnu'r casgliad gorau.

Roedd Ysgol Abersoch yn ddelfrydol i blant bach, mae felly o hyd a bydded iddi fod felly eto. Peth arswydus i'r pytiau lleiaf adawodd glydwch bol eu mam ond rhyw deirblwydd ynghynt yw gorfod teithio i ysgol sy'n ymddangos mor fawr iddynt. Mae lleoliad hon mor hwylus, ar lain dwt ynghanol y pentref. Mae'n ddiogel gyda'r wal gerrig o'i hamgylch ac mae buarth a chae glas yn gaffaeliad mawr. Mae'n bleser mynd heibio iddi a gweld yr adeiladau bach lliwgar, sylwi ar y plant yn chwarae a hyfryd yw clywed eu miri ar ddydd o haf, hyd yn oed o lan bella'r afon. Calondid oedd gweld, ychydig flynyddoedd yn ôl, y priod-ddulliau a'r

diwrthebion Cymraeg yn y ffenestri. Un o uchafbwyntiau'r Nadolig yw gwasanaeth a chyngerdd y plant yn y Neuadd yn Abersoch.

Heb yr ysgol bydd Abersoch yn fawr, diflas a di-fywyd, fel Hamelin pan ddiflannodd y plant bach i'r mynydd. Ni fydd y pentref a'i amgylchoedd ond chwarae i "bobl ddiwad" a'r brodorion a'r trigolion, fel brodorion America, mewn gwarchodfau yma ac acw.

Beth yw'r rheswm am hyn? Y peth doeth fuasai i blant gael eu haddysg yn eu dalgylch eu hunain yn hytrach na theithio'n ddiangenrhaid i rywle arall. Pam mae Cymru ifanc yn cael y fath drafferth wrth wneud cais adeiladu tra bo dieithriaid yn cael chwalu ac ail-godi tai fel pe bai'n gystaddleuaeth am y mwyaf a'r crandiaf, ond yn difetha cymeriad pentref yn y pendraw. Nid yw'r tai hafi hyn yn ychwanegu dim at y nifer o blant yn yr ysgolion. Yn y cyswllt hwn, rhaid diolch i'r Cyng-gynghorydd R. Wyn Williams am ysgrifennu i gael tai fforddiadwy ar Lôn Gannon. Pam, o pam y gwrthodwyd cais gwraig o'r pentref, gyfarwydd gymaint at ddiwylliant Abersoch (ac sy'n dal i wneud) i gael un ffenestr ychwanegol yn ei thŷ. Mae anghyfiawnder mawr yn rhywle ac mae'n warthus.

Hoffwn roi bwrdd beth yw ystyr "moderneiddio" addysg. O wrando ar y radio dof i'r casgliad mai cymryd rhai camau'n ôl sy'n angenrheidiol. Nid ar yr athrawon mae'r bai ac y mae Cymraeg hyfryd i'w glywed gan rai. Y tristwch yw cau bord wedi'n llorio'n llwyr gan un gair bach unsill, dwy lythyren o'r iaith Saesneg,

sef "so". Ni wyddom bellach beth yw'r gair Cymraeg am "really" a "fantastic", bod mwy nag un ffordd o ddweud "yes" yn y Gymraeg. Ceir dryswch rhwng ystyr "perchen" ac "eiddo", "rhwng "methu" a "colli" ac ati. Gobeithio daw gramadeg syml yn ôl i'r gwersi. Os gwelwch yn dda, dowch â darllen ac ysgrifennu yn ôl, dysgu barddoniaeth i "greu melyster i'r glust ac o'r glust i'r galon", i gryfhau'r cof ac ehangu geirfa, rhag cael ein difetha'n llwyr gan ffonau a sgriniau.

Yn olaf hoffwn longyfarch Ysgol Abersoch am ennyn diddordeb y plant yn rhyfeddodau'r cread, ar y traeth ac ar y tir. "Nid bywyd yw Bioleg", meddai R. Williams Parry, "mi af yn ôl i'r wlad". Rwy'n tosturio wrth y bobl druan sy'n byw mewn fflatiau uchel neu strydoedd lle nad oes blewyn glas yn unman, ond er garwed y pla, agorwyd llygaid llawer y gwanwyn diwethaf i'r harddwch o'u cwmpas. Roedd yn beth mor braf hefyd i weld un o'r bechgyn bach yn y rhes hon yn gorwedd ar do'r sied yn gwylio adar drwy'n 'sbienddrych. Cânt eu magu i gymryd diddordeb. Diolch i Ysgol Abersoch, er nad ydynt yn Gymry na Saeson o dras, mae'r ddau yn siarad Cymraeg da.

Mae cau Ysgol Abersoch, sydd ers blynyddoedd wedi bod yn faethle i genedlaethau o blant a wasanaethodd eu cymuned gartref ac ar led yn fater rhy bwysig i'w ystyried gan nifer fechan. Dylid cael cyfarfod cyhoeddus.

Yn gywir
Iola Thomas

15 Chwefror

Fy enw fi yw Ronnie Annest a rwyf i yn wyth flwyddyn oed ag yn flwyddyn tri yn Ysgol Abersoch.

Rwyf yn gorun i chi os mae hi yn bosip i aros yn ysgol Abersoch am flwyddyn crall dan dlwedd flwyddyn pedwar.

Dwi yn caru ysgol Abersoch yn llawer iawn ag mae ll ysgol yn gwneud fi deimlon safr ag yn hapus. gan Ronnie.

[redacted]



Ref: Ysgol Abersoch. 148 18th Feb 2021

To whom it may Concern,

I am writing regarding the proposed Closure of Ysgol Abersoch.

Firstly I would like to state that I do not agree with this proposal.

I have operated a B&B opposite the School for over 33 years. Throughout this time my guests always commented upon the Unique School and the fact that the children were Speaking in Welsh. It came as some Surprise to Many that the children are only taught in Welsh.

The loss of identity regarding the Language would be irreplacable without the School.

The children do so much good in the Community holding Concerts, Coffee Mornings, Window

ressing competitions. They are the
'art beat of our community. I gather that lots
new babies have been born in the last 2 years,
here will these children go to clych?
ere will these children go to school?

y have you accepted over capacity at a nearby
hool (Llanbedrog) knowing that a school had
rplas places?
w will parents who cannot drive get their
ildren to the cylch? School? as some are under
end do not qualify for the transport?
w much will this bus cost the council?
e school proposes to start a beach school,
y have you not commended them for this
novative idea? I do not use the internet
nce this letter, however, your lack of
mpassion whilst their is a covid pandemic
t allowing for public meetings etc.
u will be the council remembered for what
u are trying to do, why not try and change
is by supporting the school with its new
support of our community

149

[redacted]

15-2-21

Dear Sir/Madam,

I would like to add my support to the vital campaign to keep Ysgol Abersoch open. My brother & I were pupils there in the early 50's & benefitted greatly from our early education in a close-knit & nurturing environment, before moving on to the "big school" at Sarn Bach.

More than ever, in this changing world, it is important to preserve our communities. The village school teaches a sense of belonging, & an appreciation of our culture, as well as the basics of education, & social interaction, to an age-group of children who are at their most receptive, in a safe & secure domain.

It is both sad, & worrying to see how Abersoch has changed over the years - becoming a migratory oasis of pleasure. If this little school - gifted to the village all those years ago, in recognition of the need of younger children to be educated at the heart of their community, is closed, it would be an irreplaceable loss.

Maybe, the provision of more affordable homes for young families is a solution to making Ysgol Abersoch more viable once more ?? ....

Yours sincerely

Jane R. Hough.

(Mrs Jane R. Hough)

150

ABERSOCH WI

[redacted]

16th February 2021

Moderneiddio Addysg,
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Dear Sirs

I have been asked to write to you, by some of our Members, to express our support against the closure of Abersoch School.

A Village school is one of the principal focal points for the community, it gives the children a chance to be part of the village life and join with other community-based activities such as Bore Panad and Christmas festivities.

It is important that small children do not have to travel long distances each day to attend school and be able to participate in other school-based events. Roads in the area, in the main, do not have footpaths making walking or cycling to a more distant school hazardous particularly from Easter to the Autumn break when there is the extra holiday traffic in the area.

Yours faithfully

[redacted]

Secretary
On behalf of Abersoch W.I. Members

cc. [redacted]

151

Mrs Amanda Jones,

[redacted]

Mr Garem Jackson/Cyngor Gwynedd,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'r newyddion ir bwriad i gau Ysgol Abersoch. Mae hyn yn syniad anghywir yn fy marn i ar gymaint o lefelau ac yn torri fy nghalon i a llawer yn fy nheulu. Yr unig rheswm a welaf i wneud hyn yw arian, ond ar ba gost yn y dyfodol fydd hyn?!

"Pwy ydw i?" Wel dwi yn lleol ac yn Gymraes. Fy nhaid oedd un o'r disgyblion cyntaf yn yr ysgol ac mae pob cenhedlaeth o fy nheulu wedi mynychu'r ysgol ers hynny. Roeddwn hefyd yn gobeithio y byddai fy wyrion yno hefyd! Nid atgofion sentimental yn unig yw fy rhesymau dros wrthwynebu'r bwriad i gau, mae yna llawer.

"yn gyntaf fel mam" — roedd yr ysgol hon yn anhygoel gyda fy mhlant i, dau fechgyn whanol iawn, un yn blentyn clyfar ac un yn dioddef pryder. Gyda diolch i ddealltwriaeth y staff codwyd y ddau brioddledd hyn a gwnaed popeth i'w maethu. Yn bersonol, nwyf wrth fy modd â'r ffaith eu bod wedi mynychu yma yn gyntaf ac yna symyd i Sarn Bach, mae'n rhoi amser i'r plant lau fod yn ifanc, heb y pwysau i dyfu i fyny yn rhy gyflym. Helpodd hyn yn enwedig ar mab â phryder i ymgartrefu mewn lle llai, ac yna symud i le mwy oedrannus pan ddaeth yr amser.

"Yn ail yn aelod o'r gymuned leol". er fy mod yn byw yn Motwnneg mae fy nghalon yn Abersoch, ac yma y buaswn yn byw os allwn ei afforddio. Yr ysgol yw calon y gymuned Gymreig yn y pentref yma mewn gwirionedd! Cyngherddau, rhas chwiaid, Canu i clwb henoed, Unau traeth,

a llawer mwy o bethau a gynhelir gan yr ysgol ar rhieni i ddod ar pentref cyfan ynghyd â llawenydd. Mae'r plant i'w gweld yn aml o amgylch y pentref ac ar y traeth yn dysgu, sgwrsio a gwneud pethau da.

"Yn dydydd fel Cymro" - roedd fy mhlant yn siarad Saesneg adref gan fod fy ngŵr yn Saesneg, yn Ysgol Aberaeron maent yn siarad Cymraeg yn gyfflym mewn amgylchedd ysgafn a ffeind. Yn fuan fe wnaethant annog fy ngŵr i ddarllen storïau gwely yn y Gymraeg! Mae rhan y disgyblion yn y pentref yn annog siaradwr Saesneg i siarad yn y Gymraeg gyda nhw. Hebo yr ysgol, un o'r llefydd lleol Cymraeg (meddygon wedi Cau, banciau - wedi Cau, Swyddfa post wedi Cau ayb) mae bywyd pentref lleol Cymru yn cael ei ddisodli gan siopau mawr a castrefi gwyliau! Helpwch i wyrdroi'r duedd ofnadwy hon nawr, trwy gadw'r un peth olaf hwn yn fyw ac yn agored!! Mae angen i ni fel Cymoned Cymraeg stopio a bwrw golwg ar hyn rydyn yn gwneud i'n pentrefi Cyn fydd yn rhy hwyr! Ydyn, rydyn yn pentref twristaidd and yn gyntaf pentref bach Cymraeg ac rydym am aros felly.

Mae amseroedd y buriad hwn i gau Ysgol Aberaeron yn warthus, yng nghanol pandemig! Ni allaf fynychu/trefnu trafodaethau cyhoeddus na chadi ymwybodaeth na phrotestio hyd yn oed! Nid yw hyn yn deg. Gwelodd yr ysgol bod rhai o'r plant lleol yn mynd i ysgolion cyfagos achos eu bod ganddynt ddarpariaeth meithrinfeydd yn eu ysgolion. Bellach mae gan Ysgol Aberaeron feithrinfa a clwb Tiafi, yn annog cenhedlaeth newydd o ddisgyblion y dyfodol ac er hyn mae'r Cyngor yn buriadu Cau Cyn i hyn gael amser i ffynnu!! Mae 5 disgybl newydd ar gyfer mis Medi yn barod!! Os na rhifer o blant yw rheswm i gau, rhowch amser ni gael afael ar y mater!

Fel aelod Cymraeg lleol sydd â ffydd yn ei Chyngor lleol di chydweithwyr, rwyn mawr obeithio yn byddwch yn gwrando fy mhleon, a mhleon cannoedd eraill a pheidiwch a cau yr ysgol hon a rhoi siawns i ffynnu ardal Cymraeg unwaith eto.

Diolch am wrando

Amanda Jones (ai hôll deulu)

[redacted]

152

[redacted]

24th JANUARY 2021

EDUCATION PLANNING
Caernarfon.

Dear Sir
Re. ABERSOCH PRIMARY SCHOOL.

Abersoch has always been my home. My grandfather Dr O.J. Evans built this house & practised medicine here as did my uncle, another Dr Evans & my father Dr Rountree. I also practised medicine here for more than 20 years & was involved with many young families.

I was a pupil at Abersoch Primary School from ages 4-10 and they were very happy years with unforgettable teachers, Mrs Titomas and Miss Parry. This school is most important for the welfare of the Abersoch community - now even more as Abersoch village expands. Young children need the benefit of this shared community background and to develop pride in their roots.

Please keep Abersoch primary school open. It would be a terrible loss of choice.

Yours Sincerely
Patricia Meyrick

PATRICIA MEYRICK

153

15:02 2021

[redacted]

17 FEB 2021

Annwyl Swyddogion,

'Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ran Merched y Wawr, Rhanbarth Dwyfor, parthed cau ysgolion gwledig. Fel y gwyddoch, mae Merched y Wawr yn fudiad grymus yng Nghymru, gyda deunaw cangen ac un Clwb Gwawr yn Nwyfor. Fe ddyfynnaf o amcanion y Mudiad:

"I hybu unrhyw achos er budd merched yng Nghymru, ac yn arbennig i rymuso addysg gyhoeddus ac i hyrwyddo diwylliant Cymreig, addysg a'r celfyddydau yng Nghymru trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg".

Teimlwn felly na allwn anwybyddu'r pryder lleol sydd yn bod parthed cau ysgolion bach, a hynny gan fod trafodaethau am ddyfodol Ysgol Abersoch yn gyfredol, a bod Ysgol Llanaelhaearn eisoes wedi cau. Gofynnwn i chi ystyried yr egwyddorion uchod yn ofalus iawn wrth ystyried dyfodol unrhyw ysgol, gan eu bod yn rhai dilys i unrhyw drafodaeth parthed addysg ein plant.

Ystyriwch hefyd egwyddorion llesiant y dyfodol,- po fwyaf o ysgolion sydd yn cau, bydd lleihad a dirywiad yn ein cymunedau, gan adael gwacter o gymunedau ar lawr gwlad.

Gofynnwyd i'n aelodau am eu hymateb i'r pwnc o gau ysgolion. Dyma flas o'r ymatebion:

1. Mae'n bwysig cadw ysgol er mwyn y gymuned a chadw'r iaith yn fyw.
2. Abersoch/unrhyw bentref heb ysgol ddim yn denu Cymry ifanc yno i fyw,- a chaniatáu gallent fforddio tŷ yno, neu yn eu perswadio i symyd i ardal arall ble mae ysgol.
3. Mae pob ysgol yn mynd drwy lanw a thrai o ran niferoedd.
4. Beth fydd yn digwydd i'r adeilad pe bai ysgol Abersoch yn cau? A fyddai'r tir yn cael ei werthu er mwyn adeiladu tŷ/tai moethus, gan ddinistrio'r gymuned ymhellach?

Gofynnaf eto i chwi ystyried yr egwyddorion uchod, ac ystyried yn ddwys effaith cau unrhyw ysgol ar ddyfodol ein plant, ac ar ein cymunedau.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted] (Ysg Rhanbarth)

154

[redacted] (ADDYSG)

Oddi wrth: [redacted]>
Anfonwyd: Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2021 15:13
At: Moderneiddio Addysg
Pwnc: Ysgol Abersoch

Fflag Atgoffa: Camau Pellach
Statws Fflag: Wedi gorffen

To Gwynedd Council.

I am writing to you as I was a pupil at Ysgol Abersoch and you have not asked us our thoughts about our school time, it was a very important time for me.

I loved my old school, I liked the teachers so much they were very helpful all the time, they helped me to improve my thinking skills and to use my imagination in a creative way.

We went swimming once a week and this was ace, i learned how to swim because of the school, we do not swim very much at Ysgol Sarn Bach. Ysgol Abersoch was asked to compete in a competition and normally you had to be older but the swimming teacher at the baths said we were good enough to enter. A kind lady called Melissa sponsored our school by buying us matching hooded jumpers with the school logo on it.

I loved singing for the older people in the village, we have lots of friends in Abersoch and I liked seeing them smile when we sang, I think it brought them joy, they used to join in with us. Afterwards we was allowed a biscuit and a drink as they had a panad to celebrate the singing. We talked to them and it was nice to help them with their Welsh and it was good for me to speak to some of the older Welsh people in 'chi' instead of 'Ti'.

At Ysgol Abersoch there was no bullying, we were all friends, me and my four friends from the school are still best friends now. I have lots of friends at different schools but I wanted to go to Ysgol Abersoch. When I went there I did not know anyone but after a few days I became friends with everyone. My friends are the kindest people we all stick up for each other, we are like more than best friends we are a family. We saw each others mums and dads everyday outside the school gate. We were able to go to each others houses for a play date, our mums and dads would arrange it there and then. We can't do that at Sarn Bach as we don't see any parents and we all go on different buses. It has to be arranged beforehand and it is not spontaneous.

At Abersoch most nights even in the winter we would all take a snack, picnic or bbq to the beach and the playing fields, it was great fun, we played and we swam and other children would come and play with us, we would share our food.

The school day in Abersoch was always exciting, we did lots of hands on experiments and we learned from our own mistakes, I like that kind of learning, we would walk to the harbour and we could do experiments like dropping eggs with parachutes that we had made to learn about gravity. Ysgol Abersoch won £1000 prize from Llaeth Y Llan for a competition, they was the only school in our area to win. this shows how good the teachers and the school is.I had left and there was only about 8 kids and they won, look at what they achieved.

I loved doing sports on the beach, this was my favourite thing to do, we often did class work on the beach it was the best. I liked walking round the village it used to make me giggle because people did not know we spoke Welsh and when we went inside the shops to speak, people used to stare at us and say how good we were.

Ysgol Abersoch gave me confidence and they taught me to ask questions and think for myself. I did not speak Welsh when I started and after a few weeks I was very good, I even helped my mum with her Welsh homework from her class.

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Daethpwyd i gasgliad yn dilyn asesiad manylach o'r opsiynau uchod, mae'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach oedd yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion a dosbarthiadau bychain.

2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Ystyriwyd amcanion llesiant Cyngor Gwynedd wrth werthuso'r opsiynau.

Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa bresennol.	
Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Dim effaith
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed	
Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar y nod hwn. Byddai proses statudol ynghlwm ag ymestyn yr ystod oedran. Ni ragwelir effaith ar drefniadau llywodraethol presennol.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Ffederaleiddio gydag Ysgol gyfagos	
Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach

Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n arwain at ddiswyddiadau staff. Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion.
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Bydd sicrhau fod y disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon, fan lleiaf, yn yr ysgol amgen.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae disgyblion Ysgol Abersoch yn byw mewn cymdeithas ble mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn bodoli ochr yn ochr a'i gilydd, ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel Ysgol Sarn Bach. Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol fod sefyllfa'r ysgol amgen yn gryf, gyda 57% o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg. O'i gymharu, mae 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg.
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith

Ysgol Aml-Safle

Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu Ysgol Aml-safle a sefydlu corff llywodraethol ar gyfer yr ysgol newydd. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws safleoedd yr ysgol. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron

Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).

Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

Nod	Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma?	Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma:
Cymru lewyrchus Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.	Byddai'r cynnig yn golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion. Yn ogystal, mae'r cynnig yn cyfrannu at y nod trwy wneud defnydd darbodus o adnoddau. Gallai gweithredu'r opsiwn yma arwain at staff yn colli eu swyddi.	Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gydfynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.
Cymru gydnerth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru iachach Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru sy'n fwy cyfartal Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).	Datblygwyd y cynnig o fewn cyd-destun y Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r weledigaeth: *"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"*	Nodai'r asesiad cydraddoldeb na ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb. Yn ogystal, nodwyd fod polisïau a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cydfynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu.
Cymru o gymunedau gydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.	Yn dilyn cynnal asesiad effaith ar y gymuned, daethpwyd i'r casgliad y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau.	Wrth gydnabod yr effaith negyddol y gallai cau'r ysgol gael ar gymuned Abersoch, nodir fod 35% o'r 26 o ddisgyblion (3-8) sy'n byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Credir felly fod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol amgen â'r gymuned yn Abersoch. O weithredu'r cynnig bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau hyn sydd rhwng y gymuned yn Abersoch ac Ysgol Sarn Bach trwy gynnal trafodaethau fyddai'n hybu

		cynnwys cymuned Abersoch yng ngweithgarwch cymunedol yr ysgol.
Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.	Ni ragwelir effaith ar y nod hwn gan y byddai'r cynnig yn golygu y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.	-
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith.

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

Egwyddorion Datblygu cynaliadwy	A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?
Hirdymor Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.	Mae patrwm o niferoedd isel yn Ysgol Abersoch ers rhai blynyddoedd, a bellach mae'r sefyllfa yn fregus iawn. Gyda rhagamcanion yn dangos niferoedd yn parhau'n isel, deuir i'r casgliad fod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor, ac felly mae'r achos dros newid yn glir.
Atal **Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion?**	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu ymhellach, bydd anghenion y plant yn flaenoriaeth wrth ymgymryd ag unrhyw broses ad-drefnu.
Integreiddio Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	Bu i'r awdurdod gychwyn y broses o adolygu sefyllfa'r ysgol yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol.
Cydweithio Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.	Fel rhan o'r broses o werthuso'r opsiynau bu i'r Adran Addysg dderbyn mewnbwn gan nifer o adrannau eraill o fewn y Cyngor. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol er mwyn derbyn mewnbwn cychwynnol rhan-ddeiliaid.
Cynnwys Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu.	Bydd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad statudol, ac ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc. Hyd yma, mae'r broses wedi cynnwys cyfarfodydd lleol i ymgysylltu gyda'r rhan-ddeiliad perthnasol gan gynnwys rhieni, staff a llywodraethwyr Ysgol Abersoch.

5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig hwn, gall arwain at gau ysgol yng nghymuned Abersoch, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgol amgen, ac felly mae cyswllt rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Sarn Bach yn cynnwys cymuned Abersoch, ble'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.



Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Abersoch

- Mai 2021

Cynnwys

1. **CYFLWYNIAD**

2. **OPSIYNAU**

3. **EFFAITH UNRHYW NEWID**

4. **DADANSODDI'R CANLYNIADAU**

5. **CASGLIAD**

1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-8 oed. Mae gan yr ysgol gapasiti o 42 (Meithrin i Flwyddyn 3), ac ym mis Ionawr 2020, roedd ganddi 7 disgybl llawn amser (rhwng 4-8 oed), a 2 ddisgybl meithrin. Erbyn heddiw (Medi 2020), mae ganddi 8 disgybl llawn amser (rhwng 4-8 oed), a 2 ddisgybl meithrin.

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *"gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."*

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (17 Medi 2019), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Abersoch (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020 i drafod ystod o opsiynau i geisio datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r Cyngor (yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021, a derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad.

2. OPSIYNAU

Cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau yn ystod y cyfarfodydd lleol. Yn dilyn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ychwanegol i'r opsiwn Gwneud Dim.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oedran Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn gallu parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

Opsiynau pellach a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:

- *Ysgol Aml-Safle*

Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Daethpwyd i gasgliad yn dilyn asesiad manylach o'r opsiynau uchod, mae'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach oedd yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion a dosbarthiadau bychain.

3. EFFAITH UNRHYW NEWID

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn?

Nodweddion	**Sut fath o effaith? ***	**Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?**
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim	Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd yma.
Yr Iaith Gymraeg	Dim	Mae Cynllun Addysg Gymraeg y Cyngor yn gosod yr un gofynion ar bob ysgol, ac felly o ran gweithredu'r polisi, ni ragwelir y byddai effaith pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Cynhaliwyd asesiad effaith ieithyddol ar y cynnig yn ogystal.
Anabledd	Dim	Dan ofynion Polisi'r Cyngor, mae gofyn i ysgolion ddarparu Polisi Gwrth-fwlio, ac felly bydd disgwyl i'r ysgol amgen warchod yn erbyn bwlio ar sail anabledd, ac yn wir, ar unrhyw sail arall. Yn ogystal, mae gan ysgolion Gwynedd Gòd Ymarfer Cludiant. Bydd angen i staff yr ysgol amgen ddarparu'r un lefel o ofal a bod yn ymwybodol o holl anghenion y disgyblion.
Rhyw	Dim	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith o safbwynt rhyw gan fod pob ysgol a effeithir yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*
Oedran	Dim – lled bositif.	Mae Ysgol Abersoch yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3-8 oed. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n golygu fod y disgyblion yn trosglwyddo i ysgol gydag ystod oed o 3 i 11 ar un safle. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai hyn cael effaith negyddol – mae pob ysgol a effeithir yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim	Fe nodir yn y polisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn

		"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."
Crefydd neu Gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Mae Ysgol Abersoch a'r ysgol amgen, sef Ysgol Sarn Bach yn ysgolion cymunedol – nid yw'r cynnig yn awgrymu newid hyn. Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred.
Ailbennu Rhywedd	Dim	Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Dim	-
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim	-

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	**A yw'n cael effaith?***	**Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?**
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn newid dyletswydd statudol yr ysgolion a effeithir arnynt i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Y nod yw rhoi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn mewn ffordd sy'n addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt. Byddant yn parhau i ddefnyddio'r Cyngor Ysgol, gwersi ABCh, polisïau gwrth-fwlio a dulliau eraill i sicrhau bod yr ysgol yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Nac ydi	Rhagwelir y bydd yr ysgol amgen yn parhau i hyrwyddo cyfleodd cyfartal.
Meithrin perthnasau da	Nac ydi	Gan fod rhai o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach mae'n deg nodi fod cysylltiad rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch eisoes yn bodoli. Serch hynny, gallai cyfleoedd i adeiladu ymhellach ar y berthynas â'r gymuned yn Abersoch ddeillio o weithredu'r cynnig.

4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

4.1 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Gan fod Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn gweithredu'r un polisïau mewn perthynas â chydraddoldeb a gwrth fwlio, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a gyfeirir atynt yn y ddogfen hon.

4.2 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Gan fod Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn gweithredu'r un polisïau mewn perthynas â chydraddoldeb a gwrth fwlio, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a gyfeirir atynt yn y ddogfen hon.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau â'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

4.4 Os yn parhau â'r cynllun, pa gamau byddwch yn eu cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Abersoch yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.

4.5 Monitro – pa gamau byddwch yn eu cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu'r gwasanaeth (cynllun gweithredu)?

Cyfrifoldeb yr ysgol (a'r Corff Llywodraethol) yw gweithredu'r polisïau cydraddoldeb, a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cymorth a monitro arferol, yn sicrhau cydymffurfiaeth.

5. CASGLIAD

Ni ragwelir y byddai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn achosi effeithiau negyddol o safbwynt cydraddoldeb. Mae ysgolion cynradd Gwynedd eisoes yn gweithredu polisi Cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgolion yn *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig hwn, ac os tynnir sylw at unrhyw effaith yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y Cyngor yn ceisio ffyrdd i'w lliniaru gan edrych yn benodol ar unrhyw awgrymiadau a gynhigir yn yr ymatebion.

Atodiad Dd
Appendix Dd

Fersiwn Gwreiddiol:
Original Version:

YMATEB DRAFT I ADRODDIAD DRAFT IR CABINET YNGLYN A YSGOL ABERSOCH

Cynghorydd Dewi Roberts

Ymateb ir Adroddaiad Draft

Yn gyntaf caf dtgan fy siom ynglyn ar amseren sydd wedi ei osod I fi ymateb ir adroddiad hyn cael derbyn yr adroddiad ar pnawn Dydd Gwener penwythnos y banc tra roeddwn I ffwrdd ar wyliau!

Felly rwyf wedi cael dau ddiwrnod Gwaith i paratoi ymateb ir adroddiad mae hyn wedi bod yn batrwm cyson yn ystod y broses ac rwyf wedi codi sylw ir fur amser anheg sydd yn cael ei gosod, ambell waith yn y gorffenol.

Hefyd rwyf wedi cael trafferth gyd fy surface pro hwn yw y cyfrifiadur rwyf wedi cadw Gwaith arno yn cynnwys phob cyfathrebiad I wneud ar broses cau yr ysgol. Rhif cwyn i2106-0163.

Awdur yr Adroddiad yw Swyddog Addysg Dwyfor a Feirionydd Gwern Ap Rhisiart a bydd cyflwyno yr adroddiad ir Cabinet ar 15fed Mehefin 2021 gan Aelod Cabinet Cynghorydd Cemlyn Williams.

1 & 2 Yr Argymhelliad ar Penderfyniad a geisir yw cymeradwyo I gau yr Ysgol ar 31 Rhagfyr 2021 a darparu lle I ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o Ionawr 2022 a fod hyn yn cael ei wneud wrth cyhoeddi rhybyddion statudol a pherthnasol ir broses.

3. Rhan y Cyflwyniad ir Adroddiad sydd yn son am y cyfardodydd dechreuol ir broses mae yna wedi bod oruder ar syt cafodd yr cfarfodydd yn ei chynnal a bydd derbyn ambell cwyn ynglyn a safon yr cyflwyniadau ar trfodaethau. Hefyd bydd pruder yngly ar opsiynnau oedd yn cael ei rhoi wrth law ar eglurhad syt oedd dilyn yr opsiynnau hyn I fynnu, engraifft o hyn oedd opsiwn ffedreleiddio gyda ysgol arall.

Mae y fater fod y Penderfyniad gan y Cabinet wedi cael ei alw I fewn gan y Pwyllgor Craffu Addysg ar argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Addysg Ir Cabinet ail ystyrio yr penderfyiad yn arwydd cryf fod pruderon dros y Penderfyniad Cabinet I parhau gydar broses ymgynghori.

4 Cefndir

Y Prif heriau

i. **Fel sydd wedi arddangos yn tablau yrt Adran Addysg mae rhif disgyblion yr Ysol yn gallu cynyddu yn yn sydyn yn ogystal a gostwng mae rhifau disgyblion yr Ysgol wedi aros yn debyg yn ddiwedar ond mae diddordeb wedi ei ddangos gan rhieni I gofrestur ei plant I fynychu ar ysgol yn y dyfodol hyn er yr cwmwl mawr sydd wedi bod dros yr ysgol y flwyddyn diethaf yma. Mae y Meithrinfa ar grwp Ti a Fi yn brysyr ac yn datblygu yn ffrwythlon ar profiad yn llefydd eraill yw fod hyn yn dilyn cynydd mewn rhifau disgyblion.**

ii. **Rhan maint yr Dosbarthiadau mae pruder wedi ei ymddangos gan llwyodraeth cymru rhan maint dosbarthiadau gan ddweud fod well cael dosbarthiadau llai. Felly mae elfen positif I dosbarth bach.**

iii. **Lle mae tystioliaeth rhan y rhagolygon cynydd o cynyddiad o ddim ond dau I 2023 fel sydd wedi ei ddangos yn y dyfodol mae cynyddiad rhifau disgyblion yn gallu digwydd yn sydyn ac yn anisgwyl fellu mae beth sydd yn yr adroddiad yn gamarweiniol.**

iv. **Mae ddigon phosib i rhieni newid ei meddwl rhan pa ysgol mae nhw am anfon ei plant I mae debyg os bydd cadw yr ysgol bydd llawer o rhieni yn ail feddwl ac yn anfon ei plant ir ysgol agosach am ambell rheswm.**

v. **Mae y swm sydd yn cael ei drodd yn dderbyniol ar rhifau disgyblion ac gyda edrych mewn ffordd uchalgeisiol ar hyn os bydd y rhifau yn codi fel mae rhywyn yn obeithiol o ddigwydd ni fydd y swm £52,582 yn perthnasol.**

vi. **Cyfeiriaf at ymateb v. mae ddigon phosib ni fydd y gwhaniaeth yma yn bod os byddrhifau yn cynyddu.**

4.2 Nid rwyf gyda dadl ynglyn a cyd Destyn Srtategol ond I ddweud fod colli adnodd ysgol yn yr Ardal am cael effaith niwediol ar y gallu I rhoi addusg gorau I plant fy ward ac rhan hawl dewis I rhieni y plant.

4.3 Rwyf yn nodi yr opsiynau sydd gerllaw ond yn dal I pryderu rhan yr ymchwil I mewn ir opsiwnau yma y bennaf y broses o Ffedraeleiddio gyda Ysgol cyfagos a y phosib o cael plant o 3oed I 9oed nid rwyf yn derbyn fod hyn ddim yn cael effaith ar rhifau plant yn Abersoch a fod yr effaith o wneud hyn yn cael ddim effaith ar Ysgol Sarn Bach – nid rwyf yn teimlo fod hyn wedi ei trialu am cyfnod.

Yr adborth rwyf yn dderbyn yn lleol fod yna canfyddiad yma o anwybyddu ynrhyw sylwad ar unig opsiwn sydd yn dderbyniol yw cau yr ysgol.

4.3.2 – 4.8.5 Rwyf yn barod wedi ymateb I rhai or pwyntiau ac ddim am air ddwud ond mae capacity y ddau ysgol cyfagos Ysgol Llanbedrog a Ysgol Sarn Bach yn fy mhoeni. Mae eto son am capacity Ysgol Abersoch sef 32 nid yw yr ysgol erioed wedi cyrraedd y rhif yma?

5. Mae effaith difrifol am fod ar y ddiwylliant ar Iaith Cymraeg wrth cau yr ysgol a ac er fod yna effaith cyllidol ar hyn o brud does dim mesyr or colled yma mewn ardal sydd ai iaith ai ddiwylliant od dan ffaswn her ac be fydd y costau I ynrhyw syniad neu project I ymateb I achub yr iaith ar diwylliant yma – berrig fydd arbed wrth gau a gwario mwy ar menterion llawer llai effeithiol yn y dyfodol.

6. Ymgynghoriad. Er rwyf or farn fod yn amhosib cael ymgynghoriad cyflawn a theg yn yr amgylchiadau COVID mae yr ymgynghoriad yn glir fod gwrthwynebiad clir I gau yr ysgol ac os bydd hyn yn mynd ymlaen mae hyn yn groes I awydd y gymdeithas yn cynnwys y plant y rhieni, y trigolion, Staff yr Ysgol, Cyngor Cymuned Aleod Lleol ar Aelod Seneddol.

Mae yr ymgyngohoriad hefyd yn dangos for pryder ynglyn a y broses or ymgynghoriad ei hyn.

Mewn canlyniad mae yn hawdd yn fan hyn cael canfyddiad fod y fater yn fait accompli sydd yn bechod fawr.

Hoffwn cadarnhau y bydddaf yn cael ymuno ar Cyfarfod Cabinet a fod Cadeirydd ar Is gadeirydd hefyd yn cael gwahoddiad ir cyfarfod os dim ond rhan parch yw Gwaith ddi ben ir gorau yr Ysgol fach yma.

Dewi Roberts

Cynghorydd Abersoch

Fersiwn wedi'i gyfieithu:

Translated version:

DRAFT RESPONSE TO CABINET'S DRAFT REPORT ON YSGOL ABERSOCH

Councillor Dewi Roberts

Response to Draft Report

First of all I can express my disappointment at the timescale that has been set for me to respond to this report to receive the report on Friday afternoon on the bank weekend while I was away on holiday!

Therefore, I have had two Working Days to prepare a response to the report, this has been a consistent pattern throughout the process and I have drawn attention to the unfair timescales that are imposed, sometimes in the past.

Also I've had trouble with my surface pro this is the computer I've kept Work on including all the communications to do on the school closing process. Complaint number i2106-0163.

The Report is authored by Dwyfor and Meirionnydd Education Officer Gwern Ap Rhisiart and the report will be presented to Cabinet on 15th June 2021 by Cabinet Member Councilor Cemlyn Williams.

1 & 2 The Recommendation of Resolution sought is to approve the closure of the School on 31 December 2021 and to provide a place for pupils at Ysgol Sarn Bach from January 2022 and that this be done when issuing statutory and relevant notices to the process.

3. In relation to the Report Introduction which talks about the initial meetings of the process there has been concern about how the meetings were conducted and there will be some complaints about the standard of presentations and discussions. There was also concern regarding options that were being put to hand and the explanation of how to pursue these options. An example of this was a federalization option with another school.

The fact that the Cabinet Decision has been called in by the Education Scrutiny Committee on a recommendation from the Education Scrutiny Committee to the Cabinet to reconsider the decision is a strong indication that there are concerns over the Cabinet Decision to continue the consultation process.

4 Background

Main challenges

i. ***As has been shown in the Education Department tables the School's pupil numbers can rise sharply as well as the School's pupil numbers have remained similar recently but parents have shown interest in registering their children to attend school future despite the big cloud that has been over the school this past year. The Nursery on the Ti a Fi group is busy and is developing fruitfully and experience elsewhere is that this is following an increase in pupil numbers.***

ii. *With regard to Class sizes, concern has been expressed by the Welsh government over class sizes saying that smaller classes are better. So there is a positive element to small class.*

iii. *Where is the evidence part of the forecasts of an increase of only two to 2023 as has been shown in the future the rise of pupil numbers can happen suddenly and unexpectedly so what is in the report is misleading.*

iv. *It is quite possible for parents to change their mind about which school they want to send their children to if it is likely that keeping the school will result in many parents re-thinking and sending their children to the nearer school for a few reasons.*

v. *The amount reported is acceptable on pupil numbers and with an ambitious look at this should the numbers rise as one hopes it will do so, the sum of £ 52,582 will not apply.*

vi. *I refer to response v. this difference may well not exist if numbers increase.*

4.2 I am not in a debate about a Strategic Theme but to say that the loss of a school resource in the Area has a detrimental effect on the ability to provide the best education for the children of my ward and the right of choice for the parents of the children.

4.3 I note the options that are nearby but I remain concerned about the part of the research into these options mainly the Federalization process with a nearby School and the possibility of educating children from 3 to 9 years of age I do not accept that this does not affect child numbers in Abersoch and the effect of doing this has no effect on Ysgol Sarn Bach - I don't feel this has been trialled for a period.

The feedback I receive locally is that there is a perception here of ignoring any comment and the only option that is acceptable is closing the school.

4.3.2 - 4.8.5 I have already responded to some of the points but the capacity of the two neighboring schools Ysgol Llanbedrog and Ysgol Sarn Bach worries me. The Abersoch capacity of 32 is again mentioned, the school has never reached this number?

5. There is a serious impact on culture on the Welsh Language when closing the school and although there is a financial impact on this at present there is no measure of this loss in an area which has a language and culture facing a challenge and what will be the costs of any idea or project to respond to saving the language and culture here - saving in closing and spending more on much less effective issues in the future is a risk.

6. Consultation. Although I think it is impossible to have a full and fair consultation in the COVID circumstances, the consultation is clear that there is a clear objection to closing the school and that if this goes ahead this is contrary to the desire of the society including the children parents, residents, School Staff, Community Council Local Member and Member of Parliament.

The consultation also indicates that there is concern about the consultation process itself.

As a result it is easy here to find that the issue is a fait accompli which is a great shame.

I would like to confirm that I will be able to join a Cabinet Meeting and that a Chair and Vice Chair will also be invited to the meeting if the respect for the best work of this small School is just a matter of respect.

Dewi Roberts

Abersoch Councillor

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y cyfarfod:	**Mehefin 15fed, 2021**
Aelod Cabinet perthnasol:	**Cyng. Dyfrig Siencyn**
Swyddog Cyswllt:	**Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr**
Teitl yr Eitem:	**Ymateb i'r adroddiad *"Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru"***

Y Penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

a) Gytuno ar ymateb y Cyngor i'r adroddiad *"Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru"* fel a nodir yn rhan 9 o'r adroddiad hwn gan amlygu'n benodol yr angen i addasu argymhelliad rhif 7.

b) Ofyn i Arweinydd y Cyngor gyfleu'r ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru gan alw arnynt i'w fabwysiadu a gweithredu'r argymhellion mwyaf effeithiol ar fyrder er mwyn ymateb i'r argyfwng tai sy'n wynebu cymunedau Gwynedd.

Cefndir

1. Bydd Aelodau yn ymwybodol mai un o'r prif heriau i gymunedau Gwynedd yw'r cynnydd parhaus mewn prisiau tai a hynny yn bennaf oherwydd fod y niferoedd ail gartrefi a llety gwyliau yn parhau i gynyddu'n ddyddiol. Golyga hyn fod gallu trigolion lleol i fyw o fewn eu cymunedau dan fygythiad sylweddol.

2. Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan yn gwbl glir mai'r argyfwng tai yw un o'i brif flaenoriaethau a'n bod yn bwriadu gwneud popeth o fewn ein grym i gefnogi gallu trigolion ein sir i allu byw o fewn eu hardal leol.

3. Ym mis Mawrth eleni cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr o dan y teitl *"Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru"* mewn ymateb i gomisiwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. Awdur yr adroddiad yw Dr Simon Brooks.

4. Mae copi llawn o'r adroddiad i'w weld yn Atodiad A. Yn gryno, mae'r adroddiad yn ymchwilio i'r sefyllfa bresennol mewn perthynas ag ail gartrefi ac yn gwneud nifer o argymhellion polisi a fyddai modd eu defnyddio i geisio ymateb i'r cynnydd cyson yn y niferoedd ohonynt yn ein cymunedau.

5. Mae'n adroddiad defnyddiol iawn ac o ystyried mai yng Ngwynedd y mae'r ganran uchaf o gartrefi gwyliau yng Nghymru (11%) mae unrhyw argymhellion allasai ein cynorthwyo i geisio cyflawni ein blaenoriaeth i gefnogi trigolion lleol i fyw o fewn eu cymunedau yn cael eu croesawu'n fawr gennym fel Cyngor.

6. Mae'n briodol amlygu fod yr adroddiad hwn i raddau helaeth yn ymateb i adroddiad blaenorol a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd. Cyhoeddwyd yr adroddiad "*Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau"* gennym ym mis Rhagfyr, 2020, gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Roedd yr adroddiad hwn yn ganlyniad gwaith ymchwil cynhwysfawr ar y sefyllfa tai gwyliau yng Ngwynedd a hynny yng nghyd-destun y sefyllfa tai gwyliau ar lefel genedlaethol.

7. Gwnaethpwyd chwe argymhelliad polisi yn yr adroddiad, a fyddai'n gwella ein gallu i reoli'r niferoedd tai gwyliau yn y sir. Mae'n braf gweld fod pedair o'r argymhellion hyn rhan o argymhellion Dr Brooks yn ei adroddiad yntau.

8. Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad gwreiddiol a gomisiynwyd gennym fel Cyngor yn Atodiad B.

Argymhellion yr adroddiad "*Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru*"

9. Mae adroddiad Dr Brooks yn cynnwys 12 argymhelliad a gwelir isod ein hymateb fel Cyngor i'r argymhellion unigol:

Argymhelliad	**Ymateb Cyngor Gwynedd**
1 – Datblygu amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn polisi cyhoeddus Ffenomen ranbarthol a lleol yw ail gartrefi yn bennaf oll, a dylai Llywodraeth Cymru feithrin atebion polisi rhanbarthol a lleol wrth ganiatáu amrywiadau polisi oddi mewn i fframwaith genedlaethol. Dylai atebion polisi cyhoeddus fod yn ddigon hyblyg fel bod modd eu gweithredu mewn gwahanol ffyrdd mewn siroedd a chymunedau gwahanol yn ôl anghenion rhanbarthol a lleol.	Cytuno fod hyn yn gwneud synnwyr gan y byddai'n galluogi ateb y broblem sy'n bodoli ym mhob ardal leol yn hytrach na cheisio darganfod un ateb cyffredinol ar gyfer pob problem benodol drwy'r wlad.
2 – rheoli niferoedd ail gartrefi Mewn cymunedau yr effeithir arnynt gan ail gartrefi, dylid gosod nod polisi cyhoeddus o geisio sefydlogrwydd yn eu niferoedd, neu ostyngiad graddol dros nifer o flynyddoedd.	Cytuno'n llwyr gyda'r amcan hwn.
3 – diffinio ail gartrefi Er mwyn hwyluso penderfyniadau polisi wedi'u seilio ar wybodaeth wrthrychol, mae angen diffinio ail gartrefi yn well. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried sawl ffordd o wneud hyn, ond	Cytuno. Cafodd yr argymhelliad hwn ei gynnwys yn yr adroddiad "*Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau"*, Rhagfyr 2020, a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd.

gyda hyn mewn golwg, dylid cyflwyno Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Cartrefi Gwyliau.	
4 – ymateb i Brexit a Covid-19 Er mwyn ceisio lliniaru effeithiau anochel Brexit a Covid-19 ar y farchnad dai mewn cymunedau yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi, dylai Llywodraeth Cymru weithredu mewn modd mwy rhagweithiol, gan gymryd camau mwy radical nag a gymerid fel arall.	Cytuno fod angen gweithredu yn rhagweithiol, a hynny ar fyrder.
5 – yr angen am gamau gweithredu ar draws ystod o feysydd polisi Dylid cyflwyno polisïau ar draws ystod o feysydd polisi, ac yn benodol yn y tri maes canlynol: polisïau cynllunio uniongyrchol, polisïau cynllunio anuniongyrchol, a pholisïau trethiannol.	Cytuno. Cafodd hyn ei amlygu yn yr adroddiad "*Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau"*, Rhagfyr 2020, a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd.
6 – Premiwm y Dreth Gyngor Leol Dylai cynghorau sir sy'n canfod fod ail gartrefi yn broblem gymdeithasol ddifrifol ddefnyddio eu grymoedd trethiannol yn llawn, gan godi premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi i 100%.	Cytuno, ac mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi mabwysiadu premiwm treth cyngor o 100%. Fodd bynnag, er mwyn i'r argymhelliad hwn arwain at gyflawni effeithiol mae angen y newid deddfwriaethol a amlygir yn yr ymateb i argymhelliad 7 isod. Oni wneir hyn, mae risg y bydd perchnogion ail gartrefi yn gallu parhau i geisio osgoi talu'r premiwm treth Cyngor.
7 – Llety gwyliau tymor byr a threthi busnes Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynglŷn â phosibiliad eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach.	Er yn cytuno gydag amcan yr argymhelliad hwn, barn gryf Cyngor Gwynedd – sydd wedi cael ei fynegi i Weinidogion Cymru ers blynyddoedd – yw na ddylai anheddau preswyl allu trosglwyddo i'r gyfundrefn annomestig o gwbl. Fel mae'r argymhelliad yn sefyll, hyd yn oed petai rhyddhad ardrethi busnesau bychain yn cael ei ddiddymu, byddai mwyafrif y perchnogion yn parhau i dalu llai o dreth, a gan fod incwm o'r dreth annomestig yn cael ei ddosrannu'n genedlaethol ar sail poblogaeth Awdurdodau unigol byddai incwm Cyngor Gwynedd yn aros yn sylweddol is na phetai'r annedd yn destun Treth Cyngor. Felly byddai hyn yn arwain at lai o drethi i awdurdodau allu eu hail fuddsoddi mewn materion tai a gan fod y trethi annomestig yn rhatach na'r premiwm treth Cyngor bydd mwyfwy yn trosglwyddo i'r dreth annomestig tra fod hynny'n bosib. Golyga hyn fod effeithiolrwydd y polisi i ganiatáu codi

	premiwm treth Cyngor wedi ei wanio'n sylweddol. Yr ateb effeithiol yw gorfodi bob perchennog ail gartref dalu'r premiwm treth Cyngor (sy'n cael ei gasglu'n lleol ac felly ar gael i gynghorau ei ail fuddsoddi mewn materion tai lleol) a'r ffordd o gyflawni hyn yw drwy newid Adran 66 Deddf Llywodraeth leol fel bod pob tŷ annedd yn cael ei ystyried dan y gyfundrefn trethiant Treth Gyngor ta waeth beth yw'r defnydd a wneir ohono. Byddai addasu'r argymhelliad yn y modd yma yn golygu fod y polisi o ganiatáu codi premiwm treth Cyngor yn effeithiol ac yn cyflawni ei bwrpas.
8 – Treth trafodiadau tir Dylai fod modd amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir mewn un ai siroedd neu wardiau llywodraeth leol er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol. Er mwyn cyflawni hyn: i. Gallai Llywodraeth Cymru ddirprwyo i gynghorau sir hawl i amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir, gan greu'r potensial i ychwanegu cyfradd bellach at y dreth o hyd at 4% o werth yr ail eiddo mewn rhai rhannau o Gymru. ii. *Neu*, gallai Llywodraeth Cymru amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir yn y dull hwn mewn wardiau llywodraeth leol penodol yr effeithir arnynt yn ddwys gan y broblem ail gartrefi.	Cytuno y gallai hyn wneud cyfraniad cadarnhaol ond o bosib bydd yn llai effeithiol na rhai o'r argymhellion eraill gan y bydd yn daliad unwaith ac am byth ac o bosib yn swm annigonol i ddwyn perswâd ar ddarpar brynwyr i beidio a phrynu ail gartref.
9 – Polisi 'Tai Marchnad Lleol' cynghorau sir Gwynedd ac Ynys Môn Dylai Cynghorau Gwynedd a Môn ystyried ymestyn polisi 'Tai Marchnad Lleol' *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn* i gymunedau arfordirol a bregus eraill yn y ddwy sir lle ceir dwysedd o ail gartrefi ochr-yn-ochr â phroblem fforddiadwyedd. Dylai awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru graffu ar y polisi 'Tai Marchnad Lleol' er mwyn ystyried a allai polisi o'r fath fod yn llesol ar gyfer rhai o'u cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen diwygio neu gryfhau cyfarwyddyd cynllunio er mwyn cefnogi neu hwyluso ymestyn y polisi hwn neu bolisïau cyffelyb.	Cytuno. Cafodd yr argymhelliad hwn ei gynnwys yn yr adroddiad "*Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau"*, Rhagfyr 2020, a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd. Mae gwaith ar y gweill gan gennym yn barod i ystyried hyn.

10 – creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Gorchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygiadau) (Cymru) 2016 drwy gyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr.	Cytuno. Cafodd yr argymhelliad hwn ei gynnwys yn yr adroddiad "*Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau"*, Rhagfyr 2020, a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd.
11 – treialu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi Dylai Llywodraeth Cymru gynnal treial mewn cymuned neu glwstwr o gymunedau yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi, a lle ceir cefnogaeth gymunedol ar gyfer hynny, er mwyn gwerthuso ymarferoldeb ac effaith cyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi. Byddai hyn yn gwneud trosi tŷ annedd yn ail gartref yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio pan fo canran yr ail gartrefi yn y stoc dai mewn cymuned neilltuol yn croesi trothwy benodol.	Cytuno y byddai hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol ond yn ymwybodol fod ein gwaith ymchwil hyd yma wedi amlygu heriau ymarferol o geisio cyflwyno trefniadau o'r fath. Serch hynny, byddai'r Cyngor yn cefnogi pob ymdrech i geisio goresgyn y rhwystrau hyn.
12 – sefydlu Comisiwn i wneud argymhellion am ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Comisiwn er mwyn gwneud argymhellion yn ymateb i'r heriau ieithyddol a fydd yn wynebu ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol ar hyn o bryd yn wyneb ailstrwythuro sosio-economaidd a chymdeithasol tebygol. Dylai'r Comisiwn fynd i'r afael yn benodol â heriau'r cyd-destun ôl-Brexit ac ôl-Covid gyda'r nod o warchod, sefydlogi a meithrin dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol yng Nghymru.	Cytuno y byddai Comisiwn yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol ond yn awyddus i bwysleisio na ddylai hyn arwain at oedi yng ngwireddu'r materion a nodir yn yr argymhellion ymarferol eraill.

Casgliadau

10. Dymuniad clir a chadarn Cyngor Gwynedd yw sicrhau fod pob mesur posib yn cael ei ddefnyddio i geisio ymateb i'r argyfwng tai sy'n cael ei wynebu gan drigolion y sir yn eu cymunedau heddiw. Mae'n gwbl amlwg fod y cynnydd mewn niferoedd ail gartrefi yn ein cymunedau yn cyfrannu'n sylweddol tuag at wthio prisiau tai tu hwnt i gyrraedd trigolion lleol ac mae'n flaenoriaeth gennym i wneud popeth sydd o fewn ein grym i ymateb i'r sefyllfa yma.

11. Dyna sydd eisoes wedi arwain at weithredu'r canlynol dros y 12 mis diwethaf:

    a) Cwblhau ymchwil manwl i'r sefyllfa ail gartrefi a gwneud argymhellion polisi clir a

fyddai'n mynd i'r afael â'r cynnydd yn y niferoedd ail gartrefi.

b) Mabwysiadu Polisi Gosod Lleol newydd ar gyfer gosod tai cymdeithasol.
c) Cynyddu'r premiwm treth cyngor i 100%.
ch) Defnyddio'r cyfan o'r incwm o'r premiwm, £15M o gyllid y Cyngor, a benthyca £15M pellach er mwyn llunio ein Cynllun Gweithredu Tai arloesol newydd - 33 prosiect penodol sy'n cynnwys buddsoddi:

- £30M ar dai cymdeithasol lle mae eu hangen – y cyfan i'w gosod drwy'r Polisi Gosod Lleol newydd.
- £15M ar brynu tai oddi ar y farchnad a'u gosod i bobl leol sydd angen cartref yn eu cymuned ond yn disgyn tu allan i flaenoriaethau y gofrestr tai cymdeithasol.
- £4M i sybsideiddio adeiladu 100 o dai i'w gwerthu drwy gynllun rhan berchnogaeth i drigolion leol.
- £4M i roi grantiau i brynwyr tro cyntaf lleol i adnewyddu tai gwag
- £3M i roi grantiau ariannol i roi gwell cyfle i brynwyr tro cyntaf lleol allu cystadlu yn y farchnad dai.

12. Rydym yn ffyddiog y bydd y mesurau hyn yn cyfrannu tuag at wella'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, credwn ein bod bellach wedi cyflawni popeth sydd o fewn ein grym presennol fel Awdurdod Lleol, ac mae'n amlwg y bydd angen gweithredu tu hwnt i'r grym hwn os am lwyddo i ymateb yn llawn i'r bygythiad i allu'n trigolion lleol i fyw yn eu cymunedau.

13. Felly, mae gweithredu buan ar yr argymhellion a amlygir yn yr adroddiad *"Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru"* yn gwbl hanfodol ac rydym fel Cyngor yn gofyn felly i Lywodraeth Cymru eu mabwysiadu ar fyrder, gan ymgorffori'r addasiad i argymhelliad rhif 7 a nodir yn y tabl yn rhan 9 o'r adroddiad hwn.

14. Rydym fel Cyngor bob amser yn dymuno gweld mesurau a fydd yn arwain at gyflawni'r canlyniadau gorau i drigolion y sir ac i'r perwyl hwnnw gofynnwn i'r Llywodraeth flaenoriaethu'r argymhellion hynny sy'n debygol o gael yr effaith mwyaf cadarnhaol, sef:

Argymhelliad 7 – Llety gwyliau tymor byr a threthi busnes
Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynglŷn â phosibiliad eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach.

Argymhelliad 10 – creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr
Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Gorchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygiadau) (Cymru) 2016 drwy gyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr.

Argymhelliad 3 – diffinio ail gartrefi
Er mwyn hwyluso penderfyniadau polisi wedi'u seilio ar wybodaeth wrthrychol, mae angen diffinio ail gartrefi yn well. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried sawl ffordd o

wneud hyn, ond gyda hyn mewn golwg, dylid cyflwyno Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Cartrefi Gwyliau.

(Mae angen gweithredu argymhelliad 10 a 3 gyda'i gilydd i fod yn llwyddiannus)

Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

O ystyried penderfyniadau blaenorol y Cyngor mewn ymateb i sefyllfa tai yng Ngwynedd mae'n briodol fod adroddiad Brookes yn derbyn ystyriaeth ffurfiol gan y Cabinet. Mae hefyd yn caniatáu i'r Cyngor fyddai, fel awdurdod lleol a ròl ganolog mewn gweithredu nifer o'r argymhellion, gyfrannu at y drafodaeth drwy dynnu sylw hefyd at wendidau penodol.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf wedi cael cyfle i gynnig mewnbwn i'r ymateb yma ac rwyf yn cefnogi'r cynnwys.

Mae trosglwyddiad unedau gwyliau o'r drefn Treth Cyngor i drethi annomestig yn parhau'n risg ariannol. Mae rhaglen waith yr Adran Gyllid yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn nodi y byddwn yn anelu i gyfarfod gyda'r Gweinidog er mwyn rhoi pwysau ar y Llywodraeth i newid deddfwriaeth yn ymwneud â thai haf ac unedau gwyliau, ac yn cynnal ymgyrch ehangach i hyrwyddo deddfwriaeth addas.

Atodiadau

Atodiad A: "*Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru", Dr Simon Brooks, Mawrth 2021*

Atodiad B: "*Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau", Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, Rhagfyr 2020*

CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru

Awdur: Dr Simon Brooks

Academi Hywel Teifi

Prifysgol Abertawe Swansea University

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru

Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cynghorau cymuned; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

Trosolwg

Ysgogwyd yr adroddiad hwn yn dilyn dyfarniad grant bychan gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i Dr Simon Brooks, Athro Cyswllt yn yr Ysgol Reolaeth ym Mhrifysgol Abertawe, i graffu ar bolisi ail gartrefi yng Nghymru a Chernyw. Y nod gwreiddiol oedd paratoi adroddiad byr yn canolbwyntio ar y gymhariaeth rhwng atebion polisi cyhoeddus a seilir ar bolisi trethiannol (Cymru) ac ar bolisi cynllunio (Cernyw). Fodd bynnag, oherwydd y diddordeb cynyddol yn y maes hwn, gofynnodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru, i'r ymchwilydd ehangu'r ymchwil er mwyn craffu ar rai materion ehangach yn ymwneud ag ail gartrefi gan hefyd wneud argymhellion polisi.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: **UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru**

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn **llyw.cymru/y-gymraeg**

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42058 ISBN digidol 978 1 80082 857 5

Cynnwys

Cylch gorchwyl

1. Cyd-destun

2. Problem ranbarthol a lleol – nid problem genedlaethol

3. Effaith ail gartrefi ar gynaliadwyedd cymunedau a'r iaith Gymraeg

4. Brexit a Covid-19 – rheswm dros weithredu

5. Model theoretig ar gyfer cyflwyno polisïau

6. Polisi trethiannol

7. Polisi cynllunio – astudiaeth gymharol o bolisi cynllunio a rheoli ail gartrefi mewn tai newydd yng Nghymru a Chernyw

8. Polisi cynllunio a'r stoc dai bresennol

9. Dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol

10. Argymhellion

Llyfryddiaeth

Cylch gorchwyl

Derbyniwyd grant bychan oddi wrth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn craffu ar bolisi parthed ail gartrefi yng Nghymru a Chernyw. Diben y cyllid oedd ariannu un daith ymchwil i Gernyw, a chynnal seminar yn y Senedd i drafod casgliadau a chanfyddiadau yn deillio o'r daith honno. Nid oedd y cyllid yn talu am amser yr ymchwilydd, a'r nod felly oedd llunio adroddiad cryno yn canolbwyntio ar y gymhariaeth rhwng Cymru a Chernyw yn unig, gyda sylw i'r gwahaniaeth rhwng atebion polisi cyhoeddus a seilir ar bolisi trethiannol (Cymru) ac ar bolisi cynllunio (Cernyw).

Fodd bynnag, oherwydd diddordeb cynyddol yn y maes, gofynnwyd i'r ymchwilydd gan Weinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru a fyddai modd ehangu rhywfaint ar yr ymchwil er mwyn craffu ar rai materion ehangach yn ymwneud ag ail gartrefi, a gwneud argymhellion polisi. Cytunodd yr ymchwilydd ar ôl ymgynghori â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol y byddai hyn yn fuddiol.

Nid yw'r ymchwil yn cwmpasu pob ystyriaeth yn y maes, ac yn yr achosion hyn, cyfeirir at yr angen am ymchwil bellach, neu nodir lle mae ymchwil wedi digwydd eisoes.

Yr Ymchwilydd

Awdur yr adroddiad yw'r Dr Simon Brooks, Athro Cyswllt yn yr Ysgol Reolaeth, Prifysgol Abertawe. Mae hefyd yn Aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg sy'n cynghori Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

1. Cyd-destun

Ar ddechrau 2020, amcangyfrifiwyd y byddai 24,423 o ail gartrefi yng Nghymru y gellid codi treth arnynt fel ail gartrefi yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21 (Llywodraeth Cymru, 2020a, t. 9). Nid yw'r cyfanswm hwn yn cynnwys unedau gwyliau (o wahanol fathau) sydd wedi eu cofrestru ar gyfer ardrethi annomestig (sef treth fusnes).

Mae ail gartrefi yn ffurfio rhan nid ansylweddol o'r stoc dai mewn sawl rhan o'r Gymru wledig, sydd yn aml yn 'cyfateb i berfeddwlad traddodiadol siaradwyr Cymraeg' (Tewdwr-Jones *et al.*, 2002, t. 6). Mae eu presenoldeb felly yn ystyriaeth o safbwynt cynllunio ieithyddol yn ogystal â chynllunio gwlad a thref.

Patrwm rhanbarthol sydd i'r dosbarthiad o ail gartrefi yng Nghymru, gyda nifer uchel iawn mewn rhai siroedd gwledig, niferoedd lled uchel ond canrannau llai mewn rhai dinasoedd, ond ceir rhai ardaloedd ôl-ddiwydiannol a threfol lle nad oes fawr ddim ail gartrefi o gwbl.

Tabl 1: Nifer yr ail gartrefi yr amcangyfrifwyd y gellid codi premiwn y dreth gyngor arnynt fel ail gartrefi yn ystod 2020-21 fesul cyngor sir ('total chargeable second homes') (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2020a, t. 9)

Gwynedd	4,900
Sir Benfro	4,072
Caerdydd	3,188
Abertawe	2,125
Ynys Môn	2,112
Ceredigion	1,735
Powys	1,313
Conwy	1,182
Sir Gaerfyrddin	1,125
Bro Morgannwg	535

Castell-nedd Port Talbot	522
Sir Ddinbych	422
Sir y Fflint	268
Caerffili	263
Rhondda Cynon Taf	226
Merthyr Tudful	214
Sir Fynwy	200
Casnewydd	11
Torfaen	7
Pen-y-bont ar Ogwr	3
Blaenau Gwent	0
Wrecsam	0

Dylid nodi hefyd fod eiddo a ddefnyddir neu a gofrestrir fel busnesau (unedau gwyliau, tai yn cael eu gosod allan, AirBnB ayyb) yn rhan sylweddol o'r stoc dai mewn ardaloedd lle mae niferoedd ail gartrefi hefyd yn uchel. Yng Ngwynedd, ganol haf 2020, yn ychwanegol at y 4,873 o ail gartrefi a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer y dreth gyngor, adnabuwyd 1,976 o unedau llety gwyliau (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 27). Roedd felly o leiaf 6,849 o 'gartrefi gwyliau' yn y sir, sef 10.76% o'r holl stoc dai.

Felly, gellid tybio fod ffigyrau sy'n cyfrif faint o 'ail gartrefi' sydd yng Nghymru ar sail y dreth gyngor yn tangyfrif faint o'r stoc dai sy'n cael ei defnyddio at ddibenion hamdden neu wyliau, ac nad yw o ganlyniad ar gael i'r boblogaeth leol.

Pan gyfrifir llety gwyliau ar y cyd ag ail gartrefi sy'n gymwys ar gyfer y dreth gyngor, ymddengys natur ranbarthol y broblem ail gartrefi hyd yn oed yn fwy amlwg. Yn y tabl isod, nodir 'cartrefi gwyliau' a ddiffinnir yn y dull hwnnw fel canran o'r stoc dai mewn siroedd yng Nghymru. Gwelir mai ffenomen ydyw sydd wedi'i chyfyngu ar ei ffurf fwyaf garw i bedair sir arfordirol y gorllewin (Gwynedd, Sir Benfro, Ceredigion ac Ynys Môn). Er y ceir ardaloedd llai mewn siroedd eraill (megis Penrhyn Gŵyr yn Abertawe) yr effeithir arnynt hefyd gan bresenoldeb ail gartrefi, ardaloedd 'gwyliau' yw'r rhain yn ogystal, a theg dweud fod bwlch rhwng ardaloedd gwyliau a gweddill Cymru o ran dwysedd ail gartrefi yn y stoc dai.

Tabl 2: Ail Gartrefi a Llety Gwyliau yng Nghymru fel canran o'r stoc dai fesul ardal cyngor sir (Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 28)

Gwynedd	10.76%
Sir Benfro	9.15%
Ynys Môn	8.26%
Ceredigion	5.91%
Powys	3.14%
Conwy	2.97%
Sir Fynwy	2.32%
Caerdydd	2.29%
Abertawe	1.92%
Sir Gaerfyrddin	1.58%
Sir Ddinbych	1.23%
Castell-nedd Port Talbot	0.91%
Merthyr Tudful	0.87%
Bro Morgannwg	0.5%
Wrecsam	0.5%
Sir y Fflint	0.35%
Rhondda Cynon Taf	0.21%
Pen-y-bont ar Ogwr	0.06%
Casnewydd	0.03%
Caerffili	0.02%
Blaenau Gwent	0.02%
Torfaen	0.02%

O safbwynt yr adroddiad hwn, dylid nodi nad oedd yr unedau gwyliau hyn yn rhan o'r cylch gorchwyl a osodwyd ar ddechrau'r astudiaeth, sef cymharu polisi cyhoeddus mewn perthynas ag ail gartrefi yng Nghymru a Chernyw. Nid oeddynt yn rhan o'r cylch gorchwyl ychwaith pan benderfynwyd ehangu'r astudiaeth i drafod polisi cyhoeddus o ran ail gartrefi'n fwy cyffredinol.

Roedd dau reswm am hyn. Yn gyntaf, mae llety gwyliau yn perthyn i faes polisi economaidd gymaint ag i bolisi tai. Gellid dadlau eu bod yn hybu ffyniant mewn ffordd nad yw'n wir am 'ail gartrefi', a'u bod yn gwneud cyfraniad i'r economi leol, un ai trwy berchnogaeth leol arnynt, neu drwy fod ymwelwyr sy'n aros ynddynt yn gwario'n lleol. Anodd meddwl am 'ail gartrefi' yn rhan o strategaeth economaidd synhwyrol yn yr un ffordd.

Yr ail reswm oedd cyhoeddiad Cyngor Gwynedd yn 2019 y darparai hyd at £80,000 ar gyfer gwaith ymchwil 'ar dai haf ar gyfer Gwynedd ond gyda chyd-destun cenedlaethol' (Cyngor Gwynedd, 2019b). Diffiniwyd 'tai haf' gan y Cyngor fel ail gartrefi ynghyd â thai 'sydd yn cael ei [*sic*] gosod ar gyfer defnydd gwyliau hunan wasanaeth gan gynnwys AirBnB' (Cyngor Gwynedd, 2019c). Yn y pen draw, ni chynhaliwyd y gwaith ymchwil gan gorff allanol, ond yn hytrach gan Wasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd yn gweithredu ar ran Cyngor Gwynedd a Chyngor Caerdydd. Cyhoeddwyd yr adroddiad, *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau* ym mis Rhagfyr, 2020, ac roedd ei holl argymhellion yn perthyn i faes llety gwyliau masnachol a thwristiaeth yn unig (Cyngor Gwynedd, 2020c).

O ystyried mai bychan oedd cyllid yr astudiaeth hon a ariannwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (£2,085 ar gyfer taith i Gernyw a chostau'n gysylltiedig â seminar yn y Senedd), penderfynwyd na fyddai'n gost-effeithiol dyblygu'r ymchwil gan Wasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Fodd bynnag, cyfeirir yn yr adroddiad hwn at argymhellion *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau* gan fod perthynas amlwg rhwng presenoldeb y ddau fath hyn o 'dai haf' (ail gartrefi ar gyfer defnydd personol a llety gwyliau tymor byr) yn yr un cymunedau.

2. Problem ranbarthol a lleol – nid problem genedlaethol

Mae ail gartrefi wedi eu dosbarthu mewn modd anwastad trwy Gymru, ac mae'r bwlch o ran eu niferoedd rhwng ardaloedd 'gwyliau', lle maent yn broblem wirioneddol, a rhannau eraill o Gymru lle maent yn llawer llai cyffredin, yn sylweddol iawn. Er y ceir crynoadau o ail gartrefi mewn nifer o gymunedau traddodiadol Saesneg eu hiaith – mewn rhannau o Sir Benfro, er enghraifft – mae eu heffaith ar gymunedau Cymraeg yn drawiadol hefyd.

Ond yn ogystal â bod yn broblem ranbarthol, gall crynoadau o ail gartrefi fod yn broblem *leol* oddi mewn i ranbarthau a siroedd hefyd. O fewn siroedd fel Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Benfro, mae dosbarthiad ail gartrefi yn hynod anwastad, gyda rhai cymunedau arfordirol yn wynebu problem ddifrifol, a rhai ardaloedd trefol heb nemor ddim ail gartrefi. Ceir yr un dosbarthiad anwastad hefyd mewn siroedd lle nad ymddengys ar yr wyneb fod problem o ran ail gartrefi. Yn Abertawe, er enghraifft, nid yw ail gartrefi a llety gwyliau yn ffurfio ond 1.92% o'r stoc dai yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, mae'n broblem fwy dwys ym Mhenrhyn Gŵyr (Cyngor Abertawe, 2019; Tewdwr-Jones *et al.*, 2002, tt. 27-29).

Er mwyn dangos natur anwastad dosbarthiad o'r fath yn fwy eglur, nodir yn nhabl 3 ganrannau ail gartrefi mewn ardaloedd cynghorau cymuned yng Ngwynedd a Môn (ni chynhwysir yn y tabl nifer o gynghorau cymuned sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri gan mai'r Parc yw'r awdurdod cynllunio yno) (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2016, t. 103). Y diffiniad o ail gartrefi yn y tabl hwn yw canran o ail gartrefi ar sail gwybodaeth y dreth gyngor (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2016, t. 14).

Canolbwyntir yma ar ystadegau Gwynedd a Môn am mai'r ddwy sir hyn yw craidd yr ardal Gymraeg lle ceir y dwysedd mwyaf o ran ail gartrefi.

At y canrannau moel, ychwanegwyd gan yr ymchwilydd wybodaeth am leoliad a chymeriad y cymunedau hyn yng Ngwynedd a Môn. Cynigir disgrifiad bras ohonynt a'u gosod mewn gwahanol gategorïau (arfordirol, trefol, perfeddwlad, mynyddig, cymudol ac ôl-ddiwydiannol).

Nid disgrifiad 'gwyddonol' yw'r categoreiddio hwn gan na fyddai modd cynnal yr ymchwil empeiraidd ar gyfer hynny mewn adroddiad byr fel hwn, ac ni ddylid ystyried y disgrifiad o unrhyw gymuned benodol fel un gwyddonol yn yr ystyr honno: ymgais ydyw yn hytrach i arddangos braslun patrwm cyffredinol.

Tabl 3: Ail Gartrefi mewn cymunedau yng Ngwynedd a Môn fel canran o'r stoc dai (ac eithrio rhai cymunedau ym Mharc Cenedlaethol Eryri) (Ffynhonnell ystadegau'r ddwy golofn gyntaf: Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2016, tt. 103-6)

Cyngor Cymuned	**Canran yr ail gartrefi**	**Ardal**	**Disgrifiad**
Llanengan	39.8%	Dwyfor	arfordirol
Llanfaelog	25.5%	Môn	arfordirol
Trearddur	25.3%	Môn	arfordirol
Aberdaron	24.5%	Dwyfor	arfordirol
Beddgelert	23.1%	Dwyfor	mynyddig
Betws Garmon	22.7%	Arfon	mynyddig
Rhoscolyn	21.6%	Môn	arfordirol
Llanbedrog	21.1%	Dwyfor	arfordirol
Arthog	19.6%	Meirionnydd	arfordirol
Nefyn	18.6%	Dwyfor	arfordirol
Moelfre	18.1%	Môn	arfordirol
Pistyll	16.6%	Dwyfor	arfordirol
Buan	15.9%	Dwyfor	perfeddwlad
Tudweiliog	15.9%	Dwyfor	arfordirol
Llangelynnin	14%	Meirionnydd	arfordirol
Mawddwy	13.5%	Meirionnydd	perfeddwlad
Porthmadog	13.3%	Dwyfor	arfordirol
Clynnog	12.4%	Dwyfor	arfordirol
Corris	12.2%	Meirionnydd	perfeddwlad
Cylch y Garn	11.8%	Môn	arfordirol
Dolbenmaen	11.4%	Dwyfor	perfeddwlad
Llaneugrad	11.4%	Môn	arfordirol

Tywyn	10.9%	Meirionnydd	arfordirol
Llanddona	10.8%	Môn	arfordirol
Llanfaethlu	10.6%	Môn	arfordirol
Abermaw	10.5%	Meirionnydd	arfordirol
Llangoed	10.2%	Môn	arfordirol
Llanbadrig	10%	Môn	arfordirol
Botwnnog	9.9%	Dwyfor	perfeddwlad
Aberffraw	9.4%	Môn	arfordirol
Llanfair Mathafarn Eithaf	9.3%	Môn	arfordirol
Biwmares	8.8%	Môn	arfordirol
Bodorgan	8.6%	Môn	arfordirol
Cricieth	8.6%	Dwyfor	arfordirol
Llanaelhaearn	8.4%	Dwyfor	ôl-ddiwydiannol
Llanfrothen	7.6%	Meirionnydd	perfeddwlad
Y Felinheli	7.4%	Arfon	cymudol
Llandderfel	7.3%	Meirionnydd	perfeddwlad
Penmynydd	7.1%	Môn	perfeddwlad
Llanycil	7%	Meirionnydd	perfeddwlad
Tref Alaw	6.7%	Môn	perfeddwlad
Llaneilian	6.1%	Môn	arfordirol
Llanegryn	5.6%	Meirionnydd	perfeddwlad
Ffestiniog	5.5%	Meirionnydd	ôl-ddiwydiannol
Llanystumdwy	5.1%	Dwyfor	perfeddwlad
Bodffordd	5%	Môn	perfeddwlad
Cwm Cadnant	4.9%	Môn	perfeddwlad
Llanidan	4.8%	Môn	arfordirol

Llanddaniel	4.7%	Môn	perfeddwlad
Rhosybol	4.5%	Môn	perfeddwlad
Mechell	4.4%	Môn	perfeddwlad
Aber	4.2%	Arfon	perfeddwlad
Llandwrog	4%	Arfon	cymudol
Penrhyndeudraeth	4%	Meirionnydd	trefol
Llanberis	3.8%	Arfon	mynyddig
Llanddyfnan	3.8%	Môn	perfeddwlad
Pwllheli	3.7%	Dwyfor	trefol
Llannor	3.5%	Dwyfor	perfeddwlad
Bryngwran	3.5%	Môn	perfeddwlad
Llanfair yn Neubwll	3.5%	Môn	perfeddwlad
Porthaethwy	3.3%	Môn	cymudol
Llanllyfni	3.1%	Arfon	ôl-ddiwydiannol
Amlwch	3.0%	Môn	trefol
Bodedern	2.9%	Môn	perfeddwlad
Y Fali	2.7%	Môn	perfeddwlad
Llangristiolus	2.6%	Môn	perfeddwlad
Llanerchymedd	2.6%	Môn	perfeddwlad
Llandygai	2.4%	Arfon	cymudol
Llanfihangel Ysgeifiog	2.4%	Môn	perfeddwlad
Llanddeiniolen	2.3%	Arfon	cymudol
Llanwnda	2.3%	Arfon	cymudol
Llanfachraeth	2.0%	Môn	perfeddwlad
Llanrug	1.9%	Arfon	cymudol
Trewalchmai	1.9%	Môn	perfeddwlad

Llanllechid	1.7%	Arfon	ôl-ddiwydiannol
Waunfawr	1.6%	Arfon	cymudol
Llanfairpwllgwyngyll	1.6%	Môn	cymudol
Caergybi	1.5%	Môn	trefol
Pentir	1.5%	Arfon	trefol
Llangefni	1.1%	Môn	trefol
Bethesda	1.0%	Arfon	ôl-ddiwydiannol
Bangor	0.8%	Arfon	trefol
Bontnewydd	0.8%	Arfon	cymudol
Caernarfon	0.5%	Arfon	trefol

O graffu ar y tabl, gwelir yn syth fod ail gartrefi fel canran o'r stoc dai yn amrywio'n fawr iawn rhwng gwahanol gymunedau yng Ngwynedd a Môn. Ymhellach, nid yw'r patrymau hyn yn fympwyol ond yn hytrach yn adlewyrchu ffactorau o ran tirwedd, y diwydiant twristaidd, patrymau sosio-economaidd a lleoliad cyflogaeth a diwydiant yn y ddwy sir.

Mae'r ganran yn amrywio o 39.8% yn Llanengan, sef cyngor cymuned ardal Abersoch, i 0.5% yng Nghaernarfon.

Mae'r ystod rhwng y ddau begwn yn dangos natur *leol* y broblem ail gartrefi. Ceir nifer helaeth o gymunedau yn Nwyfor, Ynys Môn a Meirionnydd lle mae ail gartrefi yn ganran sylweddol o'r stoc dai. Yn benodol, mae cymunedau arfordirol yn y tair ardal hyn â chanran uchel o ail gartrefi, a dyma hefyd lle mae'r diwydiant twristaidd ar ei fwyaf amlwg. Mae nifer o gymunedau sy'n fynyddig ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn perthyn i'r categori hwn hefyd.

Ceir wedyn nifer helaeth o gymunedau yn y berfeddwlad yr effeithir arnynt gan ail gartrefi. Cymunedau yw'r rhain nad ydynt ar yr arfordir ac a nodweddir yn aml gan economi amaethyddol, ac at ei gilydd maent yn Gymraeg iawn o ran iaith. Er nad yw'r tabl hwn yn eu cynnwys bob tro, mae ystadegau eraill yn cadarnhau fod ail gartrefi yn amlwg iawn mewn llawer o gymunedau gwledig ym Meirionnydd sydd oddi mewn i ffiniau'r Parc Cenedlaethol (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 38).

Nid yw'r rhan fwyaf o gymunedau'r berfeddwlad wedi'u heffeithio gan ail gartrefi i'r un graddau â'r cymunedau arfordirol a mynyddig, ond gall ail gartrefi fod yn bresennol mewn digon o niferoedd yno i fod yn ffactor ystyrlon yn y farchnad dai leol. Ceir yma

hefyd gyswllt rhwng harddwch naturiol a dwysedd ail gartrefi, ac felly nid yw pob rhan o'r berfeddwlad yn cael ei heffeithio i'r un graddau. At ei gilydd, po fwyaf diwydiannol neu 'wrban' mae cymuned yn y berfeddwlad wledig neu led-wledig, po leiaf tebygol y bydd o gael cyfran uchel o ail gartrefi.

Wedyn ceir nifer o gymunedau ôl-ddiwydiannol, yn gysylltiedig fel arfer yn achos Gwynedd â'r chwareli. Yma, mae canran yr ail gartrefi yn is o dipyn er y ceir rhai eithriadau i'r patrwm hwn (oherwydd tirwedd fynyddig neu agosatrwydd at y môr o bosib).

Yn olaf, ceir nifer o gymunedau lle *nad* yw ail gartrefi yn ffactor ystyrlon yn y stoc dai leol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o bentrefi cymudo o amgylch Caernarfon ac yng nghyffiniau Bangor. Mae llawer o'r rhain ymhlith cymunedau mwyaf Cymraeg Cymru.

Yn ogystal, ac eithrio yn achos rhai trefi y gellid eu hystyried yn gyrchfannau glan môr (Porthmadog, Abermaw, Tywyn ayyb), nid yw ail gartrefi yn bresenoldeb ystyrlon yn y rhan fwyaf o drefi'r ddwy sir. O ran y saith cymuned gyda'r ganran leiaf o ail gartrefi, mae pedair ohonynt yn drefi mawr neu led fawr (Caergybi, Llangefni, Bangor a Chaernarfon), un arall yn dref fechan ôl-ddiwydiannol (Bethesda), ac mae un o'r ddwy gymuned arall yn cynnwys rhan o un o faestrefi Bangor a'r ardal gyfagos (Pentir).

Gan y ceir gwahanol ddulliau o ddiffinio beth yw 'ail gartref', dylid nodi fod canrannau cofnodedig ail gartrefi yn y cymunedau hyn yn uwch os cynhwysir hefyd lety gwyliau masnachol yn y diffiniad.

Yn 2020, roedd er enghraifft 46% o'r stoc dai yn Abersoch, 43% yn Aberdyfi, 34% yn Meddgelert, 31% yn Aberdaron, 22% yn Nefyn, a 21% yn Harlech yn ail gartrefi yn ôl y diffiniad ehangach sy'n cynnwys llety gwyliau masnachol.

O'r 12 ardal cyngor cymuned yng Ngwynedd (gan gynnwys cymunedau oddi mewn i'r Parc Cenedlaethol) lle roedd canran yr ail gartrefi yn ôl y diffiniad hwn yn uwch na 20%, roedd 9 yn gymunedau arfordirol, 2 yn gymunedau mynyddig, ac un yn y berfeddwlad. Roedd 23 cymuned arall lle roedd y ganran rhwng 10% a 20%, ac o ran y rhain, roedd 11 ar yr arfordir a 12 yn y berfeddwlad. Ac eithrio trefi glan môr, nid oedd yng Ngwynedd yr un ardal drefol â chanran uwch o ail gartrefi na 10% (Cyngor Gwynedd, 2020c, tt. 42-3). Felly mae'r dull hwn o rifo ail gartrefi yn cadarnhau'r patrwm cyffredinol a nodwyd eisoes hefyd.

Goblygiadau ar gyfer polisi cyhoeddus

Mae dosbarthiad daearyddol ail gartrefi yng Nghymru sut bynnag y'u diffinnir yn cael ei nodweddu felly gan ddau ffactor hollbwysig:

- Mae dosbarthiad ail gartrefi yng Nghymru yn hynod anwastad, gyda miloedd o ail gartrefi mewn rhai siroedd, ac ardaloedd cynghorau sir eraill heb nemor ddim ail gartrefi o gwbl.
- Mae dosbarthiad ail gartrefi mewn siroedd penodol hefyd yn hynod anwastad, gyda rhai cymunedau wedi'u llethu gan ganran uchel iawn o ail gartrefi, a chymunedau eraill yn yr un sir heb nemor ddim ail gartrefi o gwbl.

Mae hyn oll yn codi cwestiwn canolog o safbwynt polisi cyhoeddus. Os yw'n wir mai problem ranbarthol a lleol yw'r broblem ail gartrefi, onid synhwyrol fyddai ceisio atebion polisi ar y gwastad rhanbarthol a lleol?

Nid canfyddiad newydd yw hyn. Un o gasgliadau'r unig astudiaeth gynhwysfawr a wnaed o ail gartrefi yng Nghymru oedd y dylid meithrin polisïau ar y gwastad rhanbarthol yn ogystal â chenedlaethol:

> a chymryd bod yr ymchwil hwn wedi datgelu amrediad o broblemau lleol a rhanbarthol unigryw i ardaloedd gwahanol o Gymru, ni chredwn bod atebion a pholisïau cenedlaethol ar eu pennau eu hunain yn addas i ddatrys problemau.
>
> (Tewdwr-Jones *et al.*, 2002, t. 62)

O ganlyniad, argymhellodd weithredu ar lefel leol hefyd, sef ar wastad cymunedau penodol oddi mewn i ranbarthau a siroedd:

> Argymhellwn bod awdurdodau cynllunio lleol yn adnabod cymunedau penodol yn eu Cynlluniau Datblygu. Cymunedau yw'r rhain lle y profwyd bod yr effeithiau cyfunol a achosir gan faterion fel yr angen penodol am dai nas gellir ei ddiwallu, diffyg arallgyfeirio economaidd, sensitifrwydd ieithyddol a diwylliannol, a gwasgedd allanol ar y farchnad dai, yn tanseilio cynaliadwyedd y cymunedau hyn.
>
> (Tewdwr-Jones *et al.*, 2002, t. 54)

O ganlyniad, gellid dadlau mai'r ffordd orau o ymdrin ag ail gartrefi yw caniatáu i bolisïau *gwahanol* gael eu datblygu ar lefel ranbarthol a lleol mewn gwahanol rannau o Gymru oddi mewn i fframwaith genedlaethol.

Mae'n ddigon posib er enghraifft y byddai Polisi X yn addas iawn yn sir A, neu yng nghymuned A, am fod angen cymryd camau radical er mwyn mynd i'r afael â phroblem ddifrifol yno o ran ail gartrefi. Ac eto, ni fyddai polisi o'r fath yn briodol yn achos sir B, neu yng nghymuned B, am nad yw ail gartrefi yn bresenoldeb ystyrlon yn y farchnad dai leol yno, a byddai cyflwyno mesurau ynghylch ail gartrefi nid yn unig yn ddiangen ond hefyd o bosib yn wrthgynhyrchiol.

Oherwydd hyn, bydd yr adroddiad hwn yn dadlau y dylid llunio polisi cyhoeddus ar gyfer ail gartrefi mewn modd sy'n caniatáu amrywiadau polisi lleol a rhanbarthol, sef oddi mewn i siroedd yn ogystal ag oddi mewn i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod fframwaith genedlaethol ar gyfer codi premiwm treth gyngor ar ail gartrefi, ond mae'n caniatáu i gynghorau sir unigol benderfynu a ydynt am gyflwyno'r premiwm ai peidio, ac os felly i ba raddau. Dylai'r Llywodraeth ymestyn ar y cynsail hwn mewn meysydd polisi perthnasol eraill wrth annog datblygiad amrywiadau polisi rhanbarthol a lleol.

Argymhelliad 1 – datblygu amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn polisi cyhoeddus

Ffenomen ranbarthol a lleol yw ail gartrefi yn bennaf oll, a dylai Llywodraeth Cymru feithrin atebion polisi rhanbarthol a lleol wrth ganiatáu amrywiadau polisi oddi mewn i fframwaith genedlaethol. Dylai atebion polisi cyhoeddus fod yn ddigon hyblyg fel bod modd eu gweithredu mewn gwahanol ffyrdd mewn siroedd a chymunedau gwahanol yn ôl anghenion rhanbarthol a lleol.

3. Effaith ail gartrefi ar gynaliadwyedd cymunedau a'r iaith Gymraeg

Mae'r disgwrs presennol ynghylch ail gartrefi a'u heffaith ar gynaliadwyedd cymunedau yng Nghymru a'r iaith Gymraeg yn aml yn anecdotaidd ac nid yw wedi'i wreiddio mewn ymchwil drylwyr. Mae'n 19 o flynyddoedd ers cyhoeddi'r astudiaeth gynhwysfawr ddiwethaf o'r maes, sef *Adroddiad Ymchwil ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Gynllunio Defnydd Tir* (2002) gan Mark Tewdwr-Jones, Nick Gallent ac Alan Mace o Ysgol Gynllunio Bartlett, Coleg y Brifysgol Llundain – adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

O ganlyniad, ceir nifer helaeth o dybiaethau a honiadau am ail gartrefi mewn trafodaethau cyhoeddus yng Nghymru heddiw sy'n haeddu ystyriaeth bellach.

Yn yr adrannau byr isod, ceir trafodaeth fer er mwyn archwilio rhai o'r tybiaethau hyn:

Tybiaeth 1: Ail gartrefi sy'n gyfrifol am y cynnydd mewn prisiau tai mewn cymunedau penodol

Lleolir ail gartrefi yn aml iawn mewn cymunedau deniadol a hardd lle mae prisiau tai yn uchel. O ganlyniad, ceir canfyddiad fod cyswllt rhwng dwysedd ail gartrefi mewn rhai cymunedau a phrisiau tai uchel.

Mae hyn yn rhwym o fod yn wir i ryw raddau, gan eu bod yn cyfyngu ar y stoc dai sydd ar gael, ond mae'n amhosibl dweud mai ail gartrefi sy'n bennaf gyfrifol am chwyddiant mewn prisiau tai. Mae ail gartrefi yn gyffredin yn aml mewn cymunedau lle mae mudo parhaol o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig hefyd yn gyffredin, a phrin yw'r dystiolaeth mai ail gartrefi sy'n bennaf gyfrifol am brisiau tai uchel yn hytrach na phrynwyr sy'n symud i'r ardaloedd hyn er mwyn byw yno'n barhaol.

Casgliad *Adroddiad Ymchwil ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Gynllunio Defnydd Tir* oedd 'mai ymddeol a chymudo yw'r ffactorau mwyaf arwyddocaol yn y gwasgedd o ran galw am gartrefi gan bobl o'r tu allan' mewn cymunedau gwledig (Tewdwr-Jones *et al.*, 2002, t. 6). Tebyg hefyd yw barn *The Impact of Empty, Second and Holiday Homes on the Sustainability of Rural Communities: A Systematic Literature Review* (2005) gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Efrog sy'n crynhoi canfyddiadau pob astudiaeth yn y maes yn y Deyrnas Unedig cyn 2005: 'isolating the effects of second homes from other factors that impact on any housing market is a considerable challenge.' (Centre for Housing Policy, 2005, t. 51). Nid oes tystiolaeth yn bodoli i awgrymu fod y sefyllfa wedi newid erbyn heddiw.

Mae'r ansicrwydd ynghylch gwir effaith ail gartrefi i'w glywed hefyd yn adroddiad diweddar Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, *Rheoli'r*

defnydd o dai fel cartrefi gwyliau, er bod mwy o ymgais yno i haeru fod cyswllt uniongyrchol rhwng ail gartrefi a phrisiau tai uchel:

> Ni wnaeth adroddiad Llywodraeth Cymru 'Adroddiad Ymchwil ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Gynllunio Defnydd Tir' adnabod patrwm clir rhwng lleoliad cartrefi gwyliau a phrisiau tai, yn hytrach roedd tystiolaeth yn awgrymu mai prif yrrwr y galw am dai ac, o ganlyniad, prisiau tai anfforddiadwy, yw mudo o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig yn barhaol. Er nad yw'r adroddiad hwn yn dadlau yn erbyn y canfyddiadau, mae'r map [map sy'n dangos y ganran o'r stoc dai sy'n ail gartrefi a llety gwyliau mewn cymunedau yn ogystal â map sy'n dangos canolrif prisiau tai] yn dangos cydberthynas glir rhwng y ddau, felly gellir dadlau, yn enwedig gyda rhai ardaloedd yn y sir yn profi perchnogaeth cartrefi gwyliau o fwy na 40%, bod perchnogaeth cartrefi gwyliau yn cyfrannu at gyfartaledd prisiau tai llawer uwch. Mater arall, na sonnir amdano yn adroddiad Llywodraeth Cymru, yw y gall pobl sy'n mudo/ymddeol i'r ardal fod yn symud i ail gartref y gallant fod wedi'i brynu cyn ymddeol.
>
> (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 39)

Ceir tystiolaeth sy'n cefnogi rhagdyb cynllunwyr Gwynedd a Môn y gallai prynu ail gartref arwain yn y man at fewnfudiad parhaol mewn astudiaethau o Sir Gaernarfon yn 1973 ac o swydd Norfolk yn 1982 (Centre for Housing Policy, 2005, t. 59), ac hefyd mewn astudiaeth ddiweddar o Sweden (Marjavaara a Lundholm, 2016). Yn amlwg mae hyn yn arwyddocaol o safbwynt cynllunio ieithyddol, ac yn awgrymu y bydd llawer o ail gartrefi yn ogystal â chael effaith Seisnigo yn y presennol yn arwain at Seisnigo yn y dyfodol hefyd.

Ac er ei bod yn anodd profi i ba raddau mae ail gartrefi yn codi prisiau tai, nid yw astudiaeth Llywodraeth Cymru yn 2002 yn gwrthddweud haeriad cynnil adroddiad Gwynedd a Môn y gall ail gartrefi fod yn arwyddocaol iawn o ran codi prisiau tai mewn cymunedau penodol. Er na wnaeth astudiaeth Llywodraeth Cymru adnabod 'perthynas ar lefel genedlaethol rhwng crynodiadau o ail gartrefi a phrisiau tai', nododd ei bod yn 'llawer fwy tebygol, pa un bynnag, bod amrywiaethau lleol yn gysylltiedig â chrynodiadau uchel o ail gartrefi' (Tewdwr-Jones *et al.*, 2002, t. 24).

Hynny yw, er nad yw prisiau tai mewn cymunedau yr effeithir arnynt yn ddwys gan ail gartrefi yn uchel bob tro mewn cyd-destun Prydeinig, maent yn uchel yn aml yng nghyd-destun y farchnad dai ranbarthol ac o safbwynt yr economi leol. Yn anochel, mae hyn yn effeithio ar allu pobl leol i bwrcasu eiddo yn y cymunedau hyn.

Diau y byddai'n deg honni fod ail gartrefi yn codi prisiau tai yn gyffredinol, a hynny mewn cymunedau lle mae cyflogau ar gyfartaledd yn aml yn bur isel.

Tybiaeth 2: Pe bai llai o ail gartrefi, byddai pobl leol yn symud i'r cymunedau hyn i fyw

Ceir tybiaeth yn aml y byddai ffrwyno nifer yr ail gartrefi mewn cymunedau penodol yn caniatáu i fwy o bobl leol fyw ynddynt. Pe bai llai o ail gartrefi, honnir y byddai prisiau tai'n gostwng, ac o ganlyniad byddai mwy o bobl leol yn medru fforddio prynu tai yn y cymunedau hyn. Teg fyddai tybio fod elfen o wir yn hyn, gan fod unrhyw ostyngiad mewn prisiau yn gwneud tai'n fwy fforddiadwy.

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, rhaid cofio mai cymunedau yw'r rhain sydd yn aml â chanran uchel o'u trigolion parhaol wedi symud yno i fyw o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Yn Nwyfor, er enghraifft, ceir crynhoad o ail gartrefi mewn wardiau llywodraeth leol fel Abersoch, Llanbedrog, Gorllewin Porthmadog a Morfa Nefyn a oedd yn ôl cyfrifiad 2011 â chanrannau uchel o'u trigolion wedi'u geni y tu allan i Gymru, sef 55.3%, 51.3%, 45% a 33.4% (Cyngor Gwynedd, 2020d), o'u cymharu â'r ganran yng Ngwynedd, sef 33.2%, a Chymru, sef 27.3%.

Mewn cymunedau o'r fath, ymddengys fod y farchnad dai yn ddibynnol i raddau helaeth ar brynwyr o'r tu allan i Gymru sy'n bwriadu symud yno i fyw'n barhaol. Pe bai llai o ail gartrefi, ni fyddai hyn yn newid y ffaith fod prynwyr lleol yn gorfod cystadlu â phrynwyr o'r tu allan, a byddai'r rheini gan fwyaf â mwy o gyfalaf. Oherwydd cyflogau isel yn lleol, ac hefyd y gwahaniaeth rhwng prisiau tai yng Nghymru a Lloegr (sy'n golygu fod gan bobl leol yn aml lai o gyfalaf na phrynwyr o'r tu allan), nid yw'n dilyn y byddai ail gartrefi a fyddai'n cael eu gwerthu ar y farchnad agored (yn sgil ymyrraeth polisi cyhoeddus) yn cael eu prynu gan bobl leol.

Hyn hefyd sy'n peri ei bod yn anodd o safbwynt cynllunio ieithyddol i ddatrys y broblem o ran fforddiadwyedd mewn cymunedau o'r fath drwy ganolbwyntio'n unig ar adeiladu tai newydd. Oni bai fod cyfyngiadau ar berchnogaeth y tai hyn, neu fod rhyw strategaeth arall ar waith, byddai ehangu'r stoc dai mewn ffordd ddiofal yn rhwym o hybu mewnfudo sylweddol o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig i ardaloedd sy'n sensitif yn ieithyddol.

Gallai adeiladu gormodedd o dai gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg, a chan gofio mai pryderon am ddyfodol y Gymraeg sy'n gyfrifol i raddau helaeth iawn am y gofid am ail gartrefi yn y lle cyntaf, mae hyn yn fater pwysig i Lywodraeth Cymru ei ystyried.

Tybiaeth 3: Mae gostwng prisiau tai'n ddymunol

Er i'r farn mai dymunol fyddai gostwng prisiau tai gael ei lleisio'n aml mewn trafodaethau cyhoeddus am ail gartrefi fel pe bai'n wirionedd di-gwestiwn, mae'n bosibl na fyddai perchnogion tai yn y cymunedau dan sylw yn cydsynio. Tai yw prif ffynhonnell cyfoeth llawer iawn o'r boblogaeth. Yn benodol, gellid tybio y byddai cryn nerfusrwydd ynglŷn ag unrhyw gamau a fyddai'n achosi i'r farchnad dai leol ostwng yn sydyn, ac yn enwedig pe bai hynny'n arwain at *negative equity*.

O safbwynt polisi cyhoeddus, y broblem sylfaenol yw na wyddom i ba raddau y bydd prisiau tai yn gostwng pe cymerid mesurau i gyfyngu ar y farchnad ail gartrefi, os yn wir y byddent yn gostwng o gwbl. Oherwydd ffactorau eraill, megis gwrth-drefoli yn sgil Covid-19, mae'n bosib iawn y byddai mewnfudiad parhaol yn gwneud iawn am ddirywiad mewn prisiau pe cyfyngid ar berchnogaeth ail gartrefi. Mae hefyd yn bosib wrth gwrs nad gostyngiad a welid o gwbl ond llai o gynnydd na fyddai wedi bod fel arall (hynny yw, pe na chymerid mesurau). Rhaid cofio hefyd fod barn gref iawn o blaid cyflwyno mesurau ynghylch ail gartrefi yn y siroedd y maent yn effeithio arnynt fwyaf, ac mae'n bosib na fyddai fawr o wrthwynebiad i fesurau i reoli twf ail gartrefi cyn belled â bod gostyngiad posib mewn prisiau yn un cymedrol.

Tybiaeth 4: Mae ail gartrefi yn niweidio'r iaith Gymraeg

Ceir tuedd i lawer o eiddo a brynir mewn pentrefi y mae problem ail gartrefi yn effeithio arnynt gael eu prynu gan newydd-ddyfodiaid sy'n dymuno byw yno'n barhaol. Oherwydd hyn, nid oes modd haeru'n ddiamwys mai presenoldeb ail gartrefi sy'n gyfrifol yn bennaf am ddirywiad yr iaith Gymraeg yno. Gellid hyd yn oed honni fod eu presenoldeb mewn rhai cymunedau Cymraeg yn debyg i sbwng sy'n 'amsugno' tai a fyddai fel arall yn cael eu prynu gan newydd-ddyfodiaid di-Gymraeg.

Mewn rhai cymunedau felly, mae'n bosib fod ail gartrefi yn lleihau maint y mewnlifiad di-Gymraeg. O safbwynt cynllunio ieithyddol, mae hyn yn ystyriaeth bwysig oherwydd, fel y dywed *Adroddiad Ymchwil ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Gynllunio Defnydd Tir*, mae 'effaith ail gartrefi a chartrefi gwyliau ar yr iaith Gymraeg yn llai arwyddocaol na mewnfudiad parhaol.' (Tewdwr-Jones *et al.*, 2002, t. 7)

Rhaid gofyn bob tro, beth fyddai'n digwydd i ail gartrefi pe na baent yn ail gartrefi?

Os mai'r ateb i'r cwestiwn yw y byddent fwy na thebyg yn cael eu prynu ar y farchnad agored gan breswylwyr parhaol di-Gymraeg lled gefnog o'r tu allan i'r gymuned, yna, yn rhesymegol, ni ellid casglu y byddai gostwng yn sylweddol nifer yr ail gartrefi mewn cymuned o angenrheidrwydd yn llesol o safbwynt y Gymraeg.

Gellir cynnig enghraifft ddamcaniaethol o hyn. Tybiwn fod cymuned gyda 100 o dai lle mae 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, a bod 20 o'r tai hyn yn ail gartrefi. Yn y gymuned hon, ceir 56 o aelwydydd Cymraeg, 24 o aelwydydd Saesneg ac am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, 20 o aelwydydd gweigion.

Oherwydd ymyrraeth polisi cyhoeddus sy'n gwneud perchnogaeth ail gartrefi yn anneniadol, mae nifer yr ail gartrefi yn y gymuned yn gostwng dros ddeng mlynedd o 20 i 10. Mae'r 10 tŷ yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored, a'r duedd yn y pentref deniadol hwn yw bod 70% o dai ar y farchnad agored yn cael eu prynu gan bobl ddi-Gymraeg o'r tu allan i'r gymuned. Wedi troi'r 10 tŷ haf yn dai annedd, ceir yn y pentref 59 o aelwydydd Cymraeg, 31 o aelwydydd Saesneg a 10 aelwyd wag. Er bod cynnydd bychan yn nifer yr aelwydydd Cymraeg, mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 70% i 65.5% a chanran y siaradwyr Saesneg wedi codi o 30% i 34.5%.

Wrth gwrs, nid yw siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg yn byw bob tro ar aelwydydd Cymraeg neu Saesneg-yn-unig. Hefyd ceir siaradwyr Saesneg lleol yn y cymunedau hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn newid y ddadl sylfaenol. Mewn rhai cymunedau, nid yw'n amhosib y gallai gostyngiad mewn ail gartrefi arwain at Seisnigo yn hytrach na Chymreigio. Gallai hyn fod yn arbennig o wir pe gwelid yn sgil Brexit a Covid-19 gynnydd mawr yn nifer y rhai a fyddai'n dymuno adleoli i gymunedau arfordirol a gwledig er mwyn byw yno'n barhaol.

Mae'r dybiaeth bod ail gartrefi yn niweidiol i'r iaith yn deillio o'r canfyddiad eu bod wedi eu prynu mewn cystadleuaeth yn erbyn siaradwyr Cymraeg lleol sydd o ganlyniad i'w methiant i brynu eiddo yn gadael y gymuned. Mae hyn wedi digwydd droeon, a dyma sy'n gwneud y pwnc yn un mor emosiynol.

A dyma ddod at wraidd y mater.

Mae effaith ieithyddol ail gartrefi sy'n ail gartrefi ar hyn o bryd yn lled niwtral gan eu bod fel arfer yn wag. Ond gallai troi *rhagor* o dai annedd yn ail gartrefi fod yn niweidiol iawn o safbwynt y Gymraeg ac yn dramgwyddus o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol.

Casgliad

Gosod nod polisi cyhoeddus o ran niferoedd ail gartrefi

Nid gwaredu ail gartrefi yn gyfan gwbl yw'r ateb gorau mewn cymunedau lle maent yn ffurfio rhan sylweddol o'r stoc dai. Am y rhesymau a nodwyd, byddai troi ail gartrefi yn brif breswylfeydd mewn modd sydyn fwy na thebyg yn arwain at gynnydd

sylweddol mewn mewnlifiad parhaol i gefn gwlad Cymru a allai gael effaith niweidiol ar y Gymraeg.

Mewn cymunedau Cymraeg glan môr mewn ardal fel Dwyfor lle ceir 20% a mwy o'r stoc dai yn ail gartrefi, gallai trosi ail gartrefi yn brif breswylfeydd mewn modd nad oedd wedi ei gynllunio'n ofalus fod yn gatastroffig.

Yn Abersoch, er enghraifft, y pris canolrif cyfartalog ar gyfer tŷ ym mis Medi 2019 oedd £365,275 (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 40). Gyda 46% o'r stoc dai yn Abersoch yn 'gartrefi gwyliau' (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 40) ac yn anfforddiadwy i bawb ond y rhai mwyaf cefnog yn y gymdeithas leol, byddai dechrau trosi tai gwyliau yn brif breswylfeydd mewn niferoedd sylweddol yn rhwym o annog mewnlifiad parhaol a fyddai nid yn unig yn niweidiol iawn i'r Gymraeg yn Abersoch, ond hefyd yn Llŷn yn gyffredinol.

Ond byddai cynyddu canran yr ail gartrefi yn y cymunedau hyn hefyd yn niweidiol gan y byddai'n lleihau niferoedd absoliwt siaradwyr Cymraeg yn lleol.

Creulondeb y sefyllfa o safbwynt y gymuned Gymraeg yw fod trosi rhagor o dai annedd yn ail gartrefi yn niweidiol i'r Gymraeg, ond byddai gostyngiad mawr neu sydyn yn niferoedd yr ail gartrefi hefyd yn niweidiol. Mae'r ddau beth yn wir am eu bod yn gysylltiedig â'r un ffenomen, sef anallu pobl leol i gystadlu yn y farchnad dai yn erbyn prynwyr o'r tu allan i'r gymuned.

Mae dadl felly dros lunio polisi cyhoeddus sy'n ceisio sefydlogrwydd o ran nifer yr ail gartrefi mewn cymunedau a effeithir ganddynt, neu sy'n ceisio lleihau nifer yr ail gartrefi mewn *modd graddol dros nifer o flynyddoedd*.

Ond nid yw hyn yn golygu cadw'r *status quo*. Yn wir, pe cedwid y *status quo*, mae'n debygol iawn y gwelid twf mewn ail gartrefi yng nghefn gwlad Cymru. Y broblem, fel y dadleuir yn yr adran nesaf, yw fod Prydain, ac felly cefn gwlad Cymru, ar fin wynebu un o'r cyfnodau mwyaf tymhestlog yn ei hanes. Gellir rhagdybio'n ddiogel y bydd y newidiadau hyn yn niweidiol i'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Mewn cymunedau glan môr fel rhai ar hyd Ynys Môn a Bae Ceredigion, pe gwelid niferoedd yr ail gartrefi yn cynyddu mewn modd afreolus, gallai hynny sy'n weddill o'r gymdeithas Gymraeg yn lleol gael ei disodli. Ac mae perygl bob tro y bydd y broblem yn lledaenu ac yn dwysáu mewn cymunedau cyfagos yn y berfeddwlad sydd ar hyn o bryd yn Gymraeg iawn gan eu tanseilio'n ieithyddol.

Yr angen am wybodaeth gywir

Felly o safbwynt cynllunio ieithyddol mae'r angen am ymyrraeth polisi cyhoeddus yn glir, ond gyda Chymru a Phrydain yn wynebu dyfodol ansicr, mae angen gwybodaeth gywir am ail gartrefi er mwyn sicrhau na wneir drwg yn anfwriadol.

Ysywaeth nid oes digon o wybodaeth wrthrychol o'r fath ar gael. Yn hanesyddol, bu hyn yn faen tramgwydd i academyddion ac eraill sy'n gweithio yn y maes. Yn ôl *The Impact of Empty, Second and Holiday Homes on the Sustainability of Rural Communities: A Systematic Literature Review*:

> Estimating the number of second homes is problematic as various definitions are used in the literature relating to ownership, primary use, construction, permanence and distance from first home. Problems find expression crucially in the types of dwelling included as second homes and the use made of these dwellings. ... Similarly, the boundaries between the uses of second homes for leisure by one family and the same property let on a holiday basis to defray costs of ownership are indistinct. Also problematic in national estimates are the blurred distinctions between second homes, holiday homes, empty homes, homes held ready for resale, whether initially purchased by the owner or inherited, or merely homes whose occupants were absent on Census night.
>
> (Centre for Housing Policy, 2005, tt. 42-3)

Yn benodol, nid ydym yn gwybod faint o ail gartrefi yng Nghymru sy'n dai a ddefnyddir ar gyfer defnydd personol a faint sy'n fusnesau llety gwyliau tymor byr. Nid ydym yn gwybod ychwaith faint o ail gartrefi sy'n cael eu prynu bob blwyddyn.

Mae hyn oherwydd er y gwyddom faint o dai y codir y premiwm ail gartrefi arnynt drwy'r system dreth gyngor, a faint o drafodiadau eiddo sy'n gymwys ar gyfer cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir, nid yw'r ffigyrau hyn yn cyfateb i nifer gwirioneddol ail gartrefi yng Nghymru nag ychwaith i'r nifer o ail gartrefi a brynir bob blwyddyn. Byddai'n ddefnyddiol gwneud iawn am y diffyg trwy gael gwybodaeth lawer manylach am ail gartrefi yng Nghymru, a bod modd monitro'r wybodaeth hon yn effeithiol wrth gyflwyno mesurau polisi.

Mae cryn rinwedd yn awgrym diweddar *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau* y dylid mabwysiadu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer cartrefi gwyliau masnachol. Mae gweithdrefn drwyddedu o'r fath yn bodoli yn yr Alban. Byddai hyn yn sicrhau y gellid adnabod gwahaniaeth rhwng ail gartrefi sy'n cael eu defnyddio ar gyfer defnydd personol a chartrefi gwyliau a osodir i ymwelwyr. Byddai hyn o gymorth mawr wrth lunio polisi cyhoeddus oherwydd

> Drwy gael trwydded byddai'n golygu bod gwybodaeth yn cael ei choladu drwy un ffynhonnell ddata mewn perthynas â nifer y llety gwyliau tymor byr o fewn yr ardal awdurdod. Byddai cyflawni ffynhonnell ddata cyfan mewn un lle yn

> galluogi ar gyfer gwell rheolaeth ac eglurder mewn perthynas â nifer a chrynodiad llety gwyliau mewn ardaloedd penodol.
>
> (Cyngor Gwynedd, 2020c, tt. 62-3)

Ceir pwyslais yma gan Gyngor Gwynedd ar lety gwyliau am mai nod pennaf eu hadroddiad yw rheoli llety o'r fath. Fodd bynnag, wrth wahanu'n glir ac yn eglur rhwng y ddau fath o 'dai haf' a gymysgir mewn polisi cyhoeddus ar hyn o bryd (ail gartrefi ar gyfer defnydd personol a chartrefi gwyliau tymor byr), gellid cael gwybodaeth gywirach am y ddau fath hyn o 'dai haf' gan hwyluso penderfyniadau polisi cyhoeddus amdanynt.

Argymhelliad 2 – rheoli niferoedd ail gartrefi

Mewn cymunedau yr effeithir arnynt gan ail gartrefi, dylid gosod nod polisi cyhoeddus o geisio sefydlogrwydd yn eu niferoedd, neu ostyngiad graddol dros nifer o flynyddoedd.

Argymhelliad 3 – diffinio ail gartrefi

Er mwyn hwyluso penderfyniadau polisi wedi'u seilio ar wybodaeth wrthrychol, mae angen diffinio ail gartrefi yn well. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried sawl ffordd o wneud hyn, ond gyda hyn mewn golwg, dylid cyflwyno Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Cartrefi Gwyliau.

4. Brexit a Covid-19 – rheswm dros weithredu

Deuir yn awr at y cyfiawnhad sylfaenol dros weithredu ym maes ail gartrefi, sydd hefyd yn rheswm dros weithredu'n gadarn ym maes cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg yn gyffredinol.

Ers argyfwng ariannol 2008, mae cymunedau Cymraeg fel nifer o gymunedau bregus eraill yng ngwledydd Prydain wedi wynebu newidiadau sosio-economaidd heriol. Enghraifft o hyn yw'r crebachu ar y sector gyhoeddus (er enghraifft, mewn llywodraeth leol) yn sgil *austerity.* Mae wedi effeithio mewn modd anghymesur ar y Gymraeg oherwydd y duedd gyfredol yng nghadarnleoedd y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg gronni yn y sector hon yn fwy felly na mewn rhai rhannau o'r sector breifat (twristiaeth, er enghraifft).

Gyda'r bleidlais yn 2016 dros adael y Gymuned Ewropeaidd, daeth yn amlwg y byddai ardaloedd gwledig lle mae'r broblem ail gartrefi ar ei dwysaf yn mynd trwy ailstrwythuro sosio-economaidd a chymdeithasol ar lefel eang iawn. Yn ogystal â cholli cymorth Ewropeaidd rhanbarthol, gellid rhagweld gwanhau ar yr economi amaethyddol, rhagor o *austerity* yn effeithio ar y sector gyhoeddus, ac yn wir llu o heriau economaidd. Mae llawer o'r rhain yn effeithio ar sectorau lle cyflogir canran uchel iawn o siaradwyr Cymraeg.

Mae ailstrwythuro economaidd yn debygol o fod yn heriol iawn o safbwynt cynaliadwyedd cymunedol yn yr ardaloedd hyn, ac felly i'r iaith Gymraeg. Y tebygolrwydd yw y bydd problemau strwythurol megis pobl ifanc Gymraeg yn gadael cymunedau gwledig oherwydd prinder cyfleoedd economaidd yn dwysáu.

Fodd bynnag, ni fydd hyn yn digwydd mewn gwagle. Oherwydd newidiadau economaidd a diwylliannol yn sgil Brexit, ac hefyd yn sgil pandemig Covid-19, bydd y cymunedau hyn, sydd eisoes yn neilltuol fregus yn ieithyddol, ac a fydd oherwydd yr heriau a nodwyd yn mynd yn fwy bregus, yn wynebu cystadleuaeth ddirfawr am adnoddau yn y farchnad dai. Bydd hyn o ganlyniad i gynnydd yn y farchnad ail gartrefi ar y naill law, ac oherwydd mudo parhaol ar y llaw arall.

Brexit ac ail gartrefi

Ni fydd y profiadau diwylliannol yr arferai'r dosbarth canol Prydeinig eu mwynhau ar gyfandir Ewrop mor hygyrch wedi Brexit. Yn sgil cyfyngu ar y 'rhyddid i symud', ceir cyfyngiadau ar allu dinasyddion Prydeinig i deithio i gyfandir Ewrop yn ddilyffethair. Dim ond am 90 diwrnod ymhob 180 o ddiwrnodiau y bydd modd aros yn yr Undeb Ewropeaidd, ac nid oes modd i ddau gyfnod o 90 diwrnod fod yn olynol. Anodd felly

fydd bwrw gaeaf neu haf cyfan ar y cyfandir. Anos hefyd fydd symud i'r Undeb Ewropeaidd er mwyn ymddeol (yn Sbaen, er enghraifft) am y bydd hyn yn ddarostyngedig i reolau mewnfudo. Mae'n bosib hefyd y caiff y broses o brynu eiddo ei chymhlethu. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn debygol iawn o wneud prynu ail gartref ar y cyfandir yn llawer iawn llai apelgar nag y bu, a gallai'r arfer dosbarth canol Prydeinig o brynu tŷ neu fflat yn Ffrainc neu Sbaen gael ei ddirwyn i ben.

Mae'n bosib wrth gwrs y bydd hyn yn gwneud prynu ail gartrefi yn llai cyffredin yn gyffredinol, ond mae'n llawer iawn mwy tebygol fod yr awydd i berchnogi ail eiddo yn parhau ond bod y pryniant yn digwydd yn awr ym Mhrydain. Rhesymau cyfreithiol ac ymarferol a fydd yn gyrru'r newid hwn yn bennaf oll, a bydd yn effeithio ar sawl rhan o'r Brydain wledig ac arfordirol gan gynnwys Cymru. Nid yw'r niferoedd o dan sylw yn fychain. Yn y flwyddyn 2013-14, er enghraifft, roedd gan drigolion Prydeinig 70,000 o ail gartrefi yn Ffrainc a 66,000 o ail gartrefi yn Sbaen yn unig (Statista, 2020).

Ond am resymau seicolegol a diwylliannol hefyd, bydd awydd cynyddol dros hamddena mewn cyd-destun Prydeinig yn hytrach nag Ewropeaidd. Rhan o'r apêl i'r dosbarth canol o gael ail gartref yw ei bod yn ddigon tebyg i 'adref' i gynnig cysur, ac eto'n ddigon gwahanol i fod yn ddiddorol. Cyn Brexit, diwallwyd yr awydd hwn yn rhannol wrth brynu eiddo yn Ffrainc neu Sbaen. Ond yn y cyfnod ôl-Brexit, mae'n debyg y caiff y ddelfryd hon ei gwireddu oddi mewn i'r Deyrnas Unedig a'i hadfer ar ffurf ffantasïau a dychmygion am wahanol rannau o gefn gwlad Prydain.

Er y gall 'Rhamanteiddio' o'r fath effeithio ar sawl rhan o gefn gwlad Lloegr, y tebygolrwydd yw y bydd y duedd newydd ar ei dwysaf yn yr hen gyrion Brythoneg (Ardal y Llynnoedd, Cernyw, Eryri ayyb). Mae Ucheldiroedd yr Alban yn rhy bell i'r rhan fwyaf fedru teithio yno er mwyn bwrw'r Sul, ond mae Cymru a chyrion Lloegr yn fwy agos.

Nid ydym yn damcaniaethu heb dystiolaeth wrth dybio y gall hyn ddigwydd. Adnabyddir prosesau 'Rhamanteiddio' o'r fath mewn theori ddiwylliannol, ac yn hanesyddol hefyd ceir tystiolaeth fod hyn wedi digwydd yng Nghymru o'r blaen.

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn sgil Chwyldro Ffrainc a rhyfeloedd Napoleon, nid oedd y 'Grand Tour', sef y daith 'Ramantaidd' i'r Eidal a'r Alpau a gweddill y cyfandir yr oedd yn ffasiynol i'r bonedd Seisnig ymgymryd â hi, yn bosib mwyach. Roedd ffiniau'r cyfandir wedi cau. O ganlyniad, dechreuid meddwl am y 'cyrion Celtaidd' fel llefydd 'Rhamantaidd' y gallai Saeson ifanc eu cyrchu, ac am dro ar ddechrau'r ganrif daeth Eryri yn benodol yn lle ffasiynol iawn, a byddai beirdd Rhamantaidd fel Wordsworth a Shelley yn ymweld â hi.

Mae'n debygol y bydd Brexit yn arwain at broses gyffelyb o 'Ramanteiddio' Cymru. Gall fod i hyn rai manteision economaidd megis ffyniant twristiaeth. Ond mae'n anochel hefyd mai rhan o'r un ffenomen fydd cynnydd mewn pryniant ail gartrefi.

Er nad oes modd rhagweld i ba raddau y bydd y gofyn hwn am ail gartrefi yng Nghymru yn cynyddu, byddai'n annisgwyl iawn pe na bai'n dwf sylweddol.

Ers y bleidlais Brexit yn 2016, bu'r ganran o dai yng Ngwynedd a Môn a werthwyd fel ail gartrefi yn gyson uchel (Llywodraeth Cymru, 2019 a 2020ch). Nid yw'n amhosib mai dechrau shifft diwylliannol hirdymor yw hwn. Os felly, dim ond cynyddu a wna hyn oherwydd ni chafodd cyfyngiadau ar symudoledd yn Ewrop eu cyflwyno tan 1 Ionawr 2021.

Effaith Covid-19 ac ail gartrefi

Mae'n debygol iawn hefyd y bydd argyfwng Covid-19 yn cynyddu'r pwysau ar y stoc dai. Yn 2020, arweiniodd at sefyllfa lle bu poblogaeth drefol yn synio am gefn gwlad fel 'hafan' y byddai'n dymunol gallu dianc iddi, a bu'r prysurdeb aruthrol yn Eryri ac ar hyd glannau Cymru yn ystod haf 2020 yn dyst i hyn (Gallent, 2020). Mae'n bosib y bydd y meddylfryd hwn yn parhau hyd yn oed ar ôl diwedd y pandemig gan gyfrannu at y galw am ail gartrefi.

Ac mae'r pandemig hefyd wedi prysuro newid a oedd wedi cychwyn eisoes, sef symud o fyd economaidd lle mae disgwyl teithio i'r swyddfa bob dydd i un lle ceir llawer mwy o hyblygrwydd a rhyddid i weithio adref. Oherwydd datblygiadau technegol, mae'n annhebygol iawn y caiff yr arfer hwn ei wyrdroi'n llwyr wedi diwedd y pandemig. Bydd llawer iawn mwy o weithio adref yn y dyfodol.

Gall hyn fod yn fanteisiol i gefn gwlad mewn rhai ffyrdd. Er enghraifft, gallai cynnig ffordd i bobl sydd wedi gadael y Gymru wledig oherwydd diffyg cyfleoedd economaidd ddychwelyd. Pe bai Llywodraeth Cymru yn sefydlu cynllun i annog siaradwyr Cymraeg sydd wedi symud i rannau eraill o Brydain i 'ddod adref' er mwyn cymryd mantais ar y ffordd newydd hon o fyw, gallai fod yn llesol o safbwynt dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Fodd bynnag, ceir peryglon amlwg hefyd. Gallai'r gystadleuaeth am dai yng nghefn gwlad ffyrnigo oherwydd gallai rhywun a gyflogir gan gwmni ym Manceinion neu Fryste neu Lundain fwrw'r Sul yng nghefn gwlad Cymru, a rhan go lew o'r wythnos hefyd, gan gymudo i'r brif swyddfa yn ôl y galw. Ni fyddai rhaid bod yn y swyddfa ddinesig o naw tan bump bob dydd, o ddydd Llun tan ddydd Gwener. Hwyrach y byddai modd mwynhau 'penwythnosau hir' yng Nghymru gan weithio ar gyfrifiadur yn yr ail gartref ar ddyddiau penodol (ar ddydd Gwener neu ddydd Llun, er enghraifft). Byddai sefydlu patrwm gwaith o'r fath yn cynyddu'r gofyn am ail gartrefi yng nghefn gwlad Cymru yn aruthrol.

Fel yn achos Brexit, ceir tystiolaeth fod rhai o'r newidiadau cymdeithasol hirdymor tebygol hyn wedi cychwyn eisoes. Roedd yr haf twristaidd mewn siroedd gyda nifer

uchel o ail gartrefi fel Sir Benfro, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r prysuraf erioed. Bu hefyd adroddiadau anecdotaidd fod tai ar y farchnad agored mewn pentrefi glan môr deniadol yn cael eu prynu'n sydyn iawn; rhai ohonynt fel ail gartrefi. Gellid tybio fod peth o'r cyffro yn ystod haf 2020 oherwydd ffactorau dros dro yn gysylltiedig â Covid-19. Fodd bynnag, naïf fyddai meddwl na fydd rhai o leiaf o'r newidiadau honedig 'fyr-dymor' hyn yn parhau i'r dyfodol.

Mae'n bwysig pwysleisio felly nad ydym yn creu polisi cyhoeddus ym maes ail gartrefi ar adeg o sefydlogrwydd cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae'r gymdeithas Gymreig yn wynebu cyfnod o ansefydlogrwydd mawr.

Fel y nodwyd eisoes yn Adran 3 ('Effaith ail gartrefi ar gynaliadwyedd cymunedau a'r iaith Gymraeg'), gallai lleihau nifer yr ail gartrefi mewn cymunedau Cymraeg yn sydyn beri niwed ieithyddol. Ond oherwydd effaith hirdymor Brexit a Covid-19, mae bron yn amhosibl rhagweld hyd yn oed mesurau llym yn arwain at leihad sylweddol yn eu niferoedd. Wrth i weithleoedd symud 'ar-lein', nid yw'n amhosib y bydd y galw am ail gartrefi yn rhai o lecynnau mwyaf hardd Cymru yn dod yn anniwall.

Canlyniad mwyaf tebygol cyflwyno mesurau newydd ym maes ail gartrefi fydd lleihau cynnydd yn eu niferoedd a fuasai wedi bod yn llawer iawn mwy fel arall. Hwyrach y gellid cael sefydlogrwydd. Anodd eithriadol yw gweld niferoedd yn gostwng yn sylweddol.

Oherwydd natur ieithyddol sensitif cymunedau lle ceir dwysedd uchel o ail gartrefi, sefydlogrwydd neu ostyngiad graddol yn eu niferoedd dros nifer o flynyddoedd fyddai'r canlyniad gorau o safbwynt dyfodol yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes gobaith sicrhau hyn heb ymyrraeth bolisi. Oherwydd natur drawsnewidiol sgil-effeithiau hirdymor Brexit a Covid-19, bydd y risg o beidio â gweithredu yn llawer iawn uwch nag unrhyw risg a allai fod ynghlwm wrth gyflwyno polisïau newydd.

Argymhelliad 4 – ymateb i Brexit a Covid-19

Er mwyn ceisio lliniaru effeithiau anochel Brexit a Covid-19 ar y farchnad dai mewn cymunedau yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi, dylai Llywodraeth Cymru weithredu mewn modd mwy rhagweithiol, gan gymryd camau mwy radical nag a gymerid fel arall.

5. Model theoretig ar gyfer cyflwyno polisïau

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio model theoretig a amlinellwyd gan Nick Gallent, Alan Mace a Mark Tewdwr Jones yn eu herthygl, 'Second homes: A new framework for policy' (Gallent *et al.*, 2004). Ymgais oedd yr erthygl hon i ddiweddaru erthygl ffurfiannol bwysig D. M. Shucksmith, 'Second Homes: A Framework for Policy' (Shucksmith, 1983) – yr ymgais academaidd gynhwysfawr gyntaf i geisio cynnig atebion polisi cyhoeddus i'r 'broblem' ail gartrefi yng ngwledydd Prydain.

I raddau mae'r model wedi cael ei ddylanwadu gan anghenion Cymru. Mae erthygl Shucksmith yn cyfeirio at Gymru ac yn nodi ei lle canolog mewn trafodaethau polisi am ail gartrefi. Gallent, Mace a Tewdwr Jones yw awduron *Adroddiad Ymchwil ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Gynllunio Defnydd Tir*, yr astudiaeth gynhwysfawr o ail gartrefi yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Er bod 'Second homes: A new framework for policy' wedi'i hysgrifennu yng nghyd-destun polisi yn Lloegr, ar sawl gwedd, model theoretig ydyw a luniwyd yng nghysgod ystyriaethau am Gymru.

Y prif ddiffyg yw nad yw'r model yn trafod cynllunio ieithyddol, ac yn y cyd-destun Cymreig o leiaf, mae hyn yn golygu fod rhaid amodi rhai o'i gasgliadau.

Nodwedd benodol y fframwaith yw awydd i weithredu ar draws ystod o feysydd polisi er mwyn mynd i'r afael ag ail gartrefi. Does yna ddim *un* 'polisi' a fydd yn datrys y broblem, ac mae angen gweithredu mewn modd uniongyrchol ac anuniongyrchol er mwyn cael effaith. Cyfiawnder cymdeithasol yw'r cyfiawnhad dros weithredu, ac ystyrir ail gartrefi fel 'part of a gentrifying process that needs to be checked through socially progressive policy tools' (Gallent *et al.*, 2004, 295).

Yn 'Second homes: A new framework for policy', gosodir y broblem ail gartrefi yng nghyswllt anfantais gwledig, sy'n awgrymu cyd-destun ar gyfer y drafodaeth Gymreig. Gellid synio am y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg fel nodwedd ar gymdeithas sydd o dan anfantais mewn trosglwyddiadau eiddo. Os felly mae modd meddwl am gynllunio ieithyddol ym maes ail gartrefi o safbwynt cydraddoldeb hefyd.

Yn ôl Gallent, Mace a Tewdwr Jones:

> Our own policy framework for addressing second homes and broader housing pressures in the countryside has a similar mix of direct and indirect measures [to those developed by Shucksmith]. This similarity is indicative of the almost static nature of the second home issue over the last two decades; outside housing demand within many rural communities continues to be driven by the imbalance between urban and rural incomes, by the prestige attached to a

> home in the country, and by the scarcity value that planning confers on rural housing. The wider context is also largely unchanged; rural economies endure the same structural weaknesses; the planning system adheres to an almost identical raft of guidelines and objectives; and there continues to be little appetite among politicians – or society at large – for banning second homes or seriously infringing on private property rights. There is also a continued recognition that second homes – and retirement – are merely symptomatic of broader social and economic trends, marked for centuries by an exchange of people and wealth between town and country.
>
> In this context, the policy framework set out below represents a consideration of how:
>
> 1. the planning system might be used to make this exchange less painful for certain rural areas, and promote balanced communities above social exclusivity in large parts of the countryside; and
> 2. how monetary and taxation policy might contribute to meeting the same aim by decreasing the attraction of second home ownership and also by releasing additional funds to assist in the provision of more affordable homes in rapidly gentrifying parts of the English countryside.
>
> (Gallent *et al.*, 2004, 295)

O gymhwyso'r model theoretig hwn i Gymru, gellid ei fynegi fel a ganlyn:

- Y cyfiawnhad theoretig dros gyflwyno ymyrraeth bolisi yw cyfiawnder cymdeithasol, a dylid mynegi hyn mewn polisi cyhoeddus mewn tair ffordd:

1. Polisi cynllunio sy'n ymwneud *yn uniongyrchol* ag ail gartrefi, er enghraifft wrth osod cyfyngiadau ar ddefnydd o dai annedd fel ail gartrefi.
2. Polisi cynllunio sy'n ymwneud yn *anuniongyrchol* ag ail gartrefi, er enghraifft trwy fabwysiadu polisïau o ran tai fforddiadwy neu sy'n gosod cyfyngiadau perchnogaeth leol ar eiddo.
3. Polisi trethiannol sy'n ymwneud ag ail gartrefi.

Felly bydd yr adroddiad hwn yn gwneud argymhellion polisi ar draws y tri maes hyn: polisïau cynllunio uniongyrchol, polisïau cynllunio anuniongyrchol, a pholisïau trethiannol.

Fel y gwelir yn y man, mae mwy o bwyslais yn yr adroddiad hwn ar ymyrraeth uniongyrchol nag a geir yn model Shucksmith a Gallent *et al.*. Y rheswm am hyn yw fod bodolaeth y Gymraeg fel iaith gymunedol yn ei gwneud yn fwy anodd i oresgyn y broblem dai trwy ddulliau anuniongyrchol yn unig (er enghraifft, codi mwy a mwy o dai nes bod yr angen lleol wedi ei ddiwallu).

Argymhelliad 5 – yr angen am gamau gweithredu ar draws ystod o feysydd polisi

Dylid cyflwyno polisïau ar draws ystod o feysydd polisi, ac yn benodol yn y tri maes canlynol: polisïau cynllunio uniongyrchol, polisïau cynllunio anuniongyrchol, a pholisïau trethiannol.

6. Polisi trethiannol

Ar hyn o bryd, mae polisi cyhoeddus yng Nghymru ym maes ail gartrefi yn cael ei fynegi trwy gyfrwng polisi trethiannol yn bennaf.

Digwydd hyn mewn dwy ffordd, sef y premiwm treth gyngor y gall cynghorau sir ei godi ar ail gartrefi, a hefyd cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir y mae'n rhaid eu talu wrth brynu ail eiddo.

Trafodir hefyd yn yr adran hon ardrethi annomestig (treth fusnes) gan fod hyn hefyd yn berthnasol i'r drafodaeth bolisi.

i. Premiwm y Dreth Gyngor Leol

O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan awdurdodau lleol yr hawl i godi premiwm ar dreth gyngor leol o hyd at 100% ar ail gartrefi. Yn y flwyddyn ariannol 2020-21, roedd wyth cyngor sir yng Nghymru yn defnyddio'r hawl hon (Llywodraeth Cymru 2020a, t. 9). Roedd dau gyngor (Conwy a Cheredigion) yn codi premiwm o 25% (gyda Chonwy yn bwriadu codi hyn i 50% y flwyddyn wedyn), un cyngor (Ynys Môn) yn codi premiwm o 35%, a phum cyngor (Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys a Sir Benfro) yn codi premiwm o 50%. Yn ystod yr hydref 2020, roedd un o'r cynghorau hyn, Powys, yn ymgynghori ar gynyddu'r premiwm i 75%. Erbyn mis Ionawr 2021 (pan gwblhawyd yr adroddiad hwn), roedd Ynys Môn wedi penderfynu ymgynghori ar godi'r premiwm i 50% o leiaf, ac roedd Gwynedd yn ymgynghori ynghylch codi'r premiwm i 100%. Hefyd roedd cyngor arall, Abertawe, wedi penderfynu cyflwyno premiwm am y tro cyntaf, a hynny ar raddfa o 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Cyngor Abertawe felly yw'r cyngor cyntaf (a'r unig gyngor hyd yma) yng Nghymru i benderfynu'n derfynol i ddefnyddio ei rymoedd trethiannol yn llawn.

Sefyllfa ryfedd yw hon oherwydd bu llawer iawn o gwynion o du llywodraeth leol am y sefyllfa o ran ail gartrefi, a galwadau am fynd i'r afael â hyn ar frys drwy'r system gynllunio, er enghraifft trwy wneud troi tŷ annedd yn ail gartref yn fater o 'newid defnydd' a allai fod yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio.

Newid pur sylfaenol ym maes polisi cyhoeddus fyddai hyn. Gellid ystyried hynny, bid siŵr, ac eto byddai'r ddadl a gyflwynir gan gynghorau o blaid hyn yn gryfach pe baent yn defnyddio eu grymoedd trethiannol eu hunain yn llawn. Hyd yma, nid yw hynny wedi digwydd.

Y rheswm a roddir yn aml gan gynghorau lleol dros beidio â defnyddio eu grymoedd trethiannol yn llawn yw y ceir 'loophole' honedig yn y ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i

berchnogion ail gartrefi osgoi talu treth gyngor yn gyfan gwbl gan gofrestru yn hytrach ar gyfer ardrethi annomestig. Mae'r honiad hwn yn cael ei ailadrodd yn aml.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth y ceir 'loophole' yn yr ystyr fod pobl yn torri'r gyfraith. Pe bai torcyfraith, yna byddai yn y budd cyhoeddus fod y rhai sy'n tramgwyddo yn cael eu herlyn. Gair anffodus yw 'loophole' am ei fod yn creu dryswch ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd.

Ym mis Ionawr 2020, ysgrifennodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at Lywodraeth Cymru gan gadarnhau nad oes 'loophole':

> To be clear, we agree with you that there is no loophole – what is happening on the ground is completely in accordance with the legislative provisions. Our contention is that it is creating a situation which seems at odds with the Government's aims in respect of housing supply.
>
> (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2020)

Beth felly sy'n digwydd ar lawr gwlad mewn cymunedau a effeithir gan ail gartrefi?

Os yw ail gartref *ar gael* i'w osod yn fasnachol fel llety hunan-arlwyo am gyfnodau sy'n dod i gyfanswm o 140 o ddiwrnodiau neu fwy mewn blwyddyn, ac os yw hyn yn digwydd yn *wirioneddol* am 70 diwrnod o leiaf, yna gellir cofrestru'r ail gartref i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig (treth fusnes) yn hytrach na'r dreth gyngor.

Mae hyn yn cynnig nifer o fuddion trethiannol nad ydynt ar gael i berchnogion sydd wedi cofrestru eu heiddo ar gyfer y dreth gyngor leol. 'The result', meddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 'is that these properties are then eligible for the Small Business Rate Relief, which effectively means that owners end up paying no taxes at all into the public purse in Wales in respect of those properties.' (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2020)

Wedi iddynt gyflwyno premiwm y dreth gyngor leol ar ail gartrefi am y tro cyntaf, sylwodd rhai cynghorau lleol fod nifer sylweddol o ail gartrefi yn cael eu trosglwyddo o restr y dreth gyngor i'r rhestr ardrethi annomestig, 'gan fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi eu dynodi'n eiddo hunan-ddarpar yn unol ag Adran 66 (2BB) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988' (Cyngor Gwynedd, 2020b, [t. 4.]).

Yn achos Gwynedd yn unig, buasai 454 o drosglwyddiadau yn 2018-19, a 397 o drosglwyddiadau yn 2019-20, o restr y dreth gyngor i'r rhestr ardrethi annomestig. Roedd hyn yn cymharu â 167 o drosglwyddiadau yn 2015-16 a 188 o drosglwyddiadau yn 2014-15, sef yn ystod y cyfnod cyn i Gyngor Gwynedd benderfynu ym mis Rhagfyr 2016 y byddai'n cyflwyno premiwm ail gartrefi am y tro cyntaf (daeth y penderfyniad i rym yn 2018/19).

Honnir felly fod cyswllt rhwng codi'r premiwm a thuedd i drosglwyddo eiddo o restr y dreth gyngor yn gyfan gwbl, ac adnabyddir hyn fel risg sydd 'wedi ei gofnodi ar gofrestr risg corfforaethol y Cyngor.' (Cyngor Gwynedd, 2020b, [t. 4.])

Cydnabyddir nad yw codi premiwn ar ail gartrefi heb elfen o risg. Fodd bynnag, yn hytrach na pheidio â chynyddu'r premiwm oherwydd hyn, mwy synhwyrol fyddai gwneud hynny, ac ar yr un pryd i Lywodraeth Cymru fabwysiadu polisïau cyfochrog i geisio darbwyllo perchnogion i beidio â throsglwyddo eu heiddo o restrau'r dreth gyngor i ardrethi annomestig.

Mae llawer iawn o'r drafodaeth gyhoeddus ddiweddar am ail gartrefi wedi dadlau o blaid cyflwyno newidiadau pellgyrhaeddol i ddeddfwriaeth gynllunio. Fodd bynnag, o safbwynt polisi cyhoeddus, mae'n fwy anodd cyfiawnhau newid deddfwriaeth gynllunio os nad yw'r grymoedd trethiannol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio.

Wrth beidio â chodi premiwm llawn ar ail gartrefi, mae cynghorau sir sy'n pryderu am y sefyllfa yn gwanhau eu dadl.

Mae yn y budd cyhoeddus felly fod cynghorau sir mewn ardaloedd lle ceir nifer uchel o ail gartrefi yn defnyddio eu grymoedd trethiannol yn llawn. Mae arwyddion fod rhai awdurdodau lleol yn yr ardaloedd hynny ar fin gwneud hyn, ac mae eraill yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw. Mae hyn yn ei dro yn cyfiawnhau gofyn am ymateb priodol gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys rhoi ystyriaeth lawn i opsiynau polisi eraill, megis rhai a drafodir yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 6 – Premiwm y Dreth Gyngor Leol

Dylai cynghorau sir sy'n canfod fod ail gartrefi yn broblem gymdeithasol ddifrifol ddefnyddio eu grymoedd trethiannol yn llawn, gan godi premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi i 100%.

ii. Llety gwyliau tymor byr ac ardrethi busnesau bach

Fel y nodwyd, gwelid tuedd yn ddiweddar i eiddo gael ei symud o restr y dreth gyngor leol i ardrethi annomestig, ac o ganlyniad mae rhai cynghorau sir yn gyndyn o ddefnyddio eu grymoedd trethiannol yn llawn.

Mae hyn yn arwyddocaol am fod llety gwyliau tymor byr hefyd yn rhoi pwysau ar y stoc dai mewn cymunedau lle ceir nifer arwyddocaol o ail gartrefi, ac mewn materion trethiannol o leiaf, ymddengys fod cryn fynd a dod rhwng y ddau gategori hyn o 'gartrefi gwyliau' (ail gartrefi ar gyfer defnydd personol a llety gwyliau tymor byr).

Hynny yw, er mwyn mynd i'r afael ag ail gartrefi, mae angen edrych ar bolisi parthed llety gwyliau tymor byr hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir os mai canlyniad anfwriadol polisi trethiannol yw fod ail gartrefi yn cael eu trosi, neu eu hail-ddiffinio, fel llety gwyliau tymor byr.

Un o brif argymhellion adroddiad Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau*, yw y dylid lleihau'r cymhelliad ariannol dros symud ail gartrefi o'r rhestr dreth gyngor i'r rhestr ardrethi annomestig. Yr awgrym yw y gellid gwneud hyn drwy eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach:

> Drwy eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys am ryddhad trethi busnesau bach, ni fyddai unrhyw ysgogiad i osgoi gorfod talu premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Opsiwn arall posib fyddai gwahardd llety gwyliau tymor byr rhag cymhwyso'n eiddo busnes. Golygai hynny na fyddai'r eiddo yn gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi annomestig ac y byddai'r perchnogion yn talu Treth Cyngor ar ail gartrefi.
>
> (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 66)

Ymhellach, mae gan *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau* y sylw hwn:

> Os bydd uned breswyl (dosbarth defnydd C3) yn cael ei throsglwyddo i'r system cyfraddau annomestig, awgrymir drwy wneud hynny, bydd y rheini sy'n gyfrifol am y weithred yn cydnabod na fydd y defnydd preswyl o'r eiddo bellach yn bodoli. O ganlyniad, ni ddylai unrhyw eiddo heb ganiatâd cyfreithiol ar gyfer ei ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr fod yn gymwys i'w werthuso i dalu cyfraddau trethi busnes annomestig. Dylai Unedau Gwyliau Hunanarlwyo, mewn perthynas â Threthi Annomestig, fod yn derm a gedwir ar gyfer ei ddefnyddio ar eiddo sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio i'w ddefnyddio ar gyfer y diben penodol hwnnw.
>
> (Cyngor Gwynedd, 2020c, tt. 66-7)

Trafodir a ddylai fod angen caniatâd cynllunio er mwyn trosi tŷ annedd yn llety gwyliau tymor byr yn Adran 8 ('Polisi cynllunio a'r stoc dai bresennol'), a chyfyngir y drafodaeth yn yr adran hon i'r ddadl ynghylch eithrio llety gwyliau rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach. Er i'r adroddiad hwn gydymdeimlo â'r safbwynt hwnnw, byddai cam o'r fath yn codi cwestiynau ehangach na rhai yn y maes tai yn unig, sef am gyfraniad economaidd y diwydiant twristaidd, a'r lle sydd

gan lety o'r math hwn ynddo. O safbwynt cynllunio ieithyddol, dylid nodi fod pobl leol hefyd yn cael budd economaidd o weithgarwch o'r fath.

Dylid nodi fod *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau* yn honni serch hynny y byddai eu hargymhelliad yn ogystal ag ymyrryd mewn modd effeithiol er lles argaeledd tai hefyd yn hybu twristiaeth oherwydd

> Drwy adnabod yr eiddo sydd wedi cael eu datblygu'n iawn fel rhan o'r diwydiant twristiaeth, gall Llywodraeth Cymru dargedu cymorth ac, ar yr un pryd, sicrhau y gellir eithrio eiddo lle mae'r perchnogion ond nid yr economi na'r gymuned ehangach yn elwa o unrhyw raglen ryddhad, a gofynnir iddo gyfrannu at drethi lleol.
>
> (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 67)

Dylai'r awgrym y dylid eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach gael ei ystyried o ddifrif gan Lywodraeth Cymru. Mae'n wir fod amwysedd ynglŷn ag union gyfraniad economaidd rhai o'r unedau hyn sydd yn aml mewn pentrefi lle ceir dwysedd uchel o ail gartrefi yn gyffredinol. Fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd economaidd y diwydiant twristaidd, ni fyddai'n deg cyflwyno newid o'r fath heb ymgynghoriad ehangach.

Argymhelliad 7 – Llety gwyliau tymor byr a threthi busnes

Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynglŷn â phosibiliad eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach.

iii. Treth trafodiadau tir

Mae Cymru hefyd yn ymateb i'r broblem ail gartrefi yn drethiannol drwy godi treth ychwanegol arnynt pan brynir ail eiddo (Llywodraeth Cymru, 2020b). Cyflwynwyd y dreth trafodiadau tir ym mis Ebrill 2018, ac fe'i diwygiwyd ar 22 Rhagfyr 2020.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, wrth brynu eiddo cyntaf, mae'n rhaid talu treth sy'n cyfateb i werth yr eiddo yn ôl y cyfraddau hyn:

Tabl 4: Treth trafodiadau tir (Llywodraeth Cymru, 2020c)

cyfran rhwng	canran o bris yr eiddo
£0-£180,000	0%
£180,000-£250,000	3.5%
£250,000-£400,000	5%
£400,000-£750,000	7.5%
£750,000-£1,500,000	10%
dros £1,500,000	12%

Yn sgil epidemig Covid-19, gostyngwyd dros dro y taliad ar gyfer y rhan honno o'r eiddo sy'n werth dros £180,000 hyd at £250,000 o 3.5% i 0%.

Fodd bynnag, os yw rhywun yn prynu eiddo preswyl ac yn berchen ar un eiddo neu fwy eisoes, maent yn gorfod talu treth trafodiadau tir ar gyfraddau uwch. Hyd at 22 Rhagfyr, roedd y cyfraddau fel a ganlyn:

Tabl 5: Treth trafodiadau tir cyfraddau uwch cyn 22 Rhagfyr, 2020 (Llywodraeth Cymru, 2020c)

cyfran rhwng	canran o bris yr eiddo
£0-£180,000	3%
£180,000-£250,000	6.5%
£250,000-£400,000	8%
£400,000-£750,000	10.5%
£750,000-£1,500,000	13%
dros £1,500,000	15%

Yn achos cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir, penderfynwyd peidio newid y cyfraddau hyn fel ymateb i Covid-19.

Yn ymarferol felly, hyd at 22 Rhagfyr 2020, bu'n rhaid i brynwyr ail gartrefi dalu premiwn treth o 3% o werth yr eiddo yr oeddynt yn ei brynu yn ychwanegol at brif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir. (Yn sgil y penderfyniad i ostwng y prif gyfraddau fel ymateb i Covid-19, bu'r bwlch rhwng y swm roedd prynwr eiddo cyntaf a phrynwr ail eiddo yn ei dalu yn fwy na 3% mewn rhai achosion, ond mae'n rhaid cofio mai cam dros dro yw hwn.)

Fodd bynnag, ers i'r dreth trafodiadau tir gael ei chyflwyno yn 2018, mae'n amlwg nad yw wedi arwain at leihad mawr yn nifer yr ail gartrefi a brynir. Dengys ystadegau Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 mai'r ddwy sir yng Nghymru gyda'r ganran uchaf o drafodiadau cyfraddau uwch o ran tai preswyl yw Gwynedd a Môn (Llywodraeth Cymru, 2020ch). Y ganran yng Ngwynedd oedd 38% ac ym Môn 36%. Cafwyd canrannau tebyg yn 2018-19 hefyd, sef 37% yng Ngwynedd a 33% ym Môn (Llywodraeth Cymru, 2019).

Er bod cyfraddau uwch yn daladwy yn achos rhai mathau eraill o drafodiad preswyl yn ogystal ag ail gartrefi (eiddo prynu-i-osod ac eiddo a brynir gan gwmnïau, er enghraifft), mae'n amhosibl esbonio safle Gwynedd a Môn ar frig y rhestr hon ac eithrio yn nhermau'r farchnad ail gartrefi.

O ganlyniad i hyn, ac yn erbyn cefndir o brotestiadau yn erbyn ail gartrefi yn ystod 2020, ail-edrychwyd ar gyfraddau'r dreth trafodiadau tir.

Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, telir treth stamp wrth brynu eiddo, ac mae'n rhaid talu premiwm o 3% ar ail eiddo (United Kingdom Government, 2020), sefyllfa sy'n cyfateb i'r un a fodolai yng Nghymru.

Yn yr Alban, ar y llaw arall, telir treth trafodiadau tir ac adeiladau wrth brynu eiddo, ac yno mae'n rhaid talu premiwm o 4% ar ail eiddo ('additional dwelling supplement'). Gosodwyd y premiwn ar gyfradd o 3% pan gyflwynwyd y dreth hon am y tro cyntaf yn lle treth stamp yn 2016. Fodd bynnag, codwyd y gyfradd i 4% yn 2019 (Revenue Scotland, 2020). Felly, roedd y premiwm ar ail gartrefi yn uwch yn yr Alban nag ydoedd yng Nghymru.

Sail penderfyniad Llywodraeth yr Alban i godi'r premiwm o 3% i 4% yn eu cyllideb ar gyfer 2019-20 oedd awydd 'to protect those who are buying their first home and those who are progressing through the property market' (Scottish Parliament, 2018). Digwyddodd hyn er nad yw'r broblem ail gartrefi mor ddwys yn yr Alban ag yng Nghymru. Yn 2018, roedd 24,983 o ail gartrefi yn yr Alban (Scottish Parliament, 2019, t. 17). Roedd hyn fymryn yn uwch na'r 24,423 o ail gartrefi yr amcangyfrifid y gellid codi treth arnynt yn 2020-21 yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020a, t. 9). Fodd bynnag, mae'n rhaid cofio fod oddeutu 5,463,000 o bobl yn byw yn yr Alban o gymharu ag oddeutu 3,153,000 yng Nghymru yn ôl yr amcangyfrif diweddaraf (Llywodraeth Cymru, 2020f).

Un ffordd amlwg o ymateb i'r argyfwng ail gartrefi yng Nghymru fyddai codi'r premiwm a geir yng nghyfraddau uwch'r dreth trafodiadau tir o 3% i 4%, a dyna a ddigwyddodd ar 22 Rhagfyr 2020 (Llywodraeth Cymru, 2020ff).

Tabl 6: Treth trafodiadau tir cyfraddau uwch ar ôl 22 Rhagfyr, 2020

cyfran rhwng	canran o bris yr eiddo
£0-£180,000	4%
£180,000-£250,000	7.5%
£250,000-£400,000	9%
£400,000-£750,000	11.5%
£750,000-£1,500,000	14%
dros £1,500,000	16%

Yn sicr, mae'r cam hwn i'w groesawu, ond faint o wahaniaeth a wna yn y cymunedau hynny lle mae ail gartrefi yn broblem wirioneddol yn y farchnad dai? Cymunedau yw'r rhain mewn rhannau gwledig ac arfordirol o orllewin a gogledd Cymru lle mae cyflogau ar gyfartaledd yn isel. Y gymhareb incwm i fforddiadwyedd pris tŷ yng Ngwynedd yn 2019, er enghraifft, oedd 5.9:1 ond roedd yn codi mewn cymunedau lle ceid dwysedd o ail gartrefi. Er enghraifft yn Abersoch ac Aberdaron, roedd y gymhareb yn 10.7:1 (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 41).

Yn Abersoch, y pris canolrif cyfartalog ar gyfer tŷ ym mis Medi 2019 oedd £365,275 (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 40). Ers hynny, mae prisiau tai wedi codi. Felly, gellid tybio fod y penderfyniad i godi'r premiwm ar ail gartrefi o 3% i 4% yn dreth ychwanegol ar brynwr tŷ nodweddiadol yn Abersoch fel ail gartref o ryw £3,000-£4,000 efallai. Mewn cymunedau eraill gyda dwysedd o ail gartrefi, byddai'n llai. Y pris canolrif cyfartalog yng Ngwynedd ar gyfer tŷ ym Medi 2019 oedd £155,000, ac yn ôl y meincnod hwnnw, ni fyddai codi'r premiwm o 3% i 4% ond yn dreth ychwanegol ar gyfartaledd o £1,550.

Er bod y cynnydd yn ddoeth a synhwyrol, mae'n anodd credu y bydd codi cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir ar ail gartrefi o 1% yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon mewn sir fel Gwynedd. Ai'r ateb felly yw codi'r premiwm yn uwch, o 4% i 5%, 6%, 7%, neu i 8% efallai?

Y broblem wrth gwrs yw mai ffenomen ranbarthol yw ail gartrefi. Yr ardal lle ceid lleiaf o daliadau cyfraddau uwch yn 2019-20 oedd Torfaen. Nid oedd ond 16% o drafodiadau eiddo yn y sir honno yn y categori uwch. Gwelwyd eisoes mai saith cartref yn unig a adnabuwyd yn Nhorfaen fel ail gartrefi yn amcangyfrif Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 o gartrefi y gellid codi premiwn y dreth gyngor arnynt. Go brin fod cyswllt felly rhwng cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir yn Nhorfaen a'r farchnad ail gartrefi.

Diau y gellid cyfiawnhau codi cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir gan 1% yn Nhorfaen gan ddefnyddio'r math o ddadleuon a gafwyd yn yr Alban. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld sut y gellid codi'r dreth eto fyth mewn ardal fel Torfaen pan nad oes problem yno o ran ail gartrefi. Gallai codi'r dreth yn uwch gael effaith ar argaeledd mathau eraill o eiddo megis tai i'w rhentu.

Mae'n amlwg fod Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r ddadl hon. Mewn llythyr gan Drysorlys Cymru at y Cynghorydd Rhys Tudur, aelod o Gyngor Tref Nefyn, 27 Hydref 2020, nodwyd fod

> talwyr cyfraddau uwch LTT [Treth Trafodiadau Tir] mewn cyfrannau gwahanol o ran y defnydd a fwriedir [ei wneud o'r eiddo] mewn gwahanol rannau o Gymru ac efallai na fydd unrhyw fesurau tymor byr sy'n iawn ar gyfer un rhan o Gymru yn diwallu anghenion ardaloedd eraill. Fel bob amser, rhaid sicrhau cydbwysedd wrth bennu cyfraddau fel eu bod yn iawn i Gymru.
>
> (Llywodraeth Cymru, 2020e, t. 2)

Anodd anghytuno â barn y Llywodraeth yn hyn o beth (er y cyfeirir yma at 'fesurau tymor byr', nid oes dwywaith nad yw'r ddadl yn berthnasol yn achos mesurau hirdymor yn ogystal). Byddai codi cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir drwy Gymru gyfan yn ddigon uchel i fedru cynorthwyo cymunedau fel Nefyn yn cael effaith anghymesur ac annheg ar unigolion mewn ardaloedd lle nad yw ail gartrefi yn broblem gymdeithasol.

Ond byddai peidio â chodi'r dreth yn sylweddol mewn lle fel Nefyn yn lleihau effeithlonrwydd yr ymateb polisi cyhoeddus i ail gartrefi. Fel y nodwyd eisoes, y ffordd orau i daclo ail gartrefi yw trwy weithredu ar hyd ystod o feysydd polisi (trethiannol ac o ran cynllunio). Heb ymateb trethiannol cadarn, gorwedd y pwyslais i gyd ar y gyfundrefn gynllunio.

Gan y bu'r pwyslais yng Nghymru hyd yma ar ddefnyddio'r system drethiannol yn hytrach na'r system gynllunio mewn polisi ail gartrefi, mae defnyddio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir er mwyn cael rheolaeth well ar ail gartrefi (a darparu cyllid ar

gyfer codi tai fforddiadwy) yn gam naturiol i Lywodraeth Cymru. Mae'n gyson â thrywydd polisi cyhoeddus yng Nghymru'n fwy cyffredinol.

Datblygu polisi trethiannol rhanbarthol

Sut felly i ddatrys y broblem hon? Mae natur ranbarthol y broblem ail gartrefi yn codi'r cwestiwn a ddylid mabwysiadu polisi trethiannol rhanbarthol yng Nghymru.

Mae cynsail ar gyfer hyn mewn polisi trethiannol eisoes. Llywodraeth leol yn hytrach na Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu a godir premiwn y dreth gyngor ar ail gartrefi. O ganlyniad, ceir i bob pwrpas dreth ranbarthol ar ail gartrefi mewn rhai rhannau o Gymru.

Trwy ddatganoli'r penderfyniad hwn i lywodraeth leol, mae Llywodraeth Cymru wedi osgoi'r broblem o sut i gysoni budd siroedd lle ceir miloedd ar filoedd o ail gartrefi â buddiannau yn y rhanbarthau hynny lle nad oes odid ddim ail gartrefi. Mae datganoli'r penderfyniad i gynghorau lleol wedi creu polisi cyhoeddus sy'n ateb anghenion a blaenoriaethau lleol yn deg ymhob rhan o Gymru.

Mae dadl gref felly dros fabwysiadu'r un egwyddor mewn perthynas â'r dreth trafodiadau tir.

Gellid cael graddfa genedlaethol o ran cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir ac ar yr un pryd ganiatáu i lywodraeth (genedlaethol neu leol) ei hamrywio mewn gwahanol rannau o Gymru gan adlewyrchu anghenion lleol. Gellid datganoli'r penderfyniad a ddylid gweithredu'r 'amrywiad' i gynghorau sir. Byddai hyn yn dilyn egwyddor premiwm y dreth gyngor, sy'n caniatáu i ail gartrefi gael eu trethu mewn modd trymach mewn siroedd lle maent yn cael effaith niweidiol.

Gellid hefyd ddilyn cynsail y dreth gyngor leol wrth benderfynu i ba raddau y dylid caniatáu amrywiad. Caniateir i gynghorau lleol godi premiwm ar ail gartrefi o hyd at 100% o'r dreth gyngor arferol. Byddai'n gyson felly i ganiatáu amrywiad hyd at 100% o'r gwahaniaeth rhwng prif raddau a chyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir, sef 4%.

Pe gwneid hynny, byddai'r dreth trafodiadau tir ar ail gartrefi mewn siroedd lle roedd y cyngor sir wedi penderfynu gweithredu'r amrywiad fel a ganlyn:

Tabl 7: Treth trafodiadau tir ar gyfer ail gartrefi lle mae'r cyngor sir wedi penderfynu amrywio'r cyfraddau uwch hyd at 4% yn ychwanegol

cyfran rhwng	graddfa genedlaethol cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir (canran o bris yr eiddo)	cyfraddau uwch wedi amrywiad sirol neu leol
£0-£180,000	4%	4% - 8%
£180,000-£250,000	7.5%	7.5% - 11.5%
£250,000-£400,000	9%	9% - 13.5%
£400,000-£750,000	11.5%	11.5% - 15.5%
£750,000-£1,500,000	14%	14% - 18%
dros £1,500,000	16%	16% - 20%

Pe dilynid y polisi hwn, gellid crynhoi'r dreth trafodiadau tir arfaethedig yn ei chyfanrwydd fel a ganlyn (nid yw hyn yn cynnwys gostyngiad dros dro yn y prif raddfa a gyflwynwyd dros gyfnod epidemig Covid-19):

Tabl 8: Treth trafodiadau tir arfaethedig ar gyfer ail eiddo fel canran o'r bris a delir

cyfran rhwng	prif raddfa (eiddo cyntaf)	cyfraddau uwch (ar gyfer ail eiddo)	amrywiad sirol neu leol	cyfanswm a godir ar ail eiddo
£0-£180,000	0%	4 %	hyd at + 4%	4% - 8%
£180,000-£250,000	3.5%	7.5%	hyd at + 4%	7.5% - 11.5%
£250,000-£400,000	5%	9%	hyd at + 4%	9% - 13.5%
£400,000-£750,000	7.5%	11.5%	hyd at + 4%	11.5% - 15.5%
£750,000-£1,500,000	10%	14%	hyd at + 4%	14% -18%

dros £1,500,000	12%	16%	hyd at + 4%	16% - 20%

Er na fyddai codi treth ychwanegol yn y dull hwn yn rhwystro darpar brynwyr rhag prynu tai annedd mewn cymunedau bregus a'u troi'n ail gartrefi, byddai o gymorth i ffrwyno'r farchnad. O ddychwelyd at enghraifft Abersoch, byddai caniatáu amrywiad o 4% o'r pris canolrif cyfartalog ar gyfer tŷ ym mis Medi 2019, sef £365,275, yn faich trethiannol ychwanegol o £14,611.

Ar sail pris canolrif cyfartalog Gwynedd ym Medi 2019, sef £155,000, byddai'r baich trethiannol ychwanegol ar gyfer eiddo nodweddiadol yn y sir yn £6,200.

Fodd bynnag, byddai caniatáu i gynghorau sir amrywio'r dreth trafodiadau tir fel hyn yn esgor ar broblem anodd ei datrys. Mae cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir yn effeithio ar bryniant tai y bwriedir eu rhentu yn ogystal ag ail gartrefi. Ceir cymunedau mewn siroedd yr effeithir arnynt gan ail gartrefi (Caernarfon neu Fangor yng Ngwynedd, Llangefni neu Gaergybi yn Ynys Môn, Aberdaugleddau neu Hwlffordd yn Sir Benfro, er enghraifft) lle mae darparu digon o dai ar rent yn ystyriaeth bwysicach na chyfyngu ar niferoedd ail gartrefi.

Pe tybid fod hyn yn gymaint o broblem fel na ellid bwrw ymlaen â'r bwriad i ddatganoli hawl ddirprwyedig i gynghorau sir i amrywio'r dreth trafodiadau tir, gellid ystyried ffordd arall o gyrraedd y nod.

O dderbyn fod y broblem ail gartrefi yn broblem *leol* oddi mewn i'r siroedd yr effeithir arnynt, gellid gwneud hyn wrth amrywio'r dreth ar sail wardiau yn hytrach na siroedd. Ceir nifer o bentrefi arfordirol ar hyn o bryd lle nad yw'r farchnad tai rhent yn rhan ystyrlon o'r farchnad eiddo leol. Nodweddir y pentrefi hyn yn aml gan ddwysedd neilltuol uchel o ail gartrefi a llety gwyliau. Dyma'r math o gymunedau lle gellid amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir heb wneud niwed i sector tai rhent pwysig a ddefnyddir gan bobl leol.

Yn y model hwn, nid cynghorau sir a fyddai'n penderfynu ar yr amrywiad ond Llywodraeth Cymru. Ar sail meincnodau gwrthrychol cenedlaethol, gallai Llywodraeth Cymru benderfynu amrywio cyfraddau uwch y dreth mewn cymunedau penodol.

Byddai hyn hefyd yn gyson â pholisi cyhoeddus blaenorol, sef penderfyniad Gordon Brown fel Canghellor i amrywio treth stamp yn ôl anghenion cymunedau penodol. Yn 2001, diddymodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig dreth stamp mewn 2,000 o wardiau difreintiedig er mwyn hybu buddsoddiad a darpariaeth tai (Gallent *et al.*, 301). Gallai Llywodraeth Cymru hyrwyddo argaeledd tai mewn wardiau yr effeithir arnynt gan ail gartrefi drwy amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir. Byddai hyn yn gwneud preswylwyr parhaol yn llawer mwy cystadleuol yn y farchnad dai yn erbyn darpar-berchnogion ail gartrefi yn y wardiau hyn.

Ni fyddai i hyn y fantais a ddôi o ddatganoli grym trethiannol cyfyngedig i gynghorau sir, sef sicrhau atebolrwydd lleol a chaniatáu i bolisïau cynllunio a threthiannol rhanbarthol gael eu datblygu ar y cyd mewn dull holistaidd. Ar y llaw arall, byddai gweithredu ar sail wardiau yn hytrach na siroedd yn caniatáu i rymoedd trethiannol gael eu hamrywio mewn modd llawer mwy strategol ar lefel leol.

Argymhelliad 8 – Treth trafodiadau tir

Dylai fod modd amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir mewn un ai siroedd neu wardiau llywodraeth leol er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol. Er mwyn cyflawni hyn:

i. Gallai Llywodraeth Cymru ddirprwyo i gynghorau sir hawl i amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir, gan greu'r potensial i ychwanegu cyfradd bellach at y dreth o hyd at 4% o werth yr ail eiddo mewn rhai rhannau o Gymru.
ii. *Neu*, gallai Llywodraeth Cymru amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir yn y dull hwn mewn wardiau llywodraeth leol penodol yr effeithir arnynt yn ddwys gan y broblem ail gartrefi.

7. Polisi cynllunio – astudiaeth gymharol o bolisi cynllunio a rheoli ail gartrefi mewn tai newydd yng Nghymru a Chernyw

Yn yr adran hon, bwrir golwg cymharol ar ddau ddull o gynllunio sy'n berthnasol i'r drafodaeth am ail gartrefi. Dyma'r rhan o'r gwaith ymchwil a ariannwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol trwy ei gynllun grantiau bychain. Cymhelliad y cais ymchwil oedd adroddiadau yn y wasg fod tref glan môr St Ives yng ngorllewin eithaf Cernyw wedi 'gwahardd' ail gartrefi (BBC News, 2016). Roedd hyn wedi cael ymateb brwd mewn rhai cylchoedd yng Nghymru, ac eto ymysg cynllunwyr iaith, tameidiog ac anghyflawn oedd yr wybodaeth am natur y 'gwaharddiad', a oedd yn effeithiol, ac a ellid (ac yn wir a ddylid) ei gymhwyso i Gymru?

Enghraifft o bolisi cyhoeddus yn Lloegr – Cynllun 'Prif Breswylfa' St Ives

Tref yw St Ives sydd yn rhannu rhai o nodweddion rhai trefi o faint cyffelyb yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi ar lannau gorllewinol Cymru. Mae'n ddibynnol ar dwristiaeth i raddau helaeth, ceir economi cyflog isel, a chanlyniad hyn a'r galw am dai gan rai o'r tu allan i'r gymuned yw argyfwng fforddiadwyedd. Yn 2011, roedd 25% o annedd-dai ardal Cyngor Tref St Ives heb berchnogion yn byw yno'n barhaol (Cornwall Council, dim dyddiad, [t. 1.]).

Cyngor Tref St Ives oedd yr awdurdod cyntaf yng Nghernyw i lunio polisi yn 'gwahardd' ail gartrefi mewn tai newydd wrth ymateb i argyfwng o'r fath. Fodd bynnag, cafodd y polisi ei fabwysiadu wedyn gan nifer o gynghorau tref a phlwyf glan môr eraill yng Nghernyw megis Cyngor Plwyf Mevagissey a Chyngor Tref Fowey (Mevagissey Parish Council, 2018, t. 31; Fowey Town Council, 2020, t. 27). Er bod cam o'r fath yn torri tir newydd yng Nghernyw, nid yw'n newydd mewn cyd-destun Prydeinig neu Ewropeaidd. Roedd plwyf Lynton a Lynmouth ar arfordir Parc Cenedlaethol Exmoor wedi cyflwyno gwaharddiad cyffelyb yn 2013 (Lynton and Lynmouth Town Council, 2013, t. 28). Ac ar dir mawr Ewrop, pleidleisiodd pobl y Swistir mewn refferendwm yn 2012 o blaid gwahardd ail gartrefi newydd mewn cymdogaethau lle mae ail gartrefi yn fwy nag 20% o'r stoc dai (Schuler a Dessemontet, 2013). Fodd bynnag yn St Ives y ceir yr ymgais fwyaf uchel ei broffil yng ngwledydd Prydain hyd yma i fynd i'r afael ag ail gartrefi yn y dull hwn.

Yn rhan o'r ymchwil hwn, ymwelwyd â Chernyw. Siaradwyd ag Arweinydd grŵp Cynlluniau Cymdogaeth Cyngor Cernyw, Cadeirydd grŵp llywio Cynllun Cymdogaeth Cyngor Tref St Ives, unigolyn a gyflogwyd gan Gyngor Tref St Ives i gynorthwyo gydag ysgrifennu Cynllun Cymdogaeth y cyngor, a rhai eraill yn y gymuned, megis pensaer lleol. Diolch iddynt oll am eu cymorth a'u cydweithrediad.

Craidd polisi Cyngor Tref St Ives am ail gartrefi yw na fydd modd defnyddio uned newydd y derbynnir caniatâd cynllunio ar ei gyfer fel ail gartref. Mae hyn yn cael ei alluogi trwy gynllun cymdogaeth sydd yn hwyluso polisïau ym maes cynllunio ar lefel y plwyf. Digwydd hyn felly ar y lefel fwyaf ddatganoledig bosib, sef ar lefel y gymuned, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod gan gynghorau tref a phlwyf yng Lloegr rym statudol pellgyrhaeddol mewn maes pwysig.

Caniateir hyn gan gyd-destun deddfwriaethol yn Lloegr sy'n wahanol i'r un yng Nghymru, sef y *Localism Act 2011*. Un o egwyddorion craidd y *Localism Act 2011* yw 'Neighbourhood planning'. Cafodd nod 'Cynllunio Cymdogaeth' ei grynhoi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig fel a ganlyn:

> Instead of local people being told what to do, the Government thinks that local communities should have genuine opportunities to influence the future of the places where they live. The Act introduces a new right for communities to draw up a neighbourhood plan.
> Neighbourhood planning will allow communities, both residents, employees and business, to come together through a local parish council or neighbourhood forum and say where they think new houses, businesses and shops should go – and what they should look like.
> These plans can be very simple and concise, or go into considerable detail where people want. Local communities will be able to use neighbourhood planning to grant full or outline planning permission in areas where they most want to see new homes and businesses, making it easier and quicker for development to go ahead.
> Provided a neighbourhood development plan or order is in line with national planning policy, with the strategic vision for the wider area set by the local authority, and with other legal requirements, local people will be able to vote on it in a referendum. If the plan is approved by a majority of those who vote, then the local authority will bring it into force.
> Local planning authorities will be required to provide technical advice and support as neighbourhoods draw up their proposals. The Government is funding sources of help and advice for communities. This will help people take advantage of the opportunity to exercise influence over decisions that make a big difference to their lives. (Department for Communities and Local Government, 2011, t. 12)

Caiff y cynlluniau cymdogaeth hyn eu hwyluso gan y *Neighbourhood Planning Regulations, 2012*, a gafodd eu diwygio yn 2016. Rhaid diffinio cymdogaeth, ac yna cael corff ('neighbourhood forum') sy'n cwrdd â gofynion y *Localism Act 2011*. Yn St Ives, y cyngor tref a hwylusodd sefydlu 'neighbourhood forum' er mwyn paratoi cynllun cymdogaeth. Yn achos St Ives, derbyniwyd cymorth proffesiynol yn sgil dyfarniad grant gan elusen sy'n arbenigo yn y maes. Cafwyd tipyn o gydweithio

rhwng Cyngor Cernyw a Chyngor Tref St Ives wrth baratoi'r cynllun hefyd. Roedd y cwbl wedi'i seilio ar egwyddor datblygu cymunedol. Yn ganolog i hyn, roedd yr ymdeimlad fod St Ives yn gymuned yr oedd angen 'gofalu amdani, ei gwarchod a darparu dyfodol ar ei chyfer', ymdeimlad a geir mewn sawl cymuned Gymraeg yng Nghymru hefyd.

> St Ives area is beautiful, has significant cultural heritage and a network of strong communities. It is also a globally recognised holiday destination, with tens of thousands of visitors every year. All of these factors explain the decision to develop a Neighbourhood Development Plan (NDP). There was deep feeling locally that the area needed to be nurtured, protected and guided into the future – and that the best people to do this are those who live here. From the start the aim was for the Plan to be led by the community, with support from St Ives town council. Volunteers were selected to chair the topic groups, and they in turn comprised the steering group along with five town councillors. The topic groups collated evidence, had cross-pollination discussions with each other and drew up policies. Extensive wider consultation was undertaken at every key stage of the process. This ensured that the policies flowed directly out of the aspirations and desires of the local community.
>
> (St Ives Area Neighbourhood Plan Steering Group, on behalf of St Ives Town Council, 2016, t. 3)

Beth felly yw'r broses sy'n arwain at awdurdodi Cynllun Cymdogaeth? Ar ôl ei baratoi, bydd Cynllun Cymdogaeth yn wynebu ymgynghoriad cyn-gyflwyniadol ('pre-submission consultation'), pryd ystyrir ymatebion cyn penderfynu a ddylid newid y Cynllun ai peidio. Cyflwynir y Cynllun wedyn i'r awdurdod cynllunio lleol, ac os yw'r Cynllun yn bodloni pob deddfwriaeth berthnasol, fe'i cyfeirir at arolygydd ar gyfer Arolygiad Annibynnol. Mae'n bosib y caiff y Cynllun ei ddiwygio wedi cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd, a chyn belled â bod yr awdurdod cynllunio lleol yn cydsynio, cynhelir refferendwm lleol ar y Cynllun Cymdogaeth terfynol (Ministry of Housing, Communities and Local Government, 2020).

Dilynodd Cyngor Tref St Ives bob un o'r camau hyn. Roedd y refferendwm ar eu Cynllun yn llwyddiannus, ond dilynwyd hyn gan her gyfreithiol ym mis Hydref 2016. Fodd bynnag, roedd St Ives yn llwyddiannus wrth amddiffyn y polisi yn y llys, ac ers mis Rhagfyr 2016 mae'r polisi'n weithredol.

Dogfen gynhwysfawr yw'r *St Ives Neighbourhood Development Plan 2015-2030*. Mae'n cynnwys polisïau mewn ystod eang o feysydd gan gynnwys diwylliant,

datblygu economaidd, tai, dosraniadau tir, lleoedd agored, lles, chwaraeon a hamdden, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Mae'r ddogfen yn datgan yn glir mai un o'i blaenoriaethau yw tai, ac yn benodol 'To support the provision of affordable and principal residence housing so that [the] St Ives area continues to be a place where people of all ages can live and work.' (St Ives Area Neighbourhood Plan Steering Group, on behalf of St Ives Town Council, 2016, t. 13).

Y polisi sy'n ei wneud yn ofynnol y bydd tai newydd yn brif breswylfeydd yw polisi H2 y Cynllun, sef y 'Principal Residence Requirement', a ddiffinnir fel a ganlyn:

> Due to the impact upon the local housing market of the continued uncontrolled growth of dwellings used for holiday accommodation (as second or holiday homes) new open market housing, excluding replacement dwellings, will only be supported where there is a restriction to ensure its occupancy as a Principal Residence.
> Sufficient guarantee must be provided of such occupancy restriction through the imposition of a planning condition or legal agreement. New unrestricted second homes will not be supported at any time.
> Principal Residences are defined as those occupied as the residents' sole or main residence, where the residents spend the majority of their time when not working away from home. The condition or obligation on new open market homes will require that they are occupied only as the primary (principal) residence of those persons entitled to occupy them.
> Occupiers of homes with a Principal Residence condition will be required to keep proof that they are meeting the obligation or condition, and be obliged to provide this proof if/when Cornwall Council requests this information. Proof of Principal Residence is via verifiable evidence which could include, for example (but not limited to) residents being registered on the local electoral register and being registered for and attending local services (such as healthcare, schools etc).
>
> (St Ives Area Neighbourhood Plan Steering Group, on behalf of St Ives Town Council, 2016, t. 26)

Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw amod cyswllt lleol ynghlwm wrth y tai hyn, ac nid polisi tai fforddiadwy ydyw ychwaith:

> This is new housing which has to be used as the principal residence of the household living in it, but does not have the price controls that affordable housing does, or any local connection requirement.

(Cornwall Council, dim dyddiad, [t. 1])

Mae hyn yn arwyddocaol mewn cyd-destun Cymreig oherwydd gellid dadlau fod mewnfudo yn fwy niweidiol i'r iaith Gymraeg na phresenoldeb ail gartrefi. Mae'n bwysig nodi felly nad yw polisi ail gartrefi St Ives yn gwneud dim o safbwynt perchnogaeth leol. O safbwynt cynllunio ieithyddol, nid yw hyn yn ffactor yng Nghernyw am nad yw'r iaith Gernyweg yn iaith gymunedol mwyach.

Mater arall arwyddocaol ym mholisi St Ives yw ei berthnasedd i faes hawliau dynol, ac yn benodol trafodaeth ynghylch Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a allai fod yn berthnasol i unrhyw bolisi yn y maes yng Nghymru.

Dyma Erthygl 8 y Confensiwn:

> 1. Everyone has the right to respect for his private and family life, his home and his correspondence.
> 2. There shall be no interference by a public authority with the exercise of this right except such as is in accordance with the law and is necessary in a democratic society in the interests of national security, public safety or the economic well-being of the country, for the prevention of disorder or crime, for the protection of health or morals, or for the protection of the rights and freedoms of others.
>
> (Royal Court of Justice, 2016, [t. 20])

Barn Cyngor Cernyw ar yr Erthygl yw fod modd cyfiawnhau polisi St Ives o safbwynt hawliau dynol gan fod y 'cyfyngiad' ar ail gartrefi mewn tai newydd yn gymesur â'r angen i osgoi niwed i wead cymdeithasol y gymuned:

> Article 8 requires that the restriction [Principal Residence condition] be justified in terms of necessity and proportionality. In the St Ives Area NDP, evidence has been presented of the harm that excessive levels of second homes has on the social fabric of the community. It was considered that this harm will continue unabated if no such restriction is imposed to prevent the use and occupation of new homes by the second home and holiday home market and that it is therefore contrary to sustainable development. This conclusion was accepted by the Examiner. (Cornwall Council, dim dyddiad, [t. 1])

Roedd yr Arolygydd wedi dweud mewn nodiadau ategol ar ei hadroddiad:

> I do not consider that the Policy H2 is incompatible with the Human Rights Act 1998. Just as for the restrictions placed on agricultural occupancy or affordable housing it can be argued in the case of St Ives that it is in the interests of the economic well-being of St Ives and does protect the rights and freedoms of others who are currently being affected by the unrestricted occupancy of houses as second homes. In addition, it only applies to new housing development therefore not placing a restriction on the entire housing market.
>
> (Royal Court of Justice, 2016, [t. 5])

Gwyntyllwyd y cwbl yn ystod yr her gyfreithiol i bolisi H2 a gafwyd ym mis Hydref 2016. Yn ei ddyfarniad, dyfarnodd Meistr Ustus Hickinbottom o blaid St Ives gan ddweud 'article 8 does not extend to a home which has not yet been built'. (Royal Court of Justice, 2016, [t. 20])

O ganlyniad, 'Policy H2, if adopted, will give rise to, not a breach of article 8, but merely the risk of a future breach of article 8'. (Royal Court of Justice, 2016, [t. 23])

Mae'n bosib y byddai angen profi cyfreithlondeb polisi o'r fath o safbwynt hawliau dynol mewn cyd-destun Cymreig hefyd. Ond o ystyried dyfarniad St Ives, ymddengys ei bod yn annhebygol iawn y byddai polisi 'prif breswylfa' mewn eiddo newydd mewn cymunedau Cymreig a gyflwynwyd er mwyn cynnal gwead y gymdeithas yn anghyfreithlon o safbwynt hawliau dynol.

Troir yn awr yn sydyn at rai gwrthwynebiadau i'r polisi 'prif breswylfa' a fynegwyd ar lafar wrth yr ymchwilydd yng Nghernyw, gan gynnwys:

- Gofid y gallai polisi o gadw tai newydd ar gyfer preswylwyr parhaol symud 'y broblem ail gartrefi' i'r stoc dai bresennol.
- Gofid ynghylch posibilrwydd creu dwy farchnad dai yn lleol.
- Dadleuon fod y rhan fwyaf o dai newydd yn cael eu codi ar stadau ar gyrion trefi ac na fyddent yn apelgar i brynwyr ail gartrefi beth bynnag.
- Honiadau y gallai'r polisi leihau awydd datblygwyr i godi tai newydd.

Mae'n bwysig nodi mai gwrthwynebiadau theoretig yw'r rhain i gyd. Gan fod y polisi yn lled newydd, does dim tystiolaeth empeiraidd i gefnogi unrhyw un o'r pryderon hyn.

Hwyrach mai'r ystyriaeth fwyaf arwyddocaol yw'r un ynghylch posibilrwydd creu dwy farchnad dai yn lleol. Yng nghyd-destun tai newydd, fodd bynnag, problem theoretig

yn y dyfodol yw hon, ac mae'n cael ei gwrthbwyso gan yr angen am bolisi i sicrhau cynaliadwyedd yn y presennol. Ymhellach, ac yn hollbwysig, gan mai tai newydd a drafodir gan bolisi St Ives, nid oes neb yn colli gwerth ar eu heiddo presennol, mater y mae dyfarniad Meistr Ustus Hickinbottom yn cyfeirio ato:

> He will know, when he purchases and/or occupies a dwelling with the restriction that, if he chooses to move away – or, by dint of circumstance, is required to do so – then that restriction will require him to sell the St Ives dwelling. Any claim that his article 8 rights will be infringed by enforcement of the restriction will have to be considered through that glass. Any purchase price he may have paid will have reflected that risk.
>
> (Royal Court of Justice, 2016, [t. 28])

Bydd y pris a delir am dŷ â chyfyngiadau arno yn cael ei adlewyrchu yn y pryniant cyntaf, ac ni ellir dweud y bydd colled mewn gwerthiant wedyn gan fod y cyfyngiadau'n hysbys wrth brynu'r eiddo am y tro cyntaf. Mae'r rhesymeg hon yn wir hefyd o safbwynt y polisi y cymherir cynllun St Ives ag ef yn yr astudiaeth hon, sef 'Tai Marchnad Lleol' cynghorau Gwynedd a Môn.

Yn anffodus, nid oes tystiolaeth eto i fedru dweud pa mor effeithiol yw polisi St Ives. Polisi lled newydd ydyw wedi'r cwbl. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu ei fod yn cael peth effaith gadarnhaol, ond nid oes modd gwirio hyn ar hyn o bryd. Mewn gohebiaeth â'r ymchwilydd ym mis Mehefin, 2020, nododd y Cynghorydd Rita Lait, Cadeirydd grŵp llywio Cynllun Cymdogaeth Cyngor Tref St Ives, fod

> Developments are continuing to take place in the area – a mix of open market and affordables on greenfield sites (allocated for development in the NDP) and 'knock one down build several' in place of houses with large gardens. The principal residence condition has not stopped development but it has prevented the building of more blocks of apartments which were aimed at the holiday market (either as second homes or holiday lets).

Enghraifft o bolisi cyhoeddus yng Nghymru: Cynllun 'Tai Marchnad Lleol' Cynghorau Gwynedd a Môn

Nid yw polisïau cynllunio yng Nghymru ym maes ail gartrefi wedi cael yr un sylw cyhoeddus â pholisi 'prif breswylfa' Cyngor Tref St Ives. Rhan o apêl stori St Ives yw

fod cyngor tref bychan wedi mynd i'r afael â'r broblem ail gartrefi yn llwyddiannus (yn rhannol o leiaf) gan ennill achos llys pwysig. Stori Dafydd a Goliath ydyw.

Ni fyddai'n bosibl i gyngor tref neu gymuned yng Nghymru greu polisi newydd yn yr un modd â Chyngor Tref St Ives am nad yw'r *Localism Act 2011* sy'n gosod y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer cynlluniau cymdogaeth cynghorau Lloegr yn weithredol yng Nghymru. Nid oes gan gynghorau tref a chymuned yng Nghymru y swyddogaeth rymus yn y broses gynllunio sydd gan gynghorau tref a phlwyf yn Lloegr.

Mae'n wir y ceir yng Nghymru gyfle i gynghorau tref a chymuned lunio 'Cynlluniau Cynefin' sy'n rhoi cyfle i gymunedau lleol fynegi barn a cheisio dylanwadu ar rai penderfyniadau cynllunio yn lleol. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau hollbwysig rhwng y 'Cynlluniau Cymdogaeth' a arferir yn Lloegr, a'r 'Cynlluniau Cynefin' a geir yng Nghymru. Dogfen statudol bwysig yw Cynllun Cymdogaeth a archwilir gan Arolygydd ac sydd, fel y gwelir yng Nghernyw, yn medru esgor ar bolisïau newydd. Ond Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yw 'Cynlluniau Cynefin'. Yn ôl Cymorth Cynllunio Cymru:

> mae'n bwysig adolygu beth gall neu na all CCA ei wneud. I grynhoi, nid yw CCA yn rhan o'r cynllun datblygu; ni allant gyflwyno polisi newydd; ni allant osod y math, graddfa a chwantwm datblygiad newydd; ac, mae'n rhaid iddynt fod ynghlwm â pholisi yn y CDLl [Cynllun Datblygu Lleol] y maent yn darparu canllawiau ychwanegol arno.
>
> (Cymorth Cynllunio Cymru, dim dyddiad)

Felly, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem ail gartrefi yng Nghymru trwy'r drefn gynllunio, mae'n rhaid troi at bolisïau awdurdodau cynllunio fel cynghorau sir a pharciau cenedlaethol. Gellid dadlau fod un o'r polisïau a geir yn *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026*, sef 'Polisi Tai 5: Tai Marchnad Lleol' yn ateb y broblem ail gartrefi yr un mor effeithiol â St Ives ac yn gwneud hynny mewn modd sy'n dwyn buddion ychwanegol hefyd.

Polisi yw 'Tai Marchnad Lleol' sy'n weithredol mewn rhai cymunedau arfordirol ar hyd glannau Gwynedd a Môn, sef Aberdaron, Abersoch, Biwmares, Borth-y-gest, Moelfre, Morfa Bychan, Mynytho, Llanbedrog, Llangian, Pont Rhyd y Bont, Rhoshirwaun, Rhosneigr, Sarn Bach, Trearddur a Thudweiliog. Yn y cymunedau hyn, y nodweddir pob un ohonynt gan ganran uchel o ail gartrefi a phrisiau tai uchel, nid oes modd codi uned preswyl newydd oni bai y bydd yr uned honno ym meddiant preswylydd *lleol* 'yn y lle cyntaf ac am byth'. (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2017, t. 135)

Mae'r polisi 'yn berthnasol pan fo bwriad i ddarparu uned neu unedau preswyl o'r newydd a fydd yn ychwanegu at y stoc gyfredol o unedau preswyl parhaol o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd a'u henwir yn y Polisi. Mae'n berthnasol i bob math o gynigion sydd yn creu unedau preswyl o'r newydd ... beth bynnag fo graddfa a math y datblygiad. Mae'n berthnasol ar gyfer unedau i'w prynu ynghyd ag unedau rhent.' (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2019a, t. 6)

Dim ond tai fforddiadwy a thai marchnad leol y gellir eu hadeiladu yn y cymunedau hyn. Yn ei bolisi tai fforddiadwy, mae *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn* hefyd yn adnabod y pentrefi hyn (ynghyd â rhai eraill) fel aneddleoedd lle y dylid gosod amodau meddiannaeth leol ar dai newydd: 'O fewn Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol bydd rhaid i'r ddarpariaeth tai fforddiadwy fod yn dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol' (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2017, t. 158). O ganlyniad, ceir amodau meddiannaeth leol ar bob tŷ newydd a godir yn y pentrefi a enwir yn y polisi 'Tai Marchnad Lleol', ac 'ni fydd tai marchnad agored yn cael eu caniatáu yn yr aneddleoedd a'u henwir o fewn y polisi hwn.' (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2017, t. 136)

Yn y polisi 'Tai Marchnad Lleol', diffinnir 'lleol' fel unigolyn sydd â 'chysylltiad gyda'r ward', a diffinnir hynny yn ei dro fel unigolyn sydd wedi byw yn barhaol yn y ward ers pum mlynedd, neu sydd 'â chysylltiad cryf a hir-sefydlog gyda'r gymuned leol', sydd angen byw yn agos i berthnasau sydd wedi byw yno ers pum mlynedd ac 'sydd angen cefnogaeth oherwydd rhesymau oedran neu wendid', neu bobl sydd angen cefnogaeth am resymau sy'n ymwneud ag oedran neu wendid ac sydd angen symud i fyw yn agos at berthnasau sydd yno ers pum mlynedd. (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2017, t. 136).

Ymrwymiad cynllunio drwy gytundeb cyfreithiol adran 106 sy'n gwarantu'r polisi. Pe bai 'gwir fethiant' dros gyfnod o dri mis i werthu uned preswyl i rywun arall lleol, gellid ymestyn y diffiniad o 'lleol' i gynnwys Gwynedd neu Fôn i gyd am dri mis arall, a dim ond wedyn y gellid marchnata'r eiddo ar y farchnad agored. Fodd bynnag, os bydd yr eiddo yn cael ei brynu ar y farchnad agored, bydd yr amod o ran meddiannaeth leol yn cael ei adfer y tro nesaf y gwerthir yr eiddo. Hynny yw, nid yw'r eiddo'n dod yn rhan o'r farchnad agored yn barhaol (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2019a, t. 14).

Yn hollbwysig hefyd, 'bydd yn rhaid i uned marchnad lleol gael ei feddiannu fel prif gartref yr aelwyd gymwys.' (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2019a, t. 10) Ni all fod yn ail gartref.

Mae *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn* yn cyfiawnhau'r polisi ar sail paragraff 9.2.4 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7, Gorffennaf 2014) sy'n darllen fel a ganlyn:

> Mewn partneriaeth â'r gymuned, gan gynnwys y sector preifat, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisiau i gwrdd â'r heriau a'r amgylchiadau hynny sy'n benodol i fannau neilltuol yn eu hardaloedd. Os oes angen i'r polisïau hyn wyro o'r polisïau cenedlaethol er mwyn diwallu *anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored* (na chyfyngir fel rheol ar feddiannaeth), bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gyfiawnhau'r gwyriad hwnnw yn ofalus gyda thystiolaeth gadarn sydd, yn eu barn hwy, yn briodol.
>
> (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2016, t. 2)

Cyfeirir hefyd at bolisïau eraill gan gynnwys amcan strategol SO15 o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n nodi bod angen 'Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth'. (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2016, t. 3)

Gan y ceir polisi tai fforddiadwy yn weithredol yn y pentrefi a enwir, nid polisi tai fforddiadwy yw'r polisi Tai Marchnad Lleol. Yn hytrach, adlewyrchiad ydyw o'r ffaith y ceir yn y cymunedau hyn bobl leol sydd yn ennill gormod o incwm i fod yn gymwys i'w hystyried ar gyfer tŷ fforddiadwy, ond sy'n methu cystadlu ar y farchnad agored oherwydd prisiau tai.

Cyfiawnheir y polisi hefyd yn nhermau'r iaith Gymraeg:

> Credir na ellir cysylltu polisi o'r fath yn uniongyrchol gyda'r iaith Gymraeg, h.y. ni ellir cyfyngu meddiannaeth unedau tai i siaradwyr Cymraeg yn unig. Nodir hyn ar sail geiriad paragraff 3.7.4 o Nodyn Cyngor Technegol 20 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (Hydref 2013) sydd yn datgan y "Dylid gofalu nad yw polisiau'r CDLl sy'n ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Ni ddylai polisiau cynllunio geisio rheoli pwy sy'n byw mewn tŷ ar sail ieithyddol". Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai sgil-effaith yr hyn yr ymgeisir drwy'r polisi hyn yn cael effaith bositif ar yr iaith a diwylliant yr ardal, trwy roi cyfleoedd i bobl sy'n weithgar economaidd aros neu ddychwelyd i'r ardal.
>
> (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2016, t. 7)

Er mor gymeradwy yw'r polisi 'Tai Marchnad Lleol', un anfantais ar hyn o bryd yw mai mewn cymharol ychydig o gymunedau arfordirol y'i gweithredir. Mae polisi 'Tai Fforddiadwy' Gwynedd a Môn, sydd hefyd yn cynnwys amodau meddiannaeth leol llym, yn gymwys yn achos llawer iawn mwy o gymunedau (Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, 2019c, tt. 20-1). Mae'n bosib wrth gwrs nad oes angen i'r ddau bolisi gael eu gweithredu yn yr un cymunedau bob tro gan fod anghenion cymunedau'n wahanol. Ond mae'n drawiadol y ceir nifer o gymunedau arfordirol gyda dwysedd o ail gartrefi lle na weithredir y polisi 'Tai Marchnad Lleol'.

Mae nifer y cymunedau lle gweithredir y polisi ‘Tai Marchnad Lleol’ ar hyn o bryd yn fwy cyfyng nag y gallai fod. Polisi newydd ydoedd pan y’i cyflwynwyd fel rhan o *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn*. Hwyrach y teimlid y gallai fod yn ddadleuol ac y byddai angen darbwyllo Arolygydd fod modd ei gyfiawnhau.

Yn y cyd-destun hwnnw, roedd derbyn y polisi o ran egwyddor yn allweddol ac hwyrach fod rhai o’r farn y byddai’n haws ei weithredu yn y lle cyntaf mewn cymunedau lle roedd yr argyfwng o ran diffyg mynediad i’r farchnad dai leol yn fwyaf amlwg. O ganlyniad, gellid dadlau fod nifer o gymunedau y byddai wedi bod modd eu cynnwys yn y polisi wedi’u heithrio ohono, a hynny am resymau tactegol yn anad dim.

Caiff *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn* ei adolygu yn 2021, ac mae hyn yn gyfle i ystyried a ddylid ymestyn y polisi ‘Tai Marchnad Lleol’ i gynnwys mwy o gymunedau.

Cymharu Cynllun ‘Prif Breswylfa’ Cyngor Tref St Ives â Chynllun ‘Tai Marchnad Lleol’ Cynghorau Gwynedd a Môn

Mae’r gwahaniaeth rhwng polisi ‘Prif Breswylfa’ St Ives a pholisi ‘Tai Marchnad Lleol’ Gwynedd a Môn yn ddadlennol. O safbwynt cynllunio ieithyddol, maent yn adlewyrchu’r ffaith na cheir yn St Ives iaith leiafrifol *gymunedol* ond bod presenoldeb iaith leiafrifol *gymunedol* yn ganolog i *raison d’être* llawer o bolisi cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn.

Yn St Ives, mae’r pwyslais ar bolisi ‘prif breswylfa’ yn adlewyrchu pryder am ddiboblogi mewn cymuned lle dehonglir cynaliadwyedd lleol yn nhermau’r angen i gadw poblogaeth barhaol. Yng Ngwynedd a Môn, mae’r amod fod tŷ newydd yn brif breswylfa hefyd yn rhan o’r polisi ‘Tai Marchnad Lleol’ ond teg dweud fod y pwyslais ar bolisi meddiannaeth leol.

Pe ceid polisi ‘prif breswylfa’ heb yr elfen ‘Tai Marchnad Lleol’ mewn pentrefi deniadol ar hyd glannau Gwynedd a Môn, ychydig iawn o sicrwydd a geid y byddai tai annedd newydd yn cael eu prynu gan bobl leol am fod patrymau pryniant yn y farchnad agored yn y pentrefi hyn yn ffafrio prynwyr o’r tu allan â mwy o gyfalaf. Gallai effaith hyn ar yr iaith Gymraeg yn lleol fod yn niweidiol.

Mae polisi St Ives yn defnyddio dull uniongyrchol o wahardd ail gartrefi mewn tai newydd, ac er bod polisi Gwynedd a Môn hefyd yn cynnwys cymal uniongyrchol sy’n gwneud yr un peth, mae’r prif bwyslais ar ddull anuniongyrchol o ymateb i’r broblem ail gartrefi, sef trwy ddarpariaeth o dai gydag amodau meddiannaeth leol a/neu

fforddiadwy arnynt. Y cyfuniad o ddulliau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n peri fod polisi Gwynedd a Môn yn rhagori.

Mae'n bwysig nodi nad cau allan newydd-ddyfodiaid yw na nod nac effaith y polisi 'Tai Marchnad Lleol', gan fod gan brynwyr o'r tu allan y modd i bwrcasu tai oddi mewn i'r stoc dai bresennol ar y farchnad agored. Ond o sicrhau mynediad diamwys i brynwyr lleol i'r farchnad tai newydd, mae'r polisi'n llesol o safbwynt cynaliadwyedd lleol ac felly o safbwynt y Gymraeg. Mae hyn am fod prynwyr lleol yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol y gymuned leol.

Oherwydd hyn oll, bernir fod polisi 'Tai Marchnad Lleol' cynghorau Gwynedd a Môn yn fodel mwy addas ar gyfer cymunedau Cymraeg na pholisi 'preswylfa barhaol' Cyngor Tref St Ives.

Argymhelliad 9 – Polisi 'Tai Marchnad Lleol' cynghorau sir Gwynedd ac Ynys Môn

Dylai Cynghorau Gwynedd a Môn ystyried ymestyn polisi 'Tai Marchnad Lleol' *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn* i gymunedau arfordirol a bregus eraill yn y ddwy sir lle ceir dwysedd o ail gartrefi ochr-yn-ochr â phroblem fforddiadwyedd. Dylai awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru graffu ar y polisi 'Tai Marchnad Lleol' er mwyn ystyried a allai polisi o'r fath fod yn llesol ar gyfer rhai o'u cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen diwygio neu gryfhau cyfarwyddyd cynllunio er mwyn cefnogi neu hwyluso ymestyn y polisi hwn neu bolisïau cyffelyb.

8. Polisi cynllunio a’r stoc dai bresennol

Nid oes a wnelo’r polisïau cynllunio a drafodwyd hyd yma ddim â’r stoc dai bresennol. Mae’r camau polisi posib a drafodwyd yn yr adran flaenorol yn berthnasol i dai newydd yn unig.

Fodd bynnag, mewn rhai cymunedau yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi, mae’n rhaid gofyn a yw eithrio’r stoc dai bresennol o’r drafodaeth bolisi yn synhwyrol.

O safbwynt polisi cyhoeddus, os mai darparu cartrefi i bobl leol yw unig nod polisi tai, gellid mynd i’r afael â hyn trwy adeiladu tai newydd nes bod yr angen lleol wedi ei ddiwallu. Fodd bynnag, mae i’r strategaeth hon wendid amlwg, sef fod y pentrefi a effeithir yn fwyaf dwys gan y broblem ail gartrefi yn hardd iawn – ac yn aml mewn ardaloedd o harddwch naturiol neu mewn parciau cenedlaethol – a byddai codi dwsinau o dai newydd yn gwneud difrod amgylcheddol dirfawr. Yn aml mewn cymunedau o’r fath hefyd, mae prinder tir adeiladu.

Dadl yr un mor bwysig, ac yn wir dadl bwysicach o safbwynt cynllunio ieithyddol, yw fod cymunedau Cymraeg yn sensitif iawn yn ieithyddol. Pe dilynid polisi o ddiwallu angen lleol drwy godi nifer sylweddol o dai newydd, a hyn er mwyn gwneud yn iawn am y ffaith fod llawer o’r stoc dai bresennol yn cael ei throsi’n ail gartrefi, byddai maint posib y stoc dai ac felly boblogaeth botensial yr ardaloedd hyn yn chwyddo’n fawr. O ystyried y ceir diboblogi ymysg y boblogaeth leol oherwydd diffyg cyfleoedd economaidd, y canlyniad anorfod fyddai Seisnigo’r ardaloedd hyn.

Mae’r paradocs hwn wedi bod wrth ganol trafodaethau, ac yn wir anghytundeb, rhwng ymgyrchwyr iaith a chynllunwyr proffesiynol yng nghefn gwlad Cymru ers degawdau bellach. Gellid datrys yr ‘argyfwng tai’ wrth godi cannoedd ac efallai miloedd o dai newydd, ond byddai hyn yn annog Seisnigo sylweddol. Ond os nad oes modd i bobl leol brynu tai, mae’n bosib iawn y bydd yn rhaid iddynt adael yr ardal gan arwain hefyd at Seisnigo.

Nid bwriad yr adroddiad hwn yw ailadrodd y dadleuon hyn a fydd yn gyfarwydd i unrhyw un sydd wedi dilyn trafodaethau cyhoeddus am bolisi tai a’r Gymraeg. Nid yw craffu ar nifer y tai newydd y dylid eu codi mewn cymunedau Cymraeg yn rhan o gylch gorchwyl y papur hwn.

Fodd bynnag, dylid nodi mai un o’r rhesymau y ceir paradocs yw oherwydd nad oes digon o sylw yn cael ei roi i’r stoc dai bresennol fel rhan o leiaf o’r ateb yng nghefn gwlad. Pe bai modd diwallu mwy o anghenion lleol drwy’r stoc dai bresennol, yna ni fyddai angen chwyddo’r stoc dai mewn modd a fydd fwy na thebyg yn arwain at niwed sylfaenol i’r Gymraeg, un ai yn awr neu yn y dyfodol.

Cyfeirir yn awr at ddau newid posib mewn cyfraith gynllunio a fyddai yn ôl eu cefnogwyr yn arwain at ddefnydd gwell o'r stoc dai bresennol.

Creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr

Un o'r prif bryderon a fynegir gan wneuthurwyr polisi Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd yn y ddogfen *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau* yw twf diweddar afreolus llety gwyliau mewn sir lle mae buddsoddwyr wedi prynu eiddo yn y stoc dai bresennol a'i drosi'n llety gwyliau tymor byr (unedau gwyliau, Airbnb ayyb).

Argymhellir mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno newid i gyfraith gynllunio a allai arwain at wneud trosi tai annedd yn llety gwyliau mewn rhai cymunedau yn amodol ar gael caniatâd cynllunio. Gwneir hyn trwy 'ddiwygio Gorchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygiadau) (Cymru) 2016 drwy gyflwyno dosbarth defnydd newydd' ar gyfer llety gwyliau tymor byr (Cyngor Gwynedd, 2020c, tt. 63-5).

Er bod angen caniatâd cynllunio ar hyn o bryd pan geir 'newid defnydd materol' o'r fath, 'gall yr ansicrwydd o amgylch pennu ar sail ffaith a graddfa, pan fo newid defnydd arwyddocaol wedi digwydd, fod yn gymhleth a chymryd llawer o amser i'w brofi i Awdurdod Cynllunio Lleol.' (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 64) Ym marn y cynllunwyr, byddai cyflwyno dosbarth defnydd newydd yn 'fodd o oresgyn unrhyw amheuon o ran pryd mae newid defnydd wedi digwydd' (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 64).

Nodir fod cynsail i hyn mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig:

> Yn yr Alban, gwnaed diwygiadau i Planning (Scotland) Act 2019 i roi'r hawl i Awdurdodau Lleol adnabod ardaloedd rheoli llety gwyliau tymor byr, ynghyd â'r weithdrefn drwyddedu y cyfeirir ati ... [trwyddedu cartrefi gwyliau]. Yn yr ardal ddynodedig (yr ardal reoli), ystyrir bod defnyddio tŷ preswyl fel llety gwyliau tymor byr yn golygu newid defnydd, ac o ganlyniad bydd gofyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y defnydd. Fodd bynnag, y tu allan i'r ardaloedd rheoli, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol yn ôl ei rinweddau ei hun (ffaith a graddfa).
>
> (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 62)

Awgrym yr adroddiad yw y gellid sefydlu ardaloedd rheoli o'r fath yng Nghymru.

Mae'n amlwg fod rheolaeth ar dai amlfeddiannaeth yn medru bod yn gynsail ar gyfer hyn oherwydd ceir pennod yn *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau* sy'n trafod 'Cynllunio a Rheoleiddio (Arfer Dda) – Tai Amlfeddiannaeth' (Cyngor Gwynedd, 2020c, tt. 13-17).

Nodir yno fod diwygiad i Orchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygiadau) (Cymru) 2016 wedi cyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer tai amlfeddiannaeth, a nodir hefyd y ceir trefn drwyddedu ar eu cyfer.

Mae'r polisi cenedlaethol hwn ar waith yng Ngwynedd a Môn ac yn cyfyngu ar dwf afreolus tai amlfeddiannaeth mewn wardiau lle mae'r stoc dai o dan bwysau neilltuol o'u herwydd. Yng Ngwynedd mae'r wardiau hyn yn ninas Bangor:

> 4.20 Felly, ers 2016, mae angen caniatâd cynllunio i ddefnyddio tŷ annedd fel Tŷ Amlfeddiannaeth bychan (hyd at 6 o bobl nad ydynt yn perthyn). O ganlyniad, mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol y gallu i lunio polisïau cynllunio lleol addas sy'n cynorthwyo i reoli a rheoleiddio'r nifer o Dai Amlfeddiannaeth mewn ardaloedd penodol sydd 'dan bwysau'.
> 4.21 O fewn polisi TAI 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn: Isrannu eiddo presennol i fflatiau hunangynhaliol a Thai Amlfeddiannaeth cyfyngir ar nifer yr achosion lle rhoddir caniatâd am Dai Amlfeddiannaeth. Yn wardiau Deiniol a Menai (Bangor), ni ddylai'r gyfran o Dai Amlfeddiannaeth fod yn fwy na 25% a 10% yng ngweddill wardiau ardal y Cynllun.
>
> (Cyngor Gwynedd, 2020c, tt. 16-17)

Nid yw'n anodd gweld sut y gellid cymhwyso'r egwyddor hon er mwyn rheoli twf afreolus llety gwyliau tymor byr mewn cymunedau penodol. Wedi'r cwbl, mae'r sefyllfa o ran tai amlfeddiannaeth a llety gwyliau tymor byr yn hynod debyg mewn dwy ffordd hollbwysig sy'n gwneud ymateb polisi tebyg yn synhwyrol.

Yn gyntaf, yn y ddau achos, mae modd gweithredu polisïau mewn cymunedau ar sail tystiolaeth wrthrychol o bwysau yn y stoc dai. Fel y dadleuwyd trwy'r adroddiad hwn, problem *leol* yn bennaf oll yw'r broblem ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr, a thrwy bolisi tebyg i'r un ynghylch tai amlfeddiannaeth sy'n targedu wardiau penodol gellid targedu wardiau penodol yn achos llety gwyliau tymor byr.

Yn ail, mae'r ddau achos yn ymwneud â newid eiddo fel arfer o fod yn breswylfa i fod yn fenter fasnachol, wrth rentu neu osod eiddo am ffi. Golyga hyn nad yw ystyriaethau yn ymwneud â hawliau dynol, sef yr hawl i gartref, yn codi yn yr un modd ag y byddai rhai'n dadlau (yn gyfeiliornus ym marn yr adroddiad hwn) sy'n digwydd pan drafodir ail gartrefi ar gyfer defnydd personol.

Ymddengys felly yn gwbl resymol y dylai Llywodraeth Cymru ystyried o ddifrif alwad Cyngor Gwynedd dros sefydlu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr, ac mae'n anodd gweld rheswm dros beidio â gwneud hyn.

Argymhelliad 10 – creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr

Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Gorchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygiadau) (Cymru) 2016 drwy gyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr.

A ddylai caniatâd cynllunio fod yn ofynnol cyn trosi tŷ annedd yn ail gartref mewn rhai cymunedau?

Er gwaethaf diddordeb gwneuthurwyr polisi mewn creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr, nid dyna fu ar frig y drafodaeth bolisi ymysg gwleidyddion lleol ac ymgyrchwyr iaith yn ystod 2020 ond yn hytrach awgrym tipyn yn fwy radical sef gwneud trosi tŷ annedd yn ail gartref ar gyfer defnydd personol yn amodol mewn rhai cymunedau ar ganiatâd cynllunio.

Nid yw galwadau o'r fath yn beth newydd o gwbl. Mor bell yn ôl â 1982, gwnaeth Dafydd Wigley, Aelod Seneddol Caernarfon ar y pryd, gyflwyno Bil Aelod Preifat i Dŷ'r Cyffredin a fyddai wedi gwneud trosi tŷ annedd yn ail gartref yn 'newid defnydd' a fyddai felly'n ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio. Roedd y Bil yn aflwyddiannus er i'r Wrthblaid addo y byddai Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth ei hun yn y dyfodol (Shucksmith, 1983, t. 189).

Dylid nodi fod y polisi wedi cael ei ystyried o ddifrif gan awdurdodau cynllunio yn Lloegr hefyd. Yn wir, aeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Exmoor mor bell â chynnwys yn nrafft cynllun lleol ar ddechrau'r 2000au bolisi cyffelyb ar gyfer cymdogaethau lle roedd mwy na 10% o'r stoc dai'n ail gartrefi. Ond cafodd y polisi ei ddileu yn 2003 'after comments from [the] Government Office for the South West' (Centre for Housing Policy, 2005, tt. 68-9).

Mae'r canfyddiad y ceid twf sydyn ym mhryniant ail gartrefi yng Nghymru yn 2020 o ganlyniad i Covid-19 wedi rhoi'r mater hwn ar ganol y llwyfan bolisi unwaith eto. O ganol 2020 ymlaen, bu awdurdodau cynllunio ac ymgyrchwyr iaith yn galw am ddefnyddio deddfwriaeth gynllunio er mwyn rhwystro trosi tai annedd yn ail gartrefi mewn ardaloedd lle mae canran yr ail gartrefi yn y stoc dai yn croesi trothwy benodol.

Mewn cyfarfod llawn o Gyngor Gwynedd, 1 Hydref 2020, mabwysiadwyd y penderfyniad isod:

> Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol cael hawl cynllunio i drosi tŷ annedd yn dŷ haf/uned wyliau, ac yn addasu'r fframwaith bolisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal.
>
> (Cyngor Gwynedd, 2020ch, [t. 9])

Mabwysiadwyd y cynnig yn unfrydol. Cafodd gefnogaeth drawsbleidiol, a theg fyddai casglu ei fod yn adlewyrchu barn cymdeithas sifil yng Ngwynedd.

Penderfynodd Parc Cenedlaethol Eryri fabwysiadu polisi tebyg ym mis Rhagfyr 2020 yn sgil cynnig gan Gadeirydd yr Awdurdod, y Cynghorydd Elwyn Edwards, y dylai fod yn ofynnol 'cael hawl cynllunio cyn y medr[ir] troi tŷ yn ail gartref neu yn hafdy.' (Parc Cenedlaethol Eryri, 2020a, t. 18; Parc Cenedlaethol Eryri, 2020b)

Hefyd, ym mis Ionawr 2021, penderfynodd cyfarfod llawn o Gyngor Sir Caerfyrddin gymeradwyo cynnig tebyg, sef 'newid deddfau cynllunio i sicrhau bod rhaid cael caniatâd cynllunio cyn newid eiddo annedd cynradd i ail gartrefi/llety gwyliau' (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2021).

Ond pa mor ymarferol yw cyflwyno newid polisi o'r fath?

Diffinio ail gartrefi

Mae'n ddadlennol efallai nad yw'r polisi ymhlith argymhellion yr adroddiad a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd, *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau*. Yn rhannol mae hyn am fod yr adroddiad hwnnw'n ystyried ffrwyno twf llety gwyliau yn fwy o flaenoriaeth na rheoli ail gartrefi. Ond mae'n amlwg hefyd fod a wnelo'r penderfyniad ag anymarferoldeb neu anhawster tybiedig, sef fod tai annedd, boed yn brif breswylfeydd neu ail gartrefi, yn perthyn i'r un categori cynllunio, sef C3 (Cyngor Gwynedd, 2020c, tt. 8-9, 61).

> Mae newid deddfwriaeth cynllunio er mwyn rheoli defnydd 'gwirioneddol' ail gartref, h.y. cartref a ddefnyddir gan yr un teulu/aelwyd yn rheolaidd ar gyfer eu rhesymau/mwynhad personol eu hunain yn anodd, gan y byddai'r defnydd, heb amheuaeth, yn syrthio o fewn dosbarth defnydd C3 yn ei ffurf bresennol.
>
> (Cyngor Gwynedd, 2020c, t. 61)

Yn 2002, roedd yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, *Adroddiad Ymchwil ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Gynllunio Defnydd Tir*, hefyd wedi tynnu sylw at broblem dybiedig ynghylch diffyg ymarferoldeb:

> Ni argymhellir unrhyw newid i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd. Wrth geisio cael caniatâd cynllunio i newid defnydd cartref cyntaf yn ail gartref fe gwyd problemau sylfaenol o safbwynt diffinio ac felly ei weithredu. Am y rhesymau hyn, ystyriwn nad yw hyn yn ddewis ymarferol.
>
> (Tewdwr-Jones *et al.*, 2002, t. 64)

Mae a wnelo'r pryder hwn â sut i ddiffinio ail gartref. Mae'n ddiddorol mai rhan o'r gofid yn 2002 oedd tybiaeth y byddai datblygiadau technegol newydd yn caniatáu mwy o weithio o'r cartref gan gymylu'r ffin rhwng prif ac ail gartref. Yn amlwg, mae hyn yn berthnasol i'r sefyllfa sydd ohoni heddiw hefyd:

> 7.54 Mae un broblem sy'n gysylltiedig â Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn ymwneud ag elfennau o ddaearyddiaeth. O ganlyniad i ddatblygiadau technolegol, mae'n bosib bellach i ddefnyddio bwthyn bychan mewn lleoliad anghysbell fel man preswylio at ddiben gwaith (drwy'r rhyngrwyd, fideogynadledda, ayyb.) ac felly mae'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gynradd a'r hyn sy'n eilaidd yn pylu; mae'n llawer anoddach gwahaniaethu heddiw rhwng beth sy'n gwneud eiddo yn gartref cyntaf ac yn ail gartref nag ydoedd 20 mlynedd yn ôl. Dyma graidd y broblem i'r system gynllunio: sut y gellir diffinio cartref cyntaf ac ail gartref yn nhermau cynllunio statudol. Ni fwriedir yn arferol i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd wahaniaethu rhwng gwahanol ddeiliaid, dim ond caniatáu newid defnydd, oni bai i'r ffaith fod y Gorchymyn yn bodoli. Gellid gwneud eithriad o'r rhai sydd arnynt angen dau dŷ ar gyfer eu gwaith, y rhai sy'n ymddeol, neu'r rhai sy'n byw mewn llety clwm. Gallai fod ail ddefnydd yn dderbyniol yn y cyswllt hwn (hyd yn oed mewn tirlun sensitif) ond buasai'n rhaid iddynt oll gael eu diffinio a'u dehongli'n gyfreithiol fanwl. Fodd bynnag, mae'n dal yn ffaith y buasai anhawster yn codi wrth geisio diffinio eu defnydd ac felly anodd fuasai gweithredu'r gyfraith. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn ystyried bod hwn yn ddewis ymarferol.
>
> (Tewdwr-Jones *et al.*, 2002, tt. 64-5)

Nid yw'r ddadl hon mor gryf ag y bu yn 2002, fodd bynnag. Mae cynghorau tref a phlwyf yn Lloegr sydd wedi 'gwahardd' ail gartrefi mewn tai newydd wedi llwyddo i wahaniaethu rhwng prif breswylfa ac ail gartref. Pam felly na fyddai hyn yn bosib yng Nghymru?

Hawliau dynol

Fodd bynnag, ceir gwrthwynebiadau eraill hefyd. Mae hawl perchennog eiddo i ddefnyddio ei eiddo yn ôl ei ddymuniad ei hun yn mynd i wraidd hawliau eiddo preifat. Dyma'r rheswm waelodol pam nad oedd y llywodraeth Geidwadol yn barod i weithredu yn y 1980au pan oedd ail gartrefi yng Nghymru yn uchel ar yr agenda wleidyddol.

Pe bai ymgais yng Nghymru i 'gyfyngu' ar unrhyw newid defnydd o dŷ annedd i ail gartref, mae'n anochel bron hefyd y byddai rhyw fath o her gyfreithiol ar sail Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Fel y gwelwyd eisoes, bu i Gyngor Tref St Ives oresgyn her o'r fath yn achos y 'cyfyngiad' a osodwyd ganddo ar ddefnyddio tai newydd fel ail gartrefi. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu o angenrheidrwydd y byddai polisi a oedd yn ceisio cyflawni nod o'r fath oddi mewn i'r stoc dai bresennol yn goresgyn her gyfreithiol. Ond ni ddylid cymryd ychwaith y byddai'n anorfod fod llys yn penderfynu y byddai'r polisi'n anghyfreithlon. Mae'n werth nodi eto peth o resymeg Meistr Ustus Hickinbottom yn ei ddyfarniad ar achos Cyngor Tref St Ives:

> iv) Where article 8 rights are in play in a planning control context, they are a material consideration. Any interference in such rights caused by the planning control decision has to be balanced with and against all other material considerations, the issue of justification for interference with article 8 rights effectively being dealt with by way of such a fair balance analysis.
> v) That balancing exercise is one of planning judgment. Consequently, it may be amenable to more than one, perfectly lawful, result; and this court will only interfere if the decision is outside the legitimate range. Indeed, in any challenge, the court will give deference to the decision of the primary decision-maker, because he has been assigned the decision-making task by Parliament, and he will usually have particular expertise and experience in the relevant area. Such a decision-maker will be accorded a substantial margin of discretion. The deference and margin of discretion will be the greater if he has particular expertise and experience in the relevant area, and/or if he is acting in a quasi-judicial capacity (such as an inspector).
> vi) If the decision-maker has clearly engaged with the article 8 rights in play, and considered them with care, it is unlikely that the court will interfere with

> his conclusion. Article 8 rights are, of course, important: but it is not to be assumed that, in an area of social policy such as planning, they will often outweigh the importance of having coherent control over town and country planning, important not only in the public interest but also to protect the rights and freedoms of other individuals. In practice, cases in which this court will interfere are likely to be few.
>
> (Royal Court of Justice, 2016, [tt. 21-22])

Mae'n amlwg y byddai her gyfreithiol i bolisi a allai rwystro troi tŷ annedd yn ail gartref yn gryfach yn achos tŷ annedd a brynwyd pan nad oedd cyfyngiad o'r fath yn hysbys na'r her yn St Ives. Fodd bynnag, nid yw hynny'n annilysu o angenrheidrwydd pwyntiau eraill a wnaed yn nyfarniad St Ives sy'n trafod y cyd-destun polisi yn ehangach mewn mater cymhleth.

Nid cyfreithiwr yw awdur yr adroddiad hwn, ac hwyrach yn wir y dylai Llywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ar y mater. Ond ni ymddengys y gellid cymryd yn ganiataol y byddai cyflwyno cyfyngiad i'r stoc dai bresennol yn cael ei drechu gan her gyfreithiol. Mae'n rhaid cofio hefyd fod y polisi o dan sylw yn un y mae consensws o'i blaid ar draws cymdeithas sifil mewn rhannau o Gymru. Mae hyn yn cryfhau'r ddadl dros fwrw ymlaen hyd yn oed pe bai barn gyfreithiol yn amwys.

'Dwy farchnad dai'

Fodd bynnag, nid hawliau dynol unigolion yn unig y byddai'n rhaid eu hystyried yn hyn oll ond yr effaith gymdeithasol hefyd, ac yn benodol, efallai, canlyniad anfwriadol posib polisi o'r fath.

Mewn cymunedau lle byddai trosi tŷ annedd yn ail gartref yn fater cynllunio, gellid dychmygu y byddai dwy farchnad dai yn datblygu. Ar y naill law, ceid marchnad yn cynnwys tai na fyddai modd eu gwerthu fel ail gartrefi, a marchnad yn cynnwys tai y gellid eu gwerthu fel ail gartrefi. Mae posibiliad cryf y byddai gwerth eiddo yn y 'farchnad' gyntaf yn gostwng, a gwerth eiddo yn yr ail 'farchnad' yn codi.

Byddai i hyn oblygiadau o safbwynt y boblogaeth leol. Byddai un yn llesol sef fod tai yn dod yn fwy fforddiadwy. Ond ceid anfantais bosib hefyd, sef y gallai tai annedd *presennol* golli tipyn lew o'u gwerth tra byddai ail gartrefi *presennol* yn codi yn eu gwerth. Ni fyddai effaith hyn ar wahanol grwpiau yn un gyfartal. Pobl leol at ei gilydd fyddai perchnogion eiddo yn y farchnad gyntaf, a phobl o'r tu allan i'r gymuned yn berchnogion eiddo yn yr ail farchnad. Byddai baich ariannol y polisi newydd yn disgyn mewn modd anghymesur ar berchnogion o blith y boblogaeth leol.

Mae'n werth nodi i'r gwrthwynebiad hwn gael ei godi gan yr hen Swyddfa Gymreig wrth ymateb i gais gan yr hen Gyngor Gwynedd i fynd i'r afael â'r broblem ail gartrefi yn y dull hwn yn 1981:

> Those with existing use right as second homes would benefit, especially as supply contracted in relation to demand, while those without would find their prospects of disposal (and the price) affected, since they would no longer be selling in a normal housing market. The Government can see no way of introducing controls which would not lead to significant distortion in the market and to what would be seen as injustice between individual owners.
>
> (Shucksmith, 1983, t. 189)

Nid yw o fewn gallu'r adroddiad hwn i fesur effaith hirdymor datblygu 'dwy farchnad dai' mewn rhannau o Gymru. Mae'n berffaith bosib oherwydd patrymau mewnfudo y byddai modd i rai prynwyr o'r tu allan i'r gymuned gystadlu â phrynwyr ail gartrefi am dai sy'n ail gartrefi ar hyn o bryd, ac mae'n bosib hefyd y gallai pobl leol fwy cefnog wneud hynny hefyd. Cyn belled â bod cyfraith gynllunio yn caniatáu trosi ail gartrefi yn dai annedd drachefn, hwyrach y byddai modd i rai ail gartrefi fynd yn breswylfeydd parhaol unwaith eto. Ond mae hefyd yn bosib wrth gwrs y byddai'n rhaid derbyn fod creu dwy farchnad dai yn golygu fod nifer helaeth o ail gartrefi yn rhai o'r rhannau mwyaf deniadol o Gymru wedi mynd o ddwylo leol am byth.

Nid peth anghyffredin yw cael 'dwy farchnad dai' mewn gwledydd neu diriogaethau lle ceir galw mawr am dai. Ceir trefn o'r fath yn Ynysoedd y Sianel, er enghraifft. Yn Jersey, ceir trigolion 'awdurdodedig' ('entitled') sy'n ennill y statws hwn am iddynt gael eu geni yn Jersey, symud i Jersey cyn troi'n 16 oed, symud i Jersey cyn eu bod yn 20 oed os yw rhiant wedi'i eni yn Jersey, neu os nad ydynt o Jersey ond wedi byw ar yr ynys am fwy na deng mlynedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n rhaid bodloni amodau pellach ynglŷn â hyd preswylio ar yr ynys hefyd. Dim ond trigolion 'awdurdodedig' sy'n cael prynu pob math o eiddo ar yr ynys. (Government of Jersey, 2019 a 2021)

Yn Guernsey, ceir hefyd ddwy farchnad dai, sef 'marchnad leol' a 'marchnad agored'. Cedwir tai'r 'farchnad leol' ar gyfer rhai sydd â'r hawl i breswylio yn Guernsey, neu sy'n meddu ar ganiatâd i weithio yno, neu sy'n perthyn yn agos i deulu preswylydd yn y farchnad leol. Mae gweddill y tai'n perthyn i'r farchnad agored.

Meddai Llywodraeth Guernsey:

> Open Market is one of two ‘Housing Markets’. Anyone can live in the Open Market but in most cases time spent living in the Open Market is not time counted towards a Local Market. Typically, properties within the Open Market are considerably more expensive.
>
> (Government of Guernsey, 2021)

Mae’n anodd fodd bynnag cymharu’r sefyllfa mewn rhannau o Gymru â’r sefyllfa yn Ynysoedd y Sianel. Nid yw Jersey a Guernsey yn rhan o’r Deyrnas Unedig, ac mae ganddynt drefn o ran dinasyddiaeth sy’n cyfyngu ar hawl pobl o’r Deyrnas Unedig i fyw, gweithio a phrynu eiddo yno. Nid oes modd cyfyngu ar hawl pobl o rannau eraill o’r Deyrnas Unedig i fyw neu weithio yng Nghymru, nag ychwaith i brynu eiddo (ac eithrio mewn rhai amgylchiadau neilltuol pan geir amodau meddiannaeth leol sy’n effeithio hefyd wrth gwrs ar drigolion Cymreig nad ydynt yn lleol).

Felly annoeth fyddai ceisio modelu marchnad dai yng Nghymru ar farchnad dai yn Ynysoedd y Sianel mewn modd uniongyrchol. Serch hynny, dylid nodi fod bodolaeth ‘dwy farchnad dai’ yno wedi esgor ar ddau ganlyniad: yn gyntaf, gallu pobl leol i fyw yn eu cymunedau; yn ail, cynnydd aruthrol yng ngwerth eiddo nad yw’n rhan o’r farchnad leol.

Mae’n bosib iawn y ceid sefyllfa debyg yn datblygu mewn cymunedau yng Nghymru pe ceid ‘dwy farchnad dai’. Os felly, byddai’n rhaid i’r awdurdod cynllunio lleol orfod pwyso a mesur y budd cyhoeddus a ddôi o rwystro colli rhagor o’r stoc dai i’r farchnad ail gartrefi ochr-yn-ochr â’r tebygolrwydd na fyddai byth modd adfeddiannu i berchnogaeth leol lawer o eiddo sy’n ail gartrefi.

Y perygl o symud y broblem ail gartrefi i gymunedau cyfagos

Gwrthwynebiad sylweddol arall yw na fyddai gosod cyfyngiad ar ail gartrefi oddi mewn i’r stoc dai bresennol mewn rhai cymunedau yn gwaredu’r broblem ond yn hytrach yn ei symud.

Pe na bai modd prynu ail gartref mewn cymuned arfordirol ddeniadol er enghraifft, mae’n bosib y byddai rhai yn ystyried prynu ail gartrefi un ai mewn tref gyfagos neu yn y berfeddwlad. O safbwynt cynllunio ieithyddol, y broblem gyda hyn yw fod cymunedau arfordirol yn aml wedi’u Seisnigo eisoes tra bod trefi a phentrefi yn y berfeddwlad yn aml yn Gymraeg iawn o hyd. Gallai symud y broblem ail gartrefi wneud niwed ieithyddol i lawer o gymunedau Cymraeg hyfyw nad yw ail gartrefi yn effeithio fawr ddim arnynt ar hyn o bryd, sef yr union gymunedau y mae’n bwysig gwarchod eu cymeriad ieithyddol.

Y ddadl o blaid cyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi

Mae'n amlwg felly y ceir nifer o ddadleuon grymus yn erbyn cyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi, ac eto gellid gwneud achos o'i blaid.

Y brif ddadl dros gyflwyno'r polisi yw fod Brexit a Covid-19 yn debyg o esgor ar dwf afreolus pellach mewn ail gartrefi. Mae angen gweithredu er mwyn rhwystro colli mwy a mwy o'r stoc dai mewn cymunedau bregus. Er y byddai'r camau trethiannol a argymhellir yn yr adroddiad hwn yn debyg o leihau'r galw am ail gartrefi yn y stoc dai bresennol, ni fyddent yn ei ddileu. Dim ond newid yn y drefn gynllunio fedr wneud hynny.

Yr iaith Gymraeg sydd wedi gwneud yr holl fater mor sensitif mewn rhannau o Gymru. Dyma sy'n esbonio, yn rhannol o leiaf, y pegynnu barn rhwng arbenigwyr rhyngwladol ar y naill law, a barn cymdeithas sifil mewn rhannau o Gymru ar y llaw arall, mewn trafodaethau ynghylch cyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi.

Mewn llenyddiaeth academaidd ryngwladol ynghylch ail gartrefi, ni synnir amdanynt fel 'problem' yn aml ond yn hytrach fel ffenomen sy'n cynrychioli math o symudoledd y mae modd theoreiddio yn ei gylch (gweler, er enghraifft, Hall a Müller, 2004; Rye, 2011; Halfacree, 2012).

Er y ceir trafodaeth ar Gymru yn y llenyddiaeth academaidd, anaml y cyfeirir at effaith ail gartrefi ar yr iaith leiafrifol fel mater o bwys terfynol; yn bennaf oll, mae'n siŵr, am y rheswm empeiraidd nad oes iaith leiafrifol yn bodoli yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn Ewrop ac America lle mae ail gartrefi yn gyffredin. Ond mae bodolaeth iaith leiafrifol yn golygu fod yn rhaid ystyried presenoldeb ail gartrefi yng Nghymru mewn golau gwahanol. O safbwynt Cymreig, mae peth o leiaf o'r farn academaidd am ail gartrefi yn ddiffygiol am nad yw'n rhoi sylw priodol i gynllunio ieithyddol.

Mwy cyfarwydd â'r cyd-destun Cymraeg yw cynllunwyr gwlad a thref proffesiynol mewn awdurdodau cynllunio lleol. Maent wedi creu polisïau blaengar, megis 'Tai Marchnad Lleol' Gwynedd a Môn, ac maent yn ymrwymedig i fuddiannau'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob cynllunydd gwlad a thref lunio polisi oddi mewn i gyd-destun cyfarwyddyd cenedlaethol a ddeilliodd yn y lle cyntaf o draddodiad Prydeinig lle mae cynllunio ieithyddol yn gwbl ymylol.

O graffu ar y llenyddiaeth academaidd, mae'n amlwg nad oes fawr o frwdfrydedd dros greu dosbarth defnydd ychwanegol ar gyfer ail gartrefi. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd o ddarllen y llenyddiaeth nad oes resymau theoretig cadarn dros dybio na fyddai hyn yn llesol, yn enwedig pan ystyrir y mater o safbwynt cynllunio ieithyddol. Annelwig ar adegau yw'r sôn am 'anawsterau' ac 'anymarferoldeb', a chan na chyflwynwyd y polisi erioed, nid oes tystiolaeth empeiraidd i ddangos pa mor anymarferol mewn gwirionedd fyddai'r anymarferoldebau tybiedig hyn.

Fel y nodwyd eisoes, nid yw'r diffyg brwdfrydedd hwn yn adlewyrchu ewyllys y gymdeithas Gymraeg sy'n frwd dros weld y polisi hwn yn cael ei gyflwyno.

Hwyrach y dylem feddwl am y farn am ail gartrefi yn y Gymru Gymraeg fel math o wybodaeth 'ddemocrataidd'. Mae wedi'i gwreiddio mewn trafodaethau cyhoeddus. Mae'n ddemocrataidd gan mai hi yw barn sefydlog y gymuned ('settled will', mae'n siŵr, fyddai'r cyfieithiad Saesneg gorau): mae'r farn mewn rhai ardaloedd Cymraeg am ail gartrefi wedi bod yn hysbys ers hanner canrif a mwy. Yn ail, mae'n farn a gynhyrchir yn aml gan y drefn ddemocrataidd ei hun (gan gynghorau sir, er enghraifft).

Nid oes barn gytûn ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Ceir ar y naill law farn academaidd sy'n rhybuddio rhag cymryd y cam hwn. Ar y llaw arall, ceir barn ddemocrataidd sydd wedi'i gwreiddio mewn cymdeithas sifil sy'n dadlau y dylid cyflwyno'r polisi pe bai modd goresgyn problemau ymarferol. Yn hollbwysig, y safbwynt hwn yw barn y gymuned fel y'i mynegir gan ei chynrychiolwyr etholedig.

Ym maes polisi cyhoeddus, nid yw'r farn ddemocrataidd yn amherthnasol. Pan gaiff barn resymol ei mynegi'n ddemocrataidd dros gyfnod hir o amser, mae'n rhaid ei chymryd o ddifrif.

Mae'n anodd dod i gasgliad terfynol yn y mater hwn. Anghyfrifol fyddai gwneud newidiadau i'r gyfraith a fyddai'n creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi trwy Gymru gyfan heb ofal priodol. Mae gormod o bryderon dilys yn cael eu codi yn y llenyddiaeth gan arbenigwyr ac ymarferwyr mewn cynllunio gwlad a thref i fedru gwneud hynny.

Fodd bynnag, gan nad yw'r dadleuon ynghylch 'anymarferoldeb' yn llwyr argyhoeddi bob tro, ac o ystyried barn cynghorau ac awdurdodau cynllunio perthnasol y dylid cyflwyno'r polisi, a chan nodi hefyd effaith debygol Covid-19 a Brexit ar y farchnad dai, anghyfrifol hefyd fyddai ymwrthod â'r opsiwn hwn yn llwyr.

Yn yr erthygl, 'Second Homes: a new Framework for Policy', awgrymir cyfaddawd posib:

> Trialling of experimental options
>
> Much attention has focused in recent years – and in the more distant past – on the way the planning system could limit second home ownership, possibly by differentiating between second and first homes. Generally, planners and policy makers are wary of such a move, believing it to be unwarranted and/or inoperable. However, in some areas where there is a demonstrable concentration of second homes (e.g. in some National Parks), there is often greater support for a more radical approach. Such was the case in some of the case studies explored during this research, where it was believed that

> neither greater tax burdens nor the provision of additional affordable housing would address the social and economic difficulties created by second homes. Although the general view emerging from the research was that radical or punitive approaches may be unwarranted, and that effective use of existing planning tools (to control occupancy or deliver affordable housing) is the best way of managing second home and general migration pressure, there may be a case for exploring other options in specific localities. Case study work in the Scilly Isles suggested that this is one location that may provide a useful test bed for more radical approaches as the Isles are exempt from standard legislative instruments (primary legislation must refer separately to the Isles of Scilly) and any experiments in the islands would not set a precedent for the rest of England.
>
> (Gallent *et al.*, 2004, t. 299)

Pe bai modd goresgyn unrhyw rwystrau o'r math a nodir yn y cyfeiriad at Ynysoedd Scilly (sef trefniadau ymarferol ynglŷn â sut i gynnal treial yng nghyd-destun cyfarwyddyd a pholisi cenedlaethol), hwyrach yn wir y dylid cynnal 'treial' o'r fath yng Nghymru. Gellid ei gynnal mewn cymuned neu glwstwr o gymunedau yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi. Dylid monitro'r treial o ran mynediad pobl leol i'r farchnad dai, newidiadau o ran nifer yr ail gartrefi yn y gymdogaeth mewn cyferbyniad ag ardaloedd eraill lle na weithredir yr arbrawf, yr effaith ar y Gymraeg yn lleol, a'r effaith o ran prisiau tai. Byddai angen cynnal y treial mewn cymuned lle ceir cefnogaeth eang i'r polisi newydd, ac hwyrach yn wir y gellid cynnal refferendwm yn lleol er mwyn profi'r gefnogaeth.

Gwynedd fyddai'r lle priodol i gynnal treial fwy na thebyg. Mae'n siŵr hefyd mai'r lleoliad gorau yng Ngwynedd fyddai cymuned, neu glwstwr o gymunedau, arfordirol lle mae ffactorau megis pryder am y Gymraeg, prisiau tai uchel, dwysedd o ran ail gartefi, a chefnogaeth leol i gamau radical yn cyd-fodoli.

Argymhelliad 11 – treialu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi

